



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 6 Chwefror 2008  
Wednesday, 6 February 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |     |   |
|-----|---|
| 3   | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth<br>Questions to the Minister for Heritage   |
| 21  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol<br>Questions to the Minister for Social Justice and Local Government   |
| 35  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai<br>Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing  |
| 51  | Datganiad am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru<br>Statement on the National Botanical Garden  |
| 68  | Atal Rheolau Sefydlog<br>Suspension of Standing Orders  |
| 69  | Newid i Aelodaeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth<br>Change to the Membership of the Subordinate Legislation Committee  |
| 69  | Dadl yn Ceisio Caniatâd y Cynulliad i Gyflwyno Mesur Arfaethedig Aelod ynghylch<br>Asesu Effaith Gwerthu Caeau Chwarae<br>A Debate Seeking the Assembly's leave to Introduce a Member Proposed Measure on<br>Impact Assessments for the Selling Off of Playing Fields |
| 89  | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Targedau NHS<br>Welsh Conservatives Debate: NHS Targets  |
| 109 | Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Etholiadau'r Cynulliad ac Etholiadau<br>Awdurdodau Lleol yng Nghymru<br>Welsh Liberal Democrats Debate: Local Authority and Assembly Elections in Wales  |
| 128 | Amser Pleidleisio<br>Voting Time  |
| 131 | Dadl Fer: Y Proffesiwn Hynaf yn y Byd—Amser i Ailfeddwl?<br>Short Debate: The Oldest Profession in the World—Time for a Rethink?  |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage**

### **Y Diwydiant Twristiaeth**

**C1 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer y diwydiant twristiaeth? OAQ(3)0218(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Mae strategaeth twristiaeth Cymru, 'Cyflawni Ein Potensial', yn nodi'r heriau strategol sy'n wynebu'r diwydiant. Yn ddiweddar, cyhoeddais y byddai Croeso Cymru a Chynghrair Twristiaeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ar gynllun gweithredu a dadansoddi diwydiant, gan ddefnyddio ein strategaeth dwristiaeth bresennol, er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

**Gareth Jones:** Mae cytundeb 'Cymru'n Un' yn cydnabod pa mor hanfodol yw twristiaeth i ffyniant economaidd ein gwlad, ac yn sicr i fy etholaeth i, Aberconwy. Dro yn ôl, dywedodd Bwrdd Croeso Cymru, wrth gyfeirio at ddatblygiad enfawr Gwynt y Môr, ei fod yn gwrthwynebu sefydlu tyrbeiniau gwynt masnachol mewn ardaloedd dynodedig primaidd, megis parciau cenedlaethol, arfordiroedd treftadaeth, a safleoedd sydd yn weledig o safleoedd o'r fath. Gan fod y bwrdd yn awr yn rhan o beirianwaith Llywodraeth Cymru o dan yr enw Croeso Cymru, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau fod y safbwynt hwn yn parhau?

**Rhodri Glyn Thomas:** Cafodd Bwrdd Croeso Cymru ei ddiddymu yn 2006, ac erbyn hyn, fel y bu ichi ddweud, Gareth, mae Croeso Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn cefnogi ei hamcanion a'i pholisïau. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi egluro ein bod, fel Llywodraeth, yn ymateb i her newid yn yr hinsawdd, ac y byddwn yn datblygu strategaethau a pholisïau i ymateb i hynny.

### **Tourism Industry**

**Q1 Gareth Jones:** Will the Minister make a statement on his plans for the tourism industry? OAQ(3)0218(HER)

**The Minister for Heritage (Rhodri Glyn Thomas):** Wales's tourism strategy, 'Achieving Our Potential', identifies the strategic challenges facing the industry. I recently announced that Visit Wales and the Wales Tourism Alliance would work together on an industry analysis and action plan, drawing on our existing tourism strategy, to ensure that the industry makes best use of resources.

**Gareth Jones:** 'One Wales' recognises how vital tourism is for the economic prosperity of our country; that is certainly true of my constituency, Aberconwy. Some time ago, the Wales Tourist Board, in referring to the huge Gwynt y Môr development, said that it was opposed to the siting of commercial wind turbines in primary designated areas, such as national parks, heritage coastlines, and areas that were visible from such sites. As the board is now part of the mechanism of the Government of Wales, under the name Visit Wales, will the Minister confirm that that view persists?

**Rhodri Glyn Thomas:** The Wales Tourist Board was disbanded in 2006, and, as you said, Gareth, Visit Wales is now a part of the Government of Wales, supporting our aims and policies. The Minister for Environment, Sustainability and Housing has explained that we, as a Government, are responding to the challenge of climate change, and that we will develop strategies and policies to that end. Renewable energy is a crucial part of our

Mae ynni adnewyddadwy yn rhan hanfodol o'n hymateb i'r sefyllfa honno, a dywedodd y Prif Weinidog ddoe mai newid yn yr hinsawdd yw'r her fwyaf sy'n wynebu Cymru a'r byd ar hyn o bryd. Felly, fel pob gwlad a Llywodraeth arall, mae'n rhaid inni wneud ein rhan i ymateb i'r her honno.

Mae'n strategaeth dwristiaeth hefyd yn ceisio ymateb i'r her honno. Yr ydym wedi sefydlu fforwm cynaliadwyedd ac yr ydym wrthi'n paratoi strategaeth cynaliadwyedd i'r perwyl hwnnw. Yr ydym am weld twristiaeth yng Nghymru yn ymateb i'r angen am gynaliadwyedd yn y dyfodol.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** An important part of the tourism industry in Wales is the arts—many people come to Wales to sample the arts. In statements on funding, the Arts Council of Wales has talked of cutbacks that have threatened many arts organisations in my area, such as Celf o Gwmpas in Llandrindod Wells, Dawns Dyfed and the continued uncertainty for Wyeside Arts Centre. I appreciate the arm's-length principle, and I would not wish the Minister to say anything that was specific, but in view of the general uncertainty and the fact that we are, as the Minister said, suffering from reductions in lottery funding that often helps arts organisations, what will he seek to do, through the Arts Council of Wales, to help these organisations that have experienced cuts in their funding?

**Rhodri Glyn Thomas:** As you said, Nick, I have re-established the arm's-length principle in terms of funding for the arts in Wales, and I hope that every Member would support that: it is a basic principle in terms of the way in which Government interacts with the arts. Some companies—you said 'many', but I would say 'some'; I think that it is six companies—have had their funding cut back or have, in some cases, had their funding taken away. The arts council is in discussion with those companies, and all of those companies have a right to appeal. I cannot comment on individual cases, but I understand that, in some cases, the money has been ring-fenced, but that the arts council has decided on a different client for that

response to this situation, and the First Minister said yesterday that climate change is the biggest challenge currently facing Wales and the world. Therefore, as with every other country and Government, we must do our bit to respond to that challenge.

Our tourism strategy is also trying to respond to that challenge. We have established a sustainability forum and we are currently preparing a sustainability strategy for that purpose. We want to see tourism in Wales responding to the need for sustainability in the future.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Mae'r celfyddydau yn rhan bwysig o'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru—daw llawer o bobl i Gymru i gael blas ar y celfyddydau. Mewn datganiadau am gyllid, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi sôn am doriadau sydd wedi bygwth nifer o fudiadau celfyddydol yn fy ardal, megis Celf o Gwmpas yn Llandrindod, Dawns Dyfed a'r ansicrwydd parhaus ynghylch Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy. Gwerthfawrogaf yr egwyddor hyd-braich, ac ni ddymunwn i'r Gweinidog ddweud unrhyw beth penodol, ond, ac ystyried yr ansicrwydd cyffredinol a'r ffaith ein bod, fel y dywedodd y Gweinidog, yn dioddef toriadau yn yr arian loteri sy'n aml yn cynorthwyo mudiadau celfyddydol, beth y bydd yn ceisio ei wneud, drwy gyfrwng Cyngor Celfyddydau Cymru, i gynorthwyo'r mudiadau hyn sydd wedi wynebu toriadau yn eu cyllid?

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel y dywedasoeh Nick, yr wyf wedi ailsefydlu'r egwyddor hyd-braich parthed cyllid ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, a gobeithiaf y byddai pob Aelod yn cefnogi hynny: mae'n egwyddor sylfaenol o ran y modd y bydd y Llywodraeth yn rhyngweithio â'r celfyddydau. Mae rhai cwmnïau—'nifer' a ddywedasoeh chi ond 'rhai' yn fy marn i; chwe chwmmni yr wyf yn credu—wedi cael toriadau yn eu cyllid, neu, mewn rhai achosion, wedi colli eu cyllid yn gyfan gwbl. Mae'r cyngor celfyddydau yn cynnal trafodaethau gyda'r cwmnïau hynny, ac mae gan yr holl gwmnïau hynny hawl i apelio. Ni allaf gynnig sylwadau am achosion unigol, ond deallaf fod yr arian, mewn rhai achosion,

funding. In some cases, offers have been made to clients and they are currently looking at them.

Speaking generally about the funding of the arts in Wales, I believe that the present situation is unsustainable; much of it is based on historic payments, and that can lead to a situation of stagnation. What we really need is for the arts in Wales to be truly creative, and we must look at the funding within that context.

**Joyce Watson:** Minister, recent research has shown that more than 80 per cent of visitors to Mid and West Wales are looking to find good quality local food on the menu in pubs and restaurants in the area. With this in mind, will you outline what you are doing to develop strong links between tourism businesses and local producers?

**Rhodri Glyn Thomas:** That is a very important point. My immediate predecessor, Carwyn Jones, who held the arts portfolio for some weeks following the election, said on many occasions that he found it strange that restaurants in Wales offer a full English breakfast. That is a very basic element in that we should be promoting Welsh produce. My colleague, the Minister for Rural Affairs, is responsible for that, and has a clear strategy in that regard.

In terms of tourism, the Tourism Training Forum for Wales is piloting an AAA chef qualification in Wales, to which 90 employers have already signed up. We will continue to promote Welsh produce in terms of the experience that people have when they visit Wales.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 2, OAQ(3)0170(HER), i'w ateb yn ysgrifenedig.

### Participation in Sport

**Q3 Helen Mary Jones:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly

wedi'i neilltuo, ond bod y cyngor celfyddydau wedi penderfynu ar gleient gwahanol ar gyfer y cyllid hwnnw. Mewn rhai achosion, gwnaethpwyd cynigion i gleientiaid, ac maent yn eu hystyried ar hyn o bryd.

Gan siarad yn gyffredinol ynghylch ariannu'r celfyddydau yng Nghymru, credaf fod y sefyllfa bresennol yn anghynaliadwy; mae'n seiliedig i raddau helaeth ar daliadau hanesyddol, a gall hynny arwain at ddiffyg cynnydd. Mae gwir angen i'r celfyddydau yng Nghymru fod yn greadigol, a bydd yn rhaid inni edrych ar y cyllid yn y cyd-destun hwnnw.

**Joyce Watson:** Weinidog, dengys ymchwil ddiweddar fod dros 80 y cant o'r rhai sy'n ymweld â Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn gobeithio gweld bwyd lleol o safon ar fwydlen tafarndai a bwytai'r ardal. A chofio hyn, a roddwch frasamcan o'r hyn a wnewch i ddatblygu cysylltiadau cadarn rhwng busnesau twristiaeth a chynhyrchwyr lleol?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Dywedwyd droeon gan Carwyn Jones, fy rhagflaenydd, a fu'n gyfrifol am y portffolio celfyddydau am rai wythnosau ar ôl yr etholiad, ei bod yn rhyfedd bod bwytai yng Nghymru yn cynnig brecwast Seisnig llawn. Mae honno'n elfen hynod sylfaenol o ran y dylem hyrwyddo cynnyrch o Gymru. Fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog dros Faterion Gweledig, sy'n gyfrifol am hynny, ac mae ganddi strategaeth glir ynghylch hynny.

O ran twristiaeth, mae Fforwm Hyfforddi Twristiaeth yng Nghymru yn treialu cymhwyster cogydd AAA yng Nghymru, ac mae 90 o gyflogwyr eisoes wedi cofrestru ar ei gyfer. Byddwn yn parhau i hyrwyddo cynnyrch o Gymru o ran y profiad a gaiff pobl wrth ymweld â Chymru.

**The Presiding Officer:** Question 2, OAQ(3)0170(HER), has been transferred for written answer.

### Cyfranogiad mewn Chwaraeon

**C3 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad

Government investment in promoting participation in sport? OAQ(3)0190(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae 'Cymru'n Un' yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Hefyd, bydd cynllun gweithredu Dringo'n Uwch, a gaiff ei gyhoeddi eleni, yn diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau penodol fel ein bod yn hyrwyddo'r cyfleoedd i bobl o bob oedran a grwpiau cymdeithasol.

**Helen Mary Jones:** As you are aware, much of the investment provided by previous Assembly Governments has gone to provide facilitators and individuals who coach and encourage participation. Much of that has been successful, but there is a serious issue regarding the level of facilities available for young people, particularly once they have been encouraged to participate in sport. I met last week with a group of young people from Kidwelly in my constituency who have been encouraged, through Assembly investment, to take part in soccer, rugby and various other sports, but who are finding that the facilities available to them are inadequate; clubs are beginning to lose members as a result. They have asked me to ask whether you would be prepared to meet them to discuss their concerns, with a view to perhaps looking at the weighting that is given to facilities and individuals who facilitate participation in terms of Assembly investment.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is good to hear about the activities in Kidwelly, which has a very fine tradition in terms of soccer, but more so in terms of rugby. The next Lions manager, Gerald Davies, comes from that area. You make an important point about facilities. The Sports Council for Wales is currently undertaking a strategic review of sport, leisure and recreation facilities across Wales. I will be considering the report of that review and looking at what the Government of Wales can do to carry out the pledges in 'One Wales' on ensuring access for young people to sporting activities, which includes facilities. I am more than happy to come to Kidwelly at some point to talk to the young people there about what they are doing and

Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon? OAQ(3)0190(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** 'One Wales' confirms the Welsh Assembly Government's commitment to improving the levels of participation in sport and physical activity. In addition, the Climbing Higher action plan, to be published this year, will clearly define specific roles and responsibilities so that we maximise opportunities for people of all ages and social groups.

**Helen Mary Jones:** Fel y gwyddoch, mae llawer o'r buddsoddiad a roddwyd gan Lywodraethau blaenorol y Cynulliad wedi mynd at ddarparu hwyluswyr ac unigolion sy'n hyfforddi ac yn hybu cyfranogiad. Bu hynny'n llwyddiant i raddau helaeth, ond ceir problem ddifrifol ynghylch lefel y cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc, yn arbennig ar ôl iddynt gael eu hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon. Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â grŵp o bobl ifanc o Gydweli yn fy etholaeth, sydd wedi cael eu hannog, yn sgil buddsoddiad y Cynulliad, i gymryd rhan mewn pêl-droed, rygbi ac amrywiol chwaraeon eraill, ond gwelant fod y cyfleusterau sydd ar gael iddynt yn annigonol; mae clybiau yn dechrau colli aelodau o ganlyniad. Maent wedi gofyn imi holi a fyddech yn fodlon eu cyfarfod er mwyn trafod eu pryderon, gyda'r bwriad efallai i edrych ar y pwyslais a roddir ar gyfleusterau ac unigolion sy'n hwyluso cyfranogiad o ran buddsoddiad y Cynulliad.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n dda clywed am y gweithgareddau yng Nghydweli, sydd â thraddodiad da o ran pêl-droed, ond â gwell traddodiad mewn rygbi. O'r ardal honno y daw rheolwr nesaf y Llewod, Gerald Davies. Yr ydych yn gwneud pwynt pwysig ynghylch cyfleusterau. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd yn ymgymryd ag adolygiad strategol o gyfleusterau chwaraeon a hamdden ledled Cymru. Byddaf yn ystyried adroddiad yr adolygiad hwnnw, ac yn edrych ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i wireddu addewidion 'Cymru'n Un' ynghylch sicrhau mynediad i bobl ifanc at weithgareddau chwaraeon, gan gynnwys cyfleusterau. Yr wyf yn dra pharod i ddod i Gydweli ar ryw adeg i siarad â'r bobl ifanc

what we can do to help them.

yno am yr hyn a wnânt a'r hyn y gallwn ei wneud i'w cynorthwyo.

**Peter Black:** You will understand the importance of investing in young people and their participation in sport. In light of that, can you explain why Wales will not be sending an athletics team to the Commonwealth Youth Games in India this year? The media, in particular, will notice this omission, as we are the only home country that will not be sending a team to that event.

**Peter Black:** Byddwch yn deall pwysigrwydd buddsoddi mewn pobl ifanc a'u cyfranogiad mewn chwaraeon. Yng ngoleuni hynny, a allwch egluro pam na fydd Cymru'n anfon tîm athletau i Gemau Ieuencid y Gymanwlad yn India eleni? Bydd y cyfryngau yn arbennig yn sylwi ar hyn, gan mai ni yw'r unig un o wledydd y Deyrnas Unedig na fydd yn anfon tîm i'r digwyddiad.

**Rhodri Glyn Thomas:** We are all saddened by that decision, but it was taken by the appropriate governing body. As is the case with the arts, I do not intend to encroach on the responsibilities of governing bodies. However, I would be happy to facilitate a meeting between you and the athletics governing body so that you can fully air your views directly.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r penderfyniad hwnnw yn siomi pob un ohonom, ond y corff llywodraethu priodol a'i gwnaeth. Fel sy'n wir am y celfyddydau, ni fwriadaf amharu â chyfrifoldebau cyrff llywodraethu. Fodd bynnag, byddwn yn fodlon hwyluso cyfarfod rhyngoch chi â'r corff llywodraethu athletau er mwyn ichi allu lleisio eich barn yn uniongyrchol.

**Peter Black:** Thank you for that offer, Minister, but I would have hoped that the Assembly Government would be particularly keen on seeing Wales represented at every level and would be encouraging young people to participate in sport. As you are aware of this lack of participation, have you already taken this issue up with the board of Welsh Athletics?

**Peter Black:** Diolch am y cynnig hwnnw Weinidog, ond byddwn wedi gobeithio y byddai Llywodraeth y Cynullai yn awyddus iawn i weld Cymru'n cael ei chynrychioli ar bob lefel ac yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon. Gan y gwyddoch am y diffyg cyfranogiad hwn, a ydych eisoes wedi codi'r mater gyda bwrdd Athletau Cymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** I have had those discussions and I was aware of this issue. However, it is ultimately a decision for the governing body, based on a number of issues. It is sad and I have already said that I am as saddened as you are that we will not be represented. The Welsh Assembly Government certainly wants to see Wales represented at all levels, and in all sporting activities; however, unfortunately, that is not always possible.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf wedi cael y trafodaethau hynny, ac yr oeddwn yn ymwybodol o'r mater hwn. Fodd bynnag, penderfyniad y corff llywodraethu ydyw yn y pen draw, yn seiliedig ar nifer o faterion. Mae'n siom, ac yr wyf eisoes wedi dweud fy mod mor siomedig â chi na chawn ein cynrychioli. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bendant am weld Cymru'n cael ei chynrychioli ar bob lefel, ac ym mhob gweithgaredd chwaraeon; fodd bynnag, yn anffodus, nid yw hynny bob amser yn bosibl.

12.40 p.m.

**Sandy Mewies:** Minister, swimming is promoted as one of the best exercises and it is also fun. In my constituency, Flintshire County Council runs Swim Flintshire, using Welsh Assembly Government funding to train talented swimmers. Will you join me in

**Sandy Mewies:** Weinidog, hyrwyddir nofio fel un o'r ymarferion gorau, ac mae hefyd yn hwyl. Yn fy etholaeth, mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal Nofio Sir y Fflint, gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyfforddi nofwyr dawnus. A

congratulating those involved in this project, which has resulted in some swimmers becoming Welsh record holders and has also enhanced participation in the sport?

**Rhodri Glyn Thomas:** I would certainly join you in congratulating that success in Flintshire. I think that we are sometimes preoccupied with problems and things that are not happening, and we do not always give the credit that is due to some of the good practices throughout Wales. I am glad of this opportunity to congratulate the successful swimmers in Flintshire and also those people who give of their time to coach them.

**Jeff Cuthbert:** Minister, will you join me in welcoming the inaugural Under-20 Rugby World Cup that will take place across Wales this June, with games being played in the regional style in Swansea, Cardiff, Newport and Wrexham? It will be a sporting spectacle for the whole of Wales and it will undoubtedly help to promote participation in rugby. Will you outline what the Welsh Assembly Government is doing to support, and raise awareness of, this sporting event, which will be the first of its kind?

**Rhodri Glyn Thomas:** I was glad to be at the launch of the Under-20 Rugby World Cup at the Liberty Stadium in Swansea last year. I will take this opportunity to say what a wonderful stadium that is: we always refer to the Millennium Stadium, but there is an equally good stadium in Swansea. As you said, Jeff, it is important that there will be regional matches of the world under-20 championships in Wrexham, in north Wales, which is something to congratulate the Welsh Rugby Union on. We contributed £250,000 to the bid for the Under-20 Rugby World Cup and we will be co-operating fully with the Welsh Rugby Union in preparing for it. It is part of our major events strategy, and I hope that it will attract large crowds throughout Wales. These are the stars of the future and they will obviously be playing representative rugby for Wales in the near future and building on last Saturday's wonderful success in the six nations' championship.

ymunwch â mi i longyfarch y rheini sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, sydd wedi golygu bod rhai o'r nofwyr yn dal y record yng Nghymru, ac sydd hefyd wedi annog mwy o bobl i nofio?

**Rhodri Glyn Thomas:** Byddwn yn bendant yn ymuno â chi i longyfarch y llwyddiant hwnnw yn sir y Fflint. Credaf ein bod weithiau'n canolbwyntio gormod ar broblemau a phethau nad ydynt yn digwydd, ac nid ydym bob amser yn rhoi'r clod haeddiannol i rai o'r arferion da ym mhob cwr o Gymru. Yr wyf yn falch o gael y cyfle hwn i longyfarch y nofwyr llwyddiannus yn sir y Fflint a'r bobl hynny sy'n rhoi o'u hamser i'w hyfforddi.

**Jeff Cuthbert:** Weinidog, a ymunwch â mi i groesawu pencampwriaeth gyntaf Cwpan Rygbi'r Byd dan 20, a gynhelir ym mhob cwr o Gymru ym mis Mehefin, gyda gemau'n cael eu chwarae yn ardaloedd y rhanbarthau sef Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam? Bydd yn wledd o chwaraeon i Gymru gyfan, a bydd yn sicr yn gymorth i hyrwyddo cyfranogiad mewn rygbi. A roddwch frasamcan o'r hyn a wna Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad, a fydd y cyntaf o'i fath?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oeddwn yn falch o fod yn bresennol yn lansiad Cwpan Rygbi'r Byd dan 20 yn Stadiwm Liberty yn Abertawe'r llynedd. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddweud cystal stadiwm ydyw; byddwn bob amser yn cyfeirio at Stadiwm y Mileniwm, ond ceir stadiwm llawn cystal yn Abertawe. Fel y dywedasoeh Jeff, mae'n bwysig y cynhelir gemau rhanbarthol ym mhencampwriaethau dan 20 y byd yn Wrecsam yn y gogledd, a dylid llongyfarch Undeb Rygbi Cymru am hynny. Rhoddasom £250,000 at y cais am Gwpan Rygbi'r Byd dan 20, a byddwn yn cydweithredu'n llwyr ag Undeb Rygbi Cymru wrth baratoi amdani. Mae'n rhan o'n strategaeth digwyddiadau o bwys, a gobeithiaf y bydd yn denu tyrfaoedd mawr ledled Cymru. Dyma sêr y dyfodol, a byddant yn amlwg yn chwarae rygbi cynrychiadol dros Gymru yn y dyfodol agos, ac yn adeiladu ar y llwyddiant campus ddydd Sadwrn diwethaf ym mhencampwriaeth y chwe gwlad.



**Alun Davies:** Wrth drafod gallu pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon o bob math, rhaid nodi bod angen adnoddau i wneud hynny. Un o'r pethau sy'n fy mhoeni i a sawl person yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yw'r ffaith nad oes digon o fynediad at adnoddau i gymryd rhan mewn chwaraeon. A ydych yn gweithio gyda llywodraeth leol ar hyn ac a ydych chi, fel Llywodraeth, yn fodlon buddsoddi mewn adnoddau newydd i sicrhau y bydd pobl yn y dyfodol yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon, fel y gallent ennill medalau yn Llundain?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn sicr, mae adnoddau yn rhan eithriadol o bwysig o'r ddarpariaeth. Fel y dywedais, wrth ymateb i Helen Mary Jones, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru. Byddwn yn gwneud cyhoeddiad, wedi i'r adolygiad hwnnw gael ei gwblhau, ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r her honno ac yn sicrhau ein bod yn galluogi ieuenctid drwy Gymru i gael mynediad at yr adnoddau hanfodol hynny.

### 2012 London Olympics

**Q4 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on offsetting the cost to Welsh heritage of the 2012 London Olympics? OAQ(3)0197(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** I have endeavoured to persuade the UK Government to minimise the impact on the lottery good causes. No additional funding will be used, apart from what has already been announced. The priority now is to maximise the positive impact that the games can offer Wales, not least across my heritage portfolio.

**Jenny Randerson:** I note that your letter to James Purnell, last month, is reported to put the cost to Wales of the loss of lottery funding at £70 million. Recent days have seen an announcement that lottery sales are falling. Would you agree that the loss could be even greater?

Will you agree to release the answer from James Purnell to the Assembly to make it a

**Alun Davies:** In discussing people's ability to participate in sports, of all kinds, we must note that resources are needed. One issue that is of concern to me and a number of other people in Mid and West Wales is inadequate access to resources to participate in sport. Are you co-operating with local government on this issue, and are you, as a Government, willing to invest in new resources to ensure that people are able to participate in sports in the future, so that they can win medals in London?

**Rhodri Glyn Thomas:** Resources are, indeed, an exceptionally important part of the provision. As I said in response to Helen Mary Jones, the Sports Council for Wales is undertaking a review at present of the resources that are available in Wales. Following completion of that review, we will make an announcement about how the Government of Wales will respond to the challenge and ensure that young people throughout Wales are able to access those vital resources.

### Gemau Olympaidd Llundain 2012

**C4 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wneud iawn am gost Gemau Olympaidd Llundain i dreftadaeth Cymru? OAQ(3)0197(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf wedi ceisio perswadio Llywodraeth y DU i leihau'r effaith ar achosion da'r loteri gymaint â phosibl. Ni ddefnyddir dim cyllid ychwanegol, ar wahân i'r hyn a gyhoeddwyd eisoes. Y flaenoriaeth yn awr yw manteisio i'r eithaf ar y dylanwad cadarnhaol y gall y gemau ei gynnig i Gymru, ac nid lleiaf fy mhortffolio treftadaeth.

**Jenny Randerson:** Sylwaf y dywedir i'ch llythyr at James Purnell, fis diwethaf, ddatgan y bydd Cymru'n colli gwerth £70 miliwn o arian loteri. Yn y dyddiau diweddar, cyhoeddwyd fod gwerthiannau'r loteri yn gostwng. A gytunech y gellid colli hyd yn oed mwy?

A gytunwch i ryddhau ateb James Purnell i'r Cynulliad i'w wneud yn ddogfen gyhoeddus

public document so that we can see how your submissions to the Minister have been received? If it is the case, as I suspect, that you are whistling in the wind on this because the UK Government seems so dead-set on this particular course, do you have a back-up plan to ensure that the excellent work that has been done in Wales to develop the arts and sporting activity since the advent of devolution in 1999 is not lost?

**Rhodri Glyn Thomas:** With regard to the response to my letter, on 15 January, James Purnell announced in Parliament that no further funding would be taken from the lottery. That is a positive response to my letter. I also met him in December and discussed this matter with him personally. The effect on lottery funding is obviously something that we should be concerned about. The £70 million does not represent losses only to sport and culture, but comes from lottery funding across the board. It is a substantial sum of money. However, there will be benefits as a result of the Olympics coming to London, and the Assembly Government has welcomed their coming to London. I can tell you this afternoon that we have had discussions with the Australian team, which will be participating in the Paralympics following the Olympics. It has written to the First Minister to say that it is looking positively to set up a training camp in Wales. This is a large team of 300 people, and it could mean an investment of £2 million in the Welsh economy. We are actively trying to attract more Paralympic teams and teams participating in the Olympics to use Wales as a training centre. We have excellent facilities, and not only those in Cardiff and Newport—which are the facilities that the Australian team are looking at—but in Swansea and north Wales.

**Nerys Evans:** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi datgan y bydd yn colli £7.3 miliwn oherwydd y Gemau Olympaidd. Ar ôl ystyried ymrwymadau cyfalaf, dim ond £8 miliwn fydd ar ôl rhwng nawr a 2012. A gytunwch fod y toriadau i'r buddsoddiad mewn chwaraeon ar lawr gwlad yn eironig

ac er mwyn inni allu gweld sut y croesawyd eich cyflwyniadau i'r Gweinidog? Os ydych, fel yr wyf yn amau, yn chwibanu yn y gwynt ynghylch hyn gan fod Llywodraeth y DU yn ymddangos mor benderfynol o ddilyn y trywydd penodol hwn, a oes gennych gynllun wrth gefn i sicrhau na chollir y gwaith rhagorol a wnaethpwyd yng Nghymru i ddatblygu'r celfyddydau a gweithgareddau'n ymwneud â chwaraeon er datganoli yn 1999?

**Rhodri Glyn Thomas:** O ran yr ymateb i'm llythyr, ar 15 Ionawr, cyhoeddodd James Purnell yn y Senedd na fyddai mwy o arian yn cael ei gymryd gan y loteri. Mae hwnnw'n ymateb cadarnhaol i'm llythyr. Cyfarfûm ag ef ym mis Rhagfyr hefyd i drafod y mater gydag ef yn bersonol. Mae'r effaith ar arian loteri yn amlwg yn rhywbeth y dylem bryderu yn ei gylch. Nid cynrychioli'r colledion ym maes chwaraeon a diwylliant yn unig y mae'r ffigur £70 miliwn, ond colledion arian loteri yn gyffredinol. Mae'n swm sylweddol o arian. Fodd bynnag, bydd cynnal y Gemau Olympaidd yn Llundain yn dod â manteision yn ei sgil, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi croesawu'r ffaith eu bod yn dod i Lundain. Gallaf ddweud wrthyh y prynhawn yma inni gynnal trafodaethau gyda thîm Awstralia, a fydd yn cymryd rhan yn y Gemau Paralympaidd a gynhelir ar ôl y Gemau Olympaidd. Mae wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog yn dweud ei fod yn edrych yn gadarnhaol ar sefydlu gwrsyll hyfforddi yng Nghymru. Mae hwn yn dîm mawr o 300 o bobl, a gallai olygu buddsoddiad o £2 filiwn yn economi Cymru. Yr ydym wrthi'n frwd yn ceisio denu mwy o dimau Paralympaidd a thimau a fydd yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd i ddefnyddio Cymru fel canolfan hyfforddi. Mae gennym gyfleusterau rhagorol, ac nid dim ond y rheini yng Nghaerdydd ac yng Nghasnewydd—sef y cyfleusterau y mae tîm Awstralia yn edrych arnynt—ond cyfleusterau yn Abertawe ac yn y gogledd.

**Nerys Evans:** The Sports Council for Wales has stated that £7.3 million will be lost as a result of the Olympic Games. Having taken capital considerations into account, only £8 million will be left between now and 2012. Would you not agree that the cuts in investment in grass-roots sports are ironic

wrth feddwl mai'r cyfiawnhad dros y toriadau yw y bydd y Gemau Olympaidd yn hyrwyddo chwaraeon yng Nghymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel y dywedais wrth Jenny Randerson, mae'r tîm Paralympaidd o Awstralia yn bwriadu dod i Gymru. Yr ydym wrthi'n cwblhau'r trefniant hwnnw, ond mae'r rhagolygon yn edrych yn ffafriol iawn, ac mae hynny'n newyddion da iawn. Bydd y ffaith fod y Gemau Olympaidd yn digwydd ar garreg drws Cymru yn Llundain yn ysbyrdoliaeth i nifer o athletwyr ifanc yng Nghymru, a daw cyfleoedd o hynny. Bwriad y cyngor chwaraeon yw defnyddio'r cyfnod cyn y Gemau Olympaidd i werthuso yn ofalus iawn y grantiau a dalwyd gan ddefnyddio arian y loteri er mwyn iddo wybod, ar ôl 2012, pa mor fuddiol oedd y buddsoddiad, ac adeiladu ar hynny. Ar ôl 2012, bydd arian y loteri yn dychwelyd i'r lefel flaenorol, cyhyd â bod gwerthiant tocynnau yn parhau. Felly, bydd grantiau loteri sylweddol ar gael ar ôl 2012 a byddwn yn annog pob mudiad i baratoi ar gyfer y cyfnod hwnnw.

**Paul Davies:** Yr wyf finnau hefyd yn cefnogi'r Gemau Olympaidd oherwydd dylent ddod ag arian ychwanegol i economi Cymru. Fodd bynnag, yr wyf yn poeni'n fawr am y ffaith y gallai prosiectau a sefydliadau chwaraeon a chelfyddydol golli cymaint o arian. Felly, a allwch chi ddweud wrthym ba gynlluniau penodol eraill sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau nad yw Cymru'n dioddef, yn enwedig ym myd y celfyddydau?

12.50 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Y peth pwysig yn y cyfnod hwn yw ein bod yn gwneud y gorau o'r sefyllfa. Yr wyf yn rhannu eich consyrn, Paul, ynglŷn â'r ffaith ein bod yn colli arian. Mae'r cyngor chwaraeon wedi dangos yr hyn y mae'n rhaid ei wneud, sef manteisio ar y cyfnod hwn i werthuso'n ofalus sut yr ydym wedi gwario'r arian yn y gorffennol, fel y byddwn mewn sefyllfa, o 2012 ymlaen, i wneud y defnydd gorau o arian y loteri yn y dyfodol. Weithiau, pan fo llawer o arian ar gael, fel sydd gan y loteri, nid oes gan y cyrff hyn mo'r amser i edrych yn fanwl ar y ffordd y defnyddir yr arian. Mae meini prawf a

given the fact that the justification for them is that sports in Wales will be promoted as a result of the Olympics?

**Rhodri Glyn Thomas:** As I said to Jenny Randerson, the Australian Paralympic team intend to use Wales as a base. The arrangements are being finalised, but things look promising, and that can only be good news for Wales. The fact that the Olympic Games will be held on Wales's doorstep in London will provide inspiration to many young Welsh athletes and present them with new opportunities. The sports council intends to use the period before the games to evaluate carefully the lottery grants awarded previously so that it knows, after 2012, how beneficial the investment has been and so that it can build on it. Lottery funding will return to the previous level after 2012, provided that ticket sales continue. Therefore, significant lottery grants will be available after 2012 and we will be encouraging every organisation to prepare for that period.

**Paul Davies:** I too support the Olympic Games because they should bring additional money to the Welsh economy. However, I am gravely concerned that sports and arts projects and organisations could lose a vast amount of money. Therefore, can you tell us what specific plans your Government has to ensure that Wales does not lose out, particularly in the arts world?

**Rhodri Glyn Thomas:** The important point as regards this period is the need to try to make the best of the situation. I share your concern, Paul, about the fact that we are losing money. The sports council has demonstrated that what we need to do is take advantage of this period to evaluate carefully how we have spent the money in the past, so that we will be in a position, from 2012 onwards, to make the best use of future lottery funding. Sometimes, when there is a great deal of money available, as is the case with the lottery, organisations do not have the time to look in detail at the way in which

ddefnyddir i ddyfarnu'r symiau arian, ond dyma gyfle inni edrych yn ofalus ar hynny. Bydd yn rhaid inni wneud y gorau o bob ceiniog sydd ar gael ar gyfer y celfyddydau a chwaraeon yn y cyfnod hwn.

Yr ydym oll yn cofio'r cyfnod pan nad oedd unrhyw gymhorthdal oddi wrth y loteri ar gael i'r celfyddydau a chwaraeon yng Nghymru. Nid oes cymaint â hynny o amser wedi mynd ers y cyfnod hwnnw, ac yr oedd yn rhaid i gyrff fodoli bryd hynny heb y gefnogaeth honno. Felly, er bod arian yn cael ei golli, mae llawer mwy arian yn y gyllideb a mwy o gyfleoedd i'w ddefnyddio.

**Paul Davies:** Mae'n bwysig bod Cymru'n cymryd mantais o'r gemau yn 2012, yn economaidd ac er mwyn hybu chwaraeon yn gyffredinol, yn enwedig ymhlith yr ifanc. Mae'n bwysig ein bod yn denu cymaint â phosibl o'r cystadlaethau i Gymru. Mae'n debyg bod rhai cystadlaethau pêl-droed yn dod i Gaerdydd. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r pwyllgor Olympaidd, a pha gynlluniau eraill sydd gan y Llywodraeth i sicrhau bod rhagor o gystadlaethau yn dod i Gymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae gennyf uned yn fy adran sy'n edrych yn benodol ar y Gemau Olympaidd, a'r uned honno sydd wedi bod yn gyfrifol am y trafodaethau gyda thîm Awstralia ar gyfer y Gemau Paralympaidd. Mae'r uned hefyd yn trafod gyda nifer o wledydd eraill er mwyn eu denu i Gymru, gan ystyried sut y gallwn wneud y budd gorau o'r gemau. Mae sôn hefyd y bydd rhai o'r gweithgareddau ar ddŵr yn dod i Gaerdydd ac i arfordir gogledd-orllewin Cymru. Felly, mae cyfleoedd gwirioneddol. Yr wyf yn barod i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol o unrhyw beth a ddaw i Gymru drwy drosglwyddo'r wybodaeth honno.

### Sport and Recreational Facilities

**Q5 Jenny Randerson:** Will the Minister outline what he is doing to ensure that sport and recreational facilities are available in all Welsh communities? OAQ(3)0205(HER)

grants are used. Specific criteria are used to award grants, and we now have an opportunity to examine those criteria carefully. We will have to make the best use of every penny available for the arts and sports in Wales during this period.

We all remember a time when lottery grants for the arts and sports in Wales were not available. That was not so long ago, and organisations had to exist without the support at that time. Therefore, although money will be lost, far more money has been injected in the budget, and we have more opportunities to use that funding.

**Paul Davies:** It is vital that Wales takes advantage of the 2012 games, in the economic sense and in order to promote sports more generally, particularly among young people. It is important that we attract as many of the competitions as possible to Wales. It seems that some aspects of the football tournament will come to Cardiff. What discussions has the Minister had with the Olympic committee, and what other plans does the Government have to ensure that more competitions come to Wales?

**Rhodri Glyn Thomas:** A unit within my department has been established to work on the Olympic Games, and it is that unit that has been responsible for negotiations with the Australian Paralympic team. The unit is also in negotiation with a number of other countries in an attempt to attract them to Wales. Therefore, we are certainly considering how to achieve the greatest possible benefit from the games. There is some talk of water-sport events being held in Cardiff and on the north-west coast. We are faced with real opportunities. I am more than happy to ensure that information is provided to Assembly Members so that they are aware of anything that might come to Wales.

### Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden

**C5 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae'n ei wneud i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar gael ym mhob cymuned yng Nghymru? OAQ(3)0205(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** ‘One Wales’ confirms the Welsh Assembly Government’s commitment to improving levels of participation in sport and physical activity. This includes ensuring that we have the right facilities in the right places, particularly where participation rates are lowest, and this often means in areas of social deprivation.

**Jenny Randerson:** As you are undoubtedly aware, the financial settlement for local authorities this year will have put additional strain on councils trying to ensure the provision of adequate recreational facilities. We heard this week that Powys County Council intends to reduce the opening hours of its swimming pools. Many of the facilities that local authorities run are centred on leisure centres built in the 1960s and 1970s, which are now coming to the end of their useful life and need to be replaced. Accepting the fact that the prime responsibility for doing this lies with local authorities, are you preparing a strategic plan to ensure that they are facilitated in that process, and, if you are not already doing so, would you agree to look at the issue?

**Rhodri Glyn Thomas:** As I said in response to earlier questions, the Sports Council for Wales is undertaking a strategic review of sport, leisure and recreation facilities across Wales. Once the review has been completed, I will be looking to discuss it with the sports council and with local authorities. However, you referred to swimming pools, and, by 2007-08, the Government will have invested £12.15 million in the successful free swimming scheme. I take your point, Jenny, because if you do not have the swimming pools, you cannot encourage free swimming. We will be looking at the need to invest in facilities and ensure that they are available to people throughout Wales. That is a basic commitment of the One Wales Government.

**David Lloyd:** O ran yr adnoddau sydd gan lywodraeth leol, a gytunwch y dylid ei gwneud yn anos i gynghorau sir werthu eu meysydd chwarae?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae ‘Cymru’n Un’ yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella’r lefelau cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y cyfleusterau iawn gennym yn y lleoedd iawn, yn arbennig lle mae’r cyfraddau cyfranogi ar eu hisaf, ac mae hyn yn aml yn golygu ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

**Jenny Randerson:** Yr ydych, yn ddiau, yn ymwybodol y bydd y setliad ariannol ar gyfer awdurdodau lleol eleni wedi rhoi straen ychwanegol ar gynghorau wrth iddynt geisio sicrhau bod digon o gyfleusterau hamdden ar gael. Clywsom yr wythnos yma fod Cyngor Sir Powys yn bwriadu cwtdogi oriau agor ei byllau nofio. Mae canolfannau hamdden a adeiladwyd yn y 1960au a’r 1970au yn ganolog i lawer o’r cyfleusterau a gynhelir gan awdurdodau lleol. Maent bellach yn tynnu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol ac mae angen cael rhai newydd yn eu lle. A derbyn y ffaith mai gan awdurdodau lleol y mae’r prif gyfrifoldeb dros wneud hyn, a ydych yn paratoi cynllun strategol i sicrhau y cânt eu hwyluso yn y broses honno, ac, onid ydych yn gwneud hynny’n barod, a gytunech i edrych ar y mater?

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel y dywedais wrth ateb cwestiynau blaenorol, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cyflawni adolygiad strategol o gyfleusterau chwaraeon a hamdden ledled Cymru. Pan fydd yr adolygiad wedi’i gwblhau, bwriadaf ei drafod gyda’r cyngor chwaraeon a chydag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, cyfeiriasoch at byllau nofio ac, erbyn 2007-08, bydd y Llywodraeth wedi buddsoddi £12.15 miliwn yn y cynllun llwyddiannus sy’n galluogi pobl i nofio am ddim. Derbyniaf eich pwynt, Jenny, oherwydd os nad oes gennych byllau nofio, ni allwch hybu nofio am ddim. Byddwn yn edrych ar yr angen i fuddsoddi mewn cyfleusterau ac i sicrhau eu bod ar gael i bobl ym mhob cwr o Gymru. Mae hwnnw’n un o ymrwymadau sylfaenol Llywodraeth Cymru’n Un.

**David Lloyd:** On the issue of local government facilities, would you agree that it should be made more difficult for county councils to sell their playing fields?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn cytuno. Gwn eich bod, Dai, wedi trafod y pwnc gyda Brian Gibbons, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros awdurdodau lleol. Deallaf eich bod wedi dod i ddealltwriaeth a'ch bod yn cydweithio ar y ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mewn egwyddor, yr ydym, fel dywedodd y Gweinidog eisoes, yn gwbl gefnogol i'r hyn yr ydych chi ac eraill wedi bod yn ymgyrchu'n frwd yn ei gylch.

Ar bwynt cysylltiedig, bydd cronfa ar gael wedi cyfnod y Gemau Olympaidd. Yr wyf wedi ysgrifennu at Sebastian Coe gan awgrymu y gellid defnyddio gwaddol ariannol y Gemau Olympaidd i brynu mwy o dir, ac, wrth sicrhau bod y tir hwnnw'n eiddo cyhoeddus, gallwn wneud yn siŵr fod gan bawb, boed yn hen neu'n ifanc, fynediad i feysydd chwarae.

**Alun Cairns:** Sports and recreational facilities in all communities are obviously important in achieving the 'One Wales' target of increasing participation, as is the attraction of certain stars and people being able to see sports stars playing within those communities. We welcome your announcement about discussions with the Australian Paralympic team and acknowledge the welcome that Wales could offer it. However, is it not the case that with regard to the main Olympic Games and attracting the larger nations, we have missed the boat? The other nations have decided where their training camps are going to be, and we are now scrambling around to see what we can get at the last minute, rather than hosting the main teams for the main Olympics.

**Rhodri Glyn Thomas:** You refer to sporting stars, Alun, so may I congratulate you as the only elected Member who took part in the Assembly team's worthy draw with the House of Commons. Your contribution may have been small in stature, but I am sure that it was great in terms of endeavour. [*Laughter.*] With regard to the way in which the Welsh Assembly Government has responded, as I said, we have established a unit that has been working with the Olympic Games' main committee on this. I assure you that we have left no stone unturned, and we

**Rhodri Glyn Thomas:** I agree. I know, Dai, that you have discussed this issue with Brian Gibbons, the Minister with responsibility for local authorities. I understand that you have reached an understanding and that you are working together to establish a way forward. However, in principle, as the Minister has already stated, we are completely supportive of what you and others have been campaigning so hard for.

On a related point, there is a fund that will be available after the Olympic Games. I have written to Sebastian Coe to suggest that the financial legacy of the Olympic Games could be used to buy more land, and, if we ensure that the land is in public ownership, we can ensure that all people, young and old, have access to playing fields.

**Alun Cairns:** Mae cael cyfleusterau chwaraeon a hamdden ym mhob cymuned yn amlwg yn bwysig er mwyn cyrraedd targed 'Cymru'n Un', sef cynyddu cyfranogiad. Yn yr un modd, mae'n bwysig denu sêr penodol a hefyd bod pobl yn gallu gweld sêr y byd chwaraeon yn chwarae yn y cymunedau hynny. Yr ydym yn croesawu eich cyhoeddiad ynghylch y trafodaethau gyda thîm Paralympaidd Awstralia ac yn cydnabod y croeso y gallai Cymru ei gynnig iddo. Fodd bynnag, o ran y prif Gemau Olympaidd a denu'r cenhedloedd mwy, onid ydym wedi colli'n cyfle? Mae'r cenhedloedd eraill wedi penderfynu lle fydd eu gwersylloedd hyfforddi, ac yr ydym ni yn awr, yn hytrach na darparu llety'r prif dimau ar gyfer y prif Gemau Olympaidd, yn sgrialu o gwmpas yn ceisio gweld yr hyn y gallwn ei gael ar y munud olaf.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydych yn cyfeirio at sêr y byd chwaraeon, Alun, felly a gaf eich llongyfarch fel yr unig Aelod etholedig i gymryd rhan yn y gêm gyfartal deilwng rhwng y Cynulliad a Thŷ'r Cyffredin. Efallai mai bychan oedd maint eich cyfraniad, ond yr wyf yn siŵr iddo fod yn fawr o ran ymdrech. [*Chwerthin.*] Ac ystyried y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb, fel y dywedais, yr ydym wedi sefydlu uned a fu'n gweithio ar hyn gyda phrif bwyllgor y Gemau Olympaidd. Fe'ch sicrhaf ein bod wedi edrych o dan bob carreg, ac yr ydym yn

are still actively pursuing discussions with many of the teams who will be taking part in the Olympic Games and the Paralympic Games. I am sure that the facilities in Wales will be used fully in the period leading up to the games in 2012.

### Liverpool's City of Culture Status

**Q6 Janet Ryder:** What assessment has the Minister made of the cultural benefits for Wales from Liverpool's city of culture status? OAQ(3)0222(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae cysylltiadau cryf rhwng Cymru a Lerpwl, ac yr ydym yn awyddus i fanteisio arnynt. Yr ydym yn gweithio gyda nifer o brosiectau sy'n ystyried ffyrdd i hyrwyddo cyfleoedd a fydd yn hybu digwyddiadau treftadaeth a diwylliannol i ymgysylltu â blwyddyn Lerpwl fel prifddinas diwylliant.

**Janet Ryder:** I am sure that you are aware that, a few years ago, when Manchester hosted the Commonwealth Games, north Wales expected to see an increase in tourists, with people perhaps basing themselves there and travelling to Manchester. I think that north Wales was led to believe that it would see several benefits from the Commonwealth Games being based in Manchester. In fact, none came about. We saw very little, if any, rise in the number of tourists. There is a danger that the same could happen with Liverpool's capital of culture status. Wales was used heavily by Liverpool in its bid to become the capital of culture, and it is important that we benefit from being geographically close to Liverpool. Will you assure us that you will monitor this and do everything that you can to work with the tourism industry and cultural networks to ensure that north Wales in particular benefits from Liverpool's status?

**Rhodri Glyn Thomas:** I and many others were disappointed that Cardiff failed in the bid for the title of European Capital of Culture 2008. I should declare an interest because I was a member of the board that made that bid. I would say that I thought that Cardiff's was the best bid. Having said that, Liverpool was successful, and we have had

dal i gynnal trafodaethau gyda llawer o'r timau a fydd yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd. Yr wyf yn siŵr y bydd y cyfleusterau a geir yng Nghymru'n cael eu defnyddio'n llawn yn y cyfnod yn arwain at y gemau yn 2012.

### Statws Dinas Diwylliant Lerpwl

**C6 Janet Ryder:** Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o fanteisio diwylliannol statws dinas diwylliant Lerpwl i Gymru? OAQ(3)0222(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** There are strong links between Wales and Liverpool, and we are keen to take advantage of them. We are working with a number of projects that are considering ways to maximise opportunities that will promote cultural and heritage events to link into Liverpool's year as capital of culture.

**Janet Ryder:** Ychydig flynyddoedd yn ôl, pan oedd Manceinion yn cynnal Gemau'r Gymanwlad, yr wyf yn siŵr ichi fod yn ymwybodol i ogledd Cymru ddisgwyl gweld mwy o dwristiaid, gyda phobl efallai'n aros yn y fan honno ac yn teithio i Fanceinion. Yr wyf yn meddwl yr arweiniwyd y gogledd i gredu y byddai'n gweld amryw o fanteisio wrth i Gemau'r Gymanwlad gael eu cynnal ym Manceinion. Mewn gwirionedd, ni ddaeth dim o hynny. Ychydig iawn o gynnydd, os o gwbl, a welsom yn nifer y twristiaid. Ceir perygl y gallai'r un peth ddigwydd gyda statws Lerpwl fel prifddinas diwylliant. Defnyddiwyd Cymru'n helaeth gan Lerpwl yn ei gais i ddod yn brifddinas diwylliant, ac mae'n bwysig inni elwa o fod yn ddaeryddol agos at Lerpwl. A wnewch ein sicrhau y byddwch yn monitro hyn ac yn gwneud popeth a allwch i weithio gyda'r diwydiant twristiaeth a'r rhwydweithiau diwylliannol i sicrhau bod y gogledd yn arbennig yn elwa o statws Lerpwl?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oeddwn i a llawer o bobl eraill yn siomedig na lwyddodd Caerdydd yn ei chais i ennill teitl Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008. Dylwn ddatgan buddiant oherwydd yr oeddwn yn aelod o'r bwrdd a wnaeth y cais hwnnw. Byddwn i'n dweud mai Caerdydd oedd y cynnig gorau. Wedi dweud hynny, Lerpwl oedd yn

discussions to ensure that north Wales benefits from Liverpool's designation as a capital of culture. I wish to refer to one or two things that will be happening. There is an extensive programme of events through the medium of Welsh, which the Rev D. Ben Rees is organising. There will be a Beatles photographic exhibition in Bodelwyddan Castle. Theatr Clwyd is performing 'The Voyage', which is about emigration from Wales to Liverpool.

llwyddiannus, ac yr ydym wedi cael trafodaethau i sicrhau bod y gogledd yn elwa o'r ffaith bod Lerpwl yn brifddinas diwylliant. Dymunaf gyfeirio at un neu ddau o bethau a fydd yn digwydd. Ceir rhaglen helaeth o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r rheini'n cael eu trefnu gan y Parch D. Ben Rees. Ceir arddangosfa ffotograffig o'r Beatles yng Nghastell Bodelwyddan. Mae Theatr Clwyd yn perfformio 'The Voyage', sy'n ymwneud ag ymfudo o Gymru i Lerpwl.

1.00 p.m.

There are partnership campaigns aimed at linking Liverpool with north-west Wales, and themed links between Liverpool and Gwynedd, which go under the title of the Giants North Wales 08 campaign. Therefore, there are many campaigns.

Ceir ymgyrchoedd partneriaeth gyda'r nod o gysylltu Lerpwl â gogledd orllewin Cymru, a chysylltiadau thematig rhwng Lerpwl a Gwynedd, dan y teitl Cewri Gogledd Cymru 08. Felly, ceir llawer o ymgyrchoedd.

On tourism, you are right. Visit Wales and Tourism Partnership North Wales are looking at two joint marketing campaigns, North Wales 08 and the Giants North Wales 08, which will promote culture and heritage events to link into Liverpool's year as European Capital of Culture.

O ran twristiaeth, yr ydych yn llygad eich lle. Mae Croeso Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru yn edrych ar ddwy ymgyrch farchnata ar y cyd, Gogledd Cymru 08 a Chewri Gogledd Cymru 08, a fydd yn hyrwyddo digwyddiadau treftadaeth a diwylliannol i gysylltu â blwyddyn Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop.

**Darren Millar:** Do you agree with me that an air link from Liverpool to Cardiff would do a great deal to spread the potential benefits of Liverpool's capital-of-culture status across to our capital city? Given that more than 200,000 people from north Wales used Liverpool airport last year, do you accept that the establishment of such a link would also do a great deal to benefit tourism from north to south Wales?

**Darren Millar:** A ydych yn cytuno y byddai cyswllt awyren rhwng Lerpwl a Chaerdydd yn cyfrannu llawer at ledaenu manteision posibl statws Lerpwl fel prifddinas diwylliant draw at ein prifddinas ni? A chofio bod mwy na 200,000 o bobl o'r gogledd wedi defnyddio maes awyr Lerpwl y llynedd, onid ydych yn derbyn y byddai sefydlu cyswllt o'r fath hefyd yn gwneud llawer o les i dwristiaeth o'r gogledd i'r de?

**Rhodri Glyn Thomas:** I take it that you want to set up an Air Darren airline to compete with Air Ieuan, which flies from Anglesey to Cardiff. [*Laughter.*] Regional flight link-ups are important, and the success of the air service between Anglesey and Cardiff should be examined to see whether it could be developed for linking other areas. I know that Anglesey airport is not the most convenient for people in the north east, and so we should certainly look at that idea. In my area, south-west Wales, there should be possibilities for links between Swansea,

**Rhodri Glyn Thomas:** Felly, yr ydych am sefydlu cwmni awyrennau Air Darren i gystadlu yn erbyn Air Ieuan sy'n hedfan o Ynys Môn i Gaerdydd. [*Chwerthin.*] Mae cysylltiadau awyr rhanbarthol yn bwysig, a dylid archwilio llwyddiant y gwasanaeth awyrennau rhwng Ynys Môn a Chaerdydd i weld a ellid ei ddatblygu i gysylltu ag ardaloedd eraill. Gwn nad maes awyr Ynys Môn yw'r lleoliad mwyaf hwylus i bobl sy'n byw yn y gogledd ddwyrain, felly dylem yn sicr edrych ar y syniad hwnnw. Yn fy ardal i, y de orllewin, dylai fod posibiladau ar gyfer



Haverfordwest and other airports.

creu cysylltiadau rhwng Abertawe, Hwlfordd a meysydd awyr eraill.

### Developing Sports Facilities

**Q7 Lesley Griffiths:** Will the Minister make a statement on developing sports facilities in north Wales? OAQ(3)0229(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** The Sports Council for Wales is currently undertaking a review of the sport, leisure and recreation facilities across Wales that are managed by local authorities, to assess their numbers, condition and future needs. Following that review, Wrexham County Borough Council has agreed a way forward with the sports council involving the redevelopment of a local leisure centre.

**Lesley Griffiths:** You recently met, albeit by a poor videolink, the owners of Wrexham Football Club and officers of Wrexham County Borough Council to discuss the redevelopment of the Racecourse ground in Wrexham. That stadium is an extremely important strategic venue in the north, which hosts international rugby and football matches; indeed, tonight it is hosting the Wales versus Norway football friendly. Do you agree that it is vital that we have such a stadium in north Wales? I seek your assurance that you will consider closely the proposals for the redevelopment of the Racecourse ground.

**Rhodri Glyn Thomas:** I appreciate the fact that you arranged the meeting with representatives of Wrexham FC and the local authority. We discussed their proposals to build a new stand at the Racecourse ground, and it is certainly an interesting and exciting project. You will be aware of the fact that other stadiums in Wales, such as the Liberty Stadium to which I referred to earlier and the Millennium Stadium, were built without any direct financial support from the Government of Wales. However, I am monitoring the situation with the Racecourse ground. I am aware that the Football Association of Wales and the Welsh Rugby Union have stated that they would consider holding international matches at Wrexham if the capacity of the

### Datblygu Cyfleusterau Chwaraeon

**C7 Lesley Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu cyfleusterau chwaraeon yng ngogledd Cymru? OAQ(3)0229(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Ar hyn o bryd, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cynnal adolygiad o gyfleusterau chwaraeon, hamdden ac adloniant a reolir gan awdurdodau lleol ledled Cymru, i asesu eu niferoedd, eu cyflwr a'r anghenion i'r dyfodol. Ar ôl cynnal yr adolygiad hwnnw, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cytuno ar ffordd ymlaen gyda'r cyngor chwaraeon sy'n cynnwys ailddatblygu canolfan hamdden leol.

**Lesley Griffiths:** Cyfarfuoch yn ddiweddar, er bod y cyswllt fideo o ansawdd gwael, â pherchnogion Clwb Pêl Droed Wrecsam a swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i drafod ailddatblygu'r Cae Ras yn Wrecsam. Mae honno'n stadiwm strategol hynod bwysig yn y gogledd, sy'n cynnal gemau rygbi a phêl droed rhyngwladol; yn wir, heno mae'r gêm bêl droed gyfeillgar rhwng Cymru a Norwy'n cael ei chynnal yno. A ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol bod gennym stadiwm o'r fath yn y gogledd? Gofynnaf ichi sicrhau y byddwch yn ystyried y cynigion yn fanwl ar gyfer ailddatblygu'r Cae Ras.

**Rhodri Glyn Thomas:** Gwerthfawrogaf y ffaith ichi drefnu'r cyfarfod â chynrychiolwyr Clwb Pêl Droed Wrecsam a'r awdurdod lleol. Cawsom drafodaeth am eu cynigion i adeiladu eisteddle newydd yn y Cae Ras, ac yn sicr, mae'n brosiect diddorol a chyffrous. Byddwch yn ymwybodol o'r ffaith y cafodd stadiymau eraill yng Nghymru, megis Stadiwm Liberty y cyfeiriais ato yn gynharach a Stadiwm y Mileniwm, eu hadeiladu heb gymorth ariannol uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, yr wyf yn monitro'r sefyllfa o ran y Cae Ras. Yr wyf yn ymwybodol bod Cymdeithas Bêl Droed Cymru ac Undeb Rygbi Cymru wedi datgan y byddent yn ystyried cynnal gemau rhyngwladol yn Wrecsam pe gellid cynyddu

ground were increased to 15,000. I welcome that development, as someone who spent a good deal of his formative years at the Racecourse, supporting Wrexham FC, when they were doing a little better than they are at the moment—although they are on a run of four undefeated games, and, these days, that is quite a run for Wrexham. I hope to see the ground developed into a stadium of excellence in north Wales.

**Mark Isherwood:** Thank you for that reply. As you are probably aware, Members of all parties support the proposal for the Racecourse to become a Millennium Stadium of the north, and have had regular discussions with the council accordingly. Your predecessor in the second Assembly told us on many occasions that Assembly Government funding could not be provided for a commercial operation. Is that your understanding, and what discussions have you had with the various strategic partners concerning proposed funding for this?

**Rhodri Glyn Thomas:** I have not made any funding commitment to the Racecourse ground. I have listened with interest to what the representatives of Wrexham FC and the local authority had to say, and I have agreed to a further meeting with the leader of Wrexham local authority, Aled Roberts, to increase the cross-party support for this, and Janet Ryder will also be a part of that. Therefore, we will all be part of the cross-party support for this in Wrexham. It is an exciting potential project, but any consideration of Government investment would have to be carefully thought out. I have asked them to come back with a detailed business plan, but I make it clear that I have made no financial commitment and nor have I encouraged them to think that there would be financial commitment from the Government of Wales in this venture.

**Alun Ffred Jones:** Mae pwll nofio Bangor wedi'i sefydlu ers degawdau. Mae'n boblogaidd ac yn gwasanaethu ardal eang, gan gynnwys de Ynys Môn, ond mae'n dangos ei oed erbyn hyn. A fydddech chi a'r Llywodraeth yn cefnogi cynlluniau i uwchraddio'r pwll neu hyd yn oed i adeiladu pwll o'r newydd maes o law pe bai hynny'n ffitio i mewn i'r strategaeth y buoch yn sôn

maint y stadiwm i ddal 15,000. Croesawaf y datblygiad hwnnw, fel person a dreuliodd gryn amser yn y Cae Ras pan oeddwn yn fachgen, yn cefnogi Clwb Pêl Droed Wrecsam, pan nad oeddent yn gwneud fawr gwell na heddiw—er nad ydynt wedi colli'r un o'u pedair gêm diwethaf, sy'n dipyn o gamp y dyddiau hyn i Wrecsam. Gobeithiaf weld y maes yn cael ei ddatblygu i stadiwm o ragoriaeth yn y gogledd.

**Mark Isherwood:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw. Fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae Aelodau o bob plaid yn cefnogi'r cynnig i sefydlu'r Cae Ras fel Stadiwm y Mileniwm yn y gogledd, ac maent wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r cyngor yn hyn o beth. Dywedodd eich rhagflaenydd yn yr ail Gynulliad wrthym droeon na ellid darparu cyllid Llywodraeth y Cynulliad i fenter fasnachol. Ai dyma yw eich dealltwriaeth, a pha drafodaethau yr ydych wedi'u cynnal gyda'r amrywiol bartneriaid strategol ynghylch y cyllid arfaethedig ar gyfer hyn?

**Rhodri Glyn Thomas:** Nid wyf wedi rhoi unrhyw ymrwymiad o ran cyllid i'r Cae Ras. Yr wyf wedi gwrando'n astud ar ddadleuon cynrychiolwyr Clwb Pêl Droed Wrecsam a'r awdurdod lleol, ac yr wyf wedi cytuno i gael cyfarfod pellach gydag arweinydd awdurdod lleol Wrecsam, Aled Roberts, i gynyddu'r gefnogaeth drawsbleidiol i hyn, a bydd Janet Ryder hefyd yn rhan o hynny. Felly, byddwn oll yn rhan o'r gefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer hyn yn Wrecsam. Mae'n ddarpar brosiect cyffrous, ond byddai'n rhaid ystyried yn ddwys unrhyw fuddsoddiad gan y Llywodraeth. Yr wyf wedi gofyn iddynt ddod yn ôl ataf a chyflwyno cynllun busnes manwl, ond hoffwn ddatgan yn glir nad wyf wedi gwneud unrhyw ymrwymiad ariannol nac wedi'u hannog i feddwl y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad ariannol i'r fenter hon.

**Alun Ffred Jones:** Bangor swimming pool has been established for decades. It is popular and serves a wide area, including the south of Anglesey, but it is starting to show its age. Would you and the Government be supportive of plans to upgrade the pool, or even to build it from scratch in due course, if that were to fit in with the strategy that you were talking about? Bangor is an important

amdani? Mae Bangor yn ganolfan bwysig i'r gogledd orllewin ac yn cyfrannu'n helaeth at y gwaith o hyrwyddo iechyd pobl ifanc yr ardal.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae gan Lywodraeth Cymru'n Un ymrwymiad i sicrhau mynediad i bobl o bob oedran i weithgareddau chwaraeon ledled Cymru. Mae ein cynllun nofio am ddim yn rhan bwysig o'n strategaeth ac mae pyllau nofio felly yn rhan hanfodol o'r ddarpariaeth honno. Fel y dywedais fwy nag unwaith y prynhawn yma, byddaf yn ystyried adroddiad Cyngor Chwaraeon Cymru am y cyfleodd sydd i'w cael, a chawn weld sut y gall Llywodraeth Cymru a'r cyngor chwaraeon gyfrannu at sicrhau bod yr adnoddau hynny ar gael ym mhob rhan o Gymru.

#### Cadw

**Q8 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on Cadw's work in north Wales? OAQ(3)0183(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae Cadw'n ymwneud ag amrywiaeth eang o brosiectau yn y gogledd i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion allweddol, sef gwella'r ffordd y mae'n diogelu'r amgylchedd hanesyddol ac yn ei gadw'n gynaliadwy, a chynyddu lefelau mynediad y cyhoedd at yr amgylchedd hanesyddol, fel eu bod yn gallu cyfranogi ohono a'i werthfawrogi.

**Eleanor Burnham:** Mae gennyf bryder am un cais yn sir Ddinbych, ac yr wyf yn siŵr y gallaf siarad â chi am hyn eto, gan nad wyf yn dymuno enwi'r achos penodol. Fodd bynnag, gwnaed cais i Cadw tua dwy flynedd yn ôl, ac er bod Cyngor Sir Ddinbych yn bwrw ymlaen â'r cais erbyn hyn, ar ôl peth oedi, mae pryder nad yw Cadw yn symud ymlaen ag ef. A fyddai'n bosibl sicrhau bod Cadw yn bwrw ymlaen gyda mwy o egni yn gyffredinol, ac yn cymryd o ddifrif faterion datblygu twristiaeth a busnesau y maent yn gorfod cael caniatâd ganddo, yn enwedig o ran yr hyn a elwir yn *scheduled monument consent* ar gyfer henebion cofrestredig? Mae hwn yn fater dwys ac ni theimlaf fod Cadw yn gwneud ei orau dros bobl sy'n gwneud ceisiadau.

centre for the north west, and it makes an important contribution to the work of promoting the health of young people in the area.

**Rhodri Glyn Thomas:** The One Wales Government certainly has a commitment to ensure access to people of all ages to sporting activities throughout Wales. Our free swimming scheme is an important element of our strategy, and swimming pools therefore form a crucial part of that provision. As I have said more than once this afternoon, I will consider the report of the Sports Council for Wales on the opportunities available, and we shall see how the Government of Wales and the sports council can contribute towards ensuring that those resources are available in all parts of Wales.

#### Cadw

**C8 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Cadw yn y gogledd? OAQ(3)0183(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Cadw is engaged in a wide variety of projects in north Wales to ensure that it meets its key objectives of making improvements in the way it protects and sustainably conserves the historic environment, and of increasing levels of public access to, participation in and appreciation of the historic environment.

**Eleanor Burnham:** I have a concern about one application in Denbighshire, and I am sure that I can talk to you about this again, as I do not wish to name the exact case. However, an application was made to Cadw some two years ago, and, although Denbighshire County Council has taken the application forward by now, after some delay, there is a concern that Cadw is not taking it forward. Would it be possible to ensure that Cadw moves forward with more energy generally, and takes seriously matters relating to tourism and business development that require consent from it, especially in relation to what is called scheduled monument consent for registered monuments? This is a grave matter, and I do not feel as though Cadw is doing its best for applicants.

**Rhodri Glyn Thomas:** Fe'ch sicrhaf fod Cadw yn ceisio cydweithredu ar geisiadau o bob rhan o Gymru mewn ffordd dryloyw y dyddiau hyn. Mae'n anodd imi ymateb yn bendant, yn enwedig gan nad ydych wedi cyfeirio at achos penodol. Fodd bynnag, os rhoddwch y manylion imi, fe gaf drafodaethau gyda Cadw i weld beth yw'r sefyllfa yn union, a deuaif yn ôl atoch gyda'r wybodaeth briodol.

**Gareth Jones:** Byddwch yn ymwybodol o'r bwriad i ddymchwel gwesty Penmorfa yn Llandudno, yn etholaeth Aberconwy. Dyna oedd cartref teuluol Alice Liddell, y ferch a ysbrydolodd campwaith llenyddol Lewis Carroll, *Alice's Adventures in Wonderland*. Mae hyn wedi arwain at gysylltiadau, sy'n dal i fodoli yn Llandudno, rhwng y stori a'r dref. Mae rhan o'r adeilad eisoes wedi'i dymchwel i wneud lle i fflatiau newydd, ac yr wyf ar ddeall nad oes gan Cadw ddiddordeb mewn arbed na gwarchod yr adeilad. A gytunwch fod Cadw wedi colli gafael ar y farn gyhoeddus yn hyn o beth, ac y dylai ailystyried ei safle cyn i ni gollir cysylltiad hyfryd hwn â'r gorffennol am byth?

1.10 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch am ddwyn y mater i'm sylw cyn y prynhawn yma, Gareth. Yr wyf wedi cael cyfle i ofyn i'm swyddogion i edrych i mewn i'r sefyllfa.

Mae diddordeb a chyfrifoldeb Cadw yn ymwneud â gwerth pensaernïol yr adeilad, yn fwy na'r cysylltiadau teuluol a diwylliannol y cyfeiriasoch atynt. Felly, ni chredaf ei bod yn deg beirniadu Cadw yn hyn o beth. Gofynnais i'm swyddogion yn Croeso Cymru i wneud ymholiadau i weld a oedd unrhyw beth y gallem ei wneud i geisio sicrhau bod y gwesty yn cael ei ailadeiladu, er mwyn inni wneud y gorau o'r cysylltiadau gwerthfawr hyn. Pe gellid gwneud hynny, buasai'n beth da i dwristiaeth yng ngogledd Cymru.

Fodd bynnag, yn anffodus, mae'r perchnogion wedi penderfynu nad oes ganddynt diddordeb mewn rhedeg gwesty, a'r bwriad yw codi fflatiau, ac felly, yn

**Rhodri Glyn Thomas:** I can assure you that Cadw tries to co-operate on cases from all parts of Wales in a transparent way these days. It is difficult for me to give you a definite response, given that you have not referred to a specific case. However, if you furnish me with the details, I will hold discussions with Cadw to determine the precise situation, and I will get back to you with the appropriate information.

**Gareth Jones:** You will be aware of the intention to demolish the Penmorfa hotel in Llandudno, in the constituency of Aberconwy. That was the family home of Alice Liddell, the girl who inspired Lewis Carroll's literary masterpiece, *Alice's Adventures in Wonderland*. That has led to certain links between the story and the town, which still exist today in Llandudno. Part of the building has already been demolished to make way for new flats, and I understand that Cadw is not interested in saving or protecting the building. Would you agree that Cadw has lost touch with public opinion on this, and that it should reconsider its position before we lose that wonderful link with the past for ever?

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for bringing the matter to my attention before this afternoon, Gareth. I have had an opportunity to ask my officials to look into the situation.

Cadw has an interest and responsibility as regards the architectural value of the building, as opposed to the family and cultural links to which you referred. Therefore, I do not believe that it is fair to blame Cadw in this instance. I have asked Croeso Cymru officials to make inquiries to see whether there was anything that we could do in order to ensure that the hotel is rebuilt, so that we make the most of these valuable links. If that could be done, it would be of benefit to tourism in north Wales.

However, unfortunately, the owners have decided that they are not interested in running a hotel, and the intention is to build flats on the site, and unfortunately, there is nothing

anffodus, nid oes dim y gallaf ei wneud. Fe'ch sicrhaf fod fy swyddogion wedi gwneud pob ymdrech i geisio arbed y sefyllfa a cheisio gwneud y gorau ohoni. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae'n fater i berchnogion yr adeilad.

**Brynle Williams:** We all agree that Cadw undoubtedly has an important role to play in preserving historic buildings. However, do you not agree that public safety and energy efficiency should not be ignored by Cadw? That appeared to be the case for a constituent of mine in Llandudno, who has recently purchased and refurbished a hotel. The owners of the property, the council, and the planners all agree on the need to replace the single-paned glass and rotten frames, and installing efficient double glazing that would be perfectly in keeping with the historical architecture. Only Cadw has opposed this, despite the work being approved by the owners of several neighbouring buildings. Can you give a definite ruling as to whether improving a building's carbon footprint should be ignored for the most trivial reasons mentioned by Cadw?

**Rhodri Glyn Thomas:** I can assure you that a building's carbon footprint is not ignored by Cadw, but it has to act according to certain criteria. It is important to note the investment that has gone into north Wales through Cadw. Grants totalling almost £3.1 million have been offered to repair historic buildings in north Wales since 2002, and £255,000 has been allocated to historic regeneration schemes operating in north Wales's historic towns in the current year. These are substantial sums of money, which are improving the situation in north Wales. However, if you wish to raise specific issues with me, I would be more than happy to raise them with Cadw. If we can learn from past experiences, then Cadw and I, as Minister, want to do that.

that I can do about that. I assure you that my officials have made every effort possible to try to save the site and to take advantage of the opportunity. However, ultimately, it is a matter for the owners of the building.

**Brynle Williams:** Heb os, yr ydym oll yn cytuno bod gan Cadw rôl bwysig i'w chwarae o ran gwarchod adeiladau hanesyddol. Fodd bynnag, onid ydych yn cytuno na ddylai Cadw anwybyddu materion yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd ac effeithlonrwydd ynni? Oherwydd, yn ôl pob golwg, dyna a ddigwyddodd i un o'm hetholwyr yn Llandudno, sydd newydd brynu ac adnewyddu gwesty. Mae perchnogion yr eiddo, y cyngor, a'r cynllunwyr oll yn cytuno bod angen adnewyddu'r ffenestri gwydr sengl a'r fframiau sydd wedi pydru, a gosod gwydr dwbl effeithlon sy'n gweddu'n berffaith â'r bensaerniaeth hanesyddol. Ond mae Cadw wedi gwrthwynebu, er bod perchnogion llawer o adeiladau cyfagos wedi cymeradwyo'r gwaith. A allwch roi dyfarniad pendant ynghylch a ddylid anwybyddu ôl-troed carbon adeilad am y rhesymau mwyaf dibwys a godwyd gan Cadw?

**Rhodri Glyn Thomas:** Gallaf eich sicrhau nad yw Cadw'n anwybyddu ôl-troed carbon adeilad, ond rhaid iddo weithredu'n unol â meini prawf penodol. Mae'n bwysig nodi'r buddsoddiad a wnaethpwyd yn y gogledd drwy Cadw. Er 2002, mae grantiau gwerth bron £3.1 miliwn wedi cael eu cynnig i atgyweirio adeiladau hanesyddol yn y gogledd, ac eleni mae £255,000 wedi cael ei ddyrannu i gynlluniau adfywio hanesyddol yn nhrefi hanesyddol y gogledd. Mae'r rhain yn symiau sylweddol o arian, sy'n gwella'r sefyllfa yn y gogledd. Fodd bynnag, os hoffech godi materion penodol gyda mi, byddwn yn fwy na pharod i'w codi gyda Cadw. Os gallwn ddysgu o brofiadau'r gorffennol, yna yr wyf fi, fel y Gweinidog, a Cadw, yn dymuno gwneud hynny.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government**

### **Priorities for 2008**

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2008**

**Q1 Nick Bourne:** Will the Minister make a **C1 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog

statement on his priorities for 2008?  
OAQ(3)0204(SJL)

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** In 2008, we will work on improving public service delivery in Wales, particularly services around safeguarding and supporting vulnerable people, reducing inequality, promoting safe and sustainable communities, combating social exclusion and child poverty, and supporting local government with its service delivery and performance.

**Nick Bourne:** One part of the portfolio for which the Minister is responsible is post offices and the post office development fund. I am not sure whether the Minister had the opportunity to speak with Alan Cook, the managing director of Post Office Ltd, today, as I did. I asked him about the notice that has gone out to postmasters and postmistresses in my area, postponing the closure programme because of the local elections. It was made clear in the letter that was sent out that the Government had asked for that. Could the Minister shed some light on why that suddenly happened, given that the closure programme and consultation periods have been known for two years? Could he also tell us what representations he made to Alan Cook about the threatened closure of 250 sub-post offices in Wales, and what representations he has made to Labour colleagues at Westminster in that regard?

**Brian Gibbons:** The decision in relation to the May election was not news to me. I have been aware of that for some time. The implication is that there is a purdah period, or the equivalent of it, around the local government elections. The judgment was that that could be a factor in the elections. However, I have been aware of that for some time.

**Alun Cairns:** For how long?

**The Presiding Officer:** Order. I will call the leader of the opposition again to ask a

ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer 2008? OAQ(3)0204(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Yn 2008, byddwn yn gweithio ar wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig gwasanaethau ynghylch diogelu a chefnogi pobl sy'n agored i niwed, lleihau anghydraddoldebau, hyrwyddo cymunedau diogel a chynaliadwy, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a thlodi ymhlith plant, a chefnogi llywodraeth leol o ran ei pherfformiad ac o ran darparu gwasanaethau.

**Nick Bourne:** Un rhan o'r portffolio y mae'r Gweinidog yn ysgwyddo cyfrifoldeb drosto yw swyddfeydd post a'r gronfa datblygu swyddfeydd post. Nid wyf yn siŵr a yw'r Gweinidog wedi cael cyfle i siarad ag Alan Cook heddiw, sef rheolwr gyfarwyddwr Swyddfa'r Post Cyf, fel y gwneuthum i. Gofynnais iddo am y llythyr a anfonwyd at bostfeistri a phostfeistresi yn fy ardal, yn datgan bod y rhaglen i gau swyddfeydd post yn cael ei gohirio oherwydd yr etholiadau lleol. Eglurwyd mewn du a gwyn yn y llythyr a anfonwyd mai'r Llywodraeth oedd wedi gofyn am hynny. A allai'r Gweinidog egluro pam mae hyn wedi digwydd mor sydyn, a chofio bod y rhaglen i gau swyddfeydd post a'r cyfnodau ymgynghori wedi bod ar y gorwel ers dwy flynedd? A allai ddweud wrthym hefyd pa sylwadau a gyflwynodd i Alan Cook ynghylch y bygythiad i gau 250 o is-swyddfeydd post yng Nghymru, a pha sylwadau y mae wedi'u cyflwyno i'w gyd-Aelodau Llafur yn San Steffan i'r perwyl hwn?

**Brian Gibbons:** Nid oedd y penderfyniad mewn cysylltiad ag etholiad mis Mai'n newydd i mi. Bûm yn ymwybodol o hynny ers cryn amser. Y goblygiad yw bod cyfnod o enciliad, neu'r hyn sy'n cyfateb iddo, tua adeg etholiadau llywodraeth leol. Y farn oedd y gallai hynny fod yn ffactor yn yr etholiadau. Fodd bynnag, bûm yn ymwybodol o hynny ers cryn amser.

**Alun Cairns:** Am ba hyd?

**Y Llywydd:** Trefn. Galwaf arweinydd yr wrthblaid eto i ofyn cwestiwn atodol, os yw'n

supplementary question, if he so wishes. However, I will not allow the distinguished occupants of the Conservative frontbench to interrupt the Minister and I advise the Minister not to take any notice should they seek to do so.

**Brian Gibbons:** That is good advice, Presiding Officer.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister.

**Brian Gibbons:** Since the initial set of proposals under the post office closure programme, we have made representations to the Department of Trade and Industry. That was in advance of the current administration. Edwina Hart, my predecessor, has written very detailed responses to the initial consultation, pointing out her concern about the principle of what was involved and, more particularly, the detail.

**Nick Bourne:** I am very grateful for your indulgence, Presiding Officer. Going back to when you first knew that this consultation and the closure programme was to be postponed, Minister, could you give us some detail on that? Post offices have only just been told. If this knowledge has been in the system for some time, I am surprised that they were not told earlier, because the letters postponing the consultation have only just gone out. Further to your other point, why is it that you do not think you have had any success in convincing your Labour colleagues in Westminster to dilute or to stop the closure programme?

**Brian Gibbons:** Our representations, like the representations from many other sources, have not been sufficient to bring about a significant strategic change in the direction that is being taken in relation to post office closures. We regret that our representations have not had more effect either on the principle, or on the detail of the access criteria and so on. Nonetheless, our representations have, I hope, been taken seriously. Certainly in this morning's meeting there was positive interest in the post office development fund, although, again, we pointed out the timescale in relation to when that would become available to sub-

dymuno. Fodd bynnag, ni chaniatâf i ddeiliaid nodedig mainc flaen y Ceidwadwyr dorri ar draws y Gweinidog a chynghoraf y Gweinidog na ddylai gymryd sylw o gwbl os byddant yn ceisio gwneud hynny.

**Brian Gibbons:** Mae hwnnw'n gyngor da, Lywydd.

**Y Llywydd:** Diolch i chi, Weinidog.

**Brian Gibbons:** Ers cael y set gyntaf o gynigion dan y rhaglen cau swyddfeydd post, yr ydym wedi cyflwyno sylwadau i'r Adran Masnach a Diwydiant. Yr oedd hynny cyn cyfnod y weinyddiaeth bresennol. Mae Edwina Hart, fy rhagflaenydd, wedi ysgrifennu ymatebion manwl iawn i'r ymgynghoriad cyntaf, gan nodi ei phryder ynghylch egwyddor yr hyn a oedd dan sylw ac, yn fwy penodol, ynghylch y manylion.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar iawn am eich goddefgarwch, Lywydd. Gan fynd yn ôl at y cwestiwn ynghylch pa bryd y cawsoch wybod gyntaf fod yr ymgynghoriad hwn a'r rhaglen gau i gael eu gohirio, Weinidog, a allech gynnig ychydig o fanylion i ni am hynny? Newydd gael eu hysbysu y mae'r swyddfeydd post. Os yw'r wybodaeth hon wedi bod yn y system ers cryn amser, yr wyf yn synnu na chawsant eu hysbysu'n gynharach, gan mai newydd gael eu hanfon y mae'r llythyrau sy'n gohirio'r ymgynghoriad. Ymhellach i'r pwynt arall a wnaethoch, pam na cawsoch unrhyw lwyddiant, yn eich barn chi, o ran darbwyllo'ch cymheiriaid Llafur yn San Steffan i liniaru neu atal y rhaglen gau?

**Brian Gibbons:** Yn yr un modd â sylwadau a gafwyd o lawer o ffynonellau eraill, nid yw ein sylwadau ni wedi bod yn ddigon i beri newid strategol sylweddol o ran y camau a gymerir mewn cysylltiad â chau swyddfeydd post. Mae'n ofid i ni nad yw ein sylwadau wedi cael mwy o effaith naill ai ar yr egwyddor, neu ar fanylion y meini prawf ar gyfer mynediad ac yn y blaen. Er hynny, mae ein sylwadau wedi'u cymryd o ddifrif, yr wyf yn gobeithio. Yn sicr, yn y cyfarfod y bore yma yr oedd diddordeb pendant yn y gronfa datblygu swyddfeydd post, er inni dynnu sylw, unwaith eto, at yr amserlen mewn cysylltiad â'r adeg y byddai honno ar gael i

postmasters and sub-postmistresses in Wales. I cannot give you a precise date as to when I became aware of the postponement, but I have been aware of it for weeks, if not longer.

**Irene James:** This morning, I had the pleasure of being on the first train from Ebbw Vale to Cardiff. This flagship scheme, brought about by successive Labour Governments, will enable the people of my valley to access services and employment opportunities here in the capital. Do you agree that this project is vital to our task of creating greater social inclusion in the Valleys?

**Brian Gibbons:** Absolutely. We know that the most disadvantaged communities in Wales are in the Heads of the Valleys, and in Blaenau Gwent in particular, extending down to your constituency of Islwyn. So, this is important as part of the wider regeneration programme of the Assembly Government, the Heads of the Valleys programme.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 2, OAQ(3)0171(SJL), ar gyfer ateb ysgrifenedig.

### Council Tax Rises

**Q3 Jonathan Morgan:** Has the Minister discussed the possibility of capping local authority council tax rises this financial year, either with Cabinet colleagues or colleagues in local government? OAQ(3)0178(SJL)

**Brian Gibbons:** I have discussed the local government settlement with Cabinet colleagues and with local government leaders. I have indicated that I will closely monitor local authorities' budget decisions in the coming weeks, but I hope that consideration of council tax capping will not be necessary in light of the decisions made by local authorities.

1.20 p.m.

**Jonathan Morgan:** You seem incapable of answering a simple question as to whether

is-bostfeistri ac is-bostfeistresau yng Nghymru. Ni allaf roi'r union ddyddiad i chi o ran pa bryd y deuthum yn ymwybodol o'r gohiriad, ond yr wyf wedi bod yn ymwybodol ohono ers wythnosau, os nad yn hwy.

**Irene James:** Y bore yma, cefais y pleser o fod ar y trên cyntaf o Lynebwy i Gaerdydd. Bydd y cynllun pwysig hwn, sy'n ganlyniad i waith y naill Lywodraeth Lafur ar ôl y llall, yn galluogi pobl fy nyffryn i gael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd gwaith yma yn y brifddinas. A ydych yn cytuno bod y prosiect hwn yn agwedd hollbwysig ar y gwaith sydd gennym o greu mwy o gynhwysiant cymdeithasol yn y Cymoedd?

**Brian Gibbons:** Yn hollol. Gwyddom fod y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ym Mlaenau'r Cymoedd, ac ym Mlaenau Gwent yn benodol, gan ymestyn i lawr at eich etholaeth chi, sef Islwyn. Felly, mae hyn yn bwysig fel rhan o raglen adfywio ehangach Llywodraeth y Cynulliad, sef rhaglen Blaenau'r Cymoedd.

**The Presiding Officer:** Question 2, OAQ(3)0171(SJL), has been transferred for written answer.

### Codi'r Dreth Gyngor

**C3 Jonathan Morgan:** A yw'r Gweinidog wedi trafod posibilrwydd capio codiadau'r dreth gyngor gan awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, naill ai gyda chyd-Aelodau yn y Cabinet neu gydweithwyr mewn llywodraeth leol? OAQ(3)0178(SJL)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trafod setliad llywodraeth leol gyda chyd-Aelodau yn y Cabinet a chydag arweinyddion llywodraeth leol. Yr wyf wedi nodi y byddaf yn cadw llygad barcud ar benderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch eu cyllideb yn yr wythnosau sydd i ddod, ond yr wyf yn gobeithio na fydd angen ystyried capio'r dreth gyngor oherwydd y penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol.

**Jonathan Morgan:** Mae'n ymddangos na allwch ateb cwestiwn syml ynghylch a ydych



you have discussed the principle of capping local authorities with people currently in local government or with your Cabinet colleagues in the Assembly Government. In a previous financial year, one of your predecessors threatened to cap local authorities in Wales if they went above a council tax increase of 5 per cent. Is the possibility of such a threat to local authorities still Government policy?

**Brian Gibbons:** We have pointed out to local government that a reasonable settlement has been made available, and it should not result in unreasonable increases in council tax. We have indicated that we will be monitoring the situation, and if there is evidence of unreasonable council tax increases then we would consider capping.

**Jenny Randerson:** In your statement at the time of the final local government settlement you indicated that you would regard any council tax increase above 5 per cent as unreasonable. Can you clarify for us, and put it absolutely on the record, that 5 per cent is the level at which you would consider an increase to be unreasonable? I am sure that your colleagues and mine in local government believe, in the light of the appalling settlement, that they may be forced into making a 5 per cent increase.

**Brian Gibbons:** We are thinking of a figure around 5 per cent, yes.

**Jenny Randerson:** Have you had discussions with chief constables about capping? Do you also intend to cap the precept at 5 per cent? You will be well aware that South Wales Police Authority has done work with the community, and the results of its consultation suggest that many people would welcome a 5.5 per cent increase in the police precept—which will amount to 14p a week extra per council tax payer. I am sure that you are aware that the authority faces serious financial constraints because of the Home Office's withdrawal of funding for the 101 number.

**Brian Gibbons:** I had a meeting last week with representatives of the police authorities

wedi trafod yr egwyddor o gapio awdurdodau lleol gyda rhai sydd mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd neu gyda'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet yn Llywodraeth y Cynulliad. Mewn blwyddyn ariannol flaenorol, bygythiodd un o'ch rhagflaenwyr gapio awdurdodau lleol yng Nghymru os codent fwy na 5 y cant ar y dreth gyngor. A yw'r posibilrwydd o fygythiad o'r fath i awdurdodau lleol yn parhau i fod yn bolisi gan y Llywodraeth?

**Brian Gibbons:** Yr ydym wedi tynnu sylw llywodraeth leol at y ffaith bod setliad rhesymol wedi'i ddarparu, ac ni ddylai arwain at godiadau afresymol yn y dreth gyngor. Yr ydym wedi nodi y byddwn yn cadw golwg ar y sefyllfa, ac os oes tystiolaeth o godiadau afresymol yn y dreth gyngor, byddem wedyn yn ystyried capio.

**Jenny Randerson:** Yn eich datganiad ar adeg y setliad llywodraeth leol terfynol bu i chi ddweud y byddech yn ystyried unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor o fwy na 5 y cant yn afresymol. A allwch egluro i ni, a datgan yn glir, mai 5 y cant yw lefel y cynnydd y byddech yn ei hystyried yn afresymol? Yr wyf yn siŵr bod y rhai sy'n gymheiriaid i chi a minnau mewn llywodraeth leol yn credu, a chofio'r setliad gwarthus a gafwyd, y gallent orfod ei chodi 5 y cant.

**Brian Gibbons:** Yr ydym yn meddwl am ffigur sydd oddeutu 5 y cant, ydym.

**Jenny Randerson:** A ydych wedi cael trafodaethau gyda phrif gwnstabiliaid ynghylch capio? A ydych hefyd yn bwriadu capio'r praesept ar 5 y cant? Byddwch yn ymwybodol iawn bod Awdurdod Heddlu De Cymru wedi bod yn cydweithio â'r gymuned, ac mae canlyniadau ei ymgynghoriad yn awgrymu y byddai llawer o bobl yn croesawu cynnydd o 5.5 y cant ym mhraesept yr heddlu—a fydd yn dod i 14c yr wythnos yn ychwanegol i bob un o dalwyr y dreth gyngor. Yr wyf yn sicr eich bod yn ymwybodol bod yr awdurdod yn wynebu cyfyngiadau ariannol dybryd am fod y Swyddfa Gartref wedi tynnu'n ôl y cyllid ar gyfer y gwasanaeth ffôn 101.

**Brian Gibbons:** Cefais gyfarfod yr wythnos diwethaf gyda chynrychiolwyr awdurdodau'r

in Wales, and we had a wide-ranging discussion on financial matters. Indeed, I also had a bilateral meeting with South Wales Police Authority in which we discussed some of the issues that you raised, Jenny. All public bodies in Wales must be reasonable in this regard, and that applies to the police in setting the precept as well as to local authorities. I conveyed that view to the South Wales Police Authority when I spoke to it.

### **Criminal Justice System**

**Q4 Leanne Wood:** What representations has the Minister made with regard to ensuring an effective criminal justice system?  
OAQ(3)0225(SJL)

**Brian Gibbons:** I have regular contact through meetings and correspondence with my counterparts in the Home Office and the Ministry of Justice. I also meet regularly with representatives of the police, the police authorities, the National Probation Service and the National Offender Management Service.

**Leanne Wood:** I am sure that you are aware that the 'One Wales' agreement contains a commitment to ensure an effective youth and criminal justice system in Wales. Will you give an update on your consideration of evidence for the devolution of the criminal justice system, and do you feel that there is an appetite for this Assembly to have the powers to create safer communities?

**Brian Gibbons:** Youth offending is not within my portfolio—it is in the portfolio of the Minister for Health and Social Services, so I cannot give you a precise answer. However, the review that we are undertaking—the scoping exercise that officials are working on—to look at the commitment in the 'One Wales' agreement, will throw light upon the issue that you raise. Hopefully, it will provide a platform for further discussions on this important matter.

**William Graham:** Will the Minister join me

heddlu yng Nghymru, a chawsom drafodaethau cynhwysfawr am faterion ariannol. Yn wir, cefais gyfarfod dwyochrog hefyd ag Awdurdod Heddlu De Cymru lle y trafodasom rai o'r materion a godasoch, Jenny. Rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru fod yn rhesymol yn hyn o beth, ac mae hynny'n gymwys i'r heddlu wrth osod y praesept yn ogystal ag awdurdodau lleol. Cyfleais y farn honno i Awdurdod Heddlu De Cymru pan siaradais ag ef.

### **System Cyfiawnder Troseddol**

**C4 Leanne Wood:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud ynghylch sicrhau system cyfiawnder troseddol effeithiol?  
OAQ(3)0225(SJL)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn cysylltu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd a gohebiaeth â'm cymheiriaid yn y Swyddfa Gartref ac yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yr wyf hefyd yn cwrrd yn rheolaidd â chynrychiolwyr yr heddlu, awdurdodau'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy.

**Leanne Wood:** Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod cytundeb 'Cymru'n Un' yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau system cyfiawnder ieuencid a system cyfiawnder troseddol effeithiol yng Nghymru. A wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eich ystyriaeth i dystiolaeth o blaid datganoli'r system cyfiawnder troseddol, ac a ydych yn teimlo bod awydd i'r Cynulliad hwn gael y pwerau angerheidiol i greu cymunedau mwy diogel?

**Brian Gibbons:** Nid yw troseddau ieuencid yn rhan o'm portffolio—maent yn rhan o bortffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, felly ni allaf roi ateb manwl i chi. Fodd bynnag, bydd yr adolygiad yr ydym yn ei gynnal—yr ymarfer cwmpasu y mae swyddogion yn gweithio arno—i ystyried yr ymrwymiad yng nghytundeb 'Cymru'n Un', yn taflu goleuni ar y mater yr ydych yn ei godi. Yr wyf yn gobeithio y bydd yn cynnig man cychwyn ar gyfer mwy o drafodaethau am y mater pwysig hwn.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog

in congratulating the efforts of the Blaenau Gwent and Caerphilly Youth Offending Team? In partnership with the Welsh Rugby Union, it has organised rugby coaching schemes designed to teach self-discipline, and respect for the community, to excluded teenagers who are judged to be at risk of offending. Would the Minister encourage the use of similar ventures across Wales?

**Brian Gibbons:** It is an excellent scheme, and I know that other sporting organisations are very much to the fore in giving young people an opportunity to partake in constructive and character-forming activity that engages them and reduces the risk of them being involved in anti-social behaviour.

**Kirsty Williams:** You will be aware of the ongoing threat to the magistrates' court in Llandrindod Wells. It has been given a temporary reprieve and is still sitting while the problems with the new PFI scheme to build a court in the north of the county continue. What discussions have you had with colleagues in Westminster to ensure that there is a magistrates' court in Radnorshire, because the removal of that facility will cause problems for defendants and witnesses who have to attend a magistrates' court, as they may have to travel many miles from their homes to do so?

**Brian Gibbons:** I have not made any direct representations in relation to this matter, and I do not think that I have received any representations for me to do so. However, I note the comments that you have made.

#### Post Office Closures

**Q5 Christine Chapman:** Will the Minister make a statement on post office closures in the Cynon valley? OAQ(3)0206(SJL)

**The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews):** Post office policy is non-devolved, with lead responsibility resting with the Department of Business, Enterprise and Regulatory Reform. The Post Office Ltd initially announced five closures in the Cynon valley, but is now consulting on a further closure, namely that of the Perthcelyn

ymuno â mi i ganmol ymdrechion Tîm Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili? Mewn partneriaeth ag Undeb Rygbi Cymru, mae wedi trefnu cynlluniau hyfforddi rygbi sydd â'r amcan o addysgu hunanddisgyblaeth, a pharch at y gymuned, i rai yn eu harddegau sydd wedi'u hallgáu y bernir eu bod mewn perygl o droseddu. A fyddai'r Gweinidog yn cymell defnyddio cynlluniau tebyg ledled Cymru?

**Brian Gibbons:** Mae'n gynllun rhagorol, a gwn fod cyrff chwaraeon eraill yn flaengar iawn o ran rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgarwch adeiladol sy'n datblygu cymeriad ac yn ennyn eu diddordeb ac yn lleihau'r perygl iddynt ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

**Kirsty Williams:** Byddwch yn ymwybodol o'r bygythiad presennol i'r llys ynadon yn Llandrindod. Mae wedi'i arbed am y tro ac mae'n dal i eistedd tra bo'r problemau sy'n gysylltiedig â'r cynllun menter cyllid preifat newydd i godi llys yng ngogledd y sir yn parhau. Pa drafodaethau a gawsoch gyda chymheiriaid yn San Steffan i sicrhau bod llys ynadon yn sir Faesyfed, oherwydd bydd symud y cyfleuster hwnnw'n achosi problemau i ddiffynyddion a thystion sy'n gorfod ymddangos mewn llys ynadon, gan y gallent orfod teithio milltiroedd lawer o'u cartrefi i wneud hynny?

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi cyflwyno unrhyw sylwadau'n uniongyrchol mewn cysylltiad â'r mater hwn, ac ni chredaf imi gael unrhyw sylwadau fel y gallwn wneud hynny. Fodd bynnag, nodaf y sylwadau yr ydych wedi'u gwneud.

#### Cau Swyddfeydd Post

**C5 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau swyddfeydd post yng nghwm Cynon? OAQ(3)0206(SJL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Nid yw polisi ar swyddfeydd post wedi'i ddatganoli, ac mae'r cyfrifoldeb arweiniol gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio. Ar y dechrau, cyhoeddodd Swyddfa'r Post Cyf y byddai'n cau pum swyddfa bost yng nghwm Cynon, ond mae'n ymgynghori'n awr

branch.

ynghylch cau un yn ychwanegol, sef cangen Perthcelyn.

**Christine Chapman:** You will know that Perthcelyn in my constituency is one of the most disadvantaged communities in Wales. It has a high number of benefit claimants and low levels of car ownership, and a large number of older people live there. The fact that its post office has been pinpointed for closure has come as a great shock to the community, which would be badly let down if this essential service were taken away. I would challenge Post Office Ltd on whether it has considered all of the factors in coming to this decision, as Perthcelyn is situated at the top of a very steep hill, and walking to the nearest branch would be extremely difficult for many residents. Do you agree that, in such an area, we should be working to boost services and not to take them away? Will you make representations to your colleagues on this issue?

**Christine Chapman:** Byddwch yn gwybod bod Perthcelyn yn fy etholaeth yn un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae yno nifer mawr o hawlwyrr budd-daliadau a lefelau isel o berchnogaeth ar geir, ac mae nifer mawr o bobl hŷn yn byw yno. Mae'r ffaith bod ei swyddfa bost wedi'i dethol ar gyfer ei chau wedi codi braw mawr ar y gymuned, a fyddai'n cael cam mawr pe tynnid yn ôl y gwasanaeth hanfodol hwn. Byddwn yn herio Swyddfa'r Post Cyf ynghylch a yw wedi ystyried yr holl ffactorau wrth ddod i'r penderfyniad hwn, gan fod Perthcelyn ar ben bryn serth iawn, a byddai llawer o breswylwyr yn ei chael yn anodd iawn cerdded i'r gangen agosaf. A ydych yn derbyn y dylem ymdrechu i hybu gwasanaethau mewn ardal o'r fath ac nid eu tynnu'n ôl? A wnewch gyflwyno sylwadau i'ch cymheiriaid ar y mater hwn?

**Leighton Andrews:** I have made it my policy not to comment on individual closures, but I will say that many people were surprised that, when Post Office Ltd gave a reprieve to a post office in Barry and one in Cardiff, it then chose to propose the closure of a post office in the Valleys. We have made that point to Post Office Ltd in recent meetings.

**Leighton Andrews:** Yr wyf wedi dilyn yr egwyddor o beidio â gwneud sylw am gau swyddfeydd post penodol, ond dywedaf fod llawer o bobl wedi synnu bod Swyddfa'r Post Cyf, ar ôl arbed un swyddfa bost yn y Barri ac un yng Nghaerdydd, wedi dewis cynnig cau swyddfa bost yn y Cymoedd. Yr ydym wedi tynnu'r pwynt hwnnw at sylw Swyddfa'r Post Cyf mewn cyfarfodydd diweddar.

I announce today that we will be opening the post office development fund for new applications from 1 January 2009.

Cyhoeddaf heddiw y byddwn yn agor y gronfa datblygu swyddfeydd post i geisiadau newydd o 1 Ionawr 2009.

**Andrew R.T. Davies:** It is common practice in the Chamber to raise concerns about the post office closure programme. Sadly, the local government elections did not withhold that closure programme in South Wales Central. A constituent of mine, Mr Mookhtiar, who runs Salisbury Road post office, raised concerns with me that, upon the closure of his post office, Post Office Ltd sought to confer restrictions on him with regard to his future trading. Does the Assembly Government engage in any way with Post Office Ltd in ensuring that businesses are not adversely affected when they seek to continue to offer a facility to local communities? Surely, this is an unfair

**Andrew R.T. Davies:** Arfer cyffredin yn y Siambr yw mynegi pryderon ynghylch y rhaglen cau swyddfeydd post. Gwaetha'r modd, ni fu etholiadau llywodraeth leol yn fodd i atal y rhaglen gau honno yng Nghanol De Cymru. Gwnaeth un o'm hetholwyr, Mr Mookhtiar, sy'n rhedeg swyddfa bost Salisbury Road, godi pryderon gyda mi, sef bod Swyddfa'r Post Cyf, wrth gau ei swyddfa bost, wedi ceisio gosod cyfyngiadau arno o ran ei fasnach yn y dyfodol. A yw Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud mewn unrhyw fodd â Swyddfa'r Post Cyf wrth sicrhau nad amharir ar fusnesau pan geisiant barhau i gynnig cyfleuster i gymunedau lleol? Yn sicr, mae hwn yn arfer annheg y dylid

practice that should be discontinued.

**Leighton Andrews:** If you have any specific information on that particular incident that you wish to write to me about, I would be happy to consider it.

**Chris Franks:** You have heard from Christine Chapman that Perthcelyn is in a rather remote spot—I am given to understand from a local councillor that it is called ‘the lost city’ because of its remoteness. I am disappointed that you are not prepared to make representations on this. Given the unique circumstances, would you reconsider and make the case for saving this vital community asset?

**Leighton Andrews:** I do not think that you listened to the answer that I gave to Christine Chapman earlier. I said that it is not my general policy to comment on individual closures. However, as I said earlier, in this specific case, many of us were surprised to find that when a post office in Barry and one in Cardiff were given a reprieve, as a consequence, a post office in the Valleys would be closed. We have made that point to Post Office Ltd.

### Communities First

**Q6 Helen Mary Jones:** Will the Minister make a statement on young people’s participation in Communities First partnerships? OAQ(3)0196(SJL)

**Leighton Andrews:** Communities First partnerships are required to establish a structure to involve young people in the work of the partnerships and in the wider community in a meaningful way. A wide variety of partnerships have innovative programmes involving young people.

1.30 p.m.

**Helen Mary Jones:** I am sure that you would agree that that statutory requirement was a very valuable mechanism for promoting the participation of children and young people, but I am sure that you would also agree that the extent to which those mechanisms really led to the young people being involved in day

rhoi’r gorau iddo.

**Leighton Andrews:** Os oes gennych unrhyw wybodaeth benodol am y digwyddiad hwnnw y dymunwch ysgrifennu ataf yn ei chylch, byddwn yn falch o’i hystyried.

**Chris Franks:** Yr ydych wedi clywed gan Christine Chapman fod Perthcelyn yn eithaf anghysbell—yr wyf wedi cael ar ddeall gan gynghorydd lleol ei fod yn cael ei alw’n ‘ddinas goll’ am ei fod mor ddiaffordd. Yr wyf yn siomedig nad ydych yn barod i gyflwyno sylwadau am hyn. Ac ystyried yr amgylchiadau unigryw, a fyddech yn ailystyried ac yn cyflwyno’r ddadl dros arbed yr ased cymunedol hanfodol hwn?

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn credu ichi wrando ar yr ateb a roddais i Christine Chapman yn gynharach. Dywedais na fyddaf fel arfer yn gwneud sylw am gau swyddfeydd post penodol. Fodd bynnag, fel y dywedais yn gynharach, yn yr achos neilltuol hwn, yr oedd llawer ohonom wedi synnu o gael gwybod y byddid yn cau swyddfa bost yn y Cymoedd o ganlyniad i arbed un swyddfa bost yn y Barri ac un yng Nghaerdydd. Yr ydym wedi tynnu’r pwynt hwnnw at sylw Swyddfa’r Post Cyf.

### Cymunedau yn Gyntaf

**C6 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfranogiad pobl ifanc mewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(3)0196(SJL)

**Leighton Andrews:** Mae’n ofynnol i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sefydlu strwythur i gynnwys pobl ifanc yng ngwaith y partneriaethau ac yn y gymuned ehangach mewn modd ystyrlon. Mae gan amrywiaeth fawr o bartneriaethau raglenni arloesol sy’n cynnwys pobl ifanc.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod y gofyniad statudol hwnnw’n ddull gwerthfawr iawn o hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc, ond yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno hefyd nad yw’r mecanweithiau hynny i gyd wedi llwyddo i’r un graddau o ran sicrhau bod pobl ifanc

to day decision-making varied. With the Communities Next programme, will you undertake to ensure that the best practice that has been developed in many Communities First partnerships is built in as a requirement from the beginning, as we move into the next phase? After all, children and young people are the future of those communities, and if we can get them into the habit of participating and being an active part of their community, it will bode well for the long-term future of the communities concerned.

**Leighton Andrews:** The consultation document that we published last week contains a number of paragraphs on the engagement of young people, our commitment to tackling child poverty overall and the role that Communities First partnerships can play in that. I am aware of a number of innovative approaches for involving young people in places such as Felinfoel, Llwynhendy, Glanymôr and Tyisha.

**Mark Isherwood:** During your statement on Communities Next last week, you referred to outcomes in relation to continuous improvement that will be put in place to guide that, but you would not go as far as target measures, because you felt that that might challenge the empowerment of the community. What intended outcomes will you put in place regarding so-called 'needs' for young people not in education, employment or training within Communities First areas?

**Leighton Andrews:** We have launched a consultation, which is open until 1 May 2008, and set out a number of critical success factors. We have suggested a number of areas where Communities First partnerships already engage with young people, and we have encouraged people to look at the ways in which that can take place in their own communities. I look forward to receiving the representations following the close of the consultation.

**Mark Isherwood:** You referred to 'critical success factors', which I struggle to understand, as I am sure would many people watching from outside; I understand words

mewn gwirionedd wedi ymwneud â'r penderfyniadau o ddydd i ddydd. Gyda rhaglen Cymunedau Nesaf, a wnewch addo sicrhau bod yr arferion gorau sydd wedi'u datblygu mewn llawer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu cynnwys yn ofyniad o'r cychwyn, wrth inni symud i'r cam nesaf? Wedi'r cyfan, plant a phobl ifanc yw dyfodol y cymunedau hynny, ac os gallwn eu cael i arfer cymryd rhan a bod yn rhan weithredol o'u cymuned, bydd hynny'n argoeli'n dda ar gyfer dyfodol tymor hir y cymunedau dan sylw.

**Leighton Andrews:** Mae'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gennym yr wythnos diwethaf yn cynnwys nifer o baragraffau ynglŷn â meithrin cysylltiad â phobl ifanc, ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant drwyddo draw a'r rôl y gall partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ei chwarae yn hynny. Yr wyf yn ymwybodol o nifer o gynlluniau arloesol i gynnwys pobl ifanc, mewn mannau megis Felin-foel, Llwynhendy, Glan-y-môr a Thy-isha.

**Mark Isherwood:** Yn ystod eich datganiad am Gymunedau Nesaf yr wythnos diwethaf, cyfeiriwyd at sefydlu canlyniadau i fod yn ganllaw ar gyfer gwella parhaus, ond nid oeddech yn barod i fynd cyn belled â phennu targedau, oherwydd eich bod yn teimlo y gallai hynny beryglu grymuso'r gymuned. Pa ganlyniadau y bwriadwch eu sefydlu ar gyfer yr hyn a elwir yn 'anghenion' pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf?

**Leighton Andrews:** Yr ydym wedi lansio ymgynghoriad, sydd ar agor tan 1 Mai 2008, ac wedi pennu nifer o ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddo. Yr ydym wedi awgrymu nifer o feysydd lle mae partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eisoes yn meithrin cysylltiad â phobl ifanc, ac yr ydym wedi annog pobl i edrych ar y ffyrdd o wneud hynny yn eu cymunedau hwy eu hunain. Edrychaf ymlaen at gael y sylwadau pan ddaw'r ymgynghori i ben.

**Mark Isherwood:** Cyfeiriasoch at 'ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddo', ac yr wyf yn cael trafferth deall hynny, fel yr wyf yn siŵr y byddai llawer o bobl sy'n gwyllo o'r tu allan;

such as 'target measures' or 'reviews'. How will you engage young people in setting those targets, so that the purpose of European convergence funding, which is to close the prosperity gap between the regions, is achieved and that we tackle economic inactivity, the skills gap and education, and start bringing in inward investment and social enterprise?

**Leighton Andrews:** I suggest that you read the consultation document, which outlines a number of ways in which we want communities to engage with the issues of tackling child poverty, economic inactivity and so on. If you do not understand the term 'critical success factors', I suggest that you read the paragraphs in the consultation document headed 'Critical Success Factors'.

**Joyce Watson:** Four of the 10 elements that support communities of interests within Communities First cover areas of deep rurality in parts of Ceredigion, Powys and Gwynedd. The root causes of poverty and disadvantage in these areas are distinct from other parts of Wales, with transport issues and concerns about agriculture and tourism central to those strategies. Will you outline how the second phase of Communities Next will link in with the Assembly Government's wider strategy for tackling rural deprivation?

**Leighton Andrews:** We are looking at the work that has been done in communities of interest over the first phase of the programme, and we will consider how to take that forward. There are a number of issues in respect of the particular needs of rural communities, and we want to ensure that, in developing the next phase of Communities First, we take on board all aspects of rural development within our approach to regeneration. The intention behind the way in which we are working on regeneration is to do so in a holistic way. Therefore, I will want to engage with other colleagues, including those in Government, as to how we deal with the issues faced by rural communities.

deallaf eiriau megis 'mesurau targed' neu 'adolygiadau'. Sut y byddwch yn meithrin cysylltiad â phobl ifanc wrth bennu'r targedau hynny, er mwyn gwireddu pwrpas arian cydgyfeirio Ewrop, sef, cau'r bwlch ffyniant rhwng y rhanbarthau, ac er mwyn inni fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, y bwlch sgiliau ac addysg, a dechrau denu mewnfuddsoddi a mentrau cymdeithasol?

**Leighton Andrews:** Awgrymaf ichi ddarllen y ddogfen ymgynghori, sy'n sôn am nifer o ffyrdd y dymunwn weld cymunedau'n ymgysylltu â materion sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thlodi plant, anweithgarwch economaidd ac ati. Os nad ydych yn deall y term 'ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddo', awgrymaf ichi ddarllen y paragraffau yn y ddogfen ymgynghori dan y pennawd 'Ffactorau Hanfodol ar gyfer Llwyddo'.

**Joyce Watson:** Mae pedair o'r 10 elfen sy'n cefnogi cymunedau buddiant yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ymwneud ag ardaloedd gwledig iawn rhannau o Geredigion, Powys a Gwynedd. Mae gwreiddiau'r tlodi a'r anfantais yn yr ardaloedd hyn yn wahanol i'r rheini a geir mewn rhannau eraill o Gymru, gan fod problemau trafnidiaeth a phryderon ynglŷn ag amaethyddiaeth a thwristiaeth yn ganolog i'r strategaethau hynny. A wnewch ddweud sut y bydd ail gam Cymunedau Nesaf yn cysylltu â strategaeth ehangach Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael ag amddifadedd yng nghefn gwlad?

**Leighton Andrews:** Yr ydym yn edrych ar y gwaith sydd wedi'i wneud mewn cymunedau buddiant yn ystod cam cyntaf y rhaglen, a byddwn yn ystyried sut mae bwrw ymlaen â hynny. Mae nifer o faterion yn codi yn sgil anghenion arbennig cymunedau gwledig, a dymunwn sicrhau, wrth ddatblygu cam nesaf Cymunedau yn Gyntaf, ein bod yn rhoi sylw i bob agwedd ar ddatblygu gwledig wrth inni fynd ati i adfywio'r ardaloedd hyn. Ein bwriad wrth fynd ati i adfywio fel hyn yw gwneud hynny mewn modd cyfannol. Felly, byddaf am gysylltu â chyd-Aelodau eraill, gan gynnwys y rheini yn y Llywodraeth, i weld sut mae ymdrin â'r problemau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu.

**Priorities in South Wales Central**

**Q7 Andrew R.T. Davies:** Will the Minister make a statement on his priorities in South Wales Central? OAQ(3)0222(SJL)

**Brian Gibbons:** The priorities for South Wales Central are consistent with the answers that I gave to question 1 from Nick Bourne.

**Andrew R.T. Davies:** You will recall that I raised the issue of the Mines Rescue Service, which I understand that you have visited, and the pressing financial situation in which it finds itself. After visiting the site before Christmas and getting fully up to speed on the issues, are you in a position to make a commitment towards securing its long-term future, given that the financial pressures could result in the break up of that rescue team?

**Brian Gibbons:** The visit to the mines rescue team with my colleague, Leighton Andrews, was very useful and the key points that I took from that meeting I have brought back to my officials in the Assembly, and asked them to make further representations on a number of the issues that were raised with me. Some of those issues are not directly related to my portfolio, in terms of the fire and rescue service, but they are relevant to the economy and transport, in relation to tourism and Big Pit. Therefore I think that we need to take a holistic overview in relation to the overall role that the mines rescue service at Porth plays in the economy of south Wales.

**Chris Franks:** Minister, will you congratulate Rhondda Women's Aid for its new campaign on domestic violence, with the use of beer mats in pubs and clubs carrying reminders to respect women? What steps are your Government taking to deal with this issue?

**Brian Gibbons:** I very much commend that. The location of that publicity is particularly important, because alcohol is involved in 50 to 60 per cent of incidents of domestic abuse. Circulating that information in pubs and similar locations is well targeted and I commend Rhondda Women's Aid for that

**Blaenoriaethau yng Nghanol De Cymru**

**C7 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0222(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae'r blaenoriaethau ar gyfer Canol De Cymru yn gyson â'r atebion a roddais i gwestiwn 1 gan Nick Bourne.

**Andrew R.T. Davies:** Fe gofiwch imi godi mater Gwasanaeth Achub y Pyllau, a deallaf ichi ymweld â'r gwasanaeth. Soniais am y sefyllfa ariannol ddyrws y mae'n canfod ei hun ynddi. Ar ôl ymweld â'r safle cyn y Nadolig a chael ar ddeall beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf, a allwch ymrwymo i sicrhau ei ddyfodol tymor hir, ac ystyried y gallai'r pwysau ariannol arwain at chwalu'r tîm achub hwnnw.

**Brian Gibbons:** Yr oedd ymweld â thîm achub y pyllau gyda'm cyd-Aelod, Leighton Andrews, yn ddefnyddiol iawn. Yr wyf wedi dod â'r pwyntiau allweddol a glywais yn y cyfarfod hwnnw yn ôl i'm swyddogion yn y Cynulliad, ac wedi gofyn iddynt gyflwyno sylwadau pellach ynglŷn â nifer o faterion a godwyd gyda mi. Nid yw rhai o'r materion hynny'n uniongyrchol berthnasol i'm portffolio, o ran y gwasanaeth tân ac achub, ond maent yn berthnasol i'r economi ac i drafnidiaeth, yng nghyswllt twristiaeth a'r Pwll Mawr. Felly, credaf fod angen inni edrych ar y sefyllfa'n gyffredinol mewn modd cyfannol gyda golwg ar rôl gyffredinol gwasanaeth achub y pyllau yn y Porth yn economi'r de.

**Chris Franks:** Weinidog, a wnewch longyfarch Cymorth i Fenywod y Rhondda am ei ymgyrch newydd ar drais yn y cartref sy'n defnyddio matiau cwrw mewn tafarndai a chlybiau i atgoffa pobl i barchu menywod? Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn?

**Brian Gibbons:** Cymeradwyaf hynny'n fawr. Mae lleoliad y cyhoeddusrwydd hwnnw'n arbennig o bwysig, oherwydd bod gan alcohol ran mewn rhwng 50 a 60 y cant o ddigwyddiadau cam-drin yn y cartref. Mae dosbarthu'r wybodaeth honno mewn tafarndai a lleoliadau tebyg yn ffordd dda o'i



creative way of spreading the message.

thargeddu a chymeradwyaf Cymorth i Fenywod y Rhondda am ledaenu'r neges yn y ffordd greadigol honno.

### **Domestic Abuse and Violence**

### **Camdriniaeth a Thrais yn y Cartref**

**Q8 Lesley Griffiths:** What steps is the Minister taking to improve services for women suffering from domestic abuse and violence? OAQ(3)0220(SJL)

**C8 Lesley Griffiths:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau ar gyfer menywod sy'n dioddef camdriniaeth a thrais yn y cartref? OAQ(3)0220(SJL)

**Brian Gibbons:** We are delivering a national strategy to deal with domestic abuse. To assist with the strategy, a budget of £3.6 million has been allocated in 2007-08. We have improved services for victims by establishing many projects across Wales, including a 24-hour helpline and an outreach service for black and minority ethnic women in Wrexham.

**Brian Gibbons:** Yr ydym yn darparu strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref. Er mwyn cynorthwyo gyda'r strategaeth honno, neilltuwyd cyllideb o £3.6 miliwn yn 2007-08. Yr ydym wedi gwella gwasanaethau i ddiodefwyr drwy sefydlu llawer o brosiectau ledled Cymru, gan gynnwys llinell gymorth 24-awr a gwasanaeth allgymorth i fenywod duon a menywod lleiafrifoedd ethnig yn Wrecsam.

**Lesley Griffiths:** In Scotland, in 2004, a special court was piloted in Glasgow that fast-tracked domestic abuse cases. That scheme was deemed to be hugely successful, particularly by the police, who felt that judges became more expert on the specific issues of domestic violence, sentences were more appropriate and victims were given better information and support. While I appreciate that criminal justice is devolved in Scotland, would you consider exploring this scheme by discussing it with the Ministry of Justice?

**Lesley Griffiths:** Yn yr Alban, yn 2004, cynhaliwyd rhaglen beilot yn ninas Glasgow. Trefnwyd llys llwybr-cyflym arbennig i ymdrin ac achosion cam-drin yn y cartref. Y farn oedd, yn enwedig ymhlith yr heddlu, bod y cynllun hwnnw'n llwyddiannus iawn. Teimlent fod y barnwyr yn dod yn fwy o arbenigwyr yn y materion penodol sy'n berthnasol i drais yn y cartref, bod y dedfrydau'n fwy priodol a bod diodefwyr yn cael gwell gwybodaeth a chefnogaeth. Er fy mod yn sylweddoli bod cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli yn yr Alban, a fyddech yn ystyried archwilio'r cynllun hwn drwy ei drafod gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder?

**Brian Gibbons:** The issue of specialist domestic violence courts is important, and I had a meeting before Plenary with some lawyers who were aware of the workings of that court. They said that it was a very welcome development. I think that there are, at the moment, eight special domestic violence courts in operation in Wales, including one, I understand, in Wrexham. Most of those courts have independent domestic violence advisers linked to them, who are able to give further assistance to the victims. I am pleased to say that the number of convictions for domestic violence has gone up quite dramatically and I think that that is

**Brian Gibbons:** Mae mater llysoedd trais yn y cartref arbenigol yn bwysig, a chefais gyfarfod cyn y Cyfarfod Llawn gyda rhai cyfreithwyr a oedd yn ymwybodol o'r ffordd yr oedd y llys hwnnw'n gweithio. Dywedasant ei fod yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr. Credaf fod wyth o lysoedd trais yn y cartref arbennig ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys un yn Wrecsam, fel yr wyf ar ddeall. Mae gan y rhan fwyaf o'r llysoedd hynny gynghorwyr trais yn y cartref annibynnol yn gysylltiedig â hwy, sy'n gallu rhoi rhagor o gymorth i'r diodefwyr. Yr wyf yn falch o ddweud bod nifer yr euogfarnau ar gyfer trais yn y cartref

due, in no small part, to publicity highlighting that domestic violence is not acceptable in the twenty-first century.

**Alun Cairns:** The timing of this question is extremely appropriate, because research indicates that domestic violence rapidly increases during the six nations' championship, probably as a result of the increased consumption of alcohol during that period. Do you recognise that, quite often, men also suffer domestic violence—some reports even say that up to one in six men suffer domestic violence from a female partner? Minister, many of the charities that support individuals who have suffered domestic violence, both male and female, receive funding from local authorities and, sadly, those are the sorts of charities that often get squeezed when budgets are tight. Are you concerned that that may well continue because of this year's tight budget settlement?

**Brian Gibbons:** It would be regrettable if that was to continue, but as I indicated to Lesley Griffiths, we are making a substantial investment in the domestic violence strategy and we are also working with the police forces and the Home Office to deliver a holistic service. I would suggest that the voluntary sector also has a key role to play in this. Again, we have given considerable financial support to voluntary-sector organisations working in this area.

1.40 p.m.

**Bethan Jenkins:** Supporting People in Wales provided £6.5 million in funding for client groups of women escaping domestic abuse. I recognise that this is a significant amount of money, but has sufficient funding, or a strategy, been put in place as a result of the recognition in the report of violent behaviour within gay, lesbian, and transgender relationships?

**Brian Gibbons:** Alun Cairns raised an interesting point in relation to domestic violence against men. However, the

wedi cynyddu'n eithaf dramatig, a chredaf mai'r rheswm dros hynny, yn anad dim, yw'r cyhoeddusrwydd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw trais yn y cartref yn dderbyniol yn yr unfed ganrif ar hugain.

**Alun Cairns:** Mae'r cwestiwn hwn yn eithriadol o amserol, oherwydd dengys ymchwil fod trais yn y cartref yn cynyddu'n gyflym yn ystod pencampwriaeth y chwe gwlad, a hynny mae'n debyg am fod mwy o alcohol yn cael ei yfed yn ystod y cyfnod hwnnw. A ydych yn cydnabod bod dynion hefyd, yn weddol aml, yn dioddef trais yn y cartref—dywed rhai adroddiadau hyd yn oed bod hyd at un dyn ymhob chwech yn dioddef trais yn y cartref dan law partner sy'n fenyw? Weinidog, mae llawer o'r elusennau sy'n cefnogi unigolion sydd wedi dioddef trais yn y cartref, yn ddynion ac yn fenywod, yn cael arian gan awdurdodau lleol, ac, yn anffodus, dyna'r math o elusennau sy'n cael eu gwasgu'n aml pan fydd arian yn brin. A ydych yn poeni bod gwir berygl i hynny barhau oherwydd setliad tyn y gyllideb eleni?

**Brian Gibbons:** Byddai'n anffodus petai hynny'n parhau, ond fel yr awgrymais wrth Lesley Griffiths, yr ydym yn buddsoddi'n sylweddol yn y strategaeth trais yn y cartref ac yr ydym yn gweithio hefyd gyda'r heddluoedd a'r Swyddfa Gartref i ddarparu gwasanaeth cyfannol. Byddwn yn awgrymu bod gan y sector gwirfoddol rôl allweddol i'w chwarae yn hyn hefyd. Unwaith eto, yr ydym wedi rhoi cefnogaeth ariannol sylweddol i fudiadau'r sector gwirfoddol sy'n gweithio yn y maes hwn.

**Bethan Jenkins:** Rhoddodd Cefnogi Pobl yng Nghymru £6.5 miliwn i ariannu grwpiau o fenywod a oedd yn gleientiaid iddynt ac a oedd yn dianc rhag cam-drin yn y cartref. Sylweddolaf fod hwn yn swm sylweddol, ond a oes digon o arian wedi'i ddarparu, neu a oes strategaeth wedi'i llunio yn sgil yr hyn a gydnabyddir yn yr adroddiad, sef bod ymddygiad treisgar yn digwydd mewn perthynas hoyw, lesbaidd a thrawsrywiol?

**Brian Gibbons:** Cododd Alun Cairns bwynt diddorol ynglŷn â thrais yn y cartref yn erbyn dynion. Fodd bynnag, y rhagdybiaeth yn ei

assumption in his question was that this violence towards men was perpetrated by women. We know that, sadly, domestic violence takes place in same-sex relationships as well and we need to recognise that there is no particular stereotype in terms of who is vulnerable or likely to be responsible for domestic violence. We need to acknowledge that, and have a strategy in place that can respond to the unacceptable breadth of this particular social problem.

**Eleanor Burnham:** It is very sad, is it not, that, in around 90 per cent of domestic abuse incidents, children are in the same or the next room? What is the Government's strategy in respect of helping children? Do you not agree that, in light of the number of violent attacks by people who may have been drinking too much, perhaps the Labour Government should revisit the issue of 24-hour drinking?

**Brian Gibbons:** There is certainly no doubt that alcohol is a substantial and growing social problem in Wales, and probably across the United Kingdom. We need to look at all dimensions of the problem to see how we can address it more effectively. That will hopefully be outlined in our substance misuse strategy and also in the alcohol action plan.

Turning to the issue of children, all areas now have domestic abuse co-ordinators. I expect those domestic abuse co-ordinators to work with the children and young people's partnerships in their areas to address that specific issue. I am also pleased to confirm that eight additional children's workers have been funded by the Home Office to work with the Assembly Government, particularly to deal with children housed in refuges to ensure that their needs are effectively addressed.

gwestiwn oedd mai menywod a oedd yn gyfrifol am y trais hwn yn erbyn dynion. Gwyddom, yn anffodus, fod trais yn y cartref yn digwydd mewn perthynas lle mae'r cwpl o'r un rhyw hefyd, ac mae angen inni gydnabod nad oes stereoteipiau penodol o ran pwy sy'n agored i niwed na phwy sy'n debygol o fod yn gyfrifol am drais yn y cartref. Mae angen inni gydnabod hynny, a chael strategaeth a all ymateb i'r broblem gymdeithasol arbennig hon sy'n broblem annerbyniol o eang.

**Eleanor Burnham:** Mae'n drist iawn, onid ydyw, bod plant yn yr un ystafell neu yn yr ystafell nesaf mewn oddeutu 90 y cant o ddigwyddiadau cam-drin yn y cartref? Beth yw strategaeth y Llywodraeth ar gyfer helpu plant? Oni chytunwch, ac ystyried nifer yr ymosodiadau treisgar gan bobl sydd o bosibl wedi bod yn yfed gormod, y dylai'r Llywodraeth Lafur efallai ailystyried y mater yfed 24 awr?

**Brian Gibbons:** Nid oes amheuaeth nad yw alcohol yn broblem gymdeithasol sylweddol a'i bod yn broblem sy'n tyfu yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, mae'n debyg. Mae angen inni edrych ar y broblem yn ei holl weddau i weld sut y gallwn fynd i'r afael â hi'n fwy effeithiol. Gobeithio y bydd hynny'n cael sylw yn ein strategaeth camddefnyddio sylweddau a hefyd yn y cynllun gweithredu ar alcohol.

A throi at fater plant, mae gan bob ardal erbyn hyn gydlynwyr cam-drin yn y cartref. Disgwyliaf i'r cydlynwyr cam-drin yn y cartref hynny weithio gyda'r partneriaethau plant a phobl ifanc yn eu hardaloedd er mwyn mynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw. Yr wyf yn falch o gadarnhau hefyd fod y Swyddfa Gartref wedi ariannu wyth o weithwyr plant ychwanegol i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad, i ymdrin yn benodol â phlant sy'n byw mewn llochesau er mwyn sicrhau bod sylw effeithiol yn cael ei roi i'w hanghenion.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing**

### **Water Pollution**

### **Llygredd Dŵr**

**Q1 Brynle Williams:** Will the Minister make a statement on the prevention of water pollution in Wales? OAQ(03)0194(ESH)

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** The Assembly Government places a high priority on water quality, as highlighted in the environment strategy for Wales, which includes outcomes on maintaining and enhancing the quality of our coastal waters and rivers, ensuring that our seas are clean, and maintaining high-quality drinking water supplies.

**Brynle Williams:** Dairy farmers are being encouraged by your colleagues to manage larger and larger herds in the name of efficiency. Do you agree that it is absurd for your Government to gold-plate the EU nitrate directive, which will demand slurry storage capacity for five and a half months, when a number of herds, due to economic pressures, have been forced onto the New Zealand system, where the herds will be housed for only two months of the year and yet we will have to provide storage for the extra three and a half months? As nitrate leaching in watercourses has already dramatically reduced in the existing nitrate vulnerable zones, what justification can you provide for ignoring this evidence and undermining productivity—as this is what will happen—even further, when the EU predicts that it will achieve a reduction of only 1 per cent?

**Jane Davidson:** We have to comply with European directives and it is important to say that the coverage of nitrate vulnerable zones in Wales is currently very small, and that will remain the case even if, after considering the responses to the recent consultation exercise—into which I know you have had an input—we designate all of the areas proposed in the consultation paper.

It is probably worth saying that, although I am responsible for the identification of the nitrate-vulnerable zones, as they are established to protect waters threatened by agricultural nitrate pollution, matters relating to the action programme that you mention are

**C1 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atal llygredd dŵr yng Nghymru? OAQ(03)0194(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi blaenoriaeth uchel i ansawdd dŵr, fel y pwysleisir yn y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys canlyniadau ar gynnal a gwella ansawdd ein dŵr arfordirol a'n hafonydd, sicrhau bod ein moroedd yn lân a chynnal ansawdd uchel cyflenwadau dŵr yfed.

**Brynle Williams:** Mae eich cyd-Aelodau'n annog ffermwyr llaeth i reoli buchesau mwy a mwy er mwyn bod yn fwy effeithlon. A gytunwch ei bod yn hurt i'ch Llywodraeth roi sêl ei bendith ar gyfarwydddeb nitradau'r DU, a fydd yn mynnu ei bod yn rhaid cael lle i storio biswail am bum mis a hanner, a hynny ar adeg pan mae nifer o ffermwyr, oherwydd pwysau economaidd, wedi cael eu gorfodi i droi at system Seland Newydd? Dim ond am ddeufis y flwyddyn y bydd y buchesau'n cael eu cadw dan do. Eto i gyd, bydd yn rhaid inni ddarparu lle storio am y tri mis a hanner ychwanegol. Gan fod gostyngiad dramatig wedi bod eisoes yn y nitradau sy'n gollwng i gyrsiau dŵr yn y parthau perygl nitradau sydd gennym ar hyn o bryd, sut y gallwch gyfiawnhau anwybyddu'r dystiolaeth hon a thanseilio cynhyrchiant unwaith eto—a dyma fydd yn digwydd—er bod yr UE yn rhagweld mai gostyngiad o 1 y cant yn unig y llwyddir i'w sicrhau?

**Jane Davidson:** Rhaid inni gydymffurfio â chyfarwydddebau Ewrop ac mae'n bwysig dweud bod y parthau perygl nitradau yng Nghymru'n fach iawn ar hyn o bryd, ac na fydd hynny'n newid, hyd yn oed os byddwn, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghori diweddar—y gwn ichi gyfrannu ato—yn dynodi'r holl ardaloedd a gynnigir yn y papur ymgynghori.

Mae'n werth dweud, mae'n debyg, er mai fi sy'n gyfrifol am nodi'r parthau perygl nitradau, gan eu bod yn cael eu sefydlu i amddiffyn dyfroedd y mae perygl i nitradau amaethyddol eu llygru, mai materion i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yw

for the Minister for Rural Affairs. I shall ensure that she knows of your concerns.

**Chris Franks:** Thousands of litres of diesel turned the local stream at Llantwit Fardre red recently. Children who played in the water have complained of skin irritation, and the Environment Agency is investigating. Will you look into this matter and indicate how such incidents can be prevented?

**Jane Davidson:** The Environment Agency has substantial powers under pollution regulations, and I know that it is looking into this incident. I will be interested to see the outcome of the action that it takes to ensure that it does not happen again.

### Tanwydd Cartrefi

**C2 Nerys Evans:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch pris tanwydd cartrefi yng Nghymru? OAQ(03)0217(ESH)

**Jane Davidson:** Cefais gyfarfod â'r grŵp sy'n cadw llygad ar ynni, sef Golwg ar Ynni, yr wythnos hon. Un o'r prif faterion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod oedd y cynnydd diweddar ym mhrisiau ynni, a'r modd y gellir amddiffyn yr aelwydydd mwyaf bregus rhag effaith lawn y cynnydd hwn.

**Nerys Evans:** Mae'n siŵr gennyf eich bod yn ymwybodol o'r sefyllfa annerbyniol gyfredol; mae nifer y bobl sy'n dioddef tlodi tanwydd wedi dyblu bron rhwng 2004 a 2006. Hefyd, mae anghyfartaledd helaeth rhwng defnyddwyr tanwydd yng Nghymru a Lloegr, a bu cynnydd enfawr ym miliau pobl ac yn elw cwmnïau ynni. A ydych yn cefnogi datganoli pwerau dros gyfleustodau? Beth yw eich barn am ddod â'r cyfleustodau yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus?

**Jane Davidson:** I am supportive of our looking into what is causing the difference in regional prices across the UK. I was delighted that it was announced yesterday that the House of Commons committee will look broadly at energy and tariff issues. It is

materion yn ymwneud â'r rhaglen weithredu y soniwch amdani. Byddaf yn gwneud yn siŵr ei bod yn gwybod am eich pryderon.

**Chris Franks:** Trodd miloedd o litrau o ddiesel y nant leol yn Llanilltud Faerdref yn goch yn ddiweddar. Mae plant a fu'n chwarae yn y dŵr wedi cwyno am lid ar y croen, ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymchwilio. A wnewch chi ymchwilio i'r mater hwn a dangos sut y gellir atal digwyddiadau o'r fath?

**Jane Davidson:** Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd bwerau sylweddol dan y rheoliadau llygredd, a gwn ei bod yn ymchwilio i'r digwyddiad hwn. Bydd gennyf ddiddordeb i weld canlyniad y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau nad yw'n digwydd eto.

### Household Fuel

**Q2 Nerys Evans:** What discussions has the Minister had regarding the price of household fuel in Wales? OAQ(03)0217(ESH)

**Jane Davidson:** I met with the energy watchdog, Energywatch, this week. One of the main things that we discussed at the meeting was the recent energy price rises, and how the most vulnerable households can be protected from the full impact of these price rises.

**Nerys Evans:** I am sure that you are aware of the current unacceptable situation; the number of people suffering fuel poverty almost doubled between 2004 and 2006. Furthermore, there are vast inequalities between energy users in Wales and England, while people's bills have risen and the energy companies have seen increased profits. Are you supportive of the devolution of powers over utilities? What is your view on bringing utilities back into public ownership?

**Jane Davidson:** Yr wyf yn cefnogi ymchwilio i'r hyn sy'n achosi'r gwahaniaeth mewn prisiau rhanbarthol ar draws y DU. Yr oeddwn wrth fy modd fod cyhoeddiad wedi cael ei wneud ddoe y bydd Tŷ'r Cyffredin yn edrych yn gyffredinol ar faterion ynni a

important that Wales has an opportunity to have an input. Anyone who has met with Energywatch recently, as I did on Monday, will know that there are substantial regional differences. We need to explore, as Energywatch is doing, why those differences exist, and whether there is any basis for them. I shall continue my dialogue with the companies, Energywatch and Ofgem to take the issue forward for Wales.

**William Graham:** You will know, Minister, that the price incentive for householders contemplating selling the excess power of their microgeneration systems is so pitiful that very few people will consider microgeneration as a fuel consumption reduction programme. Will you exercise some influence with your colleagues in Westminster to increase the amount of money that will be paid for power from microgeneration, perhaps on a par with what is paid in Germany?

**Jane Davidson:** A different, feed-in tariff system operates in Germany, and I have already lent my support to that in a letter to John Hutton. The other aspect of microgeneration is the planning system. We recently had a consultation on lifting the barriers to microgeneration, and the Assembly will make regulations on that this autumn. We will also consult on issues that affect community and commercial premises, so that they can also have the barriers to microgeneration lifted. Therefore, we can take some real action ourselves to help with this agenda.

**Jenny Randerson:** Another way to save energy and prevent fuel poverty is to ensure that new buildings are built to adequate energy conservation standards. What progress have you made in your discussions with Westminster and Whitehall on the process for ensuring that the Assembly Government has control over building regulations?

**Jane Davidson:** We have maintained our commitment to the devolution of building regulations, and it is under active

phrisiau. Mae'n bwysig bod Cymru'n cael cyfle i gyfrannu. Bydd unrhyw un sydd wedi cwrdd â Golwg ar Ynni yn ddiweddar, fel y gwneuthum i ddydd Llun, yn gwybod bod gwahaniaethau rhanbarthol sylweddol. Mae angen i ni archwilio, fel y mae Golwg ar Ynni yn ei wneud, pam mae'r gwahaniaethau hynny'n bodoli, ac a oes unrhyw sail iddynt. Byddaf yn parhau â'm deialog gyda'r cwmnïau, Golwg ar Ynni ac Ofgem er mwyn symud y mater hwn ymlaen yng Nghymru.

**William Graham:** Byddwch yn gwybod, Weinidog, fod y cymhelliad pris i ddeiliaid tai sy'n ystyried gwerthu'r pŵer dros ben o'u systemau microgynhyrchu mor bitw fel mai ychydig iawn o bobl fydd yn ystyried microgynhyrchu fel rhaglen i leihau faint o danwydd y maent yn ei ddefnyddio. A wnewch arfer rhywfaint o ddylanwad gyda'ch cyd-Weinidogion yn San Steffan i gynyddu'r swm o arian a delir am bŵer sy'n deillio o ficrogynhyrchu, er mwyn iddo gyfateb i'r hyn a delir yn yr Almaen, efallai?

**Jane Davidson:** Mae system brisiau wahanol, system bwydo i mewn, ar waith yn yr Almaen, ac yr wyf eisoes wedi cefnogi hynny mewn llythyr at John Hutton. Yr agwedd arall ar ficrogynhyrchu yw'r gyfundrefn gynllunio. Yn ddiweddar cawsom ymgynghoriad ar godi'r rhwystrau rhag microgynhyrchu, a bydd y Cynulliad yn gwneud rheoliadau ar hynny yr hydref hwn. Byddwn hefyd yn ymgynghori ynghylch materion sy'n effeithio ar eiddo cymunedol a masnachol, fel y gall y rhwystrau rhag microgynhyrchu gael eu codi iddynt hwythau hefyd. Felly, mae modd inni gymryd camau gwirioneddol ein hunain i helpu gyda'r agenda hon.

**Jenny Randerson:** Ffordd arall o arbed ynni ac atal tlodi tanwydd yw sicrhau bod adeiladau newydd yn cael eu codi yn unol â safonau cadwraeth ynni digonol. Pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud yn eich trafodaethau gyda San Steffan a Whitehall am y broses i sicrhau bod gan Lywodraeth y Cynulliad reolaeth dros y rheoliadau adeiladu?

**Jane Davidson:** Yr ydym wedi cynnal ein hymrwymiad i ddatganoli'r rheoliadau adeiladu, ac mae'n cael ystyriaeth fyw gan

consideration by our colleagues in Westminster. I met the new housing Minister to consider this last night.

### Planning Bill

**Q3 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** What assessment has the Minister made of the Planning Bill currently going through Westminster? OAQ(03)0187(ESH)

**Jane Davidson:** I issued a written statement in December, which outlined the Welsh Assembly Government's position on the Bill. I have given a commitment to make further statements on the Bill as it progresses through Parliament.

1.50 p.m.

**Michael German:** Yesterday was day 9 of the Committee Stage in the Bill's progress through Parliament, and still no amendment has come from the Government with the framework powers for the National Assembly for Wales. Why have we not yet seen the Government amendment on those framework powers? Is it because you are still battling for the 50 MW-plus powers to be transferred to Wales, or is it simply because the Government does not see it as a priority?

**Jane Davidson:** The issues around the amendments in terms of Welsh powers are not contentious and they will be incorporated in the Bill in due course. This was discussed in committee.

**Bethan Jenkins:** You will, no doubt, be seeking enhanced planning powers under this particular Bill. Are you satisfied that you have sufficient planning powers to protect the communities in my region? I am thinking in particular about Kenfig Hill, in the Bridgend area, which is threatened by opencast operations?

**Jane Davidson:** The area that you have mentioned would be covered by our technical advice note on coal. I am happy to indicate to Members today that, having considered the research commissioned by my officials and

ein cyd-Weinidogion yn San Steffan. Cyfarfûm â'r Gweinidog tai newydd i ystyried hyn neithiwr.

### Mesur Cynllunio

**C3 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r Mesur Cynllunio sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd? OAQ(03)0187(ESH)

**Jane Davidson:** Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr, a oedd yn amlinellu safbwynt y Llywodraeth o ran y Mesur. Yr wyf wedi addo gwneud datganiadau pellach am y Mesur wrth iddo fynd yn ei flaen drwy'r Senedd.

**Michael German:** Ddoe oedd diwrnod 9 y Cam Pwyllgor yn hynt y Mesur drwy'r Senedd, ac nid oes gwelliant wedi dod oddi wrth y Llywodraeth o hyd gyda'r pwerau fframwaith i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pam nad ydym eto wedi gweld gwelliant y Llywodraeth ar y pwerau fframwaith hynny? Ai am eich bod yn dal i ymladd am i'r pwerau uwchlaw 50 MW gael eu trosglwyddo i Gymru, ynteu ai'r rheswm yn syml yw nad yw'r Llywodraeth yn ei ystyried yn flaenoriaeth?

**Jane Davidson:** Nid yw'r materion sy'n ymwneud â'r gwelliannau yng nghyswllt pwerau i Gymru yn rhai dadleuol, a byddant yn cael eu hymgorffori yn y Mesur maes o law. Cafodd hyn ei drafod yn y pwyllgor.

**Bethan Jenkins:** Byddwch, mae'n siŵr, yn ceisio pwerau cynllunio ehangach o dan y Mesur penodol hwn. A ydych yn fodlon bod digon o bwerau cynllunio gennych i amddiffyn cymunedau yn fy rhanbarth i? Yr wyf yn meddwl yn arbennig am Fynyddcynffig, yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cael ei fygwth gan weithfeydd cloddio glo brig?

**Jane Davidson:** Byddai'r ardal yr ydych yn cyfeirio ati yn cael ei chwmpasu gan ein nodyn cyngor technegol ar lo. Yr wyf yn hapus i ddweud wrth yr Aelodau heddiw fy mod, ar ôl ystyried yr ymchwil a

the consultation responses received during the 2006 consultation, I have decided to revisit some of the key areas, including the width of the buffer zones and the introduction of compulsory health impact assessments for opencast coal applications. I do not need to remind Members that these are 'One Wales' commitments. A written statement will be published at 3 p.m. today, which will invite views on increasing the width of the buffer zone to 500m and on the introduction of health impact assessments. The consultation paper will be issued later this month for a 12-week period. Assembly Members will have an opportunity to discuss this in a Plenary debate on 4 March.

**Darren Millar:** One of the provisions in the Planning Bill is the community infrastructure levy, which is to be paid by landowners to support the cost of infrastructure in areas in which the levy is raised. What representations have you made to the UK Government to ensure that if this levy is charged to projects in Wales, it will be ring-fenced for projects within the local authority area in which the levy is collected and not siphoned off for projects in galaxies far away?

**Jane Davidson:** You must be referring to the comments of David Jones MP, who suggested that the community infrastructure levy in north Wales could be applied in south Wales. The comments were mischievous and misleading, and they do not represent the current position, but that does not surprise me.

The type of infrastructure supported through the levy has yet to be fully defined but, typically, it will include roads and drainage, community facilities and open-space provision associated with a development. Should they decide to make use of the enabling powers, each local planning authority will be expected to develop a local scheme for raising its levy. This will be prepared alongside, and linked to, the authorities' preparation of their local development plan. The power will enable authorities to raise funds for expenditure

gomisiynwyd gan fy swyddogion a'r ymatebion ymgynghori a ddaeth i law yn ystod ymgynghoriad 2006, wedi penderfynu ailedrych ar rai o'r meysydd allweddol, gan gynnwys lled y clustogfeydd a chyflwyno asesiadau gorfodol o effaith ar iechyd ar gyfer ceisiadau am gloddio glo brig. Nid oes angen imi atgoffa'r Aelodau fod y rhain yn ymrwymadau 'Cymru'n Un'. Caiff datganiad ysgrifenedig ei gyhoeddi am 3 p.m. heddiw, a fydd yn gwahodd pobl i fynegi eu barn am gynyddu lled y clustogfeydd i 500m ac am gyflwyno asesiadau o'r effaith ar iechyd. Caiff y papur ymgynghori ei gyhoeddi'n ddiweddarach y mis hwn am gyfnod o 12 wythnos. Caiff Aelodau'r Cynulliad gyfle i drafod hyn mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mawrth.

**Darren Millar:** Un o'r darpariaethau yn y Mesur Cynllunio yw'r ardoll seilwaith cymunedol, sydd i gael ei thalu gan dirfeddianwyr i gynorthwyo gyda chost seilwaith mewn ardaloedd lle caiff yr ardoll ei chodi. Pa sylwadau ydych chi wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU i sicrhau, os bydd yr ardoll hon yn cael ei chodi ar brosiectau yng Nghymru, y caiff ei neilltuo ar gyfer prosiectau o fewn ardal yr awdurdod lleol lle cesglir yr ardoll ac na fydd yn cael ei chipio ar gyfer prosiectau mewn galaethau pellennig?

**Jane Davidson:** Rhaid eich bod yn cyfeirio at sylwadau David Jones AS, a awgrymodd y gallai'r ardoll seilwaith cymunedol yn y gogledd gael ei defnyddio yn y de. Yr oedd y sylwadau'n ddrygionus ac yn gamarweiniol, ac nid ydynt yn cynrychioli'r sefyllfa gyfredol, ond nid yw hynny yn fy synnu.

Nid yw'r math o seilwaith a gaiff gymorth drwy'r ardoll wedi cael ei ddiffinio'n llawn eto ond, fel arfer, bydd yn cynnwys ffyrdd a draeniau, cyfleusterau cymunedol a darpariaethau manau agored. Os penderfynant ddefnyddio'r pwerau galluogi, bydd disgwyl i bob awdurdod cynllunio lleol ddatblygu cynllun lleol i godi ei ardoll. Caiff hwn ei baratoi ochr yn ochr â gwaith yr awdurdodau wrth iddynt baratoi eu cynllun datblygu lleol, a bydd yn cyd-fynd ag ef. Bydd y pŵer yn galluogi awdurdodau i godi arian i'w wario yn eu hardal lleol. Fodd bynnag, gallai dau



within their local area. However, two or more authorities could seek to work together if the project was of benefit more widely, and come to an agreement as to how the levy might be shared across authorities. Therefore, I hope that you will alleviate the inappropriate concerns expressed.

**Darren Millar:** I am happy to hear your comments but they do not clarify the situation at all. You have done nothing to reassure communities in north, mid and west Wales that you do not intend to levy this charge to fund projects in the south. If, as you have said today, you agree with my colleague that these funds should be spent in the areas in which they are raised, will you then join my party in seeking an amendment to the Bill to ensure that the community infrastructure levy raised in local authority areas stays in those areas? That is not clear from the information that has been given to my colleague in Westminster. Your colleague in Westminster on the Labour benches has not given any indication or reassurance on that front.

**Jane Davidson:** It is interesting to note that your colleague proposed that the measure should only relate to the Wales spatial plan and not to local development plans, and then withdrew the amendment in committee.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 4, OAQ(03)0193(ESH), i'w ateb yn ysgrifenedig.

### Carbon Emission Reduction

**Q5 Eleanor Burnham:** What plans does the Minister have to ensure that Wales contributes fully to meeting UK-wide targets for carbon emission reduction?  
OAQ(03)0207(ESH)

**Jane Davidson:** The Assembly Government has committed to ambitious emission reduction targets in 'One Wales', and we are committed to Wales playing its part in meeting UK targets. The climate change commission for Wales will play a key role in developing these targets and the programme of action to deliver them.

neu ragor o awdurdodau geisio gweithio gyda'i gilydd petai'r prosiect yn un a fyddai'n dod â budd ehangach, a dod i gytundeb ynglŷn â sut y câi'r ardoll ei rhannu ar draws yr awdurdodau. Felly, gobeithiaf y byddwch yn lliniaru'r pryderon amhriodol a fynegwyd.

**Darren Millar:** Yr wyf yn falch o glywed eich sylwadau ond nid ydynt yn gwneud y sefyllfa'n gliriach o gwbl. Nid ydych wedi gwneud dim i dawelu meddyliau cymunedau yn y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin nad ydych yn bwriadu codi'r tâl hwn i gyllido prosiectau yn y de. Os ydych, fel yr ydych wedi dweud heddiw, yn cytuno â'm cyd-Aelod y dylai'r arian gael ei wario yn yr ardaloedd lle caiff ei godi, a wnewch ymuno â'm plaid i geisio gwelliant i'r Mesur er mwyn sicrhau bod yr ardoll seilwaith cymunedol a godir yn ardaloedd awdurdodau lleol yn aros yn yr ardaloedd hynny? Nid yw hynny'n glir o'r wybodaeth sydd wedi cael ei rhoi i'm cyd-Aelod yn San Steffan. Nid yw eich cyd-Weinidog yn San Steffan ar y meinciau Llafur wedi rhoi unrhyw arwydd na sicrwydd ynglŷn â hynny.

**Jane Davidson:** Mae'n ddiddorol sylwi bod eich cyd-Aelod wedi cynnig na ddylai'r mesur ond cyfeirio at gynllun gofodol Cymru, nid at gynlluniau datblygu lleol, a'i fod wedyn wedi tynnu'r gwelliant hwnnw yn ôl yn y pwyllgor.

**The Presiding Officer:** Question 4, OAQ(03)0193(ESH), has been transferred for written answer.

### Gostwng Gollyngiadau Carbon

**C5 Eleanor Burnham:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod Cymru'n cyfrannu'n llawn at gyrraedd targedau'r DU i ostwng gollyngiadau carbon?  
OAQ(03)0207(ESH)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i dargedau uchelgeisiol i ostwng gollyngiadau carbon yn 'Cymru'n Un', ac yr ydym yn ymrwymo i sicrhau y bydd Cymru yn chwarae ei rhan i gyflawni targedau'r DU. Bydd comisiwn Cymru ar y newid yn yr hinsawdd yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r

targedau hyn a'r rhaglen weithredu i'w gwireddu.

**Eleanor Burnham:** I am grateful for that answer. My colleague Mick Bates has far more expertise in this matter than I do.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw. Mae gan fy nghyd-Aelod Mick Bates lawer mwy o arbenigedd yn y mater hwn na mi.

A recent report by the Institute for Public Policy Research, World Wildlife Fund and the Royal Society for the Protection of Birds called for carbon emissions to be reduced by 80 per cent by 2050, which is an even more ambitious target than the legally binding reduction of 60 per cent proposed in the Bill that has been going through Parliament. Many recommendations were made in the Assembly's Sustainability Committee's report, and I probably only have time to ask a question about one recommendation, which is recommendation 4. The committee recommends that the Welsh Assembly Government urges the UK Government to put in place a robust enforcement mechanism to ensure that targets are met. How will the Government achieve this?

Galwodd adroddiad diweddar gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar am ostwng 80 y cant ar ollyngiadau carbon erbyn 2050, sy'n darged hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol na'r gostyngiad cyfreithiol rwymol o 60 y cant a gynigir yn y Mesur a fu'n mynd drwy'r Senedd. Gwnaethpwyd llawer o argymhellion yn adroddiad Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad, ac mae'n debyg nad oes gennyf ond amser i ofyn cwestiwn am un argymhelliad, sef argymhelliad 4. Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Llywodraeth y DU i sefydlu mecanwaith gorfodi cryf i sicrhau y cyrhaeddir y targedau. Sut y bydd y Llywodraeth yn cyflawni hyn?

**Jane Davidson:** That recommendation relates explicitly to the fact that details of enforcement on the targets are not included on the face of the Bill. It was on that basis that the committee asked me to take that up with the UK Government, which I have done and will continue to do.

**Jane Davidson:** Mae a wnelo'r argymhelliad hwnnw'n benodol â'r ffaith nad oes manylion am orfodi'r targedau wedi cael eu cynnwys yn amlwg yn y Mesur. Ar y sail honno y gofynnodd y pwyllgor imi godi hynny gyda Llywodraeth y DU. Yr wyf wedi gwneud hynny a byddaf yn parhau i wneud hynny.

On the 80 per cent target, it is some months now since the Prime Minister and the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs gave reassurances to people that should there be sufficient evidence behind that target, and if the climate change committee explicitly recommended it, the Government would accommodate that.

O ran y targed o 80 y cant, mae rhai misoedd wedi mynd heibio bellach ers i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sicrhau pobl, petai tystiolaeth ddigonol yn sail i'r targed hwnnw, a phetai'r pwyllgor ar y newid yn yr hinsawdd yn argymhell hynny, y byddai'r Llywodraeth yn darparu ar gyfer hynny.

**Nick Ramsay:** I am pleased that you see the importance of these targets, given the latest figures that show that carbon emissions in Wales are the highest in the UK per head of population, and, in fact, I think that we are the twelfth highest in the world.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn falch eich bod yn gweld pwysigrwydd y targedau hyn, o ystyried y ffigurau diweddaraf sy'n dangos mai'r gollyngiadau carbon yng Nghymru yw'r uchaf yn y DU fesul pen o'r boblogaeth, ac, yn wir, credaf ein bod yn ddeuddegfed uchaf yn y byd.

On what local authorities can do to ease this problem, would you agree that more of a

O ran yr hyn y gall awdurdodau lleol ei wneud i liniaru'r broblem hon, a fydddech yn

movement towards the construction of timber houses, rather than brick-built houses, would have a significant impact on the carbon footprint of the people of Wales? What is your Government doing to help this along?

**Jane Davidson:** In answer to Jenny Randerson earlier I commented on the devolution of building regulations, under which we are seeking to deliver zero carbon homes from 2011. We are keen to see homes constructed from sustainable timber as well as from bricks, and the critical element for those living in them is that we have good, high-quality energy efficiency measures to ensure that individuals are not subjected to high-energy prices in inefficient buildings. This will still only deal with a very small proportion of housing—new-build homes make up about 2 per cent of the housing market in Wales. All ways of meeting emission targets will be under discussion by our climate change commission in setting sectoral targets in Wales.

#### Affordable Housing

**Q6 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the progress of the proposed affordable housing legislative competence Order? OAQ(03)0212(ESH)

**The Deputy Minister for Housing (Jocelyn Davies):** The proposed affordable housing legislative competence Order is currently being considered by the Assembly's Proposed Affordable Housing LCO Committee. I gave evidence to the committee on 22 January and have since written to provide clarification on part of the wording of the Order.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Deputy Minister. You may be aware that a lot of the evidence presented to the LCO committee indicates that it might be better if the LCO were more widely drawn to take account of a number of other issues that might need to be addressed to tackle the affordable housing crisis in Wales.

cytuno y byddai mwy o symud at godi tai pren, yn hytrach na thai brics, yn effeithio'n sylweddol ar ôl troed carbon pobl Cymru? Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i helpu hynny?

**Jane Davidson:** Mewn ymateb i Jenny Randerson yn gynharach, soniais am ddatganioli'r rheoliadau adeiladu. O dan y rheini yr ydym yn ceisio darparu cartrefi digarbon erbyn 2011. Yr ydym yn awyddus i weld cartrefi'n cael eu codi o goed cynaliadwy yn ogystal ag o frics, a'r elfen dyngedfennol i'r rhai sy'n byw ynddynt yw bod gennym fesurau effeithlonrwydd ynni da, o ansawdd uchel, i sicrhau nad yw unigolion yn wynebu prisiau ynni uchel mewn adeiladau aneffeithiol. Dim ond â chyfran fach iawn o dai y bydd hyn yn ymdrin ag ef serch hynny—dim ond tua 2 y cant o'r farchnad dai yng Nghymru sy'n dai newydd. Bydd pob ffordd o gyrraedd y targedau gollyngiadau yn cael ei thrafod gan ein comisiwn ar y newid yn yr hinsawdd wrth bennu targedau sectoraidd yng Nghymru.

#### Tai Fforddiadwy

**C6 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol tai fforddiadwy? OAQ(03)0212(ESH)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ynghylch tai fforddiadwy yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Bwyllgor y Cynulliad ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy. Cyflwynais dystiolaeth i'r pwyllgor ar 22 Ionawr ac ers hynny yr wyf wedi ysgrifennu i ddarparu eglurhad ar ran o eiriad y Gorchymyn.

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Efallai eich bod yn ymwybodol bod llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i bwyllgor y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn dangos y byddai efallai'n well petai'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei lunio'n fwy eang er mwyn iddo ystyried nifer o faterion eraill y gallai fod angen rhoi sylw iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng tai fforddiadwy yng Nghymru.

I draw your attention in particular to the need to make use of existing powers to deal with the issue. Local councils throughout Wales, for example, are using section 106 agreements in a haphazard manner, and evidence that we received earlier this week indicated that just over 800 units were built in this way by just 11 councils, which suggests that the remaining authorities are not using section 106 agreements to any affect at all. What action are you taking to address this?

Tynnaf eich sylw yn arbennig at yr angen i ddefnyddio'r pwerau presennol i ymdrin â'r mater. Mae cynghorau lleol ledled Cymru, er enghraifft, yn defnyddio cytundebau adran 106 rywsut-rywsut, ac yr oedd tystiolaeth a gawsom yn gynharach yr wythnos hon yn dangos mai ychydig dros 800 o unedau a godwyd yn y ffordd hon, a hynny gan ddim ond 11 o gynghorau. Awgryma hyn nad yw gweddill yr awdurdodau'n defnyddio cytundebau adran 106 i unrhyw effaith o gwbl. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â hyn?

2.00 p.m.

**Jocelyn Davies:** We are doing everything we can, within our powers, on section 106 agreements. We are in discussions with local authorities on improving their negotiating skills, and we will shortly establish the affordable housing delivery plans that every local authority must have to demonstrate how it is meeting needs in the area. However, that is no reason why we should not also go ahead with this legislative competence Order.

**Jocelyn Davies:** Yr ydym yn gwneud popeth a allwn, o fewn ein pwerau, ar gytundebau adran 106. Yr ydym yn cael trafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch gwella'u sgiliau negodi, a chyn hir byddwn yn sefydlu'r cynlluniau ar gyfer darparu tai fforddiadwy y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol eu cael i ddangos sut y mae'n diwallu anghenion yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw hwnnw'n rheswm dros beidio â bwrw ymlaen â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn hefyd.

**Peter Black:** Evidence elsewhere indicates that local authorities that take a robust attitude and cover all bases in their local plans and strategies are able to stand up to developers much more. Are you considering giving advice to local authorities on best practice in Wales and in England as well as on how to adapt that best practice for their own means?

**Peter Black:** Dengys tystiolaeth o fannau eraill fod awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu agwedd gadarn ac sy'n rhoi sylw i'r holl elfennau sylfaenol yn eu strategaethau a'u cynlluniau lleol yn gallu gwrthsefyll datblygwyr yn well o lawer. A ydych yn ystyried cynghori awdurdodau lleol am yr arfer gorau yng Nghymru ac yn Lloegr yn ogystal â sut i addasu'r arfer gorau hwnnw at eu dibenion eu hunain?

**Jocelyn Davies:** I could not agree with you more. I have said in the Chamber in the past that there are good examples and I would not want to give the impression that all local authorities are failing in that respect. The local authority here in Cardiff has an excellent record on securing affordable housing in its negotiations with developers, and that means that housing is secured without any cost whatsoever to the public purse, which is to be commended. We have held a series of seminars throughout Wales to assist local authority members and officers, and to encourage this policy. Once they have

**Jocelyn Davies:** Yr wyf yn cytuno â chi i'r carn. Yr wyf wedi dweud yn y Siambr yn y gorffennol fod yna enghreifftiau da, ac ni fyddwn am roi'r argraff fod pob awdurdod lleol yn methu yn hynny. Mae gan yr awdurdod lleol yma yng Nghaerdydd enw arbennig o dda am sicrhau tai fforddiadwy yn ei drafodaethau gyda datblygwyr, ac mae hynny'n golygu bod y tai'n cael eu darparu heb ddim cost o gwbl i'r pwrs cyhoeddus, sydd i'w ganmol. Yr ydym wedi cynnal cyfres o seminarau ledled Cymru i helpu aelodau a swyddogion awdurdodau lleol, ac i hybu'r polisi hwn. Ar ôl iddynt gynhyrchu'r

to produce these affordable housing delivery plans, I am sure that we will see a big improvement.

**Alun Ffred Jones:** The purpose of this LCO is to increase the provision of rented accommodation for those in need. The new Minister with responsibility for housing in Westminster, however, has indicated that new tenants will have to sign an agreement to seek work or face eviction. Does the One Wales Government have plans to follow the Westminster line?

**Jocelyn Davies:** None whatsoever. That is a proposal by a UK Minister for housing and it certainly does not accord with our plans for Wales. Our focus has been on improving the quality of Welsh social housing, with the imposition of the Welsh housing quality standard, which must be met by 2012. We also intend to improve the regulatory regime to ensure that those who provide social housing also respond to the needs of their tenants, including those who are economically inactive. We want to strengthen tenants' rights. I would like to see the development of a single social housing tenancy and the end of the status of tolerated trespassers, when tenants have no tenancy right whatsoever while they are subject to possession orders.

**Mark Isherwood:** In committee yesterday, we heard from representatives of the Chartered Institute of Housing Cymru, among others. They said that a Measure to allow local authorities to apply to suspend the right to buy will not increase the supply of social housing in the short term. They also said that it would just adjourn the local agenda for a while, allowing local authorities to hold the line for a limited time. If the intention of this Order is to increase the supply of social housing available for rent, how will that be achieved if that is the situation?

**Jocelyn Davies:** As I explained when I gave evidence to the committee, this is just one of several tools that we are providing to local authorities. You will also be aware of the review into the regulatory regime for social registered landlords, and I thank you for your

cynlluniau hyn i ddarparu tai fforddiadwy, yr wyf yn ffyddiog y gwelwn welliant mawr.

**Alun Ffred Jones:** Pwrpas y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yw darparu mwy o lety ar rent ar gyfer pobl mewn angen. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog newydd sy'n gyfrifol am dai yn San Steffan wedi awgrymu y bydd yn rhaid i denantiaid newydd lofnodi cytundeb y byddant yn chwilio am waith neu'n wynebu cael eu troi allan. A oes gan Lywodraeth Cymru'n Un gynlluniau i ddilyn yr un trywydd â San Steffan?

**Jocelyn Davies:** Dim o gwbl. Cynnig gan Weinidog y DU dros dai yw hwnnw ac yn sicr nid yw'n cyd-fynd â'n cynlluniau ni ar gyfer Cymru. Mae ein ffocws ni wedi bod ar wella ansawdd tai cymdeithasol Cymru, gan osod safon ansawdd tai Cymru, a rhaid cyrraedd honno erbyn 2012. Yr ydym hefyd yn bwriadu gwella'r drefn reoliadol i sicrhau bod y rheini sy'n darparu tai cymdeithasol hefyd yn ymateb i anghenion eu tenantiaid, gan gynnwys y rheini sy'n economaidd anweithgar. Mae arnom eisiau cryfhau hawliau tenantiaid. Carwn weld datblygu tenantiaeth tai cymdeithasol sengl a diwedd statws tresmaswyr sy'n cael eu goddef, pan nad oes gan denantiaid hawl tenantiaeth o gwbl pan fyddant yn destun gorchymynion meddiannu.

**Mark Isherwood:** Mewn pwyllgor ddoe, clywsom gan gynrychiolwyr o Sefydliad Tai Siartredig Cymru, ymysg eraill. Dywedasant na fydd Mesur i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud cais i ohirio'r hawl i brynu yn cynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol yn y tymor byr. Dywedwyd hefyd mai'r cyfan y byddai hynny'n ei wneud fyddai gohirio'r agenda leol am gyfnod, gan alluogi awdurdodau lleol i gynnal y sefyllfa am ychydig amser. Os bwriad y Gorchymyn hwn yw cynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu, sut y caiff hynny ei gyflawni os dyna yw'r sefyllfa?

**Jocelyn Davies:** Fel yr eglurais pan gyflwynais dystiolaeth gerbron y pwyllgor, dim ond un offeryn yw hwn o blith amryw yr ydym yn eu darparu i awdurdodau lleol. Gwyddoch hefyd am yr adolygiad o'r drefn reoliadol ar gyfer landlordiaid cofrestredig

support for that.

cymdeithasol, ac yr wyf yn diolch ichi am eich cefnogaeth i hynny.

### Tidal Lagoons

### Morlynnoedd Llanw

**Q7 Leanne Wood:** Will the Minister make a statement on the development of tidal lagoons in Wales? OAQ(03)0221(ESH)

**C7 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu morlynnoedd llanw yng Nghymru? OAQ(03)0221(ESH)

**Jane Davidson:** Tidal lagoons will be among the technologies considered in the major feasibility study on harnessing tidal power in the Severn. The consultation on our renewables route-map, which will be launched on 19 February, will discuss the possible way forward on a range of marine energy options, including lagoons.

**Jane Davidson:** Bydd morlynnoedd llanw yn un o'r technolegau a ystyrir yn yr astudiaeth ddichonoldeb fawr am reoli ynni'r llanw yn afon Hafren. Bydd yr ymgynghori ar ein map llwybr ynni adnewyddadwy, a gaiff ei lansio ar 19 Chwefror, yn trafod y ffordd bosibl ymlaen ar gyfer ystod o ddewisiadau ynni'r môr, gan gynnwys morlynnoedd.

**Leanne Wood:** The Sustainable Development Commission's report on tidal power recommends that a pilot tidal lagoon be set up somewhere in the UK. What steps are you taking to set that up in Wales?

**Leanne Wood:** Mae adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ar ynni'r llanw yn argymhell sefydlu morlyn llanw peilot rywle yn y DU. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sefydlu hynny yng Nghymru?

**Jane Davidson:** The SDC report recommended that the Government provide financial support to encourage private sector or joint initiatives, either through increased support under the renewables obligation or by announcing a one-off competition. Increased support is now available under the renewables obligation, which I am sure you will be pleased to see. No decision has yet been made on the competition proposed by the SDC. I have already taken that up with the UK Government and will continue to do so through the Severn tidal power feasibility proposals.

**Jane Davidson:** Yr oedd adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn argymhell y dylai'r Llywodraeth ddarparu cefnogaeth ariannol i annog mentrau sector preifat neu fentrau ar y cyd, naill ai drwy ragor o gefnogaeth dan y rhwymedigaeth adnewyddadwy neu drwy gyhoeddi cystadleuaeth unwaith ac am byth. Mae rhagor o gefnogaeth ar gael yn awr dan y rhwymedigaeth adnewyddadwy, yr wyf yn siŵr y byddwch yn falch gweld. Nid oes penderfyniad eto ar y gystadleuaeth a gynigir gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. Yr wyf eisoes wedi mynd ar drywydd hynny gyda Llywodraeth y DU, a byddaf yn parhau i wneud hynny drwy gynigion dichonoldeb ynni'r llanw ar afon Hafren.

**David Melding:** Is there any scope for universities' expertise being used as well? Some of them have real expertise in alternative technology, marine sciences, and so on. If we can develop tidal lagoons, it would have great application around our coastline, as well as in other parts of the world.

**David Melding:** A oes modd defnyddio arbenigedd prifysgolion hefyd? Mae gan rai ohonynt arbenigedd gwirioneddol mewn technoleg amgen, gwyddorau'r môr, ac yn y blaen. Os gallwn ddatblygu morlynnoedd llanw, byddai modd rhoi hynny ar waith yn helaeth o amgylch ein harfordir, yn ogystal ag mewn rhannau eraill o'r byd.

**Jane Davidson:** I am keen to support the idea of a tidal lagoon pilot project in Wales, because it will provide the evidence on which to base any future decisions on pursuing

**Jane Davidson:** Yr wyf yn awyddus i gefnogi'r syniad o brosiect peilot morlyn llanw yng Nghymru, oherwydd bydd yn darparu'r dystiolaeth a fydd yn sail i unrhyw

energy generation in that way. As we have discussed before in this Chamber, the SDC report pointed out that there were no extant tidal lagoons anywhere in the world. Therefore, although the concept of the tidal lagoon is not a recent proposition, we do not have the evidence base from which to move forward. However, with the ROC value now going up to 2—and we know that there is interest in Rhyl and Swansea—you will have to wait to hear what I say on the debate on the renewables energy route-map on 19 February.

### Sustainable Development Scheme

**Q8 Alun Davies:** Will the Minister provide an update on the sustainable development scheme? OAQ(03)0192(ESH)

**Jane Davidson:** An independent review is currently under way on the effectiveness of the sustainable development scheme, 'Starting to Live Differently'. It is scheduled to report this spring and the findings will inform my decision as to whether to remake or revise the scheme.

**Alun Davies:** You recently visited the Carmarthenshire Energy Agency. I am sure that you will join me in congratulating it on the work being done throughout the county on promoting different means of sustainable energy production and energy use. Would you be minded to look for different ways and models of working with local government and local groups across Wales to promote the sustainable use of energy?

**Jane Davidson:** I certainly would. When I went to see the Carmarthenshire Energy Agency, I visited a project that involved using solar panels for community halls, which results in a very small revenue burden on local communities. That kind of project needs to be spread throughout Wales. Therefore, I strongly support our energy agencies, and it is important that we integrate their work into the public sector more widely.

**Paul Davies:** This scheme is the Assembly's strategic framework, and sets out the vision of a sustainable future for Wales. It is

benderfyniadau yn y dyfodol ar gynhyrchu ynni fel hynny. Fel yr ydym wedi'i drafod o'r blaen yn y Siambr hon, yr oedd adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn esbonio nad oedd morlynnoedd llanw yn bodoli yn unman yn y byd. Felly, er nad yw'r cysyniad o forlyn llanw yn gynnig diweddar, nid yw'r sail dystiolaeth gennym i symud ymlaen ohoni. Fodd bynnag, gyda gwerth ROC nawr yn codi i 2—a gwyddom fod diddordeb yn y Rhyl ac yn Abertawe—bydd yn rhaid ichi aros i glywed yr hyn a ddywedaf am y ddadl ar y map llwybr ynni adnewyddadwy ar 19 Chwefror.

### Cynllun Datblygu Cynaliadwy

**C8 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun datblygu cynaliadwy? OAQ(03)0192(ESH)

**Jane Davidson:** Mae effeithiolrwydd y cynllun datblygu cynaliadwy, 'Dechrau Byw'n Wahanol', yn cael ei adolygu'n annibynnol ar hyn o bryd. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn y gwanwyn eleni, a bydd y darganfyddiadau yn llywio fy mhenderfyniad a ddylid ail-lunio'r cynllun ynteu ei ddiwygio.

**Alun Davies:** Buoch yn ymweld ag Asiantaeth Ynni Sir Gâr yn ddiweddar. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i'w llongyfarch am y gwaith a wneir ledled y sir ar hybu gwahanol ffyrdd o gynhyrchu ynni a defnyddio ynni'n gynaliadwy. A fydddech yn ystyried ymchwilio i fodolau gwahanol a ffyrdd gwahanol o weithio gyda llywodraeth leol a grwpiau lleol ledled Cymru i hybu defnyddio ynni'n gynaliadwy?

**Jane Davidson:** Byddwn, yn sicr. Pan ymwelais ag Asiantaeth Ynni Sir Gâr, euthum i weld prosiect a oedd yn defnyddio paneli solar ar gyfer neuaddau cymuned, sy'n golygu baich refeniw bach iawn ar gymunedau lleol. Mae angen lledaenu'r math hwn o brosiect ledled Cymru. Felly, yr wyf yn cefnogi'n gryf ein holl asiantaethau ynni, ac mae'n bwysig inni integreiddio eu gwaith yn ehangach yn y sector cyhoeddus.

**Paul Davies:** Fframwaith strategol y Cynulliad yw'r cynllun hwn, ac mae'n gosod allan weledigaeth o ddyfodol cynaliadwy ar

important that governments at all levels help to educate people on changing their habits to achieve a sustainable future. One objective of the Assembly Government's sustainable development plan is to promote local projects to recognise achievements and encourage others to take action. In the circumstances, will the Minister tell us what other local incentives the Assembly Government will offer, and is currently offering to promote local projects to achieve that objective?

**Jane Davidson:** As you say, the sustainable development scheme guides everything that we do as an Assembly. Therefore, in a sense, the use of our entire Assembly budget is delivered in line with sustainable development principles. We have a distinctive statutory duty that is unique to us in the context of the UK, and we are one of only three countries in the world to do that. The sustainable development scheme has influenced key elements of Welsh Assembly Government work, from strategic policy, such as the Wales spatial plan, the environment strategy, and others, to the very building that we are in now. Given that it is an overarching principle, we would always use that in deciding what and where to support projects, initiatives or strategies in Wales.

### Flood Protection

**Q9 Kirsty Williams:** Will the Minister make a statement on flood protection provisions in mid Wales? OAQ(03)0206(ESH)

**Jane Davidson:** The Environment Agency and local authorities are the principal bodies with operational powers to combat flooding in the region. The agency and local authorities have programmes of measures to address flooding in the area. The Welsh Assembly Government provides more than £33 million for flood-risk management in Wales.

**Kirsty Williams:** Historically, the flooding of the Wye at Builth Wells and Llanellwedd has caused a great deal of distress and disruption to road users and local residents, yet feasibility studies carried out by the

gyfer Cymru. Mae'n bwysig i lywodraethau ar bob lefel helpu addysgu pobl am newid eu harferion i sicrhau dyfodol cynaliadwy. Un o amcanion y cynllun datblygu cynaliadwy gan Lywodraeth y Cynulliad yw hybu prosiectau lleol i gydnabod llwyddiannau ac i annog eraill i weithredu. Dan yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa gymhellion lleol eraill y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cynnig, ac y mae'n eu cynnig ar hyn o bryd, i hybu prosiectau lleol i gyflawni'r amcan hwnnw?

**Jane Davidson:** Fel y dywedwch, mae'r cynllun datblygu cynaliadwy yn llywio popeth a wnawn fel Cynulliad. Felly, mewn ffordd, mae defnyddio cyllideb y Cynulliad cyfan yn cael ei gyflawni'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae gennym ddyletswydd statudol benodol sy'n unigryw i ni yng nghyd-destun y DU, ac yr ydym yn un o ddim ond tair gwlad yn y byd i wneud hynny. Mae'r cynllun datblygu cynaliadwy wedi dylanwadu ar elfennau allweddol yng ngwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, o bolisi strategol, megis cynllun gofodol Cymru, y strategaeth amgylcheddol, ac eraill, i'r adeilad yr ydym ynddo ar hyn o bryd. O gofio bod hon yn egwyddor drosfwaol, byddem bob amser yn defnyddio honno wrth benderfynu beth a ble i gefnogi prosiectau, mentrau neu strategaethau yng Nghymru.

### Amddiffyn Rhag Llifogydd

**C9 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaethau amddiffyn rhag llifogydd yn y canolbarth? OAQ(03)0206(ESH)

**Jane Davidson:** Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol yw'r prif gyrff sydd â phwerau gweithredol i frwydro yn erbyn llifogydd yn y rhanbarth. Mae gan yr asiantaeth ac awdurdodau lleol raglenni o fesurau ar gyfer delio â llifogydd yn yr ardal. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu dros £33 miliwn ar gyfer rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** Yn hanesyddol, mae llifogydd o Afon Gwy yn Llanfair-ym-Muallt ac yn Llanellwedd wedi achosi llawer iawn o drallod ac aflonyddwch i bobl sy'n defnyddio'r ffyrdd ac i drigolion lleol, ond



Environment Agency have not been progressed, because the Environment Agency regards Llanelwedd as being too small and too insignificant for investment. However, the New Approaches paper that is being worked on currently by your Government holds out some hope for my constituents that measures will be taken to address flooding problems in Llanelwedd. Could you tell me when the New Approaches programme will be completed?

nid yw astudiaethau dichonoldeb a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd wedi symud ymlaen oherwydd bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried bod Llanelwedd yn rhy fach a di-nod i fuddsoddi yno. Fodd bynnag, mae'r papur Dulliau Newydd y mae eich Llywodraeth yn gweithio arno ar hyn o bryd yn rhoi llygedyn o obaith i'm hetholwyr y cymerir camau i ddelio â phroblemau llifogydd yn Llanelwedd. A allech ddweud wrthyf pryd fydd y rhaglen Dulliau Newydd yn cael ei chwblhau?

2.10 p.m.

**Jane Davidson:** The sad reality is that we are going to have to learn to live with flooding in Wales. Through the New Approaches programme, we are moving from just a defence protection structure to one that supports defences where appropriate but also looks at taking a risk management approach. In mid Wales, grant funding of around £870,000 has been approved to support Powys County Council's flood alleviation schemes, and a further £500,000 has been approved to support the council's flooding investigations and detailed studies into potential flood alleviation schemes. I am working hard with the Environment Agency and local authorities to ensure that we have comprehensive data on the basis of which to spend our investment, which has dramatically increased in the past few years.

**Jane Davidson:** Y gwir trist yw y bydd yn rhaid inni ddysgu byw gyda llifogydd yng Nghymru. Drwy'r rhaglen Dulliau Newydd, yr ydym yn symud oddi wrth strwythur amddiffyn yn unig i un a fydd yn cefnogi amddiffynfeydd lle mae'n briodol ond sydd hefyd yn edrych ar fabwysiadu dull rheoli perygl. Yn y canolbarth, cymeradwywyd cyllid grant o oddeutu £870,000 i gefnogi'r cynlluniau lliniaru llifogydd gan Gyngor Sir Powys, a chymeradwywyd £500,000 arall i gefnogi ymchwiliadau llifogydd y cyngor a'i astudiaethau manwl i gynlluniau posibl i liniaru llifogydd. Yr wyf yn gweithio'n galed gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gennym ddata cynhwysfawr y gallwn eu defnyddio fel sail i wario'n buddsoddiad, sydd wedi codi'n ddramatig yn y blynyddoedd diwethaf.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 10, OAQ(03)0234(ESH), a chwestiwn 11, OAQ(03)0243(ESH), i'w ateb yn ysgrifenedig. Galwaf ar Nick Ramsay i ofyn cwestiwn 12.

**The Presiding Officer:** Question 10, OAQ(03)0234(ESH), and question 11, OAQ(03)0243(ESH), have been transferred for written answer. I call on Nick Ramsay to ask question 12.

**Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on grants available to support historic buildings and conservation areas?

**Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y grantiau sydd ar gael i gefnogi adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth?

**The Presiding Officer:** Order. I do not think that that is question 12.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf yn meddwl mai cwestiwn 12 oedd hwnnw.

**Nick Ramsay:** I apologise to the Assembly and to the Minister for asking the wrong question.

**Nick Ramsay:** Ymddiheuraf i'r Cynulliad ac i'r Gweinidog am ofyn y cwestiwn anghywir.

**Priorities**

**Q12 Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on her priorities for the next six months? OAQ(03)0199(ESH)

**Jane Davidson:** My priorities for the next six months, indeed for the whole of the Assembly's term, are to deliver the 'One Wales' commitments that fall within my portfolio and specifically to take action to address climate change and to promote access to the coast and countryside.

**Nick Ramsay:** I have asked you in the past about your attitude and your Government's attitude towards the proposed Severn barrage. You contacted me recently on the way ahead for the consultation on that scheme, but could you provide us with an update on your discussions with your Westminster colleagues on the progress of the planned consultation period? It is clearly a matter of serious concern to my constituents and to all of those people who rely heavily on the Severn estuary for their livelihoods.

**Jane Davidson:** We announced our Severn tidal power study on 22 January, and it will take around 18 months to move forward. I have invited you and other Members with a direct interest to join me on a group comprising Members from Wales and south-west England, chaired by John Hutton, so that you have the opportunity to express your concerns to us and to the UK Government. The first meeting of that group will be convened shortly and I look forward to seeing you there.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 13, OAQ(03)0200(ESH), i'w ateb yn ysgrifenedig.

**Flooding**

**C14 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau cyfredol i liniaru llifogydd yn nyffryn Conwy? OAQ(03)0219(ESH)

**Jane Davidson:** Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn datblygu cynllun mawr i liniaru llifogydd mewn cymunedau ger afon

**Blaenoriaethau**

**C12 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau am y chwe mis nesaf? OAQ(03)0199(ESH)

**Jane Davidson:** Fy mlaenoriaethau am y chwe mis nesaf, yn wir am dymor cyfan y Cynulliad, yw cyflawni ymrwymadau 'Cymru'n Un' sy'n dod dan fy mhortffolio, ac yn benodol gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac i hyrwyddo mynediad i'r arfordir a chefn gwlad.

**Nick Ramsay:** Yr wyf wedi gofyn ichi yn y gorffennol am eich agwedd chi ac agwedd eich Llywodraeth at forglawdd arfaethedig aber afon Hafren. Cefais wybodaeth gennych yn ddiweddar am y ffordd ymlaen ar gyfer yr ymgynghori ar y cynllun hwnnw, ond a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich trafodaethau gyda'ch cyd-Weinidogion yn San Steffan am hynt y cyfnod ymgynghori a fwriedir? Mae'n amlwg yn achosi pryder difrifol i'm hetholwyr ac i bawb sy'n dibynnu'n drwm ar aber afon Hafren am eu bywoliaeth.

**Jane Davidson:** Cyhoeddwyd ein hastudiaeth ar ynni'r llanw ar afon Hafren ar 22 Ionawr, a bydd yn cymryd oddeutu 18 mis i symud ymlaen. Yr wyf wedi eich gwahodd chi ac Aelodau eraill sydd â diddordeb uniongyrchol i ymuno â mi mewn grŵp sy'n cynnwys Aelodau o Gymru a de orllewin Lloegr, gan gadeiryddiaeth John Hutton, er mwyn ichi gael cyfle i fynegi eich pryderon i ni ac i Lywodraeth y DU. Caiff cyfarfod cyntaf y grŵp hwnnw ei gynnull cyn hir, ac edrychaf ymlaen at eich gweld yno.

**The Presiding Officer:** Question 13, OAQ(03)0200(ESH), has been transferred for written answer.

**Llifogydd**

**Q14 Gareth Jones:** Will the Minister make a statement on current plans to alleviate flooding in the Conwy valley? OAQ(03)0219(ESH)

**Jane Davidson:** The Environment Agency is developing a major scheme to alleviate flooding in communities near the River

Conwy. Yn ddiweddar, dechreuodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y gwaith o adeiladu cwlferth i leddfu'r llifogydd o afon Bach yn Llanrwst, gyda chymorth grant gwerth £2 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Gareth Jones:** Croesawaf y neges honno'n fawr iawn. Fodd bynnag, ysgrifennais atoch i sôn am y ffaith bod oedi o ran y gwaith arall i ddiogelu cymunedau Trefriw a Llanrwst. Mae'r oedi hwnnw'n ymwneud â diffyg cytuno ar swm yr iawndal sy'n daladwy o ran gwerth y tir. Mae'n debygol y bydd y gwaith pwysig hwn yn cael ei ohirio ac y bydd pobl yn pryderi am amser hir—efallai dwy neu dair blynedd, pwy a wŷr? Apeliaf atoch i ymyrryd yn y sefyllfa a sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu mor fuan â phosibl ac yn sicr yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**Jane Davidson:** I am concerned about the delays and I have asked my officials to work closely with the agency to consider ways of accelerating the delivery of this scheme for the benefit of the local community. However, as you say, negotiations have fallen down, and public money can be delivered only when we have an outcome. Therefore, I encourage you and your colleagues to do everything that you can locally to facilitate negotiations between the landowners, the public—particularly those at risk—and public bodies to assist in bringing this scheme to implementation at the earliest possible time.

I am afraid that the solution does not just lie with the Environment Agency—it lies in the agreement between the Environment Agency and local people, fully understanding that Wales will flood, and that is what we have to deal with as quickly as possible. The sooner the agreement is reached, the sooner the money will come.

Conwy. Conwy County Borough Council, with £2 million of Welsh Assembly Government grant aid, has recently commenced construction of a relief culvert to alleviate flooding in Llanrwst from the River Bach.

**Gareth Jones:** I welcome that message very much. However, I wrote to you regarding the fact that there is a delay with the other work to safeguard the communities of Trefriw and Llanrwst. That delay involves a lack of agreement on the amount of compensation payable for the value of the land. This important work is likely to be postponed and people are going to be anxious for quite some time—possibly two or three years, who knows? I appeal to you to intervene in the situation to ensure that the scheme is implemented as soon as possible, and certainly within the next financial year.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn poeni am yr oedi ac yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio'n agos gyda'r asiantaeth i ystyried ffyrdd i gyflymu darparu'r cynllun hwn er budd y gymuned leol. Fodd bynnag, fel y dywedwch, mae'r trafodaethau wedi methu, a gallwn ddarparu arian cyhoeddus dim ond pan gawn ganlyniad. Felly, yr wyf yn eich annog chi a'ch cyd-Aelodau i wneud popeth y gallwch ei wneud yn lleol i hwyluso trafodaethau rhwng y tiffeddianwyr, y cyhoedd—yn enwedig y rheini sydd mewn perygl—a chyrrff cyhoeddus i helpu rhoi'r cynllun hwn ar waith ar y cyfle cyntaf.

Mae arnaf ofn nad gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn unig y mae'r ateb—mae'r ateb i'w gael yn y cytundeb rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a phobl leol, gan ddeall yn iawn y bydd llifogydd yn digwydd yng Nghymru, a hynny y mae'n rhaid inni ddelio ag ef cyn gynted ag y bo modd. Po gyntaf y deuir i gytundeb, cyntaf y daw'r arian.

### **Datganiad am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Statement on the National Botanical Garden**

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Yr wyf wedi dod gerbron Aelodau'r Cynulliad heddiw i amlinellu

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** I have come before Assembly Members today to outline changes to the

newidiadau i'r trefniadau cyllido rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Sefydlwyd yr ardd fotaneg genedlaethol ym mis Mai 2000, ac yr oedd yn un o nifer o brosiectau yng Nghymru a ariannwyd gan Gomisiwn y Mileniwm. Profodd yr ardd drafferthion yn fuan ar ôl iddi agor, a gofynnodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gefnogaeth am y tro cyntaf yn 2002. Yr ydym wedi bod yn un o'i phartneriaid allweddol fyth ers hynny. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod yr ardd yn sefydliad cenedlaethol sy'n gynyddol ennill parch rhyngwladol, ac yn enghraifft flaenllaw o'r nod o ddod â datblygiad economaidd a bri cenedlaethol i bob rhan o'r genedl.

Fel y gŵyr yr Aelodau, ym mis Mawrth 2004, trefnodd y Llywodraeth gytundeb cyllido pum mlynedd gyda'r ardd, ac yr oedd y cytundeb hwnnw wedi ei sylfaenu ar weithredu strategaeth adfer yr oedd yr ardd a'r tri phartner cyllido, sef y Llywodraeth, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chomisiwn y Mileniwm, wedi cytuno arni.

Mae'n bleser gennyf hysbysu'r Aelodau bod yr ardd wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r strategaeth honno. Mae'r tîm rheoli newydd wedi cyflwyno ymdeimlad cliriach o bwrpas ac o gyfeiriad, ac mae'n rheoli'r busnes yn fwy effeithiol. Mae'r hyn a gyflawnwyd gan yr ardd yn cynnwys sicrhau mwy na 15,000 o ymweliadau addysgol yn 2006-07, cynnydd o 20 y cant yn nifer yr ymwelwyr ers 2003, a chynnydd o 40 y cant yn yr incwm a geir o ganlyniad i letygarwch corfforaethol. Yn ychwanegol at hynny, mae'r cyfleuster biotechnium ar y safle wedi'i brydlesu i Morvus, sef cwmni ymchwil a datblygu sy'n gweithio yn y maes fferyllol, sy'n golygu bod 70 o swyddi ymchwil o ansawdd uchel ym maes biowyddoniaeth wedi symud i sir Gaerfyrddin.

Mae'r ardd ar y trywydd iawn i gwrdd â'r targedau a bennwyd o ran nifer yr ymwelwyr ar gyfer 2007-08, ac mae'r rheolwyr yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ennill cymaint o incwm ychwanegol ag sy'n bosibl. Mae'r ardd wedi dangos hefyd fod ei gweithgareddau o fudd gwyddonol, addysgol,

funding arrangements between the Welsh Assembly Government and the National Botanic Garden of Wales.

The national botanic garden was established in May 2000 and was one of a number of Welsh projects to be funded by the Millennium Commission. Having experienced difficulties shortly after opening, the garden first approached the Welsh Assembly Government for support in 2002. We have been one of its key partners ever since. The Government sees the garden as a national institution of increasing international repute and a beacon in our aim to bring both economic development and national prestige to all parts of the nation.

As Members will recall, in March 2004 the Government entered into a five-year funding agreement with the garden, which was based on the delivery of a recovery strategy which was agreed between the garden and the three funding partners, namely the Government, Carmarthenshire County Council and the Millennium Commission.

I am pleased to inform Members that the garden has made good progress in implementing that strategy. The new management team has brought a clearer sense of purpose and direction, and is managing the business more effectively. The garden's achievements have included ensuring more than 15,000 educational visits in 2006-07, a 20 per cent increase in visitor numbers since 2003, and a 40 per cent increase in income from corporate hospitality. In addition, the on-site biotechnium facility has been leased to Morvus, a pharmaceutical research and development company, which has resulted in 70 high-quality bio-science research jobs relocating to Carmarthenshire.

The garden is on course to meet visitor targets for 2007-08, and the management is looking to maximise income generation opportunities. The garden has also demonstrated that its activities are of scientific, educational, environmental and social benefit to Wales.

amgylcheddol a chymdeithasol i Gymru.

Er hynny, yn ogystal â chynnal y gweithgareddau presennol, yr ydym ni a'r ardd yn deall yn glir bod angen gwneud mwy o waith i ddenu cwsmeriaid newydd a chwsmeriaid sy'n dychwelyd fwy nag unwaith. Mae angen gwneud mwy na chynnal arddangosfeydd ac arddangosiadau newydd yn unig. Mae angen i ni dalu mwy o sylw i swyddogaeth wyddonol ac addysgol yr ardd er mwyn ei galluogi i ddatblygu ac, wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni gofio bod hysbysu, addysgu a diddanu yn mynd law yn llaw.

Gyda'r nod hwn mewn golwg, mae'r ardd yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Cymru, Bangor er mwyn datblygu canolfan a fydd yn darparu rhaglenni addysgol ledled y gogledd. Bydd Gardd Fotaneg Treborth, sy'n eiddo i'r brifysgol, yn cael ei defnyddio at y diben hwn, ac yn dod â swyddogaeth yr ardd fotaneg genedlaethol at stepen drws y cyhoedd.

Ar y cyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, mae'r ardd yn bwriadu dynodi 400 erw o dir o fewn ystâd yr ardd yn warchodfa natur genedlaethol. Byddai hyn yn golygu y byddai fferm organig weithredol yn rhan o'r portffolio o warchodfeydd natur cenedlaethol. Y fferm hon fyddai'r enghraifft gyntaf o'i bath a fyddai gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, a bydd hefyd yn batrwm ar gyfer cyfuno arferion ffermio organig da a rheoli cynefinoedd.

2.20 p.m.

Bydd y cynlluniau sydd gan yr ardd i barhau i ddatblygu rhaglenni addysg a gwyddoniaeth cadarn yn hyrwyddo'r enw da sydd ganddi fel gardd fotaneg o'r radd flaenaf. Er hynny, mae'n amlwg nad yw'r ardd eto mewn sefyllfa i gynnal ei hun yn ariannol; yn wir, nid oes yr un o'n sefydliadau cenedlaethol mewn sefyllfa i wneud hynny eto. Mae ganddi orddrafft sy'n agos i £1.9 miliwn. Nid yw'r adnoddau sydd ganddi ar hyn o bryd yn ddigon i reoli'r ystâd a'r gerddi yn iawn, ac mae angen mwy o gymorth ariannol arni er mwyn talu'r costau hyn. Yn ystod y cam hwn o ddatblygiad yr ardd, nid yw'r incwm oddi wrth ymwelwyr yn ddigon i dalu'r costau

However, in addition to maintaining current activities, we and the garden are clear that more work needs to be done to attract new customers and customers who return more than once. There is a need for more than merely holding new exhibitions and displays. We need to pay greater attention to the science and education role of the garden in order to enable it to develop and, in doing so, we must remember that informing, educating and entertaining go hand in hand.

To this aim, the garden is currently in negotiation with the University of Wales, Bangor in order to develop a centre which will provide educational programmes across north Wales. This will make use of Treborth Botanic Garden, which is owned by the university, and bring the role of national botanic garden to our doorstep.

In collaboration with the Countryside Council for Wales, 400 acres of land within the garden's estate is to be designated a national nature reserve. This would mean that a working organic farm was part of the portfolio of national nature reserves. This farm would be the first example of its kind for the Countryside Council for Wales, and it will also be an exemplar for combining good organic farming practice and habitat management.

The garden's plans to continue to develop strong education and science programmes will enhance its growing reputation as a world-class botanic garden. However, it is clear that the garden is not yet in a position to be financially self-sustaining; indeed, none of our national institutions are in such a position as yet. It has an overdraft of nearly £1.9 million. Its current resources are insufficient to properly manage the estate and gardens, and it needs more financial assistance to meet these costs. At the garden's current stage of development, visitor generated income is insufficient to meet these costs.

hyn.

Er bod costau cynnal y gweithgareddau presennol yn cynyddu, mae rhaglen dreigl o fuddsoddiad cyfalaf yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella ansawdd yr atyniad ymwelwyr. Mae'r ardd yn bwriadu rhoi cyfres o ddatblygiadau cyfalaf ar waith, ac er nad yw'n disgwyl i'r Llywodraeth gyllido'r datblygiadau hynny, mae cael cyllid ychwanegol ar eu cyfer oddi wrth drydydd parti yn ddibynnol ar fedru dangos bod ei sefyllfa ariannol yn un gadarn. Byddai hynny'n amhosibl pe nai bai'n cael gwared ar y gorddrafft.

Yn ystod y misoedd diwethaf, yr ydym wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda'r ardd a Chyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y trefniadau cyllido i'r dyfodol. Yr wyf yn falch o ddweud, ar ôl y trafodaethau hyn, fy mod mewn sefyllfa i gyhoeddi pecyn ariannol newydd ar gyfer yr ardd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi grant untro o hyd at £1.9 miliwn i'r ardd er mwyn i'r rheolwyr fedru clirio'r gorddrafft. Bydd yr arian hwn, sy'n dod o'r portffolio treftadaeth ac o gyllid a gronwyd o danwariant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn rhoi'r ardd mewn sefyllfa ariannol fwy cadarn ac yn ei galluogi i ddatgloi'r cyllid cyfalaf sydd ei angen arni ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Yr wyf hefyd wedi cytuno i gynyddu lefel y cymorth refeniw o'r swm o £150,000 a roddir ar hyn o bryd i hyd at £550,000 y flwyddyn. Bydd y cymorth hwn yn galluogi'r ardd i gynnal a gwella'r ystâd a'r gerddi a, thrwy wneud hynny, bydd yn gallu gwella ymhellach yr atyniadau sy'n cael eu cynnig i ymwelwyr. Bydd hefyd yn rhoi cyfle iddi fynd ar drywydd datblygiadau pellach, gan gynnwys rhaglenni gwyddoniaeth ac addysg cryf. Bydd y lefel uwch hwn o gymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a fydd yn dod i ben yn 2010-11, a bydd angen mynd ati bryd hynny i adolygu'r patrwm cyllido hwn.

Yn ogystal â'r cymorth ychwanegol hwn oddi wrth y Llywodraeth, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi ei fod yn barod i

Notwithstanding the increasing costs of maintaining the current activities, a rolling programme of capital investment is essential if the quality of the visitor attraction is to be maintained and improved. The garden has a series of capital developments planned, and while it does not expect the Government to fund those developments, additional funding from a third party is dependent upon its ability to demonstrate a stable financial position. Without the removal of the overdraft, that would be impossible.

Over recent months, we have been in discussions with the garden and Carmarthenshire County Council about future funding arrangements. I am pleased to be able to say that, following these discussions, I am in a position to announce a new financial package for the garden.

During this financial year, the Welsh Assembly Government will provide the garden with a one-off grant of up to £1.9 million to enable the management to clear the overdraft. This money, which is drawn from the heritage portfolio and from funds accumulated from Welsh Assembly Government underspend, will place the garden on a firmer financial footing and enable it to unlock the capital funding which it needs for future developments.

I have also agreed to increase the level of revenue support from the current sum of £150,000 to up to £550,000 per annum. This support will enable the garden to maintain and improve the estate and gardens and, as a result, it will be able to further enhance the attractions offered to visitors. It will also be an opportunity for it to pursue further developments, including strong science and education programmes. This increased level of support will be provided for the three-year period ending in 2010-11, at which time this pattern of funding will need to be reviewed.

Along with this additional support from the Government, Carmarthenshire County Council has indicated its willingness to

droi'r benthyciad o £1.35 miliwn a roddodd i'r ardd yn y gorffennol yn grant, gan osgoi'r angen iddi ad-dalu'r swm hwn. Mae'r cyngor sir wedi nodi hefyd ei fod yn barod i roi pecyn arall o gymorth ariannol i'r ardd, fel rhan o bartneriaeth sy'n cael ei chyllido ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Chyngor Sir Caerfyrddin wrth ystyried dyfodol yr ardd. Nid yw'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu ar draul cyllidebau eraill yn y portffolio treftadaeth. Nid ar chwarae bach yr aed ati i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn, a bydd y pecyn cymorth hwn yn seiliedig ar delerau ac amodau grant llym ac ar fonitro perfformiad mewn ffordd effeithiol.

Bydd y pecyn cyllido yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw yn rhoi sylfaen ariannol gadarn i'r ardd er mwyn iddi fedru cryfhau a thyfu a hawlio ei lle haeddiannol fel sefydliad cenedlaethol o fri sy'n cryfhau enw da Cymru ym maes gwyddoniaeth yn rhyngwladol. Efallai bod yr ardd yn un o'r rhai ifancaf ar lwyfan y byd, ond mae'r cynnydd y mae wedi'i wneud yn ddiweddar yn dangos yn glir iawn fod ganddi'r potensial i wneud cyfraniad fydd hyn yn oed yn fwy gwerthfawr yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**Paul Davies:** Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei ddatganiad. Ar ran yr wrthblaid, hoffwn ei gwneud yn glir bod yr ardd yn bwysig, nid yn unig i economi gorllewin Cymru, ond i addysg, ymchwil, gwyddoniaeth ac amgylchedd Cymru gyfan. Yr wyf yn siŵr i bawb ohonom glywed si rhai misoedd yn ôl bod yr ardd eisiau cymorth ariannol. Os oeddem i gyd wedi clywed am hyn, mae'n sicr bod y Llywodraeth yn gwybod am y sefyllfa ymhell cyn hyn. A all y Dirprwy Brif Weinidog ddweud wrthym pryd yn union oedd y Llywodraeth yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol hon?

A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddweud hefyd dros pa gyfnod y mae'r gorddrafft hwn wedi ei gronni? Yr wyf yn gofyn gan fy mod am wybod a allai rhywbeth wedi cael ei wneud cyn hyn i atal y sefyllfa. A oedd rhybuddion cyn hyn? Efallai na chafodd yr ardd y gefnogaeth na'r arian y dylai fod wedi eu derbyn ar ddechrau'r prosiect, felly a

convert the £1.35 million loan, which it gave to the garden previously, into a grant, which would avoid the need for it to repay this sum. The county council has also indicated its willingness to provide a further package of financial assistance for the garden, as part of a partnership financed jointly with the Assembly Government. We will continue to work closely with Carmarthenshire in considering the future of the garden. This funding is not being provided at the expense of other budgets within the heritage portfolio. The use of the financial reserves has not been agreed lightly, and this package of support will be based on robust terms and conditions of grant and effective monitoring of performance.

The funding package which I am announcing today will provide a sound financial base on which the garden can consolidate and grow and take its rightful place as a prestigious national institution which strengthens Wales's scientific standing internationally. The garden may be one of the youngest on the world stage, but the progress that it has made recently shows very clearly that it has the potential to make an even more valuable contribution over the years to come.

**Paul Davies:** I should like to thank the Deputy First Minister for his statement. On behalf of the opposition, I wish to make it clear that the garden is important, not only to the economy of west Wales, but to education, research, science and the environment in the whole of Wales. I am sure we had all heard the rumour some months ago that the garden needed financial assistance. If we had all heard that, the Government must have been aware of the situation long before that. Can the Deputy First Minister tell us exactly when the Government became aware of this financial situation?

Can the Deputy First Minister also tell us over what period this overdraft has been accumulated? I ask because I wish to know whether anything could have been done before this to prevent the situation. Were there any previous warning signs? Maybe the garden did not receive the support or the funding which it should have received at the

wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog gadarnhau a yw o'r farn fod yr arian cyhoeddus yn ddigonol yn 2002? A yw'n hyderus y bydd y pecyn ariannol newydd hwn yn sicrhau dyfodol i'r ardd?

Mae rhai wedi awgrymu fod yr ardd wedi cael ei marchnata fel canolfan twristiaeth pan ddylai'r pwyslais fod wedi bod ar addysg, gwyddoniaeth a'r amgylchedd. A yw'r Dirprwy Brif Weinidog yn cytuno â'r dadansoddiad hwn? Efallai y dylai'r ardd fod wedi cael ei marchnata fel sefydliad gwyddonol ac addysgiadol o'r dechrau. Mae nifer yr ymwelwyr i'r ardd wedi cynyddu, ond a yw'r Dirprwy Brif Weinidog yn cytuno ei fod yn bwysig sicrhau bod cyfleusterau addas yn yr ardal i sicrhau dyfodol yr ardd yn y tymor hir? Mae'n bwysig meddu ar y cyfleusterau cywir, megis rhagor o westai addas yn yr ardal. Felly, a oes cynlluniau gan y Llywodraeth i sicrhau hyn?

Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth yn ymrwmo i gefnogi'r ardd, ond a wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog gadarnhau a yw'r cynnydd yn y cymorth referniw i £500,000 yn seiliedig ar gynllun busnes newydd? Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod trafodaethau ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Bangor er mwyn datblygu canolfan a fydd yn darparu rhaglenni addysgol ar draws y gogledd.

Ar y cyfan, yr wyf yn croesawu'r cynllun ariannol newydd, a gobeithiaf y bydd yn sicrhau dyfodol tymor hir yr ardd fotaneg genedlaethol. A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog esbonio sut y bydd y Llywodraeth yn monitro'r model cyllid newydd hwn, gan y bydd hyn yn hanfodol er mwyn osgoi dyledion yn y dyfodol? Mae'n bwysig fod system fonitro gadarn ar waith. Yr wyf hefyd yn gobeithio y gall y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant chwarae rhan lawn mewn unrhyw asesiad o'r pecyn ariannol newydd. Mae'n bwysig fod y Cynulliad yn cael y cyfle i graffu ar unrhyw benderfyniad newydd, a bod y pwyllgor yn gallu monitro'r pecyn ariannol newydd yn llawn, a rhoi cyngor priodol.

O wrando ar y datganiad, mae'n debyg y bydd telerau ac amodau grant llym yn sgîl y

beginning of the project. Therefore, will the Deputy First Minister confirm whether he believes the amount of public funding given in 2002 was adequate? Is he confident that this new financial package will secure the garden's future?

Some have suggested that the garden was marketed as a tourism centre when the emphasis should have been on education, science and the environment. Does the Deputy First Minister agree with that analysis? The garden should, perhaps, have been marketed as a scientific and educational institution from the outset. Visitor numbers have increased, but does the Deputy First Minister agree that it is important to ensure that there are appropriate resources in the area to secure the garden's long-term future? It is important that the proper facilities exist, such as more appropriate hotels in the area. Therefore, does the Government have any plans to ensure that?

I welcome the fact that the Government is committed to supporting the garden, but will the Deputy First Minister confirm that the increase to £500,000 in revenue support is based on a new business plan? I also welcome the fact that negotiations are going ahead with Bangor University in order to develop a centre to provide educational programmes across north Wales.

On the whole, I welcome the new financial plan, and I hope it will secure the long-term future of the national botanic garden. Will the Deputy First Minister explain how the Government intends to monitor the new financial model, since this will be crucial in order to avoid further debts? It is important that a robust monitoring system is in place. I also hope that the Communities and Culture Committee will be able to play a full part in any assessment of the new financial package. It is important that the Assembly should have the opportunity to scrutinise any new decision, and that the committee is able to monitor the new financial package in full, and give appropriate advice.

Having listened to the statement, it seems that the new package will come with strict terms



pecyn newydd. A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddweud wrthym beth yw'r telerau hynny? A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog hefyd gadarnhau na fydd projectau eraill ledled Cymru yn dioddef oherwydd yr arian ychwanegol hwn?

Ar y cyfan, mae'r wrthblaid yn croesawu'r gefnogaeth hon i'r ardd gan ei bod yn hollbwysig i addysg a gwyddoniaeth y genedl, a bydd y genedl gyfan yn elwa. Gobeithiaf yn fawr fod dyfodol llwyddiannus iddi, a bod y datganiad hwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i sicrhau hynny.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch am y croeso i'r datganiad. Yr oedd gennych nifer o gwestiynau, a cheisiaf eu hateb gymaint ag y gallaf. Atebaf ddau o'r pwyntiau tuag at ddiwedd eich cyfraniad yn gyntaf drwy ddweud bod y Llywodraeth yn mynnu bod cynllun busnes derbyniol gan yr ardd. Gan fod yr ardd wedi derbyn mewn ffordd bragmataidd a realistig sut y bydd yn symud ymlaen i'r dyfodol, teimlwn ein bod yn gallu gwneud y cynnig ariannol hwn iddi. Felly, bydd monitro yn digwydd. Os yw'r pwyllgor y bu ichi gyfeirio ato am chwarae rhan yn y broses honno, yr wyf yn siŵr y bydd y Llywodraeth yn croesawu hynny, gan ei bod yn bwysig fod trafodaeth a chraffu ar y ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio. Ni fydd y sefydliadau cenedlaethol eraill yn dioddef oherwydd yr hyn a gyhoeddais o safbwynt ariannol.

2.30 p.m.

O ran pa bryd yr oedd y Llywodraeth yn ymwybodol o'r trafferthion, ni allaf ond ateb am y cyfnod ers mis Gorffennaf y llynedd. Bu trafodaethau gyda'r ardd am ddarparu cynllun, ond yr oedd yn rhaid i'r Llywodraeth fod yn eithaf sicr y byddai'r ardd ar seiliau ariannol llawer cadarnach ac yr oedd rhaid i ni a'n swyddogion fynd drwy'r ffigurau yn fanwl iawn. Credaf ei bod yn bwysicach o lawer ein bod wedi cymryd amser i wneud yn siŵr fod hynny'n iawn, yn hytrach na rhuthro i wneud cynnig heb dystiolaeth.

Ni allaf ateb y cwestiwn a oeddwn yn teimlo bod digon o arian cyhoeddus wedi ei roi yn 2002 gan nad oeddwn yn rhan o'r broses benderfynu ar yr adeg honno. Fodd bynnag,

and conditions of grant. Will the Deputy First Minister tell us what they will be? Will the Deputy First Minister also confirm that other projects across Wales will not suffer as a consequence of this additional funding?

On the whole, the opposition welcomes this support for the garden, since it is vital for the education and science of the nation, and the whole nation will benefit. I sincerely hope the garden has a successful future, and that this statement goes some of the way to achieving that.

**The Deputy First Minister:** Thank you for welcoming the statement. You asked a number of questions, and I will answer them to the best of my ability. I shall begin by answering two of the points towards the end of your contribution by saying that the Government insists on the garden having an acceptable business plan. Given that the garden has accepted the way forward, in a pragmatic and realistic way, we feel we can make this financial offer. Therefore, there will be monitoring. If the committee to which you referred wishes to play a part in that process, I am sure the Government will welcome that, because it is important that the way public money is used be debated and scrutinised. The other national institutions will not suffer financially as a result of my announcement.

Regarding your question about when the Government became aware of the difficulties, I can only answer for the period since last July. Discussions were held with the garden on the provision of a plan, but the Government had to be quite certain that the garden would be on a much firmer financial footing, and we, and our officials, had to go through the figures in great detail. I think it is much more important that we took time to ensure that that was in place, rather than rush into making an offer without evidence.

I cannot answer the question whether I feel sufficient public funding was given in 2002 because I was not part of the decision-making process at that time. However, I am now

yr wyf yn awr yn hyderus, ar ôl edrych ar gynllun corfforaethol yr ardd a'r hyn y mae wedi ei wneud yn barod ac y mae'n bwriadu ei wneud i'r dyfodol—er, wrth gwrs, bod rhaid imi nodi'n glir mai cynllun tair blynedd yw hwn, at 2010-11.

Mae mater ehangach ynglŷn â thwristiaeth yn yr ardal ac nid wyf yn sicr y gallaf ateb y cwestiwn ynglŷn â rhoi arian i adeiladu mwy o westai yn yr ardal. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros Dreftadaeth mewn sefyllfa i edrych ar hynny, maes o law, fel rhan o'r rhaglen ehangach. Yr wyf yn eithaf sicr bod yr ardd yn dod yn atyniad cenedlaethol, mae ganddi enw da yn rhyngwladol erbyn hyn, ac yr wyf yn eithaf hyderus y bydd y ffigurau ymwelwyr cynyddol yn gwella ymhellach.

**Alun Davies:** My welcome for the statement and what you have said this afternoon will be somewhat warmer than that of our friend from Pembrokeshire. I welcome the confidence that you have expressed in the garden. In terms of providing funding and working with the garden to create a business plan, the confidence that you have expressed this afternoon in the future of the garden will not be lost on anybody and will go much further than simply being words in the Record of Proceedings.

I am glad that the Government sees the garden as a means of developing and creating a new reputation for Wales internationally. I have visited the garden on many occasions and it has quickly become an important part of more than just Carmarthenshire's life and tourism infrastructure. I look forward to further discussions with the Minister for tourism on how we can strengthen the garden's position in that infrastructure, while ensuring that visitors to the garden also visit other attractions in south-west Wales. That is important as an economic development driver. The garden has become an important part of our national life. It is great to have an international institution that has, at its centre, a place for the physicians of Myddfai, a place located in Wales that could not be anywhere other than Carmarthenshire. As a statement of intention, it is something that I welcome greatly. The vision that you expressed, Deputy First Minister, is one that will unite the whole Chamber: a world-class national

confident, having looked at the garden's corporate plan, its actions to date and its future intended actions—although, of course, I must make clear that this is a three-year plan up to 2010-11.

There is a wider issue about tourism in the area, and I am not sure that I can answer the question about funding the construction of more hotels in the area. I am sure the Minister for Heritage will be in a position to look at that, in due course, as part of the wider programme. I am quite certain that the garden is becoming a national attraction; it now has a good reputation internationally, and I am quite confident that the increasing visitor numbers will improve further.

**Alun Davies:** Bydd fy nghroeso i'r datganiad a'r hyn a ddywedsoch y prynhawn yma ychydig yn gynhesach na chroeso ein cyfaill o sir Benfro. Croesawaf eich mynegiant o hyder yn yr ardd. O ran darparu cyllid a gweithio ar y cyd â'r ardd i greu cynllun busnes, bydd pobl yn sylwi ar yr hyder a fynegwyd gennych y prynhawn yma yn nyfodol yr ardd, a bydd yn gwneud llawer iawn mwy na bod yn eiriau yn unig yng Nghofnod y Trafodion.

Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth yn ystyried yr ardd fel modd i ddatblygu a chreu enw da o'r newydd i Gymru yn rhyngwladol. Yr wyf wedi ymweld â'r ardd droeon, ac mewn byr amser mae wedi dod yn rhan bwysig o fwy na bywyd a'r seilwaith twristiaeth yn unig yn sir Gaerfyrddin. Edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach gyda'r Gweinidog dros dwristiaeth ynglŷn â'r ffordd y gallwn gryfhau sefyllfa'r ardd yn y seilwaith hwnnw, gan sicrhau bod pobl sy'n ymweld â'r ardd hefyd yn ymweld ag atyniadau eraill yn y de-orllewin. Mae hynny'n bwysig fel sbardun ar gyfer datblygu economaidd. Mae'r ardd wedi dod yn rhan bwysig o'n bywyd cenedlaethol. Mae'n ardderchog cael sefydliad rhyngwladol sydd â lle, yn ei ganol, i Feddygon Myddfai, man yng Nghymru na allai fod yn unman arall ond sir Gaerfyrddin. Fel datganiad o fwriad, mae'n rhywbeth yr wyf yn ei groesawu'n frwd. Mae'r weledigaeth a fynegwyd gennych, Ddirprwy Brif Weinidog, yn un a

institution, dedicated to research, conservation and biodiversity, lifelong learning and the enjoyment of visitors is something that will have the support of everybody in the Chamber. The great glasshouse in Llanarthne has already become a national icon for Wales.

On what you said on the recovery plan, I, like others, very much welcome the work that has been done by the Government. I will pay tribute to the work of Alun Pugh, who contributed greatly to the recovery plan some years ago. I also appreciate the work that has been done by Carmarthenshire County Council and the former Millennium Commission, now the lottery, with the Welsh Assembly Government to ensure that we are where we are today. Without that recovery plan, we would not be seeing increasing visitor numbers or an increase in the garden's prestige or international reputation. The recovery plan set the basis for what we see today and I welcome the work that has been done.

Deputy First Minister, I agree with your view that the garden, alongside all our other national institutions, is simply not in a position, at present, to be self-sustaining. I therefore fully support your proposal to increase the level of revenue support. I know that you have already mentioned the business plan in response to Paul Davies's questions, but will you bring back updates on the business plan and future developments at the garden to enable us, in the Assembly, to understand and recognise the work that is being taken forward?

I will also highlight the way in which the garden is bringing together important developments and different aspects of the work of various public bodies, and different aspects of public life. Very few institutions could bring together the biotechnium, the work being done by Bangor University, and its own work in developing a national nature reserve for important and rare Welsh species. That work is second to none, and is essential. I fully agree with what you have said about taking this forward.

fydd yn uno'r Siambr gyfan: mae sefydliad cenedlaethol o safon ryngwladol sy'n ymroi i ymchwil, cadwraeth a bioamrywiaeth, dysgu gydol oes a mwynhad ymwelwyr yn rhywbeth a gaiff gefnogaeth pawb yn y Siambr. Mae'r tŷ gwydr mawr yn Llanarthne eisoes wedi dod yn eicon cenedlaethol i Gymru.

O safbwynt yr hyn a ddywedasoch am y cynllun adfer, yr wyf fi, fel eraill, yn croesawu'n fawr iawn y gwaith sydd wedi ei wneud gan y Llywodraeth. Rhoddaf deyrnged i waith Alun Pugh, a gyfrannodd lawer iawn at y cynllun adfer rai blynyddoedd yn ôl. Yr wyf hefyd yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chomisiwn y Mileniwm gynt, sef y loteri yn awr, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau ein bod yn y sefyllfa'r ydym ynddi heddiw. Heb y cynllun adfer hwnnw, ni fyddem yn gweld niferoedd ymwelwyr cynyddol na chynnydd ym mri'r ardd nac yn ei henw da'n rhyngwladol. Gosododd y cynllun y sail ar gyfer yr hyn a welwn heddiw, a chroesawaf y gwaith sydd wedi ei wneud.

Ddirprwy Brif Weinidog, cytunaf â'ch barn nad yw'r ardd, ochr yn ochr â'n holl sefydliadau cenedlaethol eraill, yn amlwg mewn sefyllfa, ar hyn o bryd, i fod yn hunan-gynhaliol. Cefnogaf eich cynnig yn llwyr, felly, i gynyddu lefel y cymorth refeniw. Gwn eich bod eisoes wedi crybwyll y cynllun busnes mewn ymateb i gwestiwn Paul Davies, ond a ddewch yn ôl â'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun busnes a datblygiadau yn y dyfodol yn yr ardd er mwyn ein galluogi ni, yn y Cynulliad, i ddeall ac i gydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo?

Tynnaf sylw hefyd at y ffordd y mae'r ardd yn dwyn ynghyd ddatblygiadau pwysig a gwahanol agweddau ar waith amrywiol gyrff cyhoeddus, a gwahanol agweddau ar fywyd cyhoeddus. Ychydig iawn o sefydliadau a allai ddwyn ynghyd y biodechniwm, y gwaith a wneir gan Brifysgol Bangor, a'i waith ei hun yn datblygu gwarchodfa natur genedlaethol ar gyfer rhywogaethau pwysig a phrin Cymru. Mae'r gwaith hwnnw yn ddigymar, ac mae'n hanfodol. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedasoch am roi hyn ar

waith.

I will conclude my remarks by asking you how you see the balance between these different activities developing in the future. I was interested to hear you concluding your statement by emphasising the scientific aspects of the garden's work. Many years ago, tourism was very much at the forefront of what it was about. Education programmes have always been important to the work of the botanic garden. In taking this work forward, how do you see the balance between its educational work, its scientific work, its place as an economic driver for the south-west Wales region, and its place as an important tourist destination? I very much welcome the remarks that you have made this afternoon and I look forward to the continued success of this national institution.

**The Deputy First Minister:** Thank you for your positive response to the statement. There is a general view in Wales that the garden is developing in line with its recovery and corporate plans. You are right to say that it is rapidly gaining an international reputation for the work that it is doing. I will refer briefly to some of the other points that you mentioned in relation to updates on the business plan. I am open to suggestions here, but it can be done by occasional oral statements in the Assembly, or written statements, or by my appearing before committee from time to time. When there is a significant investment of public funds, it is important that it is properly scrutinised and monitored. I am open to suggestions as to how that can be done.

What you said about the balance is right, and I think that the garden has recognised that it needed to redress this balance. It is a tourist attraction, but the scientific and educational aspects and remits have to form a bigger part of its work. That is already being demonstrated by the fact that over 15,000 educational visits took place in 2006-07. That is recognition of the garden's confidence that it is now on the right track.

**Nick Bourne:** I thank the Deputy First

Clof fy sylwadau drwy ofyn i chi sut y gwelwch chi'r cydbwysedd rhwng y gwahanol weithgareddau hyn a fydd yn datblygu yn y dyfodol. Yr oedd o ddiddordeb i mi eich clywed yn cloi eich datganiad drwy bwysleisio'r agweddau gwyddonol ar waith yr ardd. Flynyddoedd lawer yn ôl, yr oedd twristiaeth yn amlwg iawn yn yr hyn a oedd dan sylw yno. Mae rhaglenni addysg bob amser swedi bod yn bwysig i waith yr ardd fotaneg. Wrth fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen, sut y gwelwch y cydbwysedd rhwng ei gwaith addysgol, ei gwaith gwyddonol, ei lle fel sbardun economaidd i ranbarth y de-orllewin, a'i lle fel cyrchfan bwysig i dwristiaid? Croesawaf yn fawr iawn y sylwadau a wnaethoch y prynhawn yma, ac edrychaf ymlaen at lwyddiant parhaus y sefydliad cenedlaethol hwn.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch ichi am eich ymateb cadarnhaol i'r datganiad. Mae barn gyffredinol yng Nghymru fod yr ardd yn datblygu'n unol â'i chynllun adfer a'i chynllun corfforaethol. Yr ydych yn gywir yn dweud ei bod yn prysur ennill enw da yn rhyngwladol am y gwaith a wna. Cyfeiriaf yn gryno at rai o'r pwyntiau eraill a grybwyllwyd gennych o ran diweddariadau am y cynllun busnes. Yr wyf yn barod i wrando ar awgrymiadau, ond gellir gwneud hyn drwy gyfrwng datganiadau llafar achlysurol yn y Cynulliad, neu ddatganiadau ysgrifenedig, neu drwy i mi ddod gerbron y pwyllgor o bryd i'w gilydd. Pan fydd buddsoddiad arian cyhoeddus sylweddol, mae'n bwysig iddo gael ei fonitro ac y creffir arno'n briodol. Yr wyf yn barod i wrando ar awgrymiadau sut y gellir gwneud hynny.

Mae'r hyn a ddywedech am y cydbwysedd yn iawn, a chredaf fod yr ardd wedi cydnabod bod angen iddi adfer y cydbwysedd hwn. Atyniad i dwristiaid ydyw, ond mae'n rhaid i'r agweddau gwyddonol ac addysgol fod yn rhan fwy o'i gwaith. Mae hynny eisoes i'w weld yn y ffaith fod dros 15,000 o ymweliadau addysgol wedi digwydd yn 2006-07. Mae hynny'n gydnabyddiaeth o hyder yr ardd ei bod yn awr ar y trywydd iawn.

**Nick Bourne:** Diolch i'r Dirprwy Brif

Minister for his statement, and I will take up several points that he made. First, I quite understand why the Minister for Heritage is not giving this statement, because of his constituency interest. However, I would like to put on record—because some Members may not be aware—that he and I were certainly in the vanguard of persuading the previous Minister, Alun Pugh, of the need to give money to this project; we should bear in mind that he had to be dragged kicking and screaming to give the assistance.

It is obvious from what the Deputy First Minister has already said that he could not have known about the financial difficulties. We welcome this announcement. It is an iconic institution that I regularly visit; it is in my area. It is fantastic, but that does not mean that we should let this statement go without any scrutiny of the financial points. It is obvious that the financial difficulties that must have been happening at the botanic garden, in the same way as at the Wales Millennium Centre, must have been known to the Labour Government. We know from what Judith Isherwood said that, two years ago, the Minister knew about the massive black hole that existed for the WMC—that is on record. Similarly, this must have been known. I accept that this Minister could not possibly have known, but that does not mean that Ministers in the last Labour Government did not know; they must have known.

2.40 p.m.

I will pick up on a couple of specific points on the financial arrangements. In your statement, you make the point that assistance is being given with a one-off grant of up to £1.9 million. It says 'up to', so I wonder whether that means that it is £1.9 million or whether it is 10 pence. Is it £1.9 million? It says that it will be drawn from the heritage portfolio and other funds. You go on to say that this funding is not being provided at the expense of other budgets within the heritage portfolio. There seems to be an inherent inconsistency in that, because if you are releasing money that was a loan in the heritage portfolio, it is at the expense of

Weinidog am ei ddatganiad, a hoffwn fynd ar ôl nifer o'r pwyntiau a wnaeth. Yn gyntaf, deallaf yn iawn pam nad yw'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn cyflwyno'r datganiad hwn, oherwydd ei fuddiannau etholaethol. Fodd bynnag, hoffwn gofnodi—oherwydd na fydd rhai Aelodau'n ymwybodol o bosibl—ei fod ef a minnau'n bendant ar flaen y gad yn darbwyllo'r Gweinidog blaenorol, Alun Pugh, fod angen rhoi arian i'r prosiect hwn; dylem gofio y bu'n rhaid iddo gael ei lusgo dan strancio i roi'r cymorth.

Mae'n amlwg o'r hyn y mae'r Dirprwy Brif Weinidog eisoes wedi'i ddweud na fyddai modd iddo fod yn gwybod am yr anawsterau ariannol. Croesawn y cyhoeddiad hwn. Mae'n sefydliad eiconig a byddaf yn ymweld ag ef yn rheolaidd; mae yn fy ardal i. Mae'n rhagorol, ond nid yw hynny'n golygu y dylem adael i'r datganiad hwn fynd heibio heb graffu o gwbl ar y pwyntiau ariannol. Mae'n amlwg fod yr anawsterau ariannol a fu heb os yn digwydd yn yr ardd fotaneg, fel yng Nghanolfan y Mileniwm, yn sicr wedi bod yn hysbys i'r Llywodraeth Lafur. Gwyddom o'r hyn a ddywedodd Judith Isherwood fod y Gweinidog yn gwybod, ddwy flynedd yn ôl, am y twll du anferthol a oedd yn bod i Ganolfan y Mileniwm—mae hynny wedi ei gofnodi. Yn yr un modd, mae'n rhaid bod hyn yn hysbys. Derbyniat na fyddai modd i'r Gweinidog hwn fod yn gwybod, ond nid yw hynny'n golygu na wyddai Gweinidogion yn y Llywodraeth Lafur ddiwethaf; mae'n rhaid eu bod yn gwybod.

Treiddiaf ymhellach i ychydig bwyntiau penodol am y trefniadau ariannol. Yn eich datganiad, gwnewch y pwynt fod cymorth yn cael ei roi gyda grant unwaith-ac-am-byth o hyd at £1.9 miliwn. 'Hyd at' meddai. Felly, ysgwn i a yw hynny'n golygu ei fod yn £1.9 miliwn ynteu 10 ceiniog. A ydyw'n £1.9 miliwn? Dywed y caiff ei dynnu o'r portffolio treftadaeth a chronfeydd eraill. Ewch ymlaen i ddweud na ddarperir y cyllid hwn ar draul cyllidebau eraill o fewn y portffolio treftadaeth. Ymddengys fod anghysondeb hanfodol yn hynny, oherwydd os ydych yn rhyddhau arian a oedd yn fenthyciad yn y portffolio treftadaeth, mae

funds otherwise available in the heritage portfolio. Please clarify that point, Ieuan.

The second issue relates to ongoing revenue support. I accept that it is needed. When the assistance was announced in 2004, the Minister for Heritage and I both thought that it would not be enough, and we have both been proved right. You say that you have agreed to increase the level of revenue support from

‘the current £150,000 to up to £550,000 per annum’.

That seems to be a fairly precise amount, so, again, does that mean that it will be £550,000 or do we not know what it will be? We should know, at least in ballpark terms, what the figure will be.

I welcome this; it is an iconic centre, and I go there on a regular and frequent basis. I attended the opening; it is a terrific project that also has lottery funding. It is fantastic educationally, scientifically and in tourism terms. It is something of which we should be proud. Rhodri Glyn’s predecessor’s record is not unblemished, but we need to give this our full support. We are giving that support, but we are entitled to pick up on these points of financial scrutiny, because it is fairly obvious that this financial position—this black hole—must have been known about by the last Labour Government.

**The Deputy First Minister:** I cannot answer questions about what went before, as you have more or less acknowledged. All I would say is that, in making this decision, it was crucial that we were absolutely sure that, as a result of what I have now announced, the gardens would be on a more secure financial footing. It was not possible simply to decide that a certain figure was required; we had to know that the gardens would be financially secure once we had paid the money. Therefore, that work had to be done. If we had stated a figure without announcing a recovery plan, providing a measurable way to show that the gardens were meeting targets, or demonstrating that they had a robust business plan, we would have been criticised

hynny ar draul arian sydd ar gael fel arall yn y portffolio treftadaeth. Byddwchystal ag egluro’r pwynt hwnnw, Ieuan.

Mae’r ail fater yn ymwneud â chymorth refeniw parhaus. Derbyniaf ei fod yn angenrheidiol. Pan gyhoeddwyd y cymorth yn 2004, credai’r Gweinidog dros Dreftadaeth a minnau na fyddai’n ddigon, a gwelwyd bod y ddau ohonom yn iawn. Dywedwch eich bod wedi cytuno i gynyddu lefel y cymorth refeniw

‘o’r ffigur cyfredol o £150,000 i hyd at £550,000 y flwyddyn’.

Mae hwnnw’n ymddangos yn swm lled bendant. Felly, unwaith eto, a yw hynny’n golygu y bydd yn £550,000, ynteu nid ydym yn gwybod beth fydd? Dylem wybod, o leiaf rywle’n agos ati, beth fydd y ffigur.

Croesawaf hyn; mae’n ganolfan eiconig, a byddaf yn mynd yno’n rheolaidd ac yn aml. Bùm yn yr agoriad; mae’n brosiect ardderchog sy’n cael arian loteri hefyd. Mae’n wych yn addysgol, yn wyddonol ac o ran twristiaeth. Mae’n rhywbeth y dylem ymfalchio ynddo. Nid oes gan ragflaenydd Rhodri Glyn yrfa ddilychwin, ond mae angen inni roi ein cefnogaeth lwyr i hyn. Yr ydym yn rhoi’r gefnogaeth honno, ond mae gennym hawl i fanylu ar y pwyntiau hyn o graffu ariannol, oherwydd mae’n eithaf amlwg fod y sefyllfa ariannol hon—y twll du hwn—yn sicr yn hysbys i’r Llywodraeth Lafur ddiwethaf.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni allaf ateb cwestiynau am yr hyn a fu, fel yr ydych wedi’i gydnabod fwy neu lai. Y cyfan y byddwn yn ei ddweud yw ei bod yn hanfodol, wrth wneud y penderfyniad hwn, inni fod yn gwbl sicr y byddai’r gerddi, o ganlyniad i’r hyn a gyhoeddais yn awr, ar sail ariannol gadarnach. Nid oedd yn bosibl penderfynu’n syml fod ffigur penodol yn ofynnol; yr oedd yn rhaid inni wybod y byddai’r gerddi’n ariannol sicr ar ôl inni dalu’r arian. Felly, yr oedd yn rhaid gwneud y gwaith hwnnw. Pe byddem wedi enwi ffigur heb gyhoeddi cynllun adfer, gan ddarparu ffordd fesuradwy o ddangos bod y gerddi’n cyrraedd targedau, neu ddangos bod ganddynt gynllun busnes cadarn, byddem wedi cael ein beirniadu am

for not working against a robust business plan. We cannot have it both ways. We are satisfied that, having reached this position, the garden, in our view, will be on a much more secure financial footing, because it has made progress against a recovery plan, because it has a more robust business plan, and because we believe that the management of the garden is now more pragmatic and realistic about what it can achieve in future. I understand fully your right to ask these questions, but I think that you will accept that that is the only sensible reply that I can give.

You queried the use of the words 'up to'. Of course, the figure will be around £1.9 million, but it need not necessarily be on the button. It will be in that region, however. The same applies in relation to the extra grant of around or up to £400,000. Final details will be worked out, but when the absolute final figures are known, and when the grant starts to be paid, we can provide those. Nick, I remember you, Rhodri Glyn and others making pleas for the Government to support the garden. We should now recognise that an announcement has been made that, in our view, secures the garden's future, and we should now look forward with confidence.

**Kirsty Williams:** Thank you, Deputy First Minister, for your statement. I am sure that you share my regret that the short history of this institution, which promises greatness, has been marred by financial difficulties, and that, once again, we have had to come to the Chamber to discuss a financial package to put the garden on a firmer footing. I agree with one of Alun Davies's comments; we probably would not be here if it had not been for the previous Minister for culture. I do not underestimate the challenges of sorting out the mess that I suspect the heritage department has been left in due to the actions of the previous Minister for culture. Therefore, I understand the difficulties that the department is facing at present in sorting that out. Having to find money previously for the Wales Millennium Centre meant that it was inevitable that the money would have to be found for the National Botanic Garden of Wales. It would be wrong to treat these

beidio â gweithio yn ôl cynllun busnes cadarn. Ni allwn ei chael hi bob ffordd. Yr ydym yn fodlon y bydd yr ardd, yn ein barn ni, ar ôl cyrraedd y sefyllfa hon ar sail ariannol cadarnach, oherwydd mae wedi gwneud cynnydd yn ôl cynllun adfer, oherwydd mae ganddi gynllun busnes cadarnach, ac oherwydd ein bod yn credu bod rheolwyr yr ardd yn awr yn fwy pragmatig a realistig am yr hyn y gall ei gyflawni yn y dyfodol. Deallaf yn iawn eich hawl i ofyn y cwestiynau hyn, ond credaf y derbyniwch mai hwnnw yw'r unig ateb synhwyrol y gallaf ei roi.

Yr oeddech yn amheus ynglŷn â defnyddio'r geiriau 'hyd at'. Wrth gwrs, bydd y ffigur oddeutu £1.9 miliwn, ond nid oes angen iddo fod yr union swm o anghenraid. Bydd oddeutu hynny, fodd bynnag. Mae'r un peth yn wir am y grant ychwanegol o tua £400,000 neu hyd at hynny. Caiff y manylion terfynol eu gweithio allan, ond pan fydd y ffigurau cwbl derfynol yn hysbys, a phan ddechreuir talu'r grant, gallwn ddarparu'r rheini. Nick, cofiaf i chi, Rhodri Glyn ac eraill erfyn ar y Llywodraeth i gynorthwyo'r ardd. Dylem yn awr gydnabod bod cyhoeddiad wedi ei wneud, cyhoeddiad a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau dyfodol yr ardd, a dylem yn awr edrych ymlaen yn hyderus.

**Kirsty Williams:** Diolch ichi, Ddirprwy Brif Weinidog, am eich datganiad. Yr wyf yn sicr eich bod chi fel minnau yn gresynu bod hanes byr y sefydliad hwn, sy'n argoeli'n dda iawn, wedi ei andwyo gan anawsterau ariannol, a'n bod unwaith eto wedi gorfod dod i'r Siambr i drafod pecyn ariannol er mwyn rhoi'r ardd ar sail cadarnach. Cytunaf ag un o sylwadau Alun Davies; mae'n debyg na fyddem yn y sefyllfa hon oni bai am y Gweinidog diwylliant blaenorol. Nid wyf yn tanbrisiu'r heriau o fynd i'r afael â'r llanastr a adawyd, mi gredaf, yn yr adran dreftadaeth yn sgil gweithredoedd y Gweinidog diwylliant blaenorol. Felly, yr wyf yn deall yr anawsterau y mae'r adran yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran datrys hynny. Gan fod arian wedi gorfod dod o rywle eisoes ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru, yr oedd yn anorfod y byddai'n rhaid dod o hyd i'r arian ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Ni fyddai'n deg trin y sefydliadau hyn yn





tourist attraction in that part of the world. The reality is that self-sufficiency as a result of visitor numbers alone is highly unlikely to happen.

On the issue of finance, I notice that, in different parts of the statement, the Minister uses different terms. In one paragraph, he refers to underspends, and in subsequent paragraphs, he refers to reserves. I am sure that the Deputy First Minister knows the difference between an underspend and a reserve. Therefore, it is rather cheeky of him to try to use the terms interchangeably, because they are not the same. Could the Minister please clarify whether the money comes from underspend or whether it comes from reserves? What proportion of the £1.9 million will come from the heritage department and other parts of the Welsh Assembly Government? Let us not be coy about it, Deputy First Minister; it is £1.9 million. It is not a question of saying, 'Oh, it might be less'; the fact of the matter is that the National Botanic Garden of Wales has asked you for £1.9 million and it has asked you for £550,000. Let us not be coy about it; let us be honest and upfront about the sums of money that we are talking about.

Could you outline where those underspends have occurred? You say that this will not have an effect on any other aspect of the heritage department's funding, but the reality is that there is an opportunity cost. Money spent on one project means that that money cannot be spent elsewhere. It is a fact of life. Therefore, where do the underspends come from? You must admit that there is an opportunity cost here. You cannot spend your money or Rhodri Glyn Thomas's money twice.

As regards the terms and conditions of the grant, you have spoken at great length that you are confident that, this time, the business plan is right and that it will be delivered upon. You will be aware that the Audit Committee, in 2006, was highly critical of the way that officials have previously looked at business plans submitted by this organisation. In order to address the concerns of the Audit Committee in 2006, what changes have been made to the way in which

honno o'r byd. Y gwir amdani yw bod hunan-gynhaliaeth ar sail nifer ymwelwyr yn unig yn annhebygol iawn o ddiwydd.

O ran y cyllid, sylwaf fod y Gweinidog yn defnyddio gwahanol dermau mewn gwahanol rannau o'r datganiad. Mewn un paragraff, mae'n cyfeirio at danwariant, ac yn y paragraffau wedi hynny mae'n cyfeirio at gronfeydd wrth gefn. Yr wyf yn siŵr fod y Dirprwy Brif Weinidog yn gwybod y gwahaniaeth rhwng tanwariant a chronfa wrth gefn. Mae hi braidd yn ddigywilydd, felly, iddo geisio defnyddio'r naill derm a'r llall am yn ail, oherwydd nid ydynt yn golygu'r un peth. A allai'r Gweinidog egluro a yw'r arian yn dod o danwariant ynteu o gronfeydd wrth gefn? Pa gyfran o'r £1.9 miliwn a ddaw o'r adran dreftadaeth ac adrannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru? Ni ddylem fod yn swil ynglŷn â hynny, Ddirprwy Brif Weinidog; mae'n £1.9 miliwn. Nid mater yw o ddweud, 'O, efallai y bydd yn is na hynny'; y gwir amdani yw bod Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi gofyn ichi am £1.9 miliwn a'i bod wedi gofyn ichi am £550,000. Ni ddylem fod yn swil ynglŷn â hynny; dylem fod yn onest ac yn agored ynglŷn â'r symiau arian dan sylw.

A allech amlinellu ymhle y digwyddodd y tanwariant hwnnw? Dywedwch na fydd hyn yn cael effaith ar unrhyw agwedd arall ar gyllid yr adran dreftadaeth. Ond y gwir amdani yw bod cost cyfle ynghlwm â hyn. Wrth wario arian ar un prosiect, ni fydd yr arian hwnnw ar gael i'w wario mewn mannau eraill. Mae honno'n ffaith syml. O ble y daw'r tanwariant, felly? Rhaid ichi gydnabod bod cost cyfle ynghlwm â hyn. Ni allwch wario eich arian chi neu arian Rhodri Glyn Thomas ddwywaith.

O ran telerau ac amodau'r grant, yr ydych wedi sôn cryn dipyn eich bod yn hyderus, y tro yma, fod y cynllun busnes yn iawn ac y caiff ei wireddu. Byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Archwilio, yn 2006, yn hynod feirniadol o'r modd y mae swyddogion wedi edrych, yn y gorffennol, ar gynlluniau busnes a gyflwynwyd gan y sefydliad hwn. Er mwyn ymdrin â phryderon y Pwyllgor Archwilio yn 2006, pa newidiadau a wnaed yn y modd y craffodd eich adran ar y cynllun busnes hwn,

your department scrutinised this business plan and have proper monitoring arrangements been put in place?

ac a oes trefniadau monitro priodol wedi eu rhoi ar waith?

2.50 p.m.

**The Deputy First Minister:** I will deal with the final point first, which is about the reports of the Wales Audit Office and the second Assembly's Audit Committee. As Kirsty said, the Wales Audit Office and the Audit Committee made many recommendations in their reports on the funding given to the National Botanic Garden of Wales in the past, and, in considering the current package, the Government has taken full account of those recommendations. I hope that that satisfies you on that point.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Deliaf â'r pwynt olaf yn gyntaf, sy'n ymwneud ag adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Archwilio'r ail Gynulliad. Fel y dywedodd Kirsty, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Archwilio nifer o argymhellion yn eu hadroddiadau am y cyllid a roddwyd i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn y gorffennol, ac wrth ystyried y pecyn presennol mae'r Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r argymhellion hynny. Gobeithio bod hynny'n eich bodloni ar y pwynt hwnnw.

As regards the amount of money, when you say that it is £1.9 million, no-one, today, can say that it is. I have said that it will be up to, and probably in the region of, £1.9 million, but I repeat that the correct way to describe this grant is to say 'up to £1.9 million'. It is currently not at that figure, although it might be at the time the grant is given, but I am not in a position today to give you the figure, as the leader of the opposition mentioned, to the nearest 10p, but it will be around that £1.9 million figure. That is the clarity that I can provide on that.

O safbwynt y swm yr arian, pan ddywedwch mai £1.9 miliwn ydyw, ni all neb, heddiw, ddweud mai dyna ydyw. Yr wyf wedi dweud y bydd hyd at £1.9 miliwn, ac yn debygol o fod yn agos i hynny, ond dywedaf eto mai'r ffordd gywir i ddisgrifio'r grant hwn yw dweud ei fod 'hyd at £1.9 miliwn'. Nid dyna'r ffigur ar hyn o bryd, er ei bod yn bosibl mai dyna a fydd adeg rhoi'r grant. Ond nid wyf mewn sefyllfa heddiw i roi'r ffigur ichi, fel y crybwyllodd arweinydd yr wrthblaid, i'r 10c agosaf, ond bydd o gwmpas y ffigur hwnnw o £1.9 miliwn. Dyna fy eglurhad ar hynny.

I cannot give you today the full information that you require on the optimum use of the technium space, but hopefully I will be able to write to you on that.

Ni allaf roi ichi heddiw y wybodaeth lawn y mae arnoch ei hangen am y ffordd orau posibl i ddefnyddio'r man technium, ond gobeithiaf allu ysgrifennu atoch ynglŷn â hynny.

On the issue of what I think you describe as 'my personal confidence', I have no right to give anyone my personal confidence—I have to rely on the professional advice of people working in this field. I am not a qualified accountant and I have never written a business plan in my life; all I can say is that the professional advice that the Government has received is that this is a robust business plan and that the garden has complied with all the requirements of the recovery plan.

O ran yr hyn y credaf ichi ei ddisgrifio fel 'fy hyder personol', nid oes gennyf ddim hawl i roi fy hyder personol i neb—rhaid imi ddibynnu ar gyngor proffesiynol pobl sy'n gweithio yn y maes hwn. Nid wyf yn gyfrifydd cymwysedig ac nid wyf erioed wedi ysgrifennu cynllun busnes yn fy mywyd; y cyfan y gallaf ei ddweud yw bod y cyngor proffesiynol y mae'r Llywodraeth wedi'i gael yn dweud bod hwn yn gynllun busnes cadarn a bod yr ardd wedi cydymffurfio â holl ofynion y cynllun adfer.

On whether the garden will be self-sustaining

O ran y cwestiwn a fydd yr ardd yn hunan-

by 2010-11, all I can say is that it stands a much better chance after receiving this support than it has had in the past. You are quite right to point out that there is no other botanic garden in the United Kingdom that is fully self-sustaining, but that position can only be reviewed at the end of this period, in 2010-11. I have provided details in my statement of where the money will come from, and, if you look at the statement again, you will see that there is a capital sum, which is a one-off payment, and there is a revenue stream. It is not necessarily the case that both come from the same place.

**Nerys Evans:** Diolch yn fawr am y datganiad heddiw a chroesawaf y newyddion am y trefniadau cyllidol yn fawr. Fel rhywun o Gaerfyrddin, ac fel rhywun sy'n cynrychioli canolbarth a gorllewin Cymru, yr wyf yn falch iawn o'r sefydliad ac o gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad.

Os ydym am ddod â ffyniant economaidd i Gymru gyfan, mae'n rhaid inni drysori ein sefydliadau cenedlaethol, ble bynnag y bônt. Fe wnaethoch nodi ei bod hi'n bwysig inni gydnabod bod yr ardd wedi cael llwyddiant dros y blynyddoedd, gyda nifer yr ymwelwyr yn cynyddu, yn ogystal â nifer y swyddi. Fe fu ichi nodi hefyd lwyddiannau eraill. Faint o rôl fydd gan Lywodraeth y Cynulliad wrth ddatblygu'r ardd fotaneg yn y dyfodol?

Yr wyf hefyd yn falch o weld cynlluniau gan Gyngor Sir Gâr i droi'r benthyciadau a roddwyd i'r ardd yn y gorffennol yn grant, er mwyn osgoi ad-dalu, a llongyfarchaf y cyngor am hynny. A yw'r cynlluniau hyn gan y cyngor wedi eu cadarnhau?

Mae gan yr ardd botensial i wneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy i fyd gwyddoniaeth, addysg a'r amgylchedd. A allwch chi fanylu ar yr agweddau hynny o safbwynt dyfodol yr ardd?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch am y croeso i'r datganiad, ac am bwysleisio pwysigrwydd yr ardd yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol ac yn rhyngenedlaethol erbyn hyn. Yr ydych yn iawn i bwysleisio bod y ffordd y mae sawl sefydliad

gynhaliol erbyn 2010-11, y cyfan y gallaf ei ddweud yw bod ganddi well cyfle o lawer ar ôl cael y gefnogaeth hon nag a fu ganddi yn y gorffennol. Yr ydych yn berffaith iawn i dynnu sylw at y ffaith nad oes yr un ardd fotanegol arall yn y Deyrnas Unedig sy'n gwbl hunan-gynhaliol, ond dim ond ar ddiwedd y cyfnod hwn, yn 2010-11, y gellir adolygu'r sefyllfa honno. Yr wyf wedi rhoi manylion yn fy natganiad ynghylch o ble y daw'r arian, ac os edrychwch ar y datganiad eto fe welwch fod yna swm cyfalaf, sy'n daliad untro, ac mae yna hefyd ffrwd refeniw. Nid yw'n wir o reidrwydd fod y ddau yn dod o'r un man.

**Nerys Evans:** Thank you very much for today's statement and I very much welcome the news about the funding arrangements. As a person from Carmarthen, and as someone representing mid and west Wales, I am very proud of the institution and of the Assembly Government's support.

If we are to bring economic prosperity to the whole of Wales, we have to treasure our national institutions, wherever they may be. You stated that it is important that we acknowledge that the garden has been successful over the years, with increasing numbers of visitors, in addition to a number of jobs. You also noted other successes. How much of a role will the Assembly Government have in developing the botanic garden in the future?

I am pleased to see that Carmarthenshire County Council plans to convert the loans given to the garden in the past into a grant, so that it can avoid repayment, and I congratulate the council for that. Have these plans by the council been confirmed?

The garden has a potential to make an even greater contribution in the world of science, education and the environment. Can you give us details about these aspects for the future of the garden?

**The Deputy First Minister:** Thank you for welcoming the statement, and for emphasising the importance of the garden locally, regionally, nationally and internationally. You are right to emphasise the fact that the way many institutions have

wedi mynd ati i helpu'r ardd wedi dangos sut y gall partneriaeth weithio.

Fy nealltwriaeth i, fel y cyhoeddais yn y datganiad, yw bod benthyciad Cyngor Sir Gâr i'r ardd bellach yn grant. Bydd hynny'n hwb sylweddol. Mae hyn dangos ymrwymiad y cyngor sir i ddyfodol yr ardd, ac mae'n cydnabod bod rheolwyr yr ardd wedi dilyn llwybr pwysig, sydd wedi rhoi cyfeiriad a ffocws, a llwybr realistig o safbwynt y ffordd y maent yn ystyried y dyfodol.

Hoffwn bwysleisio'r pwynt olaf a wnaethoch ynglŷn â gwyddoniaeth ac addysg. Mae hyn yn dangos bod yr ardd wedi cymryd camau breision eisoes yn y maes hwn, ond bydd yr elfen gref o addysg a gwyddoniaeth, a'r rhaglenni sy'n seiliedig ar y pynciau hynny, yn hyrwyddo rôl yr ardd fel eicon rhyngenedlaethol. Mae'r ffaith bod yr ardd yn cydnabod hynny yn gam pwysig ar gyfer y dyfodol. Mae'r penderfyniad i wneud yr arian gan y cyngor sir yn grant, a'r ffaith bod y Llywodraeth yn clirio'r gorddrafft, yn dangos bod yr ardd nid yn unig yn gallu dilyn y llwybr yr ydym wedi sôn amdano o safbwynt addysg a gwyddoniaeth, ond ei bod hefyd yn gallu gwneud buddsoddiadau cyfalaf ar gyfer datblygiadau newydd. Mae hyn yn dangos bod gennym ardd sy'n cynyddu yn ei phoblogrwydd.

set about helping the garden has shown how partnership can work.

My understanding, as I announced today in the statement, is that the loan by Carmarthenshire County Council to the garden is now a grant. That will be a substantial boost. It shows the county council's commitment to the garden's future, and it acknowledges that the garden's management have followed an important route, which has given direction and focus, and a realistic route in the way they consider the future.

I wish to emphasise your final point about science and education. This shows that the garden has already taken major steps in this area, but the strong element of education and science, and the programmes based on those subjects, will promote the garden's role as an international icon. The fact that the garden recognises that is an important step for the future. The decision to consider the county council funding as a grant, and the fact that the Government has cleared the overdraft, shows not only that the garden can follow the route which we have previously mentioned in terms of education and science, but that it can also make capital investments for new developments. This shows we have a garden which is increasing in popularity.

### **Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:*

*yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 6 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 6 Chwefror 2008. (NDM3860)*

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:*

*suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motion under item 6 to be considered in Plenary on Wednesday 6 February 2008. (NDM3860)*

**Y Llywydd:** Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig, felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** I see that there are no objections to the motion, therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is carried.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Newid yn Aelodaeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Change to the Membership of the Subordinate Legislation Committee**

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiau fod

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3 yn pennu aelodaeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth fel a ganlyn—Alun Davies (Llafur), Irene James (Llafur), David Lloyd (Plaid Cymru), Andrew R.T. Davies (Ceidwadwyr) ac Eleanor Burnham (Democratiaid Rhyddfrydol). (NNDM3861)*

*the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 10.3 determines that the membership of the Subordinate Legislation Committee shall be—Alun Davies (Labour), Irene James (Labour), David Lloyd (Plaid Cymru), Andrew R.T. Davies (Conservative) and Eleanor Burnham (Liberal Democrat). (NNDM3861)*

**Y Llywydd:** Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig, felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** I see that there are no objections to the motion, therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is carried.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Dadl yn Ceisio Caniatâd y Cynulliad i Gyflwyno Mesur Arfaethedig Aelod ynghylch Asesu Effaith Gwerthu Caeau Chwarae A Debate Seeking the Assembly's leave to Introduce a Member Proposed Measure on Impact Assessments for the Selling Off of Playing Fields**

**David Lloyd:** Cynigiau fod

**David Lloyd:** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.103:*

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 23.103:*

*yn caniatáu i David Lloyd gyflwyno Mesur Arfaethedig Aelod er mwyn rhoi effaith i'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 6 Rhagfyr 2007 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.102. (NDM3617)*

*grants leave for David Lloyd to introduce a Member Proposed Measure to give effect to the pre-ballot information tabled on 6 December 2007 under Standing Order No. 23.102. (NDM3617)*

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Mesur arfaethedig ger eich bron. Diben y Mesur yw ceisio gwarchod meysydd chwarae, drwy ei gwneud yn anos i awdurdodau lleol werthu'r meysydd chwarae o'u heiddo. Wedi ymgynghori'n helaeth gyda chyfreithwyr,

It gives me great pleasure to introduce the proposed Measure. The purpose of the Measure is to try to protect playing fields, by making it more difficult for local authorities to sell playing fields within their ownership. Having consulted widely with lawyers, the

bydd y Mesur yn canolbwyntio ar reoli meysydd chwarae drwy hawlio ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddynt gael eu gwerthu.

Measure will focus on the control of playing fields by demanding public consultation before they are sold.

Ar hyn o bryd, nid oes amddiffyniad statudol i feysydd chwarae, yn wahanol, er enghraifft, i adeiladau hanesyddol, gerddi cyhoeddus, a choed hyd yn oed. Yn ôl canllawiau Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i unrhyw fwrriad i werthu meysydd chwarae gael ei hysbysebu mewn papurau lleol am o leiaf pythefnos, a rhaid i unrhyw wrthwynebiad gael ei ystyried. Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori'n ffurfiol gyda'r bobl a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan werthiant maes chwarae, megis trigolion lleol, clybiau chwaraeon lleol, cyrff iechyd, ac yn y blaen. Mae gwybodaeth oddi wrth Fields in Trust, y Playing Fields Association gynt, yn darogan bod 17 o feysydd chwarae mewn perygl o gael eu gwerthu a'u datblygu heddiw. Bellach, mae rhaglen ITV Cymru Wales This Week wedi dod o hyd i saith maes chwarae arall sydd o dan fygythiad. Felly, gallem weld colli cyfanswm o 24 o feysydd chwarae ledled Cymru.

At present, there is no statutory protection for playing fields, unlike historic buildings, public gardens and trees, for example. According to the guidelines to the Local Government Act 1972, any intention to sell playing fields has to be advertised in local newspapers for at least a fortnight and any objection has to be considered. There is no statutory requirement for formal consultation with the people who would be directly affected by such selling off, such as local residents, local sports clubs, health organisations, and so forth. Information from Fields in Trust, formerly known as the Playing Fields Association, anticipates that 17 playing fields are at risk of being sold off and developed today. Wales This Week, the ITV Wales programme, has pinpointed another seven playing fields under threat. Therefore, we could lose a total of 24 playing fields throughout Wales.

Er 2000, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi derbyn manylion rhyw 340 o geisiadau cynllunio, ac mae 62 o'r rheini yn cynnwys gwerthu neu ddatblygu meysydd chwarae. Mae 13 o feysydd chwarae eisoes wedi'u colli yn ddiweddar yng Nghymru.

Since 2000, the Sports Council for Wales has received details of some 340 planning applications, 62 of which include selling or developing playing fields. A total of 13 playing fields have already been lost in Wales recently.

Today, we are still basking in the glorious rugby victory of last Saturday.

Yr ydym yn dal i ymhyfrydu heddiw yn y fuddugoliaeth ardderchog ar y cae rygbi ddydd Sadwrn diwethaf.

**Jonathan Morgan:** Hear, hear.

**Jonathan Morgan:** Clywch, clywch.

**David Lloyd:** I am glad to hear a response to that, because, as I emphasised, we are still basking in the glorious afterglow. [Laughter.] Integral to producing our rugby stars is early, easy and local access to playing fields, as J.J. Williams, the rugby legend, outlined recently for ITV Wales's *Wales This Week* programme. That is not just important in the production of elite sports stars; it is also integral to general health and wellbeing, as noted in various Government strategies down the years.

**David Lloyd:** Mae'n dda gennyf glywed ymateb i hynny, oherwydd, fel y pwysleisiais, yr ydym yn dal i ymhyfrydu yn y llwyddiant ardderchog. [Chwerthin.] Mae gallu defnyddio caeau chwarae lleol yn ddidrafferth ac o oed cynnar yn hanfodol er mwyn creu ein sêr rygbi, fel yr amlinellodd J.J. Williams, yr arwr rygbi, yn ddiweddar ar gyfer rhaglen *Wales This Week* ar ITV Cymru. Nid yn unig o ran creu sêr chwaraeon elit y mae hynny'n bwysig; y mae hefyd yn hanfodol i iechyd a lles yn gyffredinol, fel y nodwyd mewn amrywiol strategaethau gan y Llywodraeth dros y blynyddoedd.

3.00 p.m.

'Welsh Health Survey 2005/06' found that 56 per cent of people aged 16 or over are overweight and obese, and that 15 per cent of 13-year-old boys are clinically obese. The purpose of my Measure is to place an additional hurdle on local authorities before selling playing fields. That additional hurdle is in the form of a duty to consult local residents, health bodies, local sporting groups, the playing fields association, the Children's Commissioner for Wales, and even the Minister under certain circumstances. At present, local authorities merely have to advertise the sale of playing fields in local newspapers for two weeks, and that is it. There is no statutory duty to consult local residents or health bodies before its sale.

The Sports Council for Wales is a statutory consultee in such matters when it comes to a planning application, but, all too often, its advice can be ignored. However, planning matters are outside the scope of my Measure. The Government's Health Challenge Wales programme notes that most people in Wales are not physically active enough to benefit their health. Experts say that adults need to do at least 30 minutes of physical activity that makes them slightly out of breath on at least five days a week; children and young people should aim for 60 minutes five times a week. Recommended activities include playing in the park with your children. The Health Challenge Wales strategy goes on to say that exercise does not have to be expensive, as there is no need to join a gym. Walking and jogging are free.

Among the 'One Wales' commitments is the pledge to encourage sport and physical activity with the purpose of improving health. All Government strategies for sport, public health, and education include an exhortation to exercise more. It is not only the Government that agrees that exercise is a good thing; bodies outside Government, such as the British Medical Association, advocates strengthening protection against the sale of playing fields. This Measure is aimed at all

Gwelodd 'Arolwg Iechyd Cymru 2005/06' fod 56 y cant o bobl 16 oed neu hŷn dros eu pwysau ac yn ordew, a bod 15 y cant o fechgyn 13 oed yn glinigol ordew. Pwrpas fy Mesur yw creu rhwystr arall i awdurdodau lleol rhag gwerthu meysydd chwarae. Mae'r rhwystr ychwanegol hwnnw ar ffurf dyletswydd i ymgynghori â thrigolion lleol, cyrff iechyd, grwpiau chwaraeon lleol, y gymdeithas meysydd chwarae, Comisiynydd Plant Cymru, a hyd yn oed y Gweinidog, dan rai amgylchiadau. Ar hyn o bryd, nid oes rhaid i awdurdodau lleol ond hysbysebu gwerthu meysydd chwarae mewn papurau newydd lleol am bythefnos, a dyna ni. Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori â thrigolion lleol na chyrff iechyd cyn eu gwerthu.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gorff y mae'n rhaid ymgynghori ag ef mewn materion o'r fath pan wneir cais cynllunio. Ond yn rhy aml o lawer, gellir anwybyddu ei gyngor. Fodd bynnag, mae materion cynllunio y tu allan i gwmpas fy Mesur i. Mae rhaglen Her Iechyd Cymru gan y Llywodraeth yn dweud nad yw'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru'n gwneud digon yn gorfforol i wneud lles i'w hiechyd. Dywed arbenigwyr fod angen i oedolion wneud o leiaf hanner awr o weithgaredd corfforol sy'n achosi mynd allan o wynt ar bum diwrnod yr wythnos o leiaf; dylai plant a phobl ifanc anelu at awr bum gwaith yr wythnos. Ymhlith y gweithgareddau a argymhellir mae chwarae yn y parc gyda'ch plant. Aiff strategaeth Her Iechyd Cymru ymlaen i ddweud nad oes angen i ymarfer corff fod yn gostus, gan nad oes angen ymuno â champfa. Gellir cerdded a loncian yn rhad ac am ddim.

Ymysg ymrwymadau 'Cymru'n Un' mae'r addewid i annog chwaraeon a gweithgaredd corfforol gyda'r nod o wella iechyd. Mae holl strategaethau'r Llywodraeth ar gyfer chwaraeon, iechyd cyhoeddus ac addysg yn cynnwys anogaeth i wneud mwy o ymarfer corff. Nid y Llywodraeth yn unig sy'n cytuno bod ymarfer corff yn beth da; mae cyrff y tu allan i'r Llywodraeth, fel Cymdeithas Feddygol Prydain, yn dadlau dros gryfhau'r diogelwch rhag gwerthu meysydd chwarae.

local authority playing fields, including school playing fields and those outside schools if they are owned by our county councils.

I remember how fortunate I was as a child, being the son of a farmer, to have 150 acres of playing field on my doorstep, and I made plenty of use of it. My own children, being citizens of Swansea by now, were fortunate to have the services of Swansea recreation ground—the rec—next to St Helens rugby ground, to hold school sports days when they were little and attending Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, which had no school playing field. The pupils of nearby Brynmill Primary School in Swansea also used the rec for their school sports, as they had no school playing field. Now, Swansea recreation ground is one of those playing fields threatened with being sold off for development; it is in that list of 24.

**Peter Black:** You are no doubt referring to the Swansea bay strategy, which is where the rec is located. It is a joint strategy with the Welsh Assembly Government. You will be gratified to know that it will be removed from that strategy as a result of the consultation, I understand, and therefore the sale may not go ahead, if it ever was going to.

**David Lloyd:** That is pleasing to hear. Andrew Davies AM and I attended a packed public meeting on 24 July 2007 with a few hundred local residents of Brynmill, Swansea, who voiced their universal opposition to any plan to sell off and build on the rec. People said time and again, ‘It is for the children to play on’, ‘There is an obesity epidemic’, ‘Our kids need somewhere to go and play, or to have a kick-around, instead of hanging around street corners’, and, ‘There are plenty of brownfield sites, so develop those instead’.

Therefore, it is with that sort of background that I introduce my Measure, to consider an impact assessment for the proposed selling off of playing fields. Put simply, I want another hurdle to make it more difficult for local councils to sell off school playing fields

Anelir y Mesur hwn at holl feysydd chwarae awdurdodau lleol, gan gynnwys meysydd chwarae ysgolion a rhai y tu allan i ysgolion os ydynt yn eiddo i'n cynghorau sir.

Cofiaf mor ffodus oeddwn i yn blentyn, yn fab i ffermwr, o gael 150 erw o faes chwarae wrth fy nrws, a gwneuthum ddigonedd o ddefnydd ohono. Yr oedd fy mhlant i fy hun, a hwythau bellach yn ddinasyddion yn Abertawe, yn ffodus o gael gwasanaethau maes chwaraeon Abertawe—y rec—wrth ymyl maes rygbi Sain Helen, i gynnal mabolgampau'r ysgol pan oeddent yn fach ac yn mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, ysgol a oedd heb faes chwarae. Byddai disgyblion Ysgol Gynradd Brynmill gerllaw yn Abertawe yn defnyddio'r rec hefyd ar gyfer eu mabolgampau hwythau, gan nad oedd maes chwarae gan yr ysgol honno ychwaith. Bellach, mae maes chwaraeon Abertawe yn un o'r meysydd chwarae hynny sydd dan fygythiad ei werthu ar gyfer datblygiad; mae yn y rhestr honno o 24.

**Peter Black:** Mae'n siŵr eich bod yn cyfeirio at strategaeth bae Abertawe, lle mae'r rec. Cyd-strategaeth ydyw gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwch yn falch gwybod y caiff ei dynnu allan o'r strategaeth honno o ganlyniad i'r ymgynghori, yn ôl a ddeallaf, ac felly efallai nad aiff y gwerthiant yn ei flaen, os oedd bwriad erioed i werthu.

**David Lloyd:** Mae'n dda clywed hynny. Bu Andrew Davies AC a minnau mewn cyfarfod cyhoeddus gorlawn ar 24 Gorffennaf 2007 gydag ychydig gannoedd o drigolion lleol Brynmill, Abertawe a leisiodd eu gwrthwynebiad unfrydol i unrhyw gynllun i werthu'r rec ac adeiladu ar y tir. Dywedai pobl dro ar ôl tro, ‘Lle i'r plant chwarae yw e’, ‘Mae yna epidemig o fod yn ordew’, ‘Mae ar ein plant angen lle i fynd i chwarae, neu gicio pêl, yn lle ystelcian ar gorneli strydoedd’, ac ‘Mae digonedd o safleoedd tir llwyd, felly, datblygwch y rheini yn eu lle’.

Felly, gyda'r math hwnnw o gefndir y cyflwynaf fy Mesur, i ystyried mynnu asesiad effaith ar fwriadau i werthu meysydd chwarae. I'w roi'n syml, mae arnaf eisiau rhwystr arall i'w gwneud yn anos i gynghorau lleol werthu meysydd chwarae



and other local council-owned playing fields.

A playing field is defined in legislation, in the Town and Country Planning (General Development Procedure) (Amendment) Order 1996, and elsewhere, as I am sure you all know. According to that Order,

“playing field” means the whole of a site which encompasses at least one playing pitch’.

“playing pitch” means a delineated area which, together with any run-off area, is of 0.4 hectares or more, and which is used for association football, American football, rugby, cricket, hockey, lacrosse, rounders, baseball, softball’—and any number of other games.

Members will recall the former Assembly Member, Lisa Francis, and her Standing Order No. 31 debate on playing fields in the second Assembly. Her work is to be incorporated in a revised TAN 16. That is being revised as we speak to incorporate a broader definition of a playing field, or at least reduce the pitch threshold from 0.4 ha to 0.2 ha so that junior school playing fields are protected. I was staggered to discover that there was no statutory protection for playing fields as there is for historical buildings, public gardens and even for trees.

In considering the details of any Measure to provide that additional hurdle in legislation that I wanted to include to make it difficult to sell off playing fields, I am hugely indebted to the Members’ research service, to legal advisers, the playing fields association—or the Fields in Trust, as it is now called—the Sports Council for Wales, my own Plaid Cymru research staff and also to local campaigners in Cardiff whom I met last week and who are campaigning against the selling off and the development of playing fields in the Heath, Ely and Llanrumney areas of the city. I remember well the Heath and Llanrumney fields from my days as a university student playing rugby on the wing for Cardiff Medicals RFC and I am distressed to see the threat that they are now under.

ysgolion a meysydd chwarae eraill sy’n eiddo i gynghorau lleol.

Mae maes chwarae wedi’i ddiffinio mewn deddfwriaeth, yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) 1996, ac mewn manau eraill, fel y gwyddoch i gyd, mae’n siŵr. Yn ôl y Gorchymyn hwnnw,

‘ystyr “cae chwarae” yw’r cyfan o safle sydd yn cynnwys o leiaf un maes chwarae’.

‘ystyr “maes chwarae” yw arwynebedd llinelledig sydd, ynghyd ag unrhyw dir o amgylch yr ymylon, yn 0.4 hectar neu fwy, ac a ddefnyddir ar gyfer pêl-droed, pêl-droed Americanaidd, rygbi, criced, hoci, lacrosse, rownderi, pêl-fas, pêl-feddal’—ac unrhyw nifer o gemau eraill.

Bydd Aelodau’n cofio’r cyn Aelod Cynulliad, Lisa Francis, a’i dadl dan Reol Sefydlog Rhif 31 ar feysydd chwarae yn yr ail Gynulliad. Caiff ei gwaith hi ei ymgorffori mewn Nodyn Cyngor Technegol 16 diwygiedig. Mae hwnnw’n cael ei ddiwygio ar hyn o bryd i ymgorffori diffiniad ehangach o faes chwarae, neu o leiaf i ostwng trothwy maint y maes chwarae o 0.4 ha i 0.2 ha er mwyn gwarchod meysydd chwarae ysgolion cynradd. Fe’m syfrdanwyd o weld nad oedd dim diogelwch statudol i feysydd chwarae fel sydd i adeiladau hanesyddol, gerddi cyhoeddus a hyd yn oed i goed.

Wrth ystyried manylion unrhyw Fesur i ddarparu’r rhwystr ychwanegol hwnnw yr oeddwn am ei gynnwys mewn deddfwriaeth i’w gwneud yn anodd gwerthu meysydd chwarae, mae fy nyled yn fawr i wasanaeth ymchwil yr Aelodau, i gynghorwyr cyfreithiol, i’r gymdeithas meysydd chwarae—neu Meysydd Chwarae Cymru, fel y’i gelwir bellach—Cyngor Chwaraeon Cymru, fy staff ymchwil fy hun ym Mhlaid Cymru a hefyd i ymgyrchwyr lleol yng Nghaerdydd y cyfarfûm â hwy yr wythnos diwethaf ac sy’n ymgyrchu yn erbyn gwerthu a datblygu meysydd chwarae yn ardaloedd y Mynydd Bychan, Trelái a Llanrhymni yn y ddinas. Cofiaf yn dda am feysydd y Mynydd Bychan a Llanrhymni yn fy nyddiau fel myfyriwr yn y brifysgol yn chwarae rygbi ar

yr asgell i glwb rygbi myfyrwyr meddygol Caerdydd, ac mae'n destun gofid imi weld y bygythiad sydd arnynt yn awr.

Therefore, this boils down to what I can do within the current legal parameters set for Measures in the Government of Wales Act 2006. Legal advice outlined that the additional hurdle that I was looking for could be found under matter 12.5(b) in the local government field of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006.

'The making of arrangements by relevant Welsh local authorities for the involvement in the exercise of their functions of people who are likely to be affected by, or interested in, the exercise of the functions'—such as the selling off of all their playing fields.

Consequently, the proposal for a Measure in my name focuses on controlling the loss of playing fields by way of pre-sale consultation, which does not currently happen. This is a new additional hurdle to the situation that currently pertains. The Local Government Act 1972 requires a local council proposing to sell off any playing field to put a notice in local newspapers for a fortnight, and that is it. The additional hurdle in my Measure would place a duty to consult with those people who are likely to be affected by, or interested in, the exercise of the functions. Statutory consultees would include local residents, local sports clubs, health bodies, the Fields in Trust, the Sports Council for Wales and even the Minister, as I said earlier. The extra hurdle would be the new duty to consult, under matter 12.5(b) of the Government of Wales Act 2006.

To round up, you are voting today on whether you think that the overarching principle of making it more difficult to sell off local authority playing fields is sound. This is, effectively, a private Member's Bill, on which you have a free vote. This debate is just the first stage; the exact details will be thrashed out in the next six months before

Felly, hanfod hyn yw beth y gallaf ei wneud o fewn y parametrau cyfreithiol presennol sydd wedi eu gosod ar gyfer Mesurau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Dywedodd cyngor cyfreithiol fod y rhwystr ychwanegol yr oeddwn yn chwilio amdano i'w weld dan fater 12.5(b) ym maes llywodraeth leol yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

'Trefniadau a wneir gan awdurdodau lleol perthnasol yng Nghymru i gynnwys yng ngweithrediad eu swyddogaethau bobl y mae'n debygol y bydd gweithredu'r swyddogaethau'n effeithio arnynt, neu o ddiddordeb iddynt'—swyddogaethau fel gwerthu eu meysydd chwarae i gyd.

Felly, mae'r cynnig ar gyfer Mesur yn fy enw i yn canolbwyntio ar reoli colli meysydd chwarae drwy gyfrwng ymgynghori cyn gwerthu, rhywbeth nad yw'n digwydd ar hyn o bryd. Mae hwn yn rhwystr newydd sy'n ychwanegol at y sefyllfa bresennol. Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n bwriadu gwerthu unrhyw faes chwarae roi hysbysiad mewn papurau newydd lleol am bythefnos, a dyna ni. Byddai'r rhwystr ychwanegol yn fy Mesur i yn gosod dyletswydd i ymgynghori â'r bobl hynny y mae gweithredu'r swyddogaethau'n debygol o effeithio arnynt, neu o fod o ddiddordeb iddynt. Byddai pobl y byddai angen ymgynghori â hwy'n statudol yn cynnwys trigolion lleol, clybiau chwaraeon lleol, cyrff iechyd, Meysydd Chwarae Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a hyd yn oed y Gweinidog, fel y dywedais gynnau. Y ddyletswydd newydd i ymgynghori, dan fater 12.5(b) Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fyddai'r rhwystr ychwanegol.

I grynhoi'r ddadl, yr ydych yn pleidleisio heddiw ar y cwestiwn a ydych yn credu bod yr egwyddor gyffredinol o'i gwneud yn anos gwerthu meysydd chwarae awdurdodau lleol yn gadarn. I bob pwrpas, Mesur Aelod preifat yw hwn, y cewch bleidlais rydd arno. Y cam cyntaf yn unig yw'r ddadl hon; trafodir yr union fanylion yn y chwe mis nesaf cyn cael

another debate and vote. We are always talking about joined-up Government. Here is a chance to do some joining up between local residents, parents, young people, public health bodies, education bodies and Government departments.

I am grateful to the Minister for signalling agreement to this Measure, although it cannot be the most radical implement ever such as it is, because we have limited scope here. I, like everyone else, have to play the game based on the position of the goalposts. With 24 playing fields under threat and 13 already lost in recent years, we must act now, and we can legislate, so vote in favour of the Measure. Diolch yn fawr. [*Applause.*]

**Paul Davies:** I congratulate Dai Lloyd on bringing forward the Measure, and I am grateful for the opportunity to take part in this debate today. I would like to voice my support and that of the Welsh Conservatives for this Member proposed Measure.

As Dai Lloyd said, in the second Assembly, the Welsh Conservatives took part in strengthening the secondary legislation that was in place to protect playing fields. It is extremely important that we continue to act to safeguard these important community facilities. Playing fields are an essential resource in Wales's communities. They are a vital asset, not only to our health and wellbeing, but also as a means of social inclusion.

3.10 p.m.

As Dai Lloyd said, obesity rates, particularly among children, are growing at an unprecedented rate. We cannot hope to increase their participation in healthy, outdoor activities if we do not have the facilities to accommodate them.

Our communities are also becoming increasingly fragmented, and the use of playing fields as a tool for social inclusion must not be underestimated. Playing fields serve many purposes within Welsh communities, and their preservation will have

dadl a phleidlais arall. Yr ydym yn sôn byth a hefyd am lywodraeth gydgyssylltiedig. Dyma gyfle i wneud ychydig ydgyssylltu rhwng trigolion lleol, rhieni, pobl ifanc, cyrff iechyd cyhoeddus, cyrff addysg ac adrannau'r Llywodraeth.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am roi arwydd o gytundeb â'r Mesur hwn, er na all fod yr offeryn mwyaf radical erioed fel y mae, am mai gallu cyfyngedig sydd gennym yma. Rhaid i mi, fel pawb arall, chwarae'r gêm yn ôl safle'r pyst gôl. Gyda 24 o feysydd chwarae dan fygythiad a 13 eisoes wedi'u colli yn y blynyddoedd diweddar. Rhaid inni weithredu'n awr, a gallwn ddeddfu, felly, pleidleisiwch o blaid y Mesur. Diolch yn fawr. [*Cymeradwyaeth.*]

**Paul Davies:** Llongyfarchaf Dai Lloyd am ddod â'r Mesur gerbron, ac yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Hoffwn leisio fy nghefnogaeth a chefnogaeth Ceidwadwyr Cymru i'r Mesur Aelod hwn.

Fel y dywedodd Dai Lloyd, yn yr ail Gynulliad cymerodd Ceidwadwyr Cymru ran yn y gwaith o gryfhau'r is-ddeddfwriaeth a oedd yn bod ar gyfer gwarchod meysydd chwarae. Mae'n eithriadol o bwysig inni barhau i weithredu i ddiogelu'r cyfleusterau cymunedol pwysig hyn. Mae meysydd chwarae'n adnodd hanfodol yng nghymunedau Cymru. Maent yn ased hollbwysig, nid yn unig i'n hiechyd a'n lles, ond hefyd fel modd i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol.

Fel y dywedodd Dai Lloyd, mae cyfraddau gordewdra, yn enwedig ymysg plant, yn cynyddu'n gyflymach nag erioed o'r blaen. Ni allwn obeithio cynyddu eu cyfranogiad mewn gweithgareddau iach yn yr awyr agored os nad oes gennym y cyfleusterau ar eu cyfer.

Mae ein cymunedau hefyd yn mynd yn fwyfwy rhanedig, a rhaid peidio â dibrisio defnyddioldeb meysydd chwarae fel arf dros gynhwysiant cymdeithasol. Mae meysydd chwarae'n cyflawni nifer o ddibenion o fewn cymunedau Cymru, a bydd eu cadw'n fodd i

a unifying effect. However, despite their invaluable nature as a community resource, there is no obligation to consult local people when deciding to sell a playing field. Currently, the Sports Council for Wales is the only required statutory consultee to such a process. While the sports council is the relevant national body, the process does not involve the consultation of the local community or the organisations that use the facilities. Surely any consultation process undertaken under the current system fails to gauge the true impact of the loss of a playing field to the community.

Local people and organisations should be made aware of any proposals before playing fields are sold, and should be able to participate in the consultation process. Indeed, only a full and fair consultation of the people who use these facilities will result in an accurate impact assessment. Engaging different elements of the community in the long-term decision-making process over the development of local playing fields will create a sense of inclusion and co-operation. My colleagues on this side of the Chamber and I would like to take that principle further, and see local authorities made to audit these facilities, ensuring that they are adequately provided for in new developments.

I conclude by reiterating the importance of reviewing the current decision-making process when a local authority wishes to sell a playing field. We must act now to ensure that the development of playing fields benefits the community, and goes ahead only with the agreement of that community.

**Lorraine Barrett:** This is an important debate, and I am grateful to Dai for bringing the initiative forward. It is one that has attracted the attention of many individuals and groups, and one such group is here today from my constituency. It is known as RREEL—Rumney Recreation and Eastern Leisure Action Group. The group is desperately trying to keep the playing fields around the leisure centre, as they are the green lungs of the area. The playing fields are bordered by Llanrumney as well as Rumney. I take this opportunity to congratulate Don and Denise Taylor, who set up the group, and

uno'r bobl. Fodd bynnag, er eu bod yn amhrisiadwy fel adnodd cymunedol, nid oes dim rheidrwydd i ymgynghori â phobl leol pan benderfynir gwerthu maes chwarae. Ar hyn o bryd, Cyngor Chwaraeon Cymru yw'r unig gorff y mae'n rhaid ymgynghori ag ef mewn proses o'r fath. Er mai'r cyngor chwaraeon yw'r corff cenedlaethol perthnasol, nid yw'r broses yn cynnwys ymgynghori â'r gymuned leol na'r cyrff sy'n defnyddio'r cyfleusterau. Yn sicr, mae unrhyw broses ymgynghori dan y system bresennol yn methu â mesur gwir effaith colli maes chwarae ar y gymuned.

Dylai pobl a chyrrff lleol gael gwybod am unrhyw gynigion cyn y gwerthir meysydd chwarae, a dylent allu cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Yn wir, dim ond drwy ymgynghori'n llawn ac yn deg â'r bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn y ceir asesiad cywir o'r effaith. Wrth gynnwys gwahanol elfennau o'r gymuned yn y broses benderfynu hirdymor ynghylch datblygiad meysydd chwarae lleol, creir ymdeimlad o gynhwysiant a chydweithredu. Hoffwn ni a'm cyd-Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr fynd â'r egwyddor honno ymhellach, a gweld gosod rheidrwydd ar awdurdodau lleol i archwilio'r cyfleusterau hyn, gan sicrhau darperu'n ddigonol ar eu cyfer mewn datblygiadau newydd.

I gloi, dywedaf eto mor bwysig yw adolygu'r broses benderfynu bresennol pan fydd awdurdod lleol yn dymuno gwerthu maes chwarae. Rhaid inni weithredu'n awr i sicrhau mai er budd y gymuned y datblygir meysydd chwarae, ac mai gyda chytundeb y gymuned honno'n unig y gwneir hynny.

**Lorraine Barrett:** Mae hon yn ddadl bwysig, ac yr wyf yn ddiolchgar i Dai am gyflwyno'r fenter. Mae'n un sydd wedi denu sylw nifer o unigolion a grwpiau, ac mae un grŵp felly yma heddiw o'm hetholaeth i. Ei enw yw RREEL—Grŵp Achub Caeau Tredelerch a Chanolfan Hamdden y Dwyrain. Mae'r grŵp yn ymgyrchu'n daer i geisio cadw'r meysydd chwarae o gwmpas y ganolfan hamdden, gan mai dyma ysgyfaint gwyrdd yr ardal. Maent yn feysydd chwarae i Lanrhymni yn ogystal â Thredelerch. Cymeraf y cyfle hwn i longyfarch Don a Denise Taylor, a sefydlodd y grŵp, ac sydd

who, despite some challenges, have managed to keep it totally apolitical. I will endeavour to do the same here today.

Cardiff City Council is currently undertaking a schools reorganisation programme, and part of its proposal is to close Llanrumney and Rumney high schools, both of which have a high number of surplus places. So far, so good. I have no problem with that in principle. However, the contentious part of the proposal is to locate a new state-of-the-art school for up to 1,600 pupils on the site of the Eastern leisure centre. The site would incorporate a new leisure centre, to be used by the pupils and the wider community, with potential parking requirements for hundreds of staff and other users of the site. No mention has been made so far of the possible relocation of the youth centres at the existing high schools.

The land on which Rumney and Llanrumney high schools currently stand would be sold off for housing development, and we would lose a lot of green space in those areas, too—although I have been told that some green areas would be provided for leisure activities. However, we all know how much pressure is put on councils by developers to build as many houses as possible on as much land as possible. That, by way of background, is a short summary of the situation facing residents in east Cardiff.

I now come to the salient point of the Member proposed Measure, which would compel councils to undertake an impact assessment of the sale of playing fields. The impact on my constituents of the loss of these playing fields would be total chaos on Newport road, which is already a very busy road. The ingress and egress of cars and delivery vans throughout the day, and not just at school opening and closing times, in such a congested area does not really bear thinking about.

While the council says that it can build the new facility on the current footprint, none of us are convinced of that yet, because we have not seen the proper plans. We are convinced that playing fields would be lost where currently there are several football pitches and a skateboard park. The local

wedi llwyddo i'w gadw'n gwbl anwleidyddol, er gwaethaf ambell her. Ceisiaf innau wneud yr un peth yma heddiw.

Mae Cyngor Dinas Caerdydd ar hyn o bryd yn ymgymryd â rhaglen ad-drefnu ysgolion, a rhan o'r hyn sydd ganddo mewn golwg yw cau ysgolion uwchradd Llanrhymni a Thredelerch, y ddwy â nifer mawr o leoedd gwag. Nid yw'r egwyddor honno'n ofid imi. Fodd bynnag, rhan ddadleuol y cynnig yw gosod ysgol newydd fodern i hyd at 1,600 o ddisgyblion ar safle canolfan hamdden y Dwyrain. Byddai'r safle'n cynnwys canolfan hamdden newydd, i'w defnyddio gan y disgyblion a'r gymuned yn gyffredinol, a gallai fod angen lleoedd parcio i gannoedd o staff a defnyddwyr eraill y safle. Nid oes sôn eto am bosibilrwydd symud y canolfannau ieuencid i'r ysgolion uwchradd presennol.

Câi'r tir lle saif ysgolion uwchradd Tredelecherch a Llanrhymni ar hyn o bryd ei werthu i ddatblygwyr tai, a byddem yn colli lawer o le gwyrdd yn yr ardaloedd hynny, hefyd—er y dywedwyd wrthyf y darperid rhai manau gwyrdd ar gyfer gweithgareddau hamdden. Fodd bynnag, gwyddom i gyd gymaint o bwysau a roddir ar gynghorau gan ddatblygwyr i adeiladu cynifer o dai ag sy'n bosibl ar gymaint o dir ag sy'n bosibl. Dyna grynoded byr, o ran cefndir, o'r sefyllfa sy'n wynebu trigolion yn nwyrain Caerdydd.

Deuaf yn awr at bwynt amlycaf y Mesur Aelod, a fyddai'n gorfodi cynghorau i asesu effaith gwerthu meysydd chwarae. Effaith colli'r meysydd chwarae hyn ar fy etholwyr i fyddai anhrefn llwyr ar heol Casnewydd, sydd eisoes yn ffordd brysur iawn. Mae meddwl am geir a faniau nwyddau'n gyrru i mewn ac allan drwy gydol y dydd, ac nid ar amserau agor a chau'r ysgol yn unig, mewn ardal mor brysur yn ddigon i ddychryn rhywun.

Er bod y cyngor yn dweud y gall adeiladu'r cyfleuster newydd ar yr ôl-troed presennol, nid oes yr un ohonom wedi'n hargyhoeddi o hynny eto, gan nad ydym wedi gweld y cynlluniau iawn. Yr ydym wedi'n hargyhoeddi y byddai meysydd chwarae'n cael eu colli mewn man lle mae nifer o

communities use the open space for community festivals, fetes and games—Dai talked about the health benefits of having access to open spaces—or just for walking. For me, the important thing is that they are the lungs of this area, and should be kept as such. They are a quiet haven among the hustle and bustle of city life, and somewhere to get away from the shops and the traffic that currently surround these playing fields, which would only get worse should the development go ahead.

Under Dai's proposal, local residents would have to be consulted, and the impact of any proposals would have to be taken into account. For those reasons, I thank Dai. I will support the Measure and anything that he has to do to get to where we all want to be.

**Kirsty Williams:** I congratulate Dai on his good fortune in having his name drawn in the ballot for a Measure and on deciding to use the opportunity, within the limited powers that we currently have under the Measures system, to choose this particular topic. The proposal is certainly very timely given the present focus on the health of the nation and the current obesity crisis.

If we are to truly address some of the frightening statistics that we are faced with in relation to our children, and also to help adults to get healthier, the opportunity to have affordable exercise close to home is vital. The importance of a green space or playing field in a community cannot be confined to its health benefits. Lorraine has outlined the important social and environmental benefits that green spaces can often provide. In built-up city areas in particular, green spaces break up the congested urban landscape and give people the opportunity to come together as a community, when they may not be available to do so in other aspects of their lives. That has a huge effect in breaking down the tensions that sometimes exist in communities and enhancing community cohesion, which is of benefit to us all.

feysydd pêl-droed a pharc sglefrfyrrddio ar hyn o bryd. Mae'r cymunedau lleol yn defnyddio'r man agored ar gyfer gwyliau cymunedol, ffeiriau a gemau—siaradodd Dai am fanteision mynediad i fannau agored i'n hiechyd—ac i gerdded, wrth gwrs. Yr hyn sy'n bwysig yn fy marn i yw mai dyma ysgyfaint yr ardal hon, a dylid ei chadw felly. Mae'n hafan dawel ynghanol hwrlibwrli'r ddinas, ac yn lle i ddianc o brysurdeb y siopau a'r traffig sydd o gwmpas y meysydd chwarae hyn ar hyn o bryd, ac a fyddai'n sicr o waethygu petai'r datblygiad yn mynd rhagddo.

Yn ôl cynnig Dai, byddai'n rhaid ymgynghori â thrigolion lleol, a byddai'n rhaid ystyried effaith unrhyw gynigion. Diolchaf i Dai am y rhesymau hynny. Byddaf yn cefnogi'r Mesur ac unrhyw beth y mae'n rhaid iddo'i wneud i gyrraedd y man yr ydym i gyd yn dymuno'i gyrraedd.

**Kirsty Williams:** Hoffwn longyfarch Dai am fod mor ffodus â chael ei ddewis yn y balot ar gyfer Mesur ac am benderfynu defnyddio'r cyfle, o fewn y pwerau cyfyngedig sydd gennym ar hyn o bryd dan y system Fesurau, i ddewis y pwnc penodol hwn. Mae'r cynnig yn sicr yn amserol iawn o gofio'r sylw sy'n cael ei roi ar hyn o bryd i iechyd y genedl a'r argyfwng gordewdra presennol.

Os ydym am roi sylw o ddifrif i rai o'r ystadegau brawychus yr ydym yn eu hwynebu yng nghyd-destun plant, a hefyd am helpu oedolion i fod yn iachach, mae'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd ymarfer corff fforddiadwy heb deithio ymhell yn hanfodol. Nid y manteision i'n hiechyd yw'r unig beth sy'n gwneud man gwyrdd neu faes chwarae'n bwysig mewn cymuned. Mae Lorraine wedi amlinellu'r manteision cymdeithasol ac amgylcheddol pwysig y gall mannau gwyrdd eu cynnig yn aml. Mewn ardaloedd adeiledig mewn dinasoedd, mae mannau gwyrdd yn torri ar y dirwedd drefol orlawn ac yn rhoi cyfle i bobl ddod at ei gilydd fel cymuned, pan nad ydynt yn gallu gwneud hynny efallai mewn agweddau eraill ar eu bywydau. Mae hynny o gymorth mawr i gael gwared ar y tensiwn sy'n bod weithiau mewn cymunedau. Mae'n dod â'r gymuned yn nes at ei gilydd, sydd o fudd i bob un ohonom.

Green spaces can also benefit the economy of an area. Therefore, it can only be right that we should do what we can in the Assembly to protect and promote green spaces. It is often all too easy for local authorities to see these spaces as a solution to their difficult financial problems.

**Jenny Randerson:** Do you agree that local authorities face a difficult balancing act? As I mentioned in a question to Rhodri Glyn Thomas earlier, many leisure centres in Wales are coming to the end of their useful life and need to be replaced. Local authorities must balance the need for green spaces against the need for more formal leisure space and up-to-date leisure facilities, which research shows attract young people, as well as pensioners, back into active participation in sport.

**Kirsty Williams:** I agree completely that councils face a very difficult balancing act. Given an ever-shrinking field of public finance and ever-growing demands on councils' budgets, realising assets is sometimes seen as the only solution to difficult financial problems, and green spaces are often seen as the most lucrative assets to realise.

The Liberal Democrat group will support the Measure, because there should be a duty upon local government to consult fully with local people on how they feel about such decisions. These decisions should be made in the full glare of publicity and not in a way that excludes people from making their views known. The public should be in full possession of the facts on both sides of these difficult arguments when local authorities feel that this is the only way to address their financial difficulties. Consultation, whether it is informal as at present or, hopefully, formal in the future, gives local residents the opportunity to put forward their views to councils. As we heard from Peter Black, councils do listen to those consultations and can amend their plans accordingly in the light of conversations with local people.

3.20 p.m.

Gall mannau gwyrdd hefyd fod o fudd i economi ardal. Felly, dylem yn sicr wneud cymaint ag y gallwn yn y Cynulliad i ddiogelu a hybu mannau gwyrdd. Mae'n hawdd iawn, yn aml, i awdurdodau lleol weld y mannau hyn fel ateb i'w problemau ariannol anodd.

**Jenny Randerson:** A ydych yn cytuno bod gan awdurdodau lleol dasg anodd wrth geisio cadw cydbwysedd? Fel y crybwyllais mewn cwestiwn i Rhodri Glyn Thomas yn gynharach, mae nifer o ganolfannau hamdden yng Nghymru'n dod at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol ac mae angen eu hadnewyddu. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am fannau gwyrdd a'r angen am le hamdden mwy ffurfiol a chyfleusterau hamdden cyfoes sydd, yn ôl gwaith ymchwil, yn denu pobl ifanc, a phensiynwyr hefyd, yn ôl i gymryd rhan mewn chwaraeon.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn cytuno'n llwyr fod cynghorau'n wynebu tasg anodd iawn wrth geisio sicrhau cydbwysedd. Mae llai a llai o arian cyhoeddus ar gael, ac mae'r pwysau ar gyllidebau cynghorau'n cynyddu. O ganlyniad, weithiau ystyrir mai gwerthu asedau yw'r unig ateb i broblemau ariannol anodd, ac edrychir ar fannau gwyrdd yn aml fel yr asedau mwyaf proffidiol i'w gwerthu.

Bydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r Mesur, oherwydd dylai fod yn ddyletswydd ar lywodraeth leol i ymgynghori'n llawn â phobl leol a gofyn eu barn am benderfyniadau o'r fath. Dylai'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud yn gwbl gyhoeddus, nid mewn ffordd sy'n rhwystro pobl rhag mynegi eu barn. Dylai'r cyhoedd gael clywed dwy ochr y dadleuon anodd hyn pan fydd awdurdodau lleol yn teimlo mai dyma'r unig ffordd i ddatrys eu problemau ariannol. Mae ymgynghori, boed yn anffurfiol fel ar hyn o bryd neu, gobeithio, yn ffurfiol yn y dyfodol, yn rhoi cyfle i drigolion lleol ddweud wrth y cynghorau beth yw eu barn. Fel y clywsom gan Peter Black, mae cynghorau yn gwrandao ar yr ymgynghoriadau hynny, a gallant newid eu cynlluniau ar ôl bod yn sgwrsio gyda phobl leol.

Therefore, we support the first stage of this Measure, and the principle that Dai is looking to take forward. We look forward to seeing more fully worked-up plans and subsequent debates in the Chamber.

**Janet Ryder:** I am pleased to be able to take part in this debate, and I was also pleased to speak in the last Assembly in the debate that Lisa Francis brought forward, both of which concentrated on an important issue, namely saving and protecting playing spaces.

It was interesting to hear the intervention from Jenny Randerson, which put the council's side forward. Sometimes, councils must take the difficult decision to sell off their assets in order to provide other sporting facilities. I have often heard the argument put forward, when councils have proposed selling off green open spaces or playing fields, that it is being done to provide a sports-related facility or health-related facility. Sometimes, it is done for a health centre or a sporting facility, but very rarely, which is a great shame. What tends to happen is that councils do not take an overall view of the important role that playing fields play in communities. An interesting situation arose in relation to Barker's Lane Community School in Wrexham. It lost part of its playing field to housing, because it was deemed surplus to requirements. However, once the houses were built and families moved in, the number of children increased and then there was not sufficient open space available for them.

Therefore, we must take a balanced look at this issue and protect playing fields. There is an interesting anomaly in how we define the playing spaces that are available to young children in particular. Children under the age of eight are still not counted when playing field space is reckoned. No-one seems to realise that children under the age of eight increasingly take part in team sports such as football and mini-rugby; they are not counted when space allocation is made within schools, in particular. Sometimes, when schools themselves have been desperate for finances, they have used that as an argument

O ganlyniad, yr ydym yn cefnogi cam cyntaf y Mesur hwn, a'r egwyddor y mae Dai'n awyddus i'w sefydlu. Edrychwn ymlaen at weld cynlluniau manylach a dadleuon yn dilyn hynny yn y Siambr.

**Janet Ryder:** Yr wyf yn falch fy mod yn gallu cymryd rhan yn y ddadl hon, ac yr oeddwn yn falch hefyd o gael siarad yn y Cynulliad diwethaf yn y ddadl a gyflwynwyd gan Lisa Francis, y naill a'r llall yn canolbwyntio ar fater pwysig, sef cadw a diogelu mannau chwarae.

Yr oedd yn ddiddorol clywed ymyriad Jenny Randerson, a oedd yn cyflwyno ochr y cyngor. Weithiau rhaid i gynghorau wneud y penderfyniad anodd o werthu eu hasedau er mwyn darparu cyfleusterau chwaraeon eraill. Y ddadl yr wyf wedi clywed ei chyflwyno droeon, ar ôl i gynghorau ddweud eu bod yn bwriadu gwerthu mannau agored gwyrdd neu feysydd chwarae, yw bod hynny'n cael ei wneud er mwyn darparu cyfleuster chwaraeon neu gyfleuster iechyd. Weithiau caiff ei wneud ar gyfer canolfan iechyd neu gyfleuster chwaraeon, ond nid yn aml iawn, ac mae hynny'n drueni. Yr hyn sy'n tueddu i ddigwydd yw nad yw cynghorau'n edrych yn gyffredinol ar rôl bwysig meysydd chwarae mewn cymunedau. Cododd sefyllfa ddiddorol mewn cysylltiad ag Ysgol Gymunedol Barker's Lane yn Wrecsam. Collodd ran o'i maes chwarae er mwyn codi tai, oherwydd credid bod mwy o dir yno nag oedd angen. Fodd bynnag, ar ôl adeiladu'r tai ac ar ôl i'r teuluoedd symud i mewn, cynyddodd nifer y plant ac nid oedd digon o fannau agored ar gael iddynt.

Felly, rhaid inni edrych ar y mater hwn o'r ddwy ochr a diogelu meysydd chwarae. Mae anghysondeb diddorol yn y ffordd yr ydym yn diffinio'r mannau chwarae sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer plant ifanc. Nid yw plant dan wyth oed yn cael eu cyfrif eto wrth amcangyfrif faint o feysydd chwarae sy'n angenrheidiol. Nid yw'n ymddangos bod pobl yn sylweddoli bod mwy a mwy o blant dan wyth oed yn cymryd rhan mewn chwaraeon tîm fel pêl-droed a rygbi mini; nid ydynt yn cael eu cyfrif pan ddyrennir mannau agored mewn ysgolion yn arbennig. Weithiau pan fydd yr ysgolion eu hunain wedi bod yn



for selling off some of their playing fields, and that is not a good way forward.

We need to protect our open spaces; everyone has cited arguments as to why we should keep open spaces and increase them. The idea that we should consult with those who are affected most is important. The surrounding population is sometimes consulted if something is to be built on the land, but it is too late by then. We need to bring in consultation before then, to ensure that everyone's views are heard. If it is a school open space, it does not just affect those in the school but also the people living in the surrounding area, because school fields are often used outside of school times and benefit the whole community.

It is interesting that we still do not have an audit of open spaces throughout Wales, as has been mentioned. There has been a call for this for a long time, in that we need to know what types of space we have across Wales, what it is being used for and where it can be developed.

The basis of this proposed Measure is good; legislation in this area has been tried before by Lisa Francis and many Members have tried to put forward measures to protect playing fields. I am pleased to see the amount of support that is coming forward for the proposed Measure, and we will, hopefully, see it brought forward to protect the fields that mean so much to many communities in Wales.

**Mark Isherwood:** I thank Dai Lloyd for proposing this motion. We must ensure that all of the relevant people and organisations are notified and given an opportunity to express their views about the potential impact on their communities of the loss of a playing field.

As we have heard, this builds on the foundations laid by the winner of the best female Assembly Member award in the last Assembly, our much missed colleague, Lisa Francis. In 2006, the former Assembly Member for Wrexham, John Marek, tabled a

crafu am arian, maent wedi defnyddio hynny fel dadl dros werthu rhai o'u meysydd chwarae, ac nid yw hynny'n ffordd dda i symud ymlaen.

Mae angen inni ddiogelu ein mannau agored; mae pawb wedi dyfynnu dadleuon sy'n dangos pam y dylem gadw mannau agored a chael mwy ohonynt. Mae'r syniad y dylem ymgynghori â'r rheini y mae hyn yn effeithio fwyaf arnynt yn bwysig. Ymgynghorir â'r boblogaeth o amgyl weithiau os oes rhywbeth i gael ei adeiladu ar y tir, ond mae'n rhy hwyr erbyn hynny. Mae angen inni ymgynghori cyn hynny, er mwyn sicrhau bod barn pawb yn cael ei chlywed. Os yw'n fan agored mewn ysgol, mae'n effeithio nid yn unig ar y rheini sydd yn yr ysgol, ond hefyd ar y bobl sy'n byw yn y cyffiniau, gan fod caeau ysgolion yn aml iawn yn cael eu defnyddio ar ôl oriau ysgol ac er budd y gymuned gyfan.

Mae'n ddiddorol nad ydym wedi cael archwiliad o fannau agored drwy Gymru o hyd, fel y crybwyllwyd. Mae galw wedi bod am hyn ers amser maith, gan fod angen inni wybod pa fath o fannau agored sydd gennym ledled Cymru, pa ddefnydd a wneir ohonynt ac ymhle y gellir eu datblygu.

Mae sail dda i'r Mesur arfaethedig hwn; ceisiodd Lisa Francis gael deddfwriaeth yn y maes hwn yn y gorffennol, ac mae nifer o Aelodau wedi ceisio cyflwyno mesurau i ddiogelu meysydd chwarae. Yr wyf yn falch gweld bod cymaint o gefnogaeth i'r Mesur arfaethedig, a gobeithio y caiff ei gyflwyno er mwyn diogelu'r meysydd sy'n golygu cymaint i lawer o gymunedau yng Nghymru.

**Mark Isherwood:** Hoffwn ddiolch i Dai Lloyd am gynnig y cynnig hwn. Rhaid inni sicrhau bod y bobl a'r sefydliadau perthnasol i gyd yn cael gwybod ac yn cael cyfle i fynegi eu barn ynglŷn ag effaith bosibl colli maes chwarae ar eu cymunedau.

Fel y clywsom, mae hyn yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan enillydd gwobr Aelod benywaidd gorau'r Cynulliad diwethaf, sef Lisa Francis. Mae colled fawr ar ei hôl. Yn 2006, cyflwynodd John Marek, cyn Aelod Cynulliad Wrecsam, ddatganiad barn am

statement of opinion on protecting playing fields. He secured the cross-party support of 18 Members, including Karen Sinclair. I commended her, because, regrettably, she was the only Member of her party to sign it. John's statement of opinion said that with regard to protecting playing fields in Wales, no statistics were available on the loss of playing fields, that pupils under eight years of age were excluded from the calculation of the minimum area required for team-game playing fields, and that, unlike in England, maintained schools in Wales are not required to seek the prior consent of the Minister—the Minister for Education, Lifelong Learning Skills as it was then—before disposing of or changing the use of school playing fields.

I received an e-mail, only yesterday, from Fields in Trust—the new name for the National Playing Fields Association—saying that it is still campaigning for those changes to be introduced and that it has recently written to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills requesting a meeting and has received a holding letter. I urge the Minister to arrange a meeting with Fields in Trust at the earliest opportunity to discuss these matters.

I am a vice president of the North Wales Play and Playing Fields Association, which is vigorously opposed to the selling off of public playing space unless two principles and conditions are met. The first is that the potential sale of public formal and informal playing space has been subject to the most stringent and comprehensive scrutiny, which would include full consultation with all of the relevant parties, including the local population and local, regional and national bodies associated with the provision and protection of public playing space. The second is that the public playing space must be able to be replaced with a space that is at least equal to the space being sold, and which should be located so that it is of greater benefit to the local population. It adds a recommendation that all local authorities should strengthen the governance of public

ddiogelu meysydd chwarae. Sicrhaodd gefnogaeth drawsbleidiol gan 18 Aelod, gan gynnwys Karen Sinclair. Canmolais hi, oherwydd yn anffodus hi oedd yr unig Aelod o'i phlaid a arwyddodd y datganiad. Yr oedd datganiad barn John yn cyfeirio at ddiogelu meysydd chwarae yng Nghymru, ac yn dweud nad oedd ystadegau ar gael yn ymwneud â cholli meysydd chwarae, ac nad oedd disgyblion dan wyth oed yn cael eu cyfrif wrth gyfrifo'r arwynebedd sylfaenol angenrheidiol ar gyfer meysydd chwarae ar gyfer gemau tîm. Yr oedd hefyd yn dweud bod y sefyllfa yng Nghymru'n wahanol honno yn Lloegr gan nad yw'n ofynnol i ysgolion a gynhelir yng Nghymru ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan y Gweinidog—y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fel yr oedd bryd hynny—cyn gwerthu meysydd chwarae ysgolion neu newid y defnydd a wneir ohonynt.

Cefais e-bost ddoe ddiwethaf gan Feysydd Chwarae Cymru—enw newydd Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae—yn dweud bod y gymdeithas yn dal i ymgyrchu dros gyflwyno'r newidiadau hynny, a'i bod wedi ysgrifennu'n ddiweddar at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn am gyfarfod ac wedi cael llythyr oedi. Yr wyf yn annog y Gweinidog i drefnu cyfarfod gyda Meysydd Chwarae Cymru cyn gynted ag y bo modd i drafod y materion hyn.

Yr wyf yn un o is-lywyddion Cymdeithas Chwarae a Meysydd Chwarae Gogledd Cymru, sy'n gwrthwynebu unrhyw fwriad i werthu mannau chwarae cyhoeddus oni fodlonir dwy egwyddor a dwy amod. Yr amod cyntaf yw bod y bwriad i werthu man chwarae cyhoeddus, ffurfiol ac anffurfiol, yn destun archwiliad trylwyr a chynhwysfawr a fyddai'n cynnwys ymgynghori'n llawn â'r holl bartïon perthnasol, gan gynnwys y boblogaeth leol a chyrrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â darparu mannau chwarae cyhoeddus a'u diogelu. Yr ail amod yw ei bod yn rhaid cael man yn lle'r man chwarae cyhoeddus sydd yr un faint o leiaf â'r man sy'n cael ei werthu, a dylai fod mewn man sy'n golygu ei fod o fwy o fudd i'r boblogaeth leol. Mae'n ychwanegu argymhelliad y dylai pob awdurdod lleol wella'i drefniadau ar gyfer llywodraethu

playing space, including open spaces, village greens, children's playgrounds and sports fields, by establishing a specific body consisting of representatives from appropriate external agencies in addition to local authority representatives.

The North Wales Play and Playing Fields Association also raised concerns about Willow park playing fields in Hope. I have received a letter expressing concern about the potential sale of a significant part of a children's playing space that is owned by the council. The association had been requested by local people to pursue action that would result in the retention of that playing space. The proposal is to sell that land to the local health board for the construction of a health clinic, and, of course, the local health board is acting according to an inflexible template, dictated by Assembly Government policy. The association says that while it has sympathy with the local health board in its efforts to identify a suitable location for the clinic, it feels strongly that children's playing needs should not be compromised in order for it to solve that difficulty. It adds that it has been informed that the developer is prepared to offer improvements to the existing play area and soccer pitch and that that may prove to be economically attractive to the council in satisfying a short-term need. However, if that concept is followed through to its logical conclusion, in a few years' time, when those revitalised areas will once again have been subject to neglect, that will, potentially, encourage the sale of more land, on the basis of further offers of remedial work to the facilities.

Save Open Spaces Wales has written to me, saying that what is needed is strict adherence to the Fields in Trust's six-acre standard, which has been adopted by most local authorities in Wales in their local development plans. It roughly equates to six acres of playing space per 1,000 of population. I will conclude by referring to two frightening statistics in the letter: for every acre of play space, there are 80 acres of golf-club space, and playing fields have been lost at a rate of one a day for the last eight years.

mannau chwarae cyhoeddus, gan gynnwys manau agored, meysydd pentrefi, meysydd chwarae i blant a meysydd chwaraeon, drwy sefydlu corff penodol a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr asiantaethau allanol priodol yn ogystal â chynrychiolwyr awdurdodau lleol.

Mynegodd Cymdeithas Chwarae a Meysydd Chwarae Gogledd Cymru bryderon hefyd ynglŷn â maes chwarae a pharc Willow yn yr Hob. Yr wyf wedi cael llythyr yn mynegi pryder ynglŷn â'r posibilrwydd o werthu rhan sylweddol o fan chwarae plant sy'n eiddo i'r cyngor. Yr oedd y gymdeithas wedi cael cais gan bobl leol yn gofyn iddi geisio sicrhau y byddai'r man chwarae hwnnw'n cael ei gadw. Y bwriad yw gwerthu'r tir hwnnw i'r bwrdd iechyd lleol er mwyn adeiladu clinig iechyd, ac, wrth gwrs, mae'r bwrdd iechyd lleol yn dilyn patrwm anhyblyg, sy'n cael ei bennu gan bolisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r gymdeithas yn dweud ei bod yn cydymdeimlo â'r bwrdd iechyd lleol a'i ymdrechion i ddod o hyd i fan addas ar gyfer clinig, ond ei bod yn teimlo'n gryf na ddylid rhoi anghenion chwarae plant yn y fantol er mwyn datrys y broblem honno. Mae hefyd yn dweud ei bod wedi cael gwybod bod y datblygwr yn barod i gynnig gwelliannau yn y man chwarae presennol ynghyd â chae pêl-droed. Gallai hynny fod yn atyniadol i'r cyngor o safbwynt economaidd er mwyn diwallu angen tymor byr. Fodd bynnag, os dilynir y cysyniad hwnnw i'r pen rhesymegol, ymhen ychydig flynyddoedd, pan fydd y manau hyn sydd wedi'u hadfywio wedi cael eu hesgeuluso unwaith eto, gallai hynny arwain at werthu mwy o dir, ar sail cynigion eraill i wneud gwaith i adfer y cyfleusterau.

Mae Save Open Spaces Wales wedi ysgrifennu ataf gan ddweud mai'r hyn y mae angen ei wneud yw cadw'n gaeth at y safon chwe erw gan Feysydd Chwarae Cymru. Mae'r safon hon wedi ei mabwysiadu gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru yn eu cynlluniau datblygu lleol. Mae'n cyfateb yn fras i chwe erw o fan chwarae ar gyfer poblogaeth o 1,000. Yr wyf yn cloi drwy gyfeirio at ddau ystadegyn brawychus yn y llythyr: am bob erw o dir chwarae, mae 80 erw o dir golff, ac mae meysydd chwarae wedi'u colli ar raddfa o un y dydd yn yr wyth mlynedd diwethaf.

**Sandy Mewies:** I will keep it very brief because Mark Isherwood, like me, is in contact with North Wales Play and Playing Fields Association. As he just read its brief to you, there seems little point in me doing it again. One of the other things that Fields in Trust said was that, alongside all of these recommendations, it would like to see a comprehensive police strategy in Wales.

3.30 p.m.

I congratulate Dai on this proposed Measure and the research that he has done to get it as right as it can be under the present circumstances. It reflects the Assembly Government's 'Climbing Higher' sports and recreation strategy, which sets out to target young people and get them interested in health. It also reflects the 'One Wales' programme's intention to do the same thing. Sometimes, I look around the Chamber—I include myself in this—and think that, perhaps, some Assembly Members should take more notice and practise what we preach a bit more.

It is wonderful to see cross-party support on this. It represents a change from the period between 1992 and 1997, when the Conservatives were in power, when 5,000 playing fields throughout the UK were sold off, competitive fixtures between state schools fell by 70 per cent, and sports funding fell by £5 million. I have not misjudged it; I believe in compassionate Conservatism as much as I do the tooth fairy.

**Nick Ramsay:** I shall try not to make this political, unlike some other Assembly Members. I concur with a lot of what has been said so far and add my support to Dai Lloyd's call for this Measure. There is unanimity on this important issue, which is, perhaps, not surprising. All of us here come from different walks of life and different areas, but we are united by the fact that we all—well, most of us—went to school and we realised at an early age the importance of school playing fields. We all bring that

**Sandy Mewies:** Yr wyf am fod yn fyr iawn oherwydd mae Mark Isherwood, fel fi, mewn cysylltiad â Chymdeithas Chwarae a Meysydd Chwarae Gogledd Cymru. Gan ei fod ef newydd ddarllen ei friff ichi, nid oes llawer o bwrpas i mi fynd drwyddo eto. Un o'r pethau eraill y dywedodd Fields in Trust yr hoffent ei weld, ynghyd â'r holl argymhellion hyn, yw strategaeth chwarae gynhwysfawr yng Nghymru.

3.30 p.m.

Yr wyf yn llongyfarch Dai ar y Mesur arfaethedig hwn a'r ymchwil a wnaeth i'w gael mor gywir â phosibl dan yr amgylchiadau presennol. Mae'n adlewyrchu 'Dringo'n Uwch', strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden sy'n amcanu i dargedu poblifanc ac ennyn eu diddordeb mewn iechyd. Mae hefyd yn adlewyrchu bwriad y rhaglen 'Cymru'n Un' i wneud yr un peth. Byddaf yn edrych weithiau o gwmpas y Siambr—yr wyf yn cynnwys fy hun yn hyn—ac yn meddwl y dylai rhai o Aelodau'r Cynulliad roi mwy o sylw i'r pwnc, efallai, ac ymarfer ychydig yn fwy yr hyn a bregethwn.

Mae'n hyfryd gweld cefnogaeth drawsbleidiol i hyn. Mae'n dangos bod newid wedi digwydd ers y cyfnod rhwng 1992 a 1997, pan oedd y Ceidwadwyr mewn grym, pan werthwyd 5,000 o gaeau chwarae drwy'r DU, pan gafwyd gostyngiad o 70 y cant yn y gornestau rhwng ysgolion y wladwriaeth, a phan welwyd gostyngiad o £5 miliwn yng nghyllid chwaraeon. Nid wyf wedi camfarnu; credaf mewn Ceidwadaeth dosturiol gymaint ag y credaf yn nhylywthen deg y dannedd.

**Nick Ramsay:** Yn wahanol i rai o Aelodau'r Cynulliad, ni cheisiaf wneud hyn yn fater gwleidyddol. Cytunaf â llawer o'r hyn a ddywedwyd hyd yma, ac ychwanegaf fy nghefnogaeth i alwad Dai Lloyd am y Mesur hwn. Mae yna unfrydedd ar y mater pwysig hwn, ac nid yw hynny, efallai, yn destun syndod. Mae pawb sydd yma yn dod o wahanol gefndiroedd a gwahanol ardaloedd, ond unir ni gan y faith ein bod bob un—wel, y rhan fwyaf ohonom—wedi mynd i'r ysgol a sylweddoli'n ifanc bwysigrwydd caeau

experience to this debate today.

I listened carefully to what you had to say, Dai, and it is true that trees have preservation orders and other areas of open space have certain degrees of protection. There is clearly a gap with regard to playing fields, and it is commendable that you are trying to address this in your Measure. It is sad that so many of our debates here are concerned with the loss of community facilities; we have debated the loss of post offices, and, in many ways, the loss of playing fields can be seen in a similar way. It is one of the local community facilities that people tend to take for granted; they do not realise it is there until, one day, it is gone and under development. At that point, it is too late for consultation and for action to save it. Therefore, Measures that are designed to address that and to increase the level of consultation between councils and the public are to be welcomed.

We welcome the idea of placing another obstacle in the way of local authorities. I will go back to what was said by Jenny Randerson, who made a valuable contribution. It is too easy to see local authorities as the pariah in this case. We want to discourage local authorities from selling playing fields, but we have to accept that local authorities in Wales are under considerable pressure, not only from the developers and those who seek to remove these playing fields, but they are also suffering financial pressures. We have recently discussed the local government settlement, and we have to be mindful of those pressures and help local authorities to do what they can to protect these fields, because many authorities want to do what they can to preserve our open spaces.

If we are truly serious about tackling obesity and promoting better health and social inclusion—which are all commendable aims—we have to do more than talk the talk; we have to walk the walk. We hear many fine words—I agree with Sandy Mewies on this—but it is about practising what we preach. The Measure that the Member has put forward represents the real action that we need. We do not always get that, but we do with this

chwarae ysgolion. Yr ydym i gyd yn dod â'r profiad hwnnw i'r ddadl hon heddiw.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a oedd gennych i'w ddweud, Dai, ac mae'n wir bod yna orchmynion cadw ar goed a bod gan fannau eraill lle mae lleoedd agored rywfaint o warchodaeth. Mae'n amlwg bod bwllch lle mae caeau chwarae yn y cwestiwn, ac mae'n beth canmoladwy eich bod yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn eich Mesur. Mae'n drist bod cynifer o'n dadleuon hyn yn gysylltiedig â cholli cyfleusterau cymunedol; yr ydym wedi trafod colli swyddfeydd post, ac mewn llawer ffordd gellir ystyried colli caeau chwarae mewn ffordd debyg. Mae'n un o gyfleusterau'r gymuned leol y mae pobl yn tueddu i'w cymryd yn ganiataol; ni fyddant yn sylweddoli eu bod yno nes bydd iddynt fynd a chael eu datblygu. Ar y pwynt hwnnw, mae'n rhy hwyr trafod na gweithredu i'w achub. Felly, dylid croesawu Mesurau sy'n mynd i'r afael â hynny ac sy'n cynyddu'r ymgynghori rhwng cynghorau a'r cyhoedd.

Croesawn y syniad o osod rhwystr arall yn ffordd awdurdodau lleol. Dychwelaf at yr hyn a ddywedod Jenny Randerson, a wnaeth gyfraniad gwerthfawr. Rhy hawdd yw ystyried awdurdodau lleol yn bariaid yn yr achos hwn. Yr ydym am annog awdurdodau lleol rhag gwerthu caeau chwarae, ond rhaid inni dderbyn bod awdurdodau lleol yng Nghymru dan bwysau sylweddol, nid yn unig o du'r datblygwyr a'r rheini sy'n ceisio symud y caeau chwarae hyn, ond maent hefyd yn dioddef oherwydd pwysau ariannol. Yn ddiweddar yr ydym wedi trafod y setliad llywodraeth leol, a rhaid inni gofio'r pwysau hynny a helpu awdurdodau lleol i wneud yr hyn a allant i amddiffyn y caeau hyn, oherwydd y mae llawer o awdurdodau eisiau gwneud yr hyn a allant i gadw ein mannau agored.

Os ydym yn wirioneddol o ddiffrif ynghylch mynd i'r afael â gordewdra a hybu gwell iechyd a chynhwysiant cymdeithasol—sydd i gyd yn nodau cymeradwy—mae'n rhaid inni wneud mwy na siarad yn unig; rhaid inni weithredu'n ymarferol. Clywn lawer o eiriau gwych—cytunaf â Sandy Mewies ar hyn—ond mae'n golygu ymarfer yr hyn a bregethwn. Mae'r Mesur a gyflwynodd yr Aelod yn cynnwys y gweithredu

Measure. Like other Members, I look forward to seeing the meat being put on the bones over future months and years and seeing exactly what will be proposed. I welcome this Measure.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** I am responding to the motion today on behalf of the Assembly Government given my responsibility for local government. However, as the debate has unfolded, it has been obvious that this is a broad issue that cuts across portfolios. I am grateful to Dai for bringing this proposal forward and the Assembly Government is supportive of the purpose behind it. Listening to the contributions, the thought that we would never see the likes of a young Dai romping through the fields of Wales or scooting down the wing for Cardiff Meds is reason enough to suggest that we support the principle behind the Measure. However, there are issues that are marginally more important than preserving such iconic moments for future generations.

The Government understands and shares Dai's view that physical exercise is a vital ingredient of the 'Climbing Higher' strategy, which Sandy Mewies mentioned, and our commitment in 'One Wales' to the retention of school playing fields. It is also integral to the Health Challenge Wales strategy, which is part of a wider public health agenda to promote wellbeing. It is also part of the social justice agenda, because we know that people in less well-off areas cannot afford the relatively expensive sports clubs that are popping up in the more affluent parts of Wales. Therefore, we need to ensure that these sports facilities are available for our most disadvantaged communities. This is one of the key themes that will be explored as part of the consultation on Communities First.

Several Members highlighted the checks and balances that exist in the system, particularly the requirements on local authorities when considering whether to dispose of open spaces. However, it is acknowledged, as

gwirioneddol y mae arnom ei angen. Nid ydym bob amser yn cael hynny, ond fe'i cawn gyda'r Mesur hwn. Fel Aelodau eraill, edrychaf ymlaen at weld rhoi'r cig ar yr esgryn dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, a gweld yn union beth a gynigir. Yr wyf yn croesawu'r Mesur hwn.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Oherwydd fy nghyfrifoldeb dros lywodraeth leol, yr wyf yn ymateb i'r cynnig heddiw ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, wrth i'r ddadl ddatblygu mae wedi bod yn amlwg bod hwn yn fater eang sy'n torri ar draws portffolios. Yr wyf yn ddiolchgar i Dai am gyflwyno'r cynnig hwn, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r amcan y tu ôl iddo. Wrth wrando ar y cyfraniadau, mae'r syniad na fyddem byth yn gweld pobl debyg i Dai yn ifanc yn prancio drwy gaeau Cymru neu'n ei heglu hi i lawr yr asgell dros Feddygon Caerdydd yn ddigon o reswm i awgrymu y dylem gefnogi'r egwyddor y tu ôl i'r Mesur. Fodd bynnag, y mae yna faterion sydd fymryn yn bwysicach na diogelu eiliadau eiconig o'r fath ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Llywodraeth yn deall ac yn cytuno â barn Dai fod ymarfer corfforol yn rhan hanfodol o'r strategaeth 'Dringo'n Uwch', a grybwyllwyd gan Sandy Mewies, a'n hymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i gadw caeau chwarae ysgolion. Mae hefyd yn rhan hanfodol o strategaeth Her Iechyd Cymru, sy'n rhan o agenda iechyd cyhoeddus ehangach i hyrwyddo lles. Mae hefyd yn rhan o'r agenda cyfiawnder cymdeithasol, oherwydd gwyddom nad yw pobl mewn ardaloedd llai ffyniannus yn gallu fforddio'r clybiau chwaraeon cymharol ddrud sy'n ymddangos yn rhannau cyfoethocach Cymru. Felly, mae angen inni sicrhau bod y cyfleusterau chwaraeon hyn ar gael i'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Dyma un o'r themâu allweddol a gaiff ei harchwilio fel rhan o'r ymgynghori ar Gymunedau yn Gyntaf.

Tynnwyd sylw gan nifer o Aelodau at y dulliau cadw cydbwysedd sydd ar gael yn y system, yn arbennig y gofynion sydd ar awdurdodau lleol wrth ystyried a ddylid cael gwared ar fannau agored. Fodd bynnag,

several contributions demonstrated, that, on its own, this is not adequate and that there are loopholes in the system. Local authorities have to issue press notices when they propose to dispose of open land, but, as Dai eloquently outlined, there are limitations on that. Merely advertising the fact that land will be disposed of in no way guarantees that serious consideration will be given to any representation on the consequences of that disposal.

We should recognise that there are several other safeguards that communities should be aware of when addressing such issues. For example, 'Planning Policy Wales' states that playing fields should be protected from development, except where development will enhance existing provision, make available alternative provision, or where there is excess provision. Thus, planning requirements mean that careful consideration is required when applications are made for permission for development on land used for sport and recreation. Authorities are guided to set standards of provision for sport and recreation, so that local deficiencies can be identified and addressed. At least in part, this addresses some of Paul Davies's points. Any local standards should be used to guide the provision, protection or development of such land.

The involvement of the sports council was highlighted by several Members. Often, the Sports Council for Wales is a statutory consultee when permission is sought for disposing of such land. However, it is telling that the sports council has made very few, if any, representations despite the fact that it is a statutory consultee in such circumstances. As we move this Measure forward, that is something that we need to look into in order to establish whether that particular planning provision appears sufficiently robust.

In addition to these, some other safeguards are planned. Tribute has been paid to Lisa Francis's contribution and to the work that is going on in relation to technical advice note 16, which covers sport and recreation, to ensure that it reflects the provisions of

cydnabyddir, fel y dangosodd nifer o gyfraniadau, nad yw hyn ar ei ben ei hun yn ddigonol a bod bylchau yn y system. Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi datganiadau i'r wasg pan fwriadant gael gwared ar dir agored, ond fel yr amlinellodd Dai yn huawdl mae yna gyfyngiadau ar hynny. Nid yw hysbysebu'r ffaith yn unig y bydd tir yn cael ei waredu yn gwarantu o gwbl y rhoddir ystyriaeth ddifrifol i sylwadau ar ganlyniadau'r gwaredu hwnnw.

Dylem gydnabod y dylai cymunedau, wrth iddynt fynd i'r afael â materion o'r fath, fod yn ymwybodol o nifer o ddulliau eraill o ddiogelu. Er enghraifft, mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn dweud y dylai caeau chwarae gael eu diogelu rhag datblygiad, ac eithrio lle bydd datblygiad yn gwella'r ddarpariaeth bresennol, yn sicrhau bod darpariaeth arall ar gael, neu lle mae gormod o ddarpariaeth. Felly, mae gofynion cynllunio'n golygu bod angen ystyried yn ofalus pan wneir ceisiadau am ganiatâd i ddatblygu ar dir a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon a hamdden. Rhoddir canllawiau i awdurdodau osod safonau ynghylch darparu ar gyfer chwaraeon a hamdden, fel y gellir nodi diffygion lleol a mynd i'r afael â hwy. Yn rhannol, o leiaf, mae hyn yn mynd i'r afael â rhai o bwyntiau Paul Davies. Dylai safonau lleol gael eu defnyddio wrth osod canllawiau ynghylch darparu, diogelu neu ddatblygu tir o'r fath.

Tynnwyd sylw at gyfraniad y cyngor chwaraeon gan nifer o Aelodau. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru yn aml yn un o'r cyrff i ymgynghori'n statudol ag ef pan geisir caniatâd i gael gwared ar dir o'r fath. Fodd bynnag, mae'n arwyddocaol mai ychydig iawn o sylwadau a wnaeth y cyngor chwaraeon, os o gwbl, er ei fod yn ymgynghorai statudol mewn amgylchiadau o'r fath. Wrth inni symud y Mesur hwn yn ei flaen, mae hynny'n rhywbeth y dylem ei ystyried er mwyn sefydlu a yw'r ddarpariaeth gynllunio benodol honno'n ddigon cadarn.

Yn ogystal â'r rhain, mae rhai dulliau diogelu eraill wedi'u cynllunio. Rhoddwyd teyrnged i gyfraniad Lisa Francis ac i'r gwaith sydd ar droed mewn cysylltiad â nodyn cyngor technegol 16, sy'n berthnasol i chwaraeon a hamdden, i sicrhau ei fod yn adlewyrchu

'Planning Policy Wales' and the wider Assembly Government policy agendas for sport, recreation, the environment, play and health and wellbeing. TAN 16 will provide for the use of open space assessments in the preparation of local development plans and, more widely, as a means of supporting sport and recreation provision through community strategies. The consultation that has taken place indicates that there is support for reducing the minimum threshold at which local authorities must consult with the sports council. I am glad to confirm that the Assembly Government is planning legislation to reduce the limit from 0.4 hectares to 0.2 hectares, which Dai specifically mentioned in his contribution.

3.40 p.m.

We have also asked the Sports Council for Wales to be more proactive in the range of communication methods that it uses to raise awareness among schools, sports clubs and the general public of the checks and balances that currently exist, notwithstanding the limitations that we acknowledge.

We propose to explore, with Planning Aid Wales, the most effective ways of engaging with other stakeholders and local communities to discuss sport and recreation issues as part of the wider community development agenda and the planning process.

In conclusion, we acknowledge, as most speakers have done, that there are checks and balances in the system. However, there are limitations in what is available. Consequently, Dai is right to raise this matter and to seek to explore further ways of underpinning our shared objectives. In supporting the principle of the Measure that Dai has proposed today, the Assembly Government looks forward to further discussions with him to see how we can give effect to its intentions. However, I know from discussions with Dai—I think that Kirsty Williams also mentioned this in her contribution—that, although the objective is clearly easy to state and easily understood, there are a number of technical legal issues

darpariaethau 'Polisi Cynllunio Cymru' ac agendau polisi ehangach Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer chwaraeon, hamdden, yr amgylchedd, chwarae ac iechyd a lles. Bydd nodyn cyngor technegol 16 yn darparu ar gyfer asesiadau manau agored wrth i gynlluniau datblygu lleol gael eu paratoi ac, yn ehangach, fel dull i gefnogi chwaraeon a darpariaethau hamdden drwy strategaethau cymunedol. Mae'r ymgynghori a gynhaliwyd yn dangos bod cefnogaeth i leihau'r trothwy isaf pan fydd yn rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r cyngor chwaraeon. Yr wyf yn falch cadarnhau'r hyn a grybwyllodd Dai yn benodol yn ei gyfraniad, sef bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynllunio deddfwriaeth i ostwng y cyfyngiad o 0.4 hectar i 0.2 hectar.

Yr ydym hefyd wedi gofyn i Gyngor Chwaraeon Cymru fod yn fwy rhagweithiol o ran amrediad y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir ganddo i godi ymwybyddiaeth ymhlith ysgolion, clybiau chwaraeon a'r cyhoedd yn gyffredinol ynghylch y dulliau cadw cydbwysedd sydd ar gael ar hyn o bryd, er gwaethaf y cyfyngiadau a gydnabyddwn.

Gyda Chymorth Cynllunio Cymru, bwriadwn archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol o ymwneud â budd-ddeiliaid eraill a chymunedau lleol i drafod materion chwaraeon a hamdden fel rhan o'r agenda ehangach i ddatblygu cymunedau a'r broses gynllunio.

I gloi, yr ydym yn cydnabod, fel y gwnaeth y rhan fwyaf o'r siaradwyr, fod yna ddulliau sicrhau cydbwysedd yn y system. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau yn y hyn sydd ar gael. O ganlyniad, mae Dai yn iawn i godi'r mater hwn ac i geisio archwilio ffyrdd eraill i atgyfnerthu'r amcanion sy'n gyffredin rhngom. Wrth gefnogi egwyddor y Mesur y mae Dai wedi ei gynnig heddiw, mae Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ymlaen at drafodaethau pellach gydag ef i weld sut y gallwn weithredu bwriadau'r Mesur. Fodd bynnag, gwn o drafod gyda Dai—credaf fod Kirsty Williams hefyd wedi crybwyll hyn yn ei chyfraniad—er bod yr amcan yn amlwg yn hawdd ei fynegi ac yn hawdd ei ddeall, fod nifer o faterion cyfreithiol technegol a



and competences that will need to be addressed if we are to successfully bring this Measure forward.

**David Lloyd:** It is a pleasure to wind up a debate where there has been universal agreement. I am pleased, and grateful for all expressions of support and for the contributions of all who have spoken, namely Paul Davies, Lorraine Barrett, Kirsty Williams—with Jenny Randerson's intervention—Janet Ryder, Mark Isherwood, Sandy Mewies, Nick Ramsay and the Minister. I am grateful for all expressions of support. As was mentioned several times during the contributions, this is the first Stage; the real hard work actually starts now—over the next few months—in consultation with the Minister and officials. Ultimately, we have done this because playing fields have no statutory protection at present. This Measure will start to provide that statutory protection. There are 24 playing fields under threat today all over Wales, as we have heard. Wales has lost 13 playing fields in recent years. We need to act now. Since last summer, we have been legislators, so vote for this Measure. Diolch yn fawr. [*Applause.*]

**Y Llywydd:** Diolch i Dai ac i'r gynulleidfa. Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig hwn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu'r cynnig? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, yr wyf yn datgan bod y cynnig i ganiatáu i Dai Lloyd gyflwyno'i Fesur wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.43 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.43 p.m.*

## **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

### **Targedau NHS NHS Targets**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones and amendment 2 in the name of Kirsty

chymwyseddau i fynd i'r afael â hwy os ydym i gyflwyno'r Mesur hwn yn llwyddiannus.

**David Lloyd:** Pleser yw dirwyn dadl i ben lle cafwyd cytundeb cyffredinol. Yr wyf yn falch, ac yn ddiolchgar am bob arwydd o gefnogaeth ac am gyfraniadau pawb sydd wedi siarad, sef Paul Davies, Lorraine Barrett, Kirsty Williams—gydag ymyrriad Jenny Randerson—Janet Ryder, Mark Isherwood, Sandy Mewies, Nick Ramsay a'r Gweinidog. Yr wyf yn ddiolchgar am bob arwydd o gefnogaeth. Fel y crybwyllwyd droeon yn ystod y cyfraniadau, dyma'r Cam cyntaf; mae'r gwaith caled gwirioneddol yn dechrau yn awr—dros yr ychydig fisoedd nesaf—drwy ymgynghori â'r Gweinidog a swyddogion. Yn y pen draw, yr ydym wedi gwneud hyn oherwydd nad oes diogelwch statudol i gaeau chwarae ar hyn o bryd. Bydd y Mesur yn dechrau darparu'r diogelwch hwnnw. Fel y clywsom, dros Gymru gyfan mae 24 o gaeau chwarae dan fygythiad heddiw. Mae Cymru wedi colli 13 o gaeau chwarae dros y blynnyddoedd diwethaf. Mae angen inni weithredu'n awr. Ers yr haf diwethaf, yr ydym yn ddeddfwyr, felly, pleidleisiwch dros y Mesur hwn. Diolch yn fawr. [*Cymeradwyaeth.*]

**The Presiding Officer:** Thank you, Dai, and you the audience. The proposal is that we agree this motion. Does any Member object to the motion? I see there are no objections. Therefore, I declare that the motion to allow Dai Lloyd to introduce his Measure has been carried, in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones a gwelliant 2 yn enw Kirsty Williams. Os bydd gwelliant

Williams. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

**Jonathan Morgan:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

1) notes with concern that 252 targets have been set for the Welsh NHS over the last six years;

2) acknowledges that a target-driven culture in the NHS can detract from appropriate and timely patient care;

3) calls upon the Welsh Assembly Government to move away from trying to solve problems within the NHS in Wales by setting targets. (NDM3859)

In bringing this debate to the Chamber and in proposing the motion tabled on behalf of the Welsh Conservative Party, it is our intention to highlight what we see as the growing blight that is strangling the NHS at its root.

The Labour Party's total fixation and obsession with target-setting is having the ultimate effect of distorting the clinical priorities of those front-line professionals who know exactly how and when patients need to be treated. Thanks to a confetti of diktats and Welsh health circulars that have flowed from Cathays park, the Welsh NHS is now one of the most bureaucratic and interfered-with services in the developed world. The process that leads to target-setting is almost as complicated and bureaucratic as it is to monitor the targets when they are put in place.

Each year, the Government publishes something called the Annual Operating Framework, which is a glittering document—several pages long—outlining the responsibilities of the NHS in meeting key Government targets. The process of producing that document is incredibly convoluted. Every year, the Minister outlines her priorities, a project board is formed with representatives from the Government and the health service, draft targets are issued for consultation, the project board then revises those targets taking into account any feedback, the Minister then agrees the final

1 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 2 y cael ei ddad-dethol.

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1) yn nodi â phryder bod 252 o dargedau wedi cael eu gosod ar gyfer GIG Cymru dros y chwe blynedd diwethaf;

2) yn cydnabod bod diwylliant sy'n cael ei arwain gan dargedau yn y GIG yn gallu amharu ar ofal priodol ac amserol i gleifion;

3) yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i symud i ffwrdd o geisio datrys problemau yn y GIG yng Nghymru drwy osod targedau. (NDM3859)

Wrth ddod â'r ddadl hon i'r Siambr ac wrth gynnig y cynnig ar ran Plaid Geidwadol Cymru, ein bwriad yw tynnu sylw at yr hyn sydd, i ni, yn falltodd cynyddol sy'n tagu'r GIG yn ei wraidd.

Yn y pen draw, effaith canolbwyntio llwyr a gormodol y Blaid Lafur a'i hobsesiwn i osod targedau yw ystumio blaenoriaethau clinigol y gweithwyr proffesiynol hynny yn y rheng flaen sy'n gwybod yn union sut a phryd y mae angen i gleifion gael triniaeth. Diolch i gonffeti o ddictadau a chylchlythyrau iechyd sydd wedi llifo o barc Cathays, GIG Cymru yw un o'r gwasanaethau mwyaf biwrocraidd ac agored i ymyrryd yn y byd datblygedig. Mae'r broses sy'n arwain at osod targedau bron mor gymhleth a biwrocraidd â'r gwaith o fonitro'r targedau pan gânt eu gosod.

Bob blwyddyn bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi rhywbeth a elwir yn Fframwaith Gweithredu Blynnyddol, sy'n ddogfen lachar—nifer o dudalennau o hyd—yn amlinellu cyfrifoldebau'r GIG o ran cyrraedd targedau allweddol y Llywodraeth. Mae'r broses o gynhyrchu'r ddogfen honno yn rhyfeddol o gymhleth. Bob blwyddyn, bydd y Gweinidog yn amlinellu ei blaenoriaethau, caiff bwrdd prosiect ei ffurfio gyda chynrychiolwyr o'r Llywodraeth a'r gwasanaeth iechyd, cyhoeddir targedau drafft ar gyfer ymgynghori, yna bydd y bwrdd prosiect yn diwygio'r targedau hynny ac yn

targets, and national targets are introduced in December in readiness for the next financial year.

Those national targets are then incorporated in the annual operating framework. The bureaucracy and convoluted process does not finish there. Each month, local health boards and trusts have to submit their figures in relation to the targets to their regional offices, which are then collated into a regional AOF report, which, in turn is used to compile a national monthly report for the Minister for Health and Social Service. This is a ridiculously bureaucratic way of monitoring what the NHS is there to do.

The Government has relied on targets, almost as a comfort blanket, as the only real method of keeping tabs on what the NHS is up to and the only considered way of monitoring any progress within the national health service. That monthly data collection requirement is occupying the time of hospital managers and clinicians, whose priority is to meet these targets, regardless of whether or not they think that they are there to help patients.

This almost Soviet-style micro-intrusion from the Government, without the vision or capacity to set a strategic path for the NHS, is slowly leading to the clogging up of the health service. It is denying front-line professionals the freedom to make clinical choices that benefit the patient and not the auditor.

The purpose of this debate is to allow the Assembly the chance to discuss whether the over-reliance on targets is an effective and proper way of monitoring how the health service works, and whether the Assembly Government should start examining these targets as a matter of urgency. The issue is raised time and again. When I visit hospitals and talk to managers and to those running our hospital wards and delivering services, whether in primary care or in secondary care, it is raised with us on a regular basis up and

ystyried unrhyw adborth, bydd y Gweinidog wedyn yn cytuno'r targedau terfynol, a chyflwynir targedau cenedlaethol ym mis Rhagfyr yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Ymgorfforir y targedau cenedlaethol hynny wedyn yn y fframwaith gweithredu blynyddol. Ond nid dyna ddiwedd y fiwrocratiaeth a'r broses ddyrys. Bob mis, rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau gyflwyno'u ffigurau mewn cysylltiad â'r targedau i'w swyddfeydd rhanbarthol, a chânt eu crynhoi'n adroddiad Fframwaith Gweithredu Blynyddol rhanbarthol a ddefnyddir, yn ei dro, i greu adroddiad misol cenedlaethol ar gyfer y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hon yn ffordd hurt o fiwrocrataidd i fonitro'r hyn y mae'r GIG yno i'w wneud.

Mae'r Llywodraeth wedi dibynnu ar dargedau, bron fel blanced gysur, fel yr unig ddull gwirioneddol i gadw llygad ar yr hyn y mae'r GIG yn ei wneud, a'r unig ffordd ystyriol i fonitro unrhyw gynnydd o fewn y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae'r gofyniad hwnnw i gasglu data misol yn dreth ar amser rheolwyr a chlinigwyr ysbyty sydd â'r flaenoriaeth i gyflawni'r targedau hyn, p'un a ydynt yn credu bod y targedau hyn yno i helpu cleifion ai peidio.

Mae'r micro-darfu hwn ar ran y Llywodraeth, sy'n ymylu ar fod yn Sofietaidd, heb na'r weledigaeth na'r gallu i osod llwybr strategol ar gyfer y GIG, yn araf arwain at dagu'r gwasanaeth iechyd. Mae'n amddifadu gweithwyr proffesiynol rheng-flaen o'r rhyddid i wneud dewisiadau clinigol er lles y claf, nid yr archwilydd.

Pwrpas y ddadl hon yw rhoi cyfle i'r Cynulliad drafod a yw gorddibyniaeth ar dargedau'n ffordd effeithiol a chywir i fonitro'r ffordd y mae'r gwasanaeth iechyd yn gweithio, ac a ddylai Llywodraeth y Cynulliad ddechrau archwilio'r targedau hyn ar unwaith. Codir y mater dro ar ôl tro. Wrth ymweld ag ysbytai a siarad â rheolwyr a'r rheini sy'n rhedeg wardiau ein hysbytai a darparu gwasanaethau, boed mewn gofal sylfaenol neu mewn gofal eilaidd, fe'i codir gyda ni'n rheolaidd ar hyd a lled y wlad. Nid

down Wales. It is not just clinicians who are raising this, but the professional bodies who represent those clinicians, who are also critical of the Government's approach.

The British Medical Association claims that the targets 'skew clinical priorities'—those are its words, not mine—and it says that it creates a 'numbers-driven culture', and that, in the drive to reduce waiting times across the NHS, patients with minor conditions are treated ahead of people with more severe conditions such as cancer. This is the evidence and information that was provided to us.

The Royal College of Nursing points out that the targets set must be achievable and realistic, otherwise a failure to meet them would only demoralise staff and patients alike. It is not just us who are concerned about this—the target setting that defines the relationship between Government and the NHS is a growing problem. It is imperative therefore that doctors, not politicians, decide who should receive treatment and when. As the Welsh NHS Confederation suggests, targets must be focused on the ultimate aim of delivering real benefit for patients.

The Assembly Government must embark on a step change in its own perception of how the health service needs to be allowed to operate, and I hope that the Minister for Health and Social Services will accept that point today. As our motion suggests, a grand total of 252 additional targets set for NHS Wales over the past six years is obsessional heavy-handedness and a stark narrative of the relationship between the Government and the NHS.

The Welsh Assembly Government needs to call a halt to the centralist target-setting dogma that is stifling the Welsh NHS at its heart, and instead it needs to commission a study of the targets that are being used, and those targets that have been set in the past six years, in order to see how effective they are, to see what their main job is, and to see whether they are leading to a better patient experience of the health service and real improvements in the health service as a result of those targets. We need more of a balance between the strategic direction set by

clinigwyr yn unig sy'n codi hyn, ond y cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli'r clinigwyr hynny, sydd hefyd yn beirniadu agwedd y Llywodraeth.

Honna Cymdeithas Feddygol Prydain fod y targedau'n llurgunio blaenoriaethau clinigol—ei geiriau hi, nid fy ngeiriau i—a dywed fod hyn yn creu diwylliant sydd dan ormes rhifau a bod cleifion sydd â mân gyflyrau, yn y cyrch i leihau amseroedd aros ledled y GIG, yn cael eu trin cyn pobl sydd â chyflyrau mwy difrifol megis canser. Dyma'r dystiolaeth a'r wybodaeth a roddwyd inni.

Dywed y Coleg Nyrsio Brenhinol ei bod yn rhaid i'r targedau a bennir fod yn gyraeddadwy a realistig, neu ni fyddai methu â'u cyrraedd ond yn difa morâl staff a chleifion fel ei gilydd. Nid ni'n unig sy'n pryderu am hyn—mae'r gosod targedau sy'n diffinio'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r GIG yn broblem gynyddol. Rhaid felly i feddygon, nid gwleidyddion, benderfynu pwy ddylai gael triniaeth a phryd. Fel yr awgryma Cydffederasiwn GIG Cymru, rhaid i dargedau ganolbwyntio ar y nod eithaf o sicrhau budd gwirioneddol i gleifion.

Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad newid yn sylweddol ei thybiaeth ei hunam y ffordd y mae angen caniatáu i'r gwasanaeth iechyd weithredu, a gobeithio y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn y pwynt hwnnw heddiw. Fel yr awgryma ein cynnig, mae cyfanswm o 252 o dargedau ychwanegol a bennwyd ar gyfer GIG Cymru dros y chwe blynedd diwethaf yn ormes obsesiynol ac yn ddarlun du o'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r GIG.

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi terfyn ar y ddogma ganoliaethol o osod-targedau sy'n llethu GIG Cymru yn y gwraidd. Yn hytrach, mae angen iddi gomisiynu astudiaeth o'r targedau sy'n cael eu defnyddio, a'r targedau sydd wedi eu pennu yn y chwe blynedd diwethaf, er mwyn gweld pa mor effeithiol ydynt, gweld beth yw eu prif swyddogaeth, a gweld a ydynt yn arwain at well profiad o'r gwasanaeth iechyd i gleifion, a gwelliannau gwirioneddol yn y gwasanaeth iechyd yn sgil y targedau hynny. Mae arnom angen mwy o gydbwysedd rhwng

Government and the need to set individual targets. I am not saying that every target is a bad target; I know that some targets are quite useful and help the NHS. Most of the targets, incidentally, are missed, but, putting that aside, it is the global number, and their implementation and monitoring, which is causing a major headache for the national health service.

3.50 p.m.

At no point did the previous Labour administration, or the current Labour-Plaid Cymru administration, bother to check whether the targets were having a positive effect and leading to sustained improvements. At no point did Jane Hutt, Brian Gibbons or the present Minister for Health and Social Services stop to think whether the targets were worth the paper that they were written on, and at no point did anyone think to ask doctors and nurses whether these targets were helping the NHS to fulfil its role.

There has been no shortage of reviews commissioned by the Assembly Government. There was a review many years ago of the transition from health authorities to local health boards, and there has been a review of trust reconfiguration under this Minister, an internal review of local health boards, a review of ambulance services, reviews of mental health services, dental health services, neurosurgery, and a fairly substantial review of emergency care services that was published yesterday. Therefore, the Government has been willing to accept the need to review the performance of policies and of the frameworks within which the health service operates.

I am not advocating the wholesale abolition of all targets in the health service; targets can play a useful role in benchmarking performance and can help to remove regional inequities in the system, and they can also be used to help the health service to raise its game. However, the Government must examine their long-term use and impact. They must not be used as the sole means of managing the service from Cathays park and

y cyfeiriad strategol a bennir gan y Llywodraeth a'r angen i osod targedau unigol. Nid wyf yn dweud bod pob targed yn darged drwg; gwn fod rhai targedau a ddefnyddir yn bur ddefnyddiol ac o gymorth i'r GIG. Gyda llaw, methir y rhan fwyaf o'r targedau, ond gan anwybyddu hynny, y nifer cyffredinol, eu gweithredu a'u monitro sy'n achosi cur pen sylweddol i'r gwasanaeth iechyd gwladol.

Fel y weinyddiaeth Lafur o'i blaen, nid yw'r weinyddiaeth Lafur-Plaid Cymru hon, ar unrhyw adeg wedi trafferthu gweld a yw'r targedau hyn yn cael effaith gadarnhaol ac yn arwain at welliannau parhaus. Nid oeddodd Jane Hutt, Brian Gibbons na'r Gweinidog presennol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar unrhyw adeg i ystyried a oedd y targedau'n werth y papur y'u hysgrifennwyd arnynt, ac ni feddyliodd neb, ar unrhyw adeg, am ofyn i feddygon a nyrsys a oedd y targedau hyn yn helpu'r GIG i gyflawni ei swyddogaeth.

Ni fu prinder adolygiadau wedi eu comisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad. Cafwyd adolygiad flynyddoedd yn ôl o'r trosglwyddo o awdurdodau iechyd i fyrddau iechyd lleol, a chafwyd adolygiad o ail-gyflunio ymddiriedolaethau dan y Gweinidog hwn, adolygiad mewnol o fyrddau iechyd lleol, adolygiad o wasanaethau ambiwlans, adolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau iechyd deintyddol, niwrolawdriniaethau, ac adolygiad pur sylweddol o wasanaethau gofal brys a gyhoeddwyd ddoe. Felly, mae'r Llywodraeth wedi bod yn fodlon derbyn bod angen adolygu perfformiad polisïau a'r fframweithiau y mae'r gwasanaeth iechyd yn perfformio o'u mewn.

Nid wyf yn eiriol dros gael gwared â phob targed yn y gwasanaeth iechyd; gall targedau fod yn ddefnyddiol wrth feincnodi perfformiad, a gallant helpu dileu anghydraddoldebau rhanbarthol yn y system. Gellir eu defnyddio hefyd i helpu'r gwasanaeth iechyd i wella'i berfformiad. Fodd bynnag, rhaid i'r Llywodraeth archwilio'u defnyddio a'u heffaith yn y tymor hir. Ni ddylid eu defnyddio fel yr unig

to bully doctors and nurses into producing convenient statistics for the Government to publicise. I hope that, if the Minister agrees to it, a review will be able to examine the purpose and efficacy of existing targets. Based on recommendations made, many of the targets could be scrapped, but let us have that evidence and wide debate.

I suspect that this Minister for Health and Social Services in particular is not keen on the pattern of ministerial interference that was started by her predecessors, so I hope that, this afternoon, in the spirit of consensus, she will accept our call for this work to begin. We believe that the NHS is capable of a greater degree of self-governance and that politicians need to be removed from the day-to-day running of the health service. Politicians are there to set the broad strategic direction of the health service, not to look over the doctor's shoulder during surgery.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** I propose amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete all and replace with:

*the National Assembly for Wales:*

*1. recognises the contribution which appropriate targets make in driving up performance and improving services to patients in the Welsh NHS;*

*2. endorses the action of the Assembly Government in reducing the volume of targets in order to focus more clearly on key policy intentions and outcomes.*

**Jenny Randerson:** I propose amendment 2 in the name of Kirsty Williams. Delete point 3 and replace with new point:

*calls upon the Welsh Assembly Government to move towards a smaller number of NHS targets based on clinical judgments.*

We in the Welsh Liberal Democrat group accept that certain NHS targets have been

ffordd i reoli'r gwasanaeth o Barc Cathays ac i fwlio meddygon a nyrsys i gynhyrchu ystadegau sy'n gyfleus i'r Llywodraeth roi cyhoeddusrwydd iddynt. Gobeithio, os cytuna'r Gweinidog i hynny, y bydd adolygiad yn gallu archwilio pwrpas ac effeithiolrwydd targedau presennol. Ar sail yr argymhellion a wnaed, gellid dileu nifer o'r targedau, ond gadewch inni gael y dystiolaeth honno a thrafodaeth eang.

Caf yr argraff nad yw'r Gweinidog hwn dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn arbennig yn hoff o'r patrwm o ymyrryd gweinidogol a gychwynnwyd gan ei rhagflaenwyr. Felly, gobeithio y prynhawn yma, yn ysbryd consensws, y bydd yn derbyn ein galwad am weld y gwaith hwn yn dechrau. Credwn y gall y GIG gael mwy o hunanreolaeth a bod angen tynnu gwleidyddion allan o'r gwaith beunyddiol o redeg y gwasanaeth iechyd. Rôl gwleidyddion yw gosod cyfeiriad strategol cyffredinol y gwasanaeth iechyd, nid edrych dros ysgwydd y meddyg yn ystod llawdriniaeth.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Cynigïaf welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth a rhoi yn ei le:

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn cydnabod cyfraniad targedau priodol o safbwynt gwella perfformiad a gwella gwasanaethau ar gyfer cleifion o fewn y GIG yng Nghymru;*

*2. yn cymeradwyo camau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad o ran lleihau crynswth y targedau er mwyn canolbwyntio'n fwy penodol ar fwriadau a chanlyniadau polisi allweddol.*

**Jenny Randerson:** Cynigïaf welliant 2 yn enw Kirsty Williams. Dileu pwynt 3 a rhoi pwynt newydd yn ei le:

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i symud tuag at nifer lai o dargedau GIG ar sail barn glinigol.*

Yr ydym ni yng Ngrŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn derbyn bod rhai

important in driving down waiting times and improving some standards of service. However, we welcome this debate as it provides a good opportunity to have a full and frank discussion about the extent to which these targets have truly improved the NHS and, more importantly, to discuss the potential that these targets have in their current form to endanger people's lives.

Jonathan Morgan referred to 'heavy-handed' targeting and I will speak briefly on the dangers of centralisation and central control. From time to time in recent weeks, I have detected among the other three parties a danger that a solution to current issues may be being sought via increased centralisation. That would mean locking out local views, local decision making and local clinical judgment.

The Welsh Liberal Democrats will not seek to oppose for opposition's sake, especially in relation to improvements in our health service, and that is why the Government will have our full support in moving towards a system of smart targeting, if it is based on clinical judgments and if the allusions that have been made about this in recent weeks have been followed through. However, I would ask all sides, the Conservatives, Labour and Plaid Cymru, to think about the best motion that we can get out of this debate. Which wording would be the most productive for the Welsh NHS and the health of the people in Wales?

The current situation is too extreme. A total of 252 targets over the past six years is clearly too many, and, although the target on reducing waiting times has achieved considerable success, there are now real concerns about a potentially dangerous set of side-effects.

We can all think of examples of distorting targets. The four-hour maximum waiting time in accident and emergency has had a serious knock-on effect on ambulance response times. Anyone employed in the ambulance service will tell you that. I recently raised the issue of a constituent of mine who had to wait seven and a half hours for his x-ray results; he had the x-ray within the four-hour limit, but he had to wait seven and a half

targedau GIG wedi bod yn bwysig i leihau amseroedd aros a gwella rhai safonau gwasanaeth. Fodd bynnag, croesawn y ddadl hon gan ei bod yn gyfle da i gael trafodaeth lawn a di-flewyn-ar-dafod am y graddau y mae'r targedau hyn yn wir wedi gwella'r GIG ac, yn bwysicach, i drafod y potensial sydd i'r targedau hyn yn eu ffurf bresennol i beryglu bywydau pobl.

Cyfeiriodd Jonathan Morgan at dargedu gormesol, a soniaf yn fras am beryglon canoli a rheolaeth ganolog. O bryd i'w gilydd yn ystod yr wythnosau diwethaf yr wyf wedi synhwyro ymhlith y tair plaid arall y perygl o geisio ateb i faterion cyfredol efallai drwy fwy o ganoli. Golygai hynny anwybyddu barn leol, prosesau penderfynu lleol a phenderfyniadau clinigol lleol.

Nid bwriad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yw gwrthwynebu yn unig er mwyn gwrthwynebu, yn enwedig yng nghyswllt gwella ein gwasanaeth iechyd, a dyna pam y caiff y Llywodraeth ein cefnogaeth lwyr wrth symud tuag at system o dargedu smart, os yw honno'n seiliedig ar benderfyniadau clinigol, ac os yw'r cyfeiriadau a wnaethpwyd at hyn yn yr wythnosau diwethaf wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, hoffwn ofyn i bob ochr, y Ceidwadwyr, Llafur a Phlaid Cymru, feddwl am y cynnig gorau y gallwn ei gael o'r ddadl hon. Pa eiriad a fyddai fwyaf cynhyrchiol i GIG Cymru ac i iechyd pobl yng Nghymru?

Mae'r sefyllfa bresennol yn rhy eithafol. Mae cyfanswm o 252 o dargedau dros y chwe blynedd diwethaf yn amlwg yn ormod, ac er bod y targed i leihau amseroedd aros wedi bod yn llwyddiannus tu hwnt, mae pryder gwirioneddol yn awr ynghylch set o sgil-ffeithiau a allai fod yn beryglus.

Gallwn bob un feddwl am enghreifftiau o ystumio targedau. Mae'r amser aros hiraf o bedair awr am ddamweiniau ac achosion brys wedi cael effaith ganlyniadol ddifrifol ar amseroedd ymateb cerbydau ambiwlans. Bydd unrhyw un sy'n cael ei gyflogi gan y gwasanaeth ambiwlans yn dweud hynny wrthyhych. Cyfeiriais yn ddiweddar at achos un o'm hetholwyr y bu'n rhaid iddo ddisgwyl saith awr a hanner am ganlyniad ei belydr-x;

hours for the results. Was that because they were seeking to treat everyone else within the four-hour limit, and put him aside because they were not concerned about him getting his results because he had been dealt with?

When waiting lists in the old days were counted in massive numbers, the Government's quick fix was to deal with the cataracts first in England. I always thought, 'You can get your numbers down by dealing with the cataracts, but you cannot cope with the vast numbers of people in serious pain, waiting for major operations'. I know from discussions with people employed by my local trust that there is a tendency to regard the six-month out-patient waiting limit as the target that you work to and not the maximum that you can allow. The resources are provided to ensure that that target is kept to; at five and half months, it is all systems go, but you do not have much chance before that in certain specialities.

Clinicians such as Dr Tony Calland, chair of the Welsh board of the BMA, have warned that the current system is resulting in waiting-time pressures being prioritised beyond health and, sometimes, even sheer survival pressures. This is a status quo that none of us can find acceptable and it is another reason why I hope that we will all put our health service first, ahead of party politics, and that you will support our amendment. If you support our amendment, and the Government was to withdraw its amendment, we will have made a clear statement in this Chamber about the way forward. I believe that that is very much in line with what the Minister is likely to be thinking, because there have been one or two such hints lately. It would be a sign of humility from the Government, and I hope that we can follow today the line that we as Welsh Liberal Democrats took in the Assembly election campaign, which was to promise a whole-scale review of every target in the Welsh NHS.

cafodd y pelydr-x o fewn y trothwy pedair awr, ond bu'n rhaid iddo ddisgwyl saith awr a hanner am y canlyniadau. A oedd hynny am eu bod eisiau trin pawb arall o fewn y trothwy pedair awr, a'i roi ef o'r neilltu am nad oeddent yn poeni a gâi ei ganlyniadau ai peidio oherwydd bod rhywun wedi ei weld?

Pan oedd y rhestri aros yn yr hen ddyddiau'n cael eu cyfrif fesul niferoedd anferth, ateb parod y Llywodraeth oedd delio â'r cataractau gyntaf yn Lloegr. Yr oeddwn bob amser yn meddwl, 'Gallwch ostwng eich niferoedd drwy ddelio â'r cataractau, ond ni allwch ymdopi â'r nifer fawr o bobl sydd mewn poen difrifol yn disgwyl am lawdriniaethau mawr'. Gwn o drafod gyda phobl a gyflogir gan fy ymddiriedolaeth leol fod tuedd i ystyried y trothwy aros o chwe mis i gleifion allanol fel y targed yr ydych yn gweithio tuag ato, nid yr uchafswm y gallwch ei ganiatáu. Darperir yr adnoddau i sicrhau bod y targed hwnnw'n cael ei gyrraedd; pan ddaw hi'n bum mis a hanner, mae'r cyfan yn ras, ond nid oes gennych fawr o obaith cyn hynny, yn rhai o'r meysydd arbenigol.

Mae clinigwyr megis Dr Tony Calland, cadeirydd bwrdd y Gymdeithas Feddygol Brydeinig yng Nghymru, wedi rhybuddio bod y system bresennol yn golygu bod pwysau amser aros yn cael mwy o flaenoriaeth na phwysau iechyd, a mwy hyd yn oed na phwysau goroesi weithiau. Mae hyn yn status quo nad yw'n dderbyniol i'r un ohonom, ac mae'n rheswm arall pam yr wyf yn gobeithio y byddwn i gyd yn rhoi ein gwasanaeth iechyd yn gyntaf, o flaen gwleidyddiaeth plaid, ac y byddwch yn cefnogi ein gwelliant. Os cefnogwch ein gwelliant, a phetai'r Llywodraeth yn tynnu ei gwelliant yn ei ôl, byddwn wedi gwneud datganiad clir yn y Siambr hon ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Credaf fod hynny'n agos iawn at yr hyn y mae'r Gweinidog yn debygol o fod yn ei feddwl, oherwydd cafwyd un neu ddau awgrym yn ddiweddar. Byddai'n arwydd o wyleidd-dra ar ran y Llywodraeth, a gobeithio y gallwn heddiw ddilyn y safiad a wnaed gennym ni fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ymgyrch etholiadol y Cynulliad, sef addo adolygiad graddfa-gyfan o bob targed yn GIG Cymru.



**Darren Millar:** I am pleased to have the opportunity to support this motion, and I endorse wholeheartedly what my colleague, Jonathan Morgan, has said.

It is clear that above the clamour for target-driven performance, which is so obviously the current backbone of the NHS in Wales, one voice is being consistently ignored by this Labour-Plaid Government—that voice is literally the voice of everybody else. Like other Members, I, in my role as an Assembly Member, have had the privilege of meeting many NHS practitioners who are involved in the day-to-day delivery of our health services, from GPs and nurses, to community workers and consultants, as well as patients. The message from them is loud and clear—front-line services are suffering at the hands of target-driven bureaucracy.

Even this morning, my office has spoken to two constituents. One of these constituents, who works in the health service, talked about the ridiculous volume of time-consuming paperwork and pedantic box-ticking exercises that she has to undertake regularly. All this robs her patients of the care that she could be providing, and it is demoralising to her and her colleagues. The second case is that of an elderly lady who will have to wait much longer than her consultant wants her to wait for an operation because officials regard the targets as much more important than the consultant's clinical judgment. This needs to be sorted out. My constituent's quality of life will suffer as a result of these targets. This is where it hits the coalface in terms of patient care. She will have to wait longer for her operation and will be anxious during that time. These could be examples from anywhere across Wales.

4.00 p.m.

Why can this Labour-Plaid Cymru Assembly Government not trust the judgment of professionals? Surely clinicians are better placed to judge how long a patient should have to wait for a procedure and not Ministers or officials here in Cardiff or elsewhere. Today, we are urging you, Minister, to stop this meddling with the NHS.

**Darran Millar:** Yr wyf yn falch o'r cyfle i gefnogi'r cynnig hwn, a chymeradwyaf yn llwyr yr hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod, Jonathan Morgan.

Uwchlaw'r stŵr am berfformiad a yrrir gan dargedau, sydd mor amlwg yn asgwrn cefn cyfredol y GIG yng Nghymru, mae'n amlwg bod un llais yn cael ei anwybyddu'n gyson gan y Llywodraeth Lafur-Plaid hon—y llais hwnnw'n llythrennol yw llais pawb arall. Fel Aelodau eraill, yr wyf wedi cael y fraint, yn fy swyddogaeth fel Aelod Cynulliad, o gwrdd â nifer o ymarferwyr y GIG sy'n ymwneud â'r gwaith beunyddiol o ddarparu ein gwasanaethau iechyd, o Feddygon Teulu a nyrsys i weithwyr cymunedol ac ymgynghorwyr, yn ogystal â chleifion. Mae'r neges ganddynt yn glir ac yn groch—mae gwasanaethau llinell flaen yn dioddef oherwydd biwrocraatiaeth sy'n cael ei gyrru gan dargedau.

Mor ddiwedd â bore heddiw, mae fy swyddfa wedi siarad â dau etholwr lleol. Mae'r naill yn gweithio yn y gwasanaeth iechyd, a chyfeiriodd at y mynydd chwerthinllyd o waith papur sy'n dreth ar ei hamser, a'r ymarferion ticio blychau pedantig y mae'n rhaid iddi eu cyflawni'n rheolaidd. Mae hyn i gyd yn amddifadu ei chleifion o'r gofal y gallai fod yn ei roi iddynt, ac mae'n difa ei morâl hi a'i chydweithwyr. Yr ail achos yw gwraig oedrannus a fydd yn gorfod disgwyl am gyfnod hwy nag y dymuna ei meddyg ymgynghorol i gael ei llawdriniaeth oherwydd bod swyddogion yn rhoi llawer mwy o bwys ar y targedau nag ar ei ddyfarniad clinigol ef. Dyma lle y mae'n taro i'r byw, yng nghyswllt gofal cleifion. Bydd yn rhaid iddi ddisgwyl am gyfnod hwy am ei llawdriniaeth, a bydd yn bryderus yn ystod y cyfnod hwnnw. Gallai'r rhain fod yn enghreifftiau o unrhyw ran o Gymru.

Pam na all y Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru hon yn y Cynulliad ymddiried ym marn pobl broffesiynol? Onid yw clinigwyr mewn sefyllfa well i farnu faint y dylai claf orfod aros am driniaeth nag yw Gweinidogion neu swyddogion yma yng Nghaerdydd neu rywle arall? Heddiw, yr ydym yn eich annog, Weinidog, i roi'r gorau i'r potsian hwn yn y

I am hopeful that you will support the motion. Let those who best understand the nature of medical care make the decisions.

I accept that having some targets can be useful to deliver some progress, as Jonathan Morgan said, but the hundreds that currently exist are simply not delivering the improvements that the people of Wales demand and deserve. There are too many targets, collected by too many administrators on behalf of too many managers and too many bureaucrats; the result is that too much money is wasted without having an impact on patient care or outcomes. In fact, I want to know, as would everyone else in the Chamber, precisely how much money is spent collating the information required by your Assembly Government each month. My guess is that it is probably too much, and that that money would be far better spent on front-line services. I am sure that the public would agree.

The current arrangements are not working and precious resources could certainly be better used. Let us get the NHS back on track and away from this numbers-driven culture, so that it can focus not on the delivery of targets but on better patient outcomes and care. That is why I urge fellow Members to support our sensible motion today.

**Val Lloyd:** I feel that this motion displays a degree of tunnel vision. It calls for the abolition of targets for the NHS without recognising that a set of realistic targets can contribute to better and quicker treatment for all patients across Wales, and without offering an alternative, at least not in point 3 of the motion as it was tabled.

Point 2 of the motion seems to suggest that NHS staff in general are more worried about targets than they are about patient care. As a former nurse, I can assure you that nurses do not go to work thinking about targets, but about how they can deliver optimum patient care.

Over the past five years, we have seen a

GIG. Yr wyf yn gobeithio y cefnogwch y cynnig hwn. Gadewch y penderfyniadau i'r rheini sy'n deall orau beth yw natur gofal meddygol.

Deallaf y gall cael ambell darged fod o fudd i sicrhau rhywfaint o gynnydd, fel y dywedodd Jonathan Morgan. Ond yn syml nid yw'r cannoedd sy'n bodoli ar hyn o bryd yn sicrhau'r gwelliannau y mae pobl Cymru'n eu mynnu ac yn eu haeddu. Mae yna ormod o dargedau o lawer, a gormod o weinyddwyr yn eu casglu ar ran gormod o reolwyr a gormod o fiwrocratiaid; y canlyniad yw bod gormod o arian yn cael ei wastraffu heb i hynny gael effaith ar y gofal a gaiff cleifion nac ar ganlyniadau. A dweud y gwir, yr wyf am wybod, fel y byddai pawb arall yn y Siambr, faint o arian yn union sy'n cael ei wario ar gasglu'r wybodaeth y mae Llywodraeth eich Cynulliad yn ei mynnu bob mis. Gormod, mentraf ddweud, a byddai'n well o lawer gwario'r arian hwnnw ar wasanaethau'r rheng flaen. Yr wyf yn siŵr y byddai'r cyhoedd yn cytuno.

Nid yw'r trefniadau presennol yn gweithio, ac yn sicr gellid defnyddio adnoddau gwerthfawr yn well. Gadewch inni roi'r GIG yn ôl ar y trywydd a symud oddi wrth y diwylliant hwn sy'n cael ei sbarduno gan niferoedd, fel y gall ganolbwyntio ar well canlyniadau i gleifion a gwell gofal yn hytrach nag ar gyrraedd targedau. Dyna pam yr wyf yn annog cyd-Aelodau i gefnogi ein cynnig synhwyrol heddiw.

**Val Lloyd:** Teimlaf fod y cynnig yn arwydd o gulni. Mae'n galw am ddileu targedau ar gyfer y GIG heb sylweddoli bod modd i set o dargedau realistig gyfrannu at well triniaeth a thriniaeth gyflymach i bob claf ledled Cymru. Ac mae'n gwneud hynny heb gynnig dewis arall, o leiaf nid ym mhwynt 3 yn y cynnig fel y'i cyflwynwyd.

Mae pwynt 2 fel pe bae'n awgrymu bod staff y GIG yn gyffredinol yn poeni mwy am dargedau nag am ofal i gleifion. Fel cyn-nyrs, gallaf eich sicrhau nad yw nyrsys yn mynd i'w gwaith yn meddwl am dargedau, ond am y ffordd y gallant ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion.

Dros y pum mlynedd diwethaf gwelsom

reduction in the number of targets in the NHS. The system now in force has created a more realistic set of targets devised in consultation with a range of stakeholders. There is no doubt that setting targets has allowed the NHS to treat more patients, more quickly. Current waiting time figures speak for themselves on that. Of course, it would be remiss of me not to remind everyone that waiting lists increased by 400,000 people across the UK between 1979 and 1997. During that time, no such waiting time targets were set. You should draw your own conclusions on that.

**Jonathan Morgan:** Is it not the case that the number of people waiting for treatment has decreased because, under the second-offer scheme initiated by Jane Hutt and pursued by Brian Gibbons, 9,000 people were treated in the private sector?

**Val Lloyd:** That may be so. I do not currently have access to the figures to agree or disagree with you, but that scheme was part of the whole package to move the numbers down, and we are talking about packages as a whole, with targets being a part of that package.

The Welsh Assembly Government has also set sensible targets in relation to cancer treatment, for example. To suggest that those targets should be abolished or even diminished would be irresponsible, because they are benchmarks and they set standards for the quality of care for patients, enabling us to monitor the situation and see when things need to be put right.

What is the alternative to centrally set targets? I am sure that the Tories would allow hospital managers to set their own targets, which would lead to a competition between hospitals, just as we had previously, rather than the same quality and timeliness of care for every patient throughout Wales.

I acknowledge that, unfortunately, patients' experiences still vary across Wales and there are instances in which patients feel that the system has let them down. However, abolishing targets is not the answer to that.

ostyngiad yn nifer y targedau yn y GIG. Mae'r system sydd ar waith yn awr wedi creu set fwy realistig o dargedau wedi'u dyfeisio drwy ymgynghori ag ystod o randdeiliaid. Nid oes amheuaeth nad yw pennu targedau wedi caniatáu i'r GIG drin mwy o gleifion a hynny'n gyflymach. Mae ffigurau'r amserau aros presennol yn profi hynny. Wrth gwrs, byddwn ar fai pe na bawn yn atgoffa pawb bod rhestri aros wedi cynyddu 400,000 ar draws y DU rhwng 1979 a 1997. Yn ystod y cyfnod hwnnw, nid oedd targedau amserau aros o'r fath yn cael eu gosod. Dylech lunio'ch casgliadau eich hunain ynglŷn â hynny.

**Jonathan Morgan:** Onid yw'n wir fod nifer y bobl sy'n aros am driniaeth wedi gostwng, oherwydd bod 9,000 o bobl, dan gynllun yr ail gynnig a gychwynwyd gan Jane Hutt ac a ddilynwyd wedyn gan Brian Gibbons, yn cael triniaeth yn y sector preifat?

**Val Lloyd:** Efallai'n wir. Nid yw'r ffigurau gennyf ar hyn o bryd imi gytuno neu anghytuno â chi, ond yr oedd y cynllun hwnnw'n rhan o'r pecyn cyfan i leihau'r niferoedd, a sôn am becynnau cyfan yr ydym, gyda thargedau'n rhan o'r pecyn hwnnw.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi gosod targedau synhwyrol ar gyfer trin canser, er enghraifft. Mae awgrymu y dylid dileu'r targedau hynny, neu hyd yn oed eu lleihau, yn anghyfrifol, oherwydd maent yn feincnodau ac yn gosod safonau ar gyfer ansawdd gofal i gleifion, gan ein galluogi i fonitro'r sefyllfa a gweld pryd y mae angen cywiro pethau.

Beth yw'r dewis arall yn lle gosod targedau'n ganolog? Yr wyf yn siŵr y byddai'r Torïaid yn caniatáu i reolwyr ysbytai osod eu targedau eu hunain. Byddai hynny'n arwain at gystadleuaeth rhwng ysbytai, yn union fel y digwyddai gynt, yn hytrach na gofal o'r un safon a'r un mor brydlon i bob claf ledled Cymru.

Yr wyf yn cydnabod, yn anffodus, fod profiadau cleifion yn dal i amrywio ar draws Cymru a bod enghreifftiau lle mae cleifion yn teimlo bod y system wedi eu siomi. Fodd bynnag, nid dileu targedau yw'r ateb i hynny.

We need policies that go hand in hand with sensible targets to tackle issues of concern in the NHS.

The Welsh Assembly Government is already working to set up a robust framework that will drive up standards of care in many areas. This is the logic behind the healthcare quality improvement plan and the national service frameworks for coronary heart disease, diabetes and maternity services, for example. We need to keep monitoring NHS performance to find the right policy solutions when things do not go according to plan.

**William Graham:** It must repeatedly be emphasised that failure to meet these targets is not a reflection on the professionalism and dedication of our NHS staff; it is an outcome arising from the interference of a Government that has set target after target without having due regard to the demands that its targets place on clinical treatment and resources.

When orthopaedic services at the Royal Gwent Hospital in Newport were at crisis point, with people required to wait more than 18 months for treatment, the Labour Assembly Government, under much pressure from the Welsh Conservatives, the Welsh Liberal Democrats, and, at that, time, Plaid Cymru, was panicked into calling in Professor Brian Edwards of the University of Sheffield to conduct an urgent review of the service. He identified bedblocking as the major contributory factor, and recommended more orthopaedic beds and the efficient discharge of patients to external continuing healthcare agencies.

Last week, I requested a debate on the impact of the Grogan judgment. The Leader of this House explained that:

‘the Government’s view is that LHBs could absorb the limited financial implications this year from their existing budget’.

In reality, this will plunge Gwent local health board a further £8 million into the red, breaking the understanding that the Assembly would assist in meeting these costs for this

Mae arnom angen polisiau sy’n mynd law yn llaw â thargedau synhwyrol i fynd i’r afael â materion sy’n peri pryder yn y GIG.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn gweithio i sefydlu fframwaith cadarn a fydd yn codi safonau gofal mewn nifer o feysydd. Dyma’r rhesymeg y tu cefn i’r cynllun i wella ansawdd gofal iechyd a’r fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd coronaidd y galon, diabetes, a gwasanaethau mamolaeth, er enghraifft. Mae angen inni ddal i fonitro perfformiad y GIG er mwyn dod o hyd i’r atebion polisi cywir pan fydd pethau’n mynd o le.

**William Graham:** Rhaid pwysleisio dro ar ôl tro nad yw methu â chyrraedd y targedau hyn yn adlewyrchiad ar broffesiynoldeb ac ymroddiad ein staff yn y GIG; canlyniad ydyw sy’n codi oherwydd ymyrryd gan Lywodraeth, sydd wedi gosod targed ar ôl targed heb roi sylw priodol i’r gofynion y mae ei thargedau’n eu gosod ar driniaeth glinigol ac ar adnoddau.

Pan oedd gwasanaethau orthopedig yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd yn wynebu argyfwng, a phobl yn gorfod aros dros 18 mis am driniaeth, dan bwysau mawr gan Geidwadwyr Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a Phlaid Cymru bryd hynny, aeth Llywodraeth Lafur y Cynulliad i banig a galw ar yr Athro Brian Edwards o Brifysgol Sheffield i wneud adolygiad brys o’r gwasanaeth. Dangosodd mai blocio gwelyau oedd y ffactor a oedd yn bennaf gyfrifol am hyn, a’i argymhelliad oedd cael mwy o welyau orthopedig a rhyddhau cleifion mewn ffordd effeithlon i asiantaethau allanol a oedd yn darparu gofal iechyd parhaus.

Yr wythnos diwethaf, gofynnais am gael dadl am effaith dyfarniad Grogan. Esboniodd Arweinydd y Tŷ hwn mai:

barn y Llywodraeth yw y gallai BILlau ymdopi â’r goblygiadau ariannol cyfyngedig eleni o’u cyllideb bresennol.

Gwirionedd hyn yw bydd bwrdd iechyd lleol Gwent yn suddo £8 miliwn ymhellach i’r coch, ac mae’n torri’r ddealltwriaeth y byddai’r Cynulliad yn helpu talu’r costau hyn

financial year.

It is acknowledged that commencing treatment at the earliest opportunity is paramount for patients in life-threatening emergencies. We pay tribute to the present Minister for her emphasis on prediction and prevention, which must be the way forward. However, the Assembly Government set a target that, by 2001, 75 per cent of immediately life-threatening emergency category A calls would be responded to within eight minutes. It failed to meet that target, so it was reduced to 65 per cent. Yet again, it failed to meet the target, so it was then reduced to 60 per cent. However, in South Wales East, an average response time of eight minutes for 60 per cent of category A calls has never been reached.

The latest figures for ambulance response times highlight Monmouthshire, which consistently has the lowest percentage of calls meeting the Assembly Government target of any local authority area in Wales. Monmouthshire saw a further fall in meeting response time targets from 45.5 per cent to just over 40 per cent. On occasion, it has been as low as 37 per cent—and that in response to life-threatening contingencies.

These figures are not a reflection on our ambulance crews and paramedics; the responsibility lies with an Assembly Government that fails to ensure efficient investment in NHS services. Minister, surely it is now time to place the emphasis on standards and not targets. It is time medical professionals were allowed to make decisions about the day-to-day running of the health service in Wales, and then the people of south-east Wales will get the service that meets their clinical requirements, and not one designed to ignore patients' needs and focus solely upon politically set, arbitrary targets.

**David Lloyd:** I am old enough to have been a junior hospital doctor and a general practitioner for many years prior to the coming of the internal market in 1990. That

yn y flwyddyn ariannol hon.

Cydnabyddir bod dechrau triniaeth cyn gynted byth ag y bo modd yn hollbwysig i gleifion mewn argyfwng lle bydd eu bywyd yn y fantol. Rhoddwn deyrnged i'r Gweinidog presennol am ei phwyslais ar ragweld ac atal. Wrth gwrs, dyma'r ffordd ymlaen. Fodd bynnag, gosododd Llywodraeth y Cynulliad darged, sef erbyn 2001 y dylid ymateb cyn pen wyth munud i 75 y cant o alwadau categori A lle mae bywyd yn y fantol ar unwaith. Methodd â chyrraedd y targed hwnnw, felly, fe'i gostyngwyd i 65 y cant. Unwaith eto, methodd â chyrraedd y targed, felly, fe'i gostyngwyd wedyn i 60 y cant. Fodd bynnag, yn Nwyrain De Cymru, ni lwyddwyd erioed i ymateb cyn pen wyth munud ar gyfartaledd i 60 y cant o alwadau categori A.

Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer amseroedd ymateb cerbydau ambiwlans yn tynnu sylw at sir Fynwy. O ran cyrraedd targed Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer galwadau, yma y mae'r ganran isaf yn gyson o blith holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. Yn sir Fynwy, gwelwyd gostyngiad arall o ran cyrraedd targedau amser ymateb, sef o 45.5 y cant i ychydig dros 40 y cant. Ar brydiau mae wedi bod cyn ised â 37 y cant—a hynny wrth ymateb i alwadau lle'r oedd bywyd y claf yn y fantol.

Nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchiad ar griwiau a pharafeddygon ein cerbydau ambiwlans; Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol, llywodraeth sy'n methu â sicrhau buddsoddiad effeithlon yng ngwasanaethau'r GIG. Weinidog, onid yw'n bryd rhoi'r pwyslais yn awr ar safonau yn hytrach nag ar dargedau? Mae'n bryd gadael i weithwyr meddygol proffesiynol benderfynu sut y mae rhedeg y gwasanaeth iechyd o ddydd i ddydd yng Nghymru. Yna caiff pobl y de-ddwyrain y gwasanaeth sy'n ateb eu gofynion clinigol, nid gwasanaeth wedi'i gynllunio i anwybyddu anghenion cleifion a chanolbwyntio'n unig ar dargedau mympwyol wedi eu gosod yn wleidyddol.

**David Lloyd:** Yr wyf yn ddigon hen i fod yn feddyg iau mewn ysbyty ac yn feddyg teulu am flynyddoedd lawer cyn dyfodiad y farchnad fewnol yn 1990. Mae'r farchnad

internal market has spawned a huge rise in management numbers, bureaucracy and targets. Before 1990, the NHS was a lean, administratively cheap machine that was profession led. With the market have come accountability and management, and the inevitable clash of cultures between clinicians and managers.

There is no problem with accountability per se, but it was a mistake to base that accountability solely on management targets and to debase and ignore professional clinical judgment in the early days. We have had many targets, but targets skew clinical decisions. People are treated because a target has to be met, rather than because of their clinical need. In other words, the NHS will treat a patient whose treatment will help to reach a target rather than the patient who is the most ill and most in need of treatment. That means that patients with illnesses that do not attract a target, such as those requiring kidney dialysis, have been ignored for years.

4.10 p.m.

On that note, I want to say that the current Minister for health is to be commended on moving the agenda forward for kidney patients, however late in the day. We now have more dialysis units, a new transplant unit at UHW, and the Minister is also leading on the introduction of presumed consent for organ donation. The One Wales Government is now reducing the volume of targets to focus more clearly on key policy intentions and outcomes, which I welcome. We now have fewer targets, which are meaningful and intelligent and are focused on clinical outcomes, rather than on counting things for the sake of it.

**Brynle Williams:** To follow on from what Dai said, the Welsh Assembly Government needs to move away from the top-down micromanagement of the NHS, and from pushing more targets on the health service, which has been smothered by red tape and

fewnol honno wedi esgor ar gynnydd anferth yn nifer y rheolwyr, mewn biwrocratiaeth ac mewn targedau. Cyn 1990, yr oedd y GIG yn beiriant main, rhad i'w weinyddu yn cael ei arwain gan y proffesiwn. Yn sgil y farchnad, daeth atebolrwydd a threfn reoli, a'r gwrthdaro anochel rhwng diwylliant clinigwyr a diwylliant rheolwyr.

Nid yw atebolrwydd yn broblem ynddo'i hun, ond camgymeriad oedd seilio'r atebolrwydd hwnnw'n llwyr ar dargedau rheoli gan ddibrisio ac anwybyddu barn glinigol broffesiynol yn y dyddiau cynnar. Yr ydym wedi cael lluo o dargedau, ond mae targedau'n llurgunio penderfyniadau clinigol. Caiff pobl eu trin oherwydd ei bod yn rhaid cyrraedd targed, yn hytrach nag oherwydd eu hangen clinigol. Mewn geiriau eraill, bydd y GIG yn trin claf y bydd ei driniaeth yn helpu cyrraedd targed, yn hytrach na thrin y claf sydd fwyaf sâl a'r claf y mae arno'r angen mwyaf am driniaeth. Golyga hynny fod cleifion sydd ag afiechydon nad ydynt yn gysylltiedig â tharged, megis pobl y mae angen dialysis arenau arnynt, wedi eu hanwybyddu ers blynyddoedd.

A sôn am hynny, dymunaf ddweud y dylid llongyfarch y Gweinidog presennol dros iechyd am symud yr agenda yn ei blaen ar gyfer cleifion yr arenau, pa mor hwyr bynnag yw hynny. Mae gennym bellach fwy o unedau dialysis, uned drawsblannu newydd yn Ysbyty Prifysgol Cymru, ac mae'r Gweinidog hefyd yn arwain wrth gyflwyno trefn o gydsynio tybiedig ar gyfer rhoi organau. Mae Llywodraeth Cymru'n Un yn awr yn lleihau'r targedau er mwyn canolbwyntio'n gliriach ar fwriadau a chanlyniadau polisi allweddol, a chroesawaf hynny. Mae gennym yn awr lai o dargedau, sy'n rhai ystyrllon ac yn gall ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau clinigol yn hytrach nag ar gyfrif pethau er mwyn eu cyfrif.

**Brynle Williams:** Gan ddilyn yr hyn a ddywedodd Dai, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru symud oddi wrth feicoreoli'r GIG o'r brig i'r gwaelod, a pheidio â gwthio mwy o dargedau ar y gwasanaeth iechyd. Mae hwnnw wedi ei ffigu

bureaucracy, as have many other sectors.

gan dâp coch a biwrocratiaeth, fel nifer o sectorau eraill.

As Dai said, healthcare should be about outcomes and how well patients are treated, not about how quickly they can be pushed through the system so that artificial targets are met. Currently, patients are not always treated on the basis of clinical need. Surely it is better for patients with more serious conditions, such as various forms of cancer, who would benefit from early treatment to receive care sooner than those who could wait without there being any detrimental effect on their health.

Fel y dywedodd Dai, dylai gofal iechyd ymwneud â chanlyniadau a pha mor dda y caiff cleifion eu trin, nid pa mor gyflym y gellir eu gwthio drwy'r system er mwyn cyrraedd targedau artiffisial. Ar hyn o bryd, nid yw cleifion bob amser yn cael eu trin ar sail angen clinigol. Onid yw'n well i gleifion sydd â chyflyrau mwy difrifol, megis gwahanol fathau o ganser a fyddai'n elwa o gael eu trin yn fuan, gael gofal yn gynharach na'r rheini a allai aros heb i hynny niweidio'u hiechyd o gwbl?

Doctors, nurses and consultants should be freed up so that they can take charge of the daily running of the NHS. Healthcare professionals, from GPs upwards, should be directly responsible to their patients and the local communities that they serve. Currently, that is clearly not the case; they are responsible to central Government, which has wanted to micromanage every aspect of their work. It is common sense to say that the people who know best how to manage the day-to-day running of the NHS are the professionals who treat patients. If they are freed from interference and made accountable to the local communities and the patients whom they treat, the army of administrators and managers, which serves no useful purpose other than to deal with the Government's unnecessary bureaucracy, could be axed. Resources should be targeted at those areas where clinicians know they will be of most benefit and where they will bring about the best outcomes for patients.

Dylai meddygon, nyrsys ac ymgynghorwyr gael eu rhyddhau i fod yn gyfrifol am redeg y GIG o ddydd i ddydd. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, o feddygon teulu i fyny, fod yn uniongyrchol gyfrifol i'w cleifion ac i'r cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu. Ar hyn o bryd, mae'n amlwg nad felly y mae; maent yn gyfrifol i'r Llywodraeth ganolog, sydd wedi dymuno meicroreoli pob agwedd ar eu gwaith. Synnwyr cyffredin yw dweud mai'r bobl sy'n gwybod orau sut i reoli rhedeg y GIG o ddydd i ddydd yw'r bobl broffesiynol sy'n trin cleifion. O'u rhyddhau rhag ymyrryd a'u gwneud yn atebol i'r cymunedau lleol ac i'r cleifion y maent yn eu trin, gellid dileu'r fyddin o weinyddwyr a rheolwyr nad ydynt yn gwneud dim o fudd ar wahân i ddelio â biwrocratiaeth ddiangen y Llywodraeth. Dylid targedu'r adnoddau at y meysydd hynny lle mae clinigwyr yn gwybod y byddant o'r budd mwyaf, a lle byddant yn sichau'r canlyniadau gorau i gleifion.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** I concur with the contributions made by Val Lloyd and Dr Dai Lloyd. They have understood the issues, given that they are, or have been, clinicians within the service. Dr Lloyd alluded to the difficulties that we have had with the market in terms of the purchaser/provider split and the issues that resulted from that. When we consider the issue of targets, we must try to achieve a balance in the system. I can understand why it is quite easy sometimes to blame the bureaucrats and the Government. However, we must have some targets within the system.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Cytunaf â'r cyfraniadau a gafwyd gan Val Lloyd a'r Dr Dai Lloyd. Maent wedi deall y materion dan sylw oherwydd y maent, neu y maent wedi bod, yn glinigwyr yn y gwasanaeth. Cyfeiriodd y Dr Lloyd at yr anawsterau a gawsom gyda'r farchnad o ran y rhaniad rhwng y prynwr a'r darparwr, a'r problemau a ddeilliodd o hynny. Pan ystyriwn fater targedau, rhaid inni geisio sicrhau cydbwysedd yn y system. Gallaf ddeall pam y mae'n ddigon hawdd weithiau i feio'r biwrocratiaid a'r Llywodraeth. Fodd bynnag, rhaid inni gael rhywfaint o dargedau yn y

system.

I do not think that anyone disagrees with the suggestion that we consider provision for stroke patients, cardiac care, mental health care, cancer treatment, and accident-and-emergency departments—those are the issues we should be considering. However, as a Government, we believe that properly used targets do have a place and should continue to play their vital part in the health service. I would have had more support for the motion, Jonathan, had you outlined some of the issues around intelligent targets. It is easy to say, as Brynle did, that we must leave this to the clinicians, but we have a duty to the public, the patient and the consumer, and so there is a role for the Government in this.

We set national targets; individual trusts and organisations set their own targets. Over the past few years, there has been a steady reduction in targets. In the early days, when we were getting the system off the ground, there were 120 separate targets, but now we are starting to engage with clinicians, health professionals and voluntary organisations when we develop targets. That has vastly improved the process over the past five years. Clinicians are involved in the developments of targets for cancer networks in Cardiff, and they have been instrumental in the development of national targets. We have established consultation processes that engage with clinicians, health professionals, unions, voluntary organisations, local authorities, and various other stakeholders, and, as a result, we have reduced targets.

I would not say that the implementation of waiting time targets has been a useless exercise. Some of the statistics bear out that we have done a good job in targeting and getting delivery in key areas. If you look at out-patient appointments and people looking for other appointments across the piece, we are getting to some of the areas that we need to reach. When you speak to clinicians about the cardiac sector, they are very pleased with the targets that we are achieving, because

Ni chredaf fod neb yn anghytuno â'r awgrym y dylem ystyried darpariaeth ar gyfer cleifion strôc, gofal cardiaidd, gofal iechyd meddwl, triniaethau canser, ac adrannau damweiniau ac achosion argyfwng—dyna'r materion y dylem fod yn eu hystyried. Fodd bynnag, fel Llywodraeth credwn fod lle i dargedau sy'n cael eu defnyddio'n iawn ac y dylent barhau i chwarae eu rhan hollbwysig yn y gwasanaeth iechyd. Buaswn yn fwy parod i gefnogi'r cynnig, Jonathan, petaech wedi sôn am rai o'r materion sy'n ymwneud â thargedau synhwyrol. Mae'n hawdd dweud, fel y gwnaeth Brynle, ei bod yn rhaid inni adael hyn i'r clinigwyr, ond mae gennym ddyletswydd i'r cyhoedd, i'r claf ac i'r defnyddiwr, ac felly mae rôl i'r Llywodraeth yn hyn.

Yr ydym yn osod targedau cenedlaethol; mae ymddiriedolaethau a sefydliadau unigol yn gosod eu targedau eu hunain. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer y targedau wedi lleihau'n gyson. Yn y dyddiau cynnar, pan oeddem yn cychwyn y system, yr oedd 120 o wahanol dargedau, ond erbyn hyn, yr ydym yn dechrau ymgysylltu â chlinigwyr, â gweithwyr proffesiynol ac â chyrrff gwirfoddol wrth ddatblygu targedau. Mae hynny wedi gwella'r broses yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae clinigwyr yn ymwneud â datblygu targedau ar gyfer rhwydweithiau canser yng Nghaerdydd, ac maent wedi cyfrannu at ddatblygu targedau cenedlaethol. Yr ydym wedi sefydlu prosesau ymgynghori sy'n ymgysylltu â chlinigwyr, â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, ag undebau, â chyrrff gwirfoddol, ag awdurdodau lleol, ac ag amrywiol randdeiliaid arall, ac yn sgil hynny yr ydym wedi lleihau nifer y targedau.

Ni fyddwn yn dweud bod gweithredu targedau amserau aros wedi bod yn ymarfer di-fudd. Mae rhai o'r ystadegau'n profi inni wneud gwaith da wrth dargedu a chyflawni mewn meysydd allweddol. Os edrychwch ar apwyntiadau cleifion allanol a phobl sydd am gael am apwyntiadau eraill yn gyffredinol, yr ydym yn cyrraedd rhai o'r meysydd y mae angen inni eu cyrraedd. Pan siaradwch â chlinigwyr am y sector cardiaidd, maent yn fodlon iawn â'r targedau yr ydym yn eu



targets have introduced a discipline and focus that has allowed us to treat more people. I am not prepared to throw away the advantage that targets have introduced in some areas to Wales.

I am now looking at the development of dedicated stroke units, two-day access to sexual health services, and improved access to primary mental health workers at tier 1 and tier 4. We are targeting that. We are also targeting services for the homeless, asylum seekers, Travellers and migrant workers. If we in Government did not take the lead on these issues, I wonder what would happen to some of these groups.

I also want targets to be intelligent, and I thank Jenny for her contribution, because we have had a discussion about the use of intelligent targets. I believe that I was the first person on behalf of the Government to start to talk about this issue. We have not yet clarified how we will define intelligent targets in Wales, but it will be based upon the delivery of a desired clinical outcome for patients, and that is the important issue. It is to be recognised by clinicians as being the driving force that helps patients to receive treatment. The chief medical officer and others are looking at this issue with the professionals, and these targets would subsequently be owned by clinicians as part of their daily activity. I think that it would assist with improving the nation's health issues, if we can move it forward. I have also discussed this issue with the Wales medical committee, and I have had good discussions with the professionals about how we can take these issues forward.

Ultimately, we must recognise that we must have a balance in the health service. I believe that the way in which I am moving on targets and the way in which I am using them now is the right way forward. We need to look at intelligent targets, but we must have targets. There will always be areas in any service that people will not wish to deal with, and that is why it is important that Government is there to stand up for the patient. I greatly admire the staff in the national health service, but, ultimately, someone has to be there to speak

cyrraedd, oherwydd mae targedau wedi cyflwyno disgyblaeth a ffocws sydd wedi caniatáu inni drin mwy o bobl. Nid wyf yn barod i aberthu'r fantais y mae targedau wedi'i sicrhau i Gymru mewn rhai meysydd.

Yr wyf yn awr yn edrych ar ddatblygu unedau strôc pwrpasol, mynediad deuddydd i wasanaethau iechyd rhyw, a gwella mynediad at weithwyr iechyd meddwl sylfaenol haen 1 a haen 4. Yr ydym yn targedu hynny. Yr ydym hefyd yn targedu gwasanaethau ar gyfer pobl ddigartref, ceiswyr lloches, teithwyr a gweithwyr mudol. Pe na baem ni yn y Llywodraeth yn arwain ar y materion hyn, ys gwn i beth fyddai'n digwydd i rai o'r grwpiau hyn?

Yr wyf hefyd am i'r targedau fod yn ddeallus, a diolchaf i Jenny am ei chyfraniad, oherwydd yr ydym wedi cael trafodaeth ar ddefnyddio targedau deallus. Credaf mai fi oedd y person cyntaf ar ran y Llywodraeth i ddechrau siarad am y mater hwn. Nid ydym eto wedi egluro sut y byddwn yn diffinio targedau deallus yng Nghymru, ond caiff y diffiniad ei seilio ar sicrhau canlyniad clinigol y mae cleifion yn ei ddymuno, a dyna'r mater pwysig. Fe'i cydnabyddir gan glinigwyr fel y grym ysgogi sy'n helpu cleifion i gael triniaeth. Mae'r prif swyddog meddygol ac eraill yn edrych ar y mater hwn gyda'r gweithwyr proffesiynol, a byddai'r targedau hyn wedyn yn eiddo i glinigwyr fel rhan o'u gweithgarwch beunyddiol. Credaf y byddai'n helpu gwella problemau iechyd y genedl, os gallwn ei symud ymlaen. Yr wyf hefyd wedi trafod y mater hwn gyda phwyllgor meddygol Cymru, a chefais drafodaethau da gyda'r gweithwyr proffesiynol am y ffordd y gallwn symud y materion hyn ymlaen.

Yn y pen draw, rhaid inni gydnabod ei bod yn rhaid inni gael cydbwysedd yn y gwasanaeth iechyd. Credaf mai'r ffordd yr wyf yn symud o ran targedau a'r ffordd yr wyf yn eu defnyddio yn awr yw'r ffordd iawn ymlaen. Mae angen inni edrych ar dargedau deallus, ond rhaid inni gael targedau. Bydd yna feysydd bob amser mewn unrhyw wasanaeth na fydd pobl am ddelio â hwy, a dyna pam mae'n bwysig i'r Llywodraeth fod yno i ddadlau dros y claf. Yr wyf yn edmygu'r staff yn y gwasanaeth iechyd

up for patients and be the patient's voice. I do not see this as micromanaging on the part of the Government, because I am the last person who would want to micromanage the service. However, some targets are essential to delivery. I have welcomed the discussion and the contributions from Members, and I will read the record with interest because I might quote back to Members some of their comments in due course when they tackle me about targets and how I may not have met them.

**Jonathan Morgan:** I thank everyone who has contributed; it has been a worthwhile debate. It is clearly an issue on which people have strong views, and it will remain an issue within the NHS because of the difficult nature of the relationship between Government and the health service. Obviously, we all want to see a health service that works extremely well.

Jenny Randerson was right to say that targets can distort the situation, and we have all heard anecdotal evidence from clinicians who, for some clinical reason, have wanted to treat patient A but have had to treat patient B, because patient B is about to breach the waiting-time target. That is wrong. Where you have a target that tells a clinician that he or she cannot treat that patient first, although it may be clinically better for the patient to be treated first, is where Government bureaucracy and targets have overstepped the mark.

Darren Millar talked about the role of clinicians and how we need to get to better patient care. Clinicians need to have more of a leading role, as Dai Lloyd pointed out, and extremely well-trained, well-rewarded and motivated clinicians, who contribute massively to the NHS, have a leading role to play in ensuring that we deliver a better healthcare service. However, we can do that without over-targeting, over-monitoring and making them report every 10 minutes on whether or not these targets have been met; there are other ways in which we can do this.

gwladol yn fawr, ond yn y pen draw rhaid bod rhywun yno i ddadlau dros y cleifion ac i fod yn llais ar ran y claf. Nid wyf yn ystyried hyn yn ficoreoli ar ran y Llywodraeth, oherwydd fi yw'r person olaf a fyddai am ficoreoli'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae rhai targedau'n hanfodol er mwyn cyflawni. Yr wyf wedi croesawu'r drafodaeth a chyfraniadau'r Aelodau, a byddaf yn darllen y cofnod gyda diddordeb, oherwydd gall y byddaf am ddyfynnu rhai o sylwadau'r Aelodau yn ôl iddynt maes o law pan fyddant yn fy herio ynglŷn â thargedau a'm methiant, efallai, i'w cyrraedd.

**Jonathan Morgan:** Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu; bu'n ddadl werth chweil. Mae'n amlwg yn fater y mae gan bobl farn gref arno, a bydd yn dal yn fater o bwys yn y GIG oherwydd natur anodd y berthynas rhwng Llywodraeth a'r gwasanaeth iechyd. Yn amlwg, yr ydym i gyd am weld gwasanaeth iechyd sy'n gweithio'n eithriadol o dda.

Yr oedd Jenny Randerson yn iawn i ddweud bod targedau'n gallu ystumio'r sefyllfa, a chlywsom i gyd dystiolaeth anecdotaidd gan glinigwyr sydd, am ryw reswm clinigol, wedi dymuno trin claf A ond wedi gorfod trin claf B, gan fod claf B ar fin torri'r targed o ran amseroedd aros. Nid yw hynny'n iawn. Lle mae gennych darged sy'n dweud wrth glinigydd na all ef neu hi drin y claf hwnnw'n gyntaf, er y gallai fod yn well yn glinigol efallai i'r claf gael ei drin yn gyntaf, dyna ble mae biwrocratiaeth a thargedau Llywodraeth wedi mynd yn rhy bell.

Soniodd Darren Millar am rôl clinigwyr ac fel y mae angen inni sicrhau gwell gofal i gleifion. Mae angen i glinigwyr gael mwy o rôl arweiniol, fel y dywedodd Dai Lloyd, ac mae gan glinigwyr sydd wedi cael eu hyfforddi'n arbennig o dda, sy'n cael eu talu'n hael, sydd â lefel uchel o gymhelliad ac sy'n cyfrannu'n enfawr at y GIG, rôl arweiniol i sicrhau ein bod yn darparu gwell gwasanaeth gofal iechyd. Fodd bynnag, gallwn wneud hynny heb or-dargedu, gorfontro a gwneud iddynt gyflwyno adroddiad bob 10 munud i ddweud a yw'r targedau hyn wedi eu cyrraedd ai peidio; mae yna ffyrdd eraill inni wneud hyn.

I accept the point that Val Lloyd made—coming from a nursing background, Val has a unique insight into the healthcare profession, as does Dai Lloyd as a GP. However, targets are not the only way of measuring and driving up standards. There are broader strategies and broader strategic frameworks that the Government can use to bring about improvements over a certain period. That is a far better way of doing it.

4.20 p.m.

It does not mean that we cannot measure or ask for information, but it would take the emphasis off the continuous monitoring and reporting on monthly targets. I agree with a broad, strategic direction for the NHS—I think that that works well—but we need to get the balance right between the two and, at the moment, the balance has tipped much more in favour of the individual targets on which we expect the health service to report on a regular basis.

For a political party that has a thorough dislike of the private and independent sector, the Labour Party was quick to use the independent sector to treat 9,000 people under the second-offer scheme. The reduction in the number of people waiting had nothing to do with targets; it was to do with the fact that the available capacity had been expanded by including the private sector. That was the reason for that reduction. If you look at the expansion of dental services, in Brian Gibbons's constituency a fair bulk of dental places have been provided by a large private dental company. I think that 26,000 places commissioned by the NHS are provided by DentaCare. I do not have a problem with involving these people but, for some reason, you seem to think that target-setting reduces waiting times and improves service provision. In fact, there are a range of other things that can improve the position of patients in the NHS: private care is one of them and you have accepted private places to lead and deliver your strategy.

William Graham pointed out very well that the ambulance service has been finding it

Yr wyf yn derbyn y pwynt a wnaeth Val Lloyd—a hithau'n dod o gefndir nyrsio, mae gan Val ddealltwriaeth unigryw o'r proffesiwn gofal iechyd, fel sydd gan Dai Lloyd fel meddyg teulu. Fodd bynnag, nid targedau yw'r unig ffordd i fesur a chodi safonau. Mae yna strategaethau ehangach a fframweithiau strategol ehangach y gall y Llywodraeth eu defnyddio i sicrhau gwelliannau dros gyfnod penodol. Mae honno'n llawer gwell ffordd i'w wneud.

Nid yw'n golygu na allwn fesur na gofyn am wybodaeth, ond byddai'n tynnu'r pwyslais oddi ar y monitro parhaus a'r adrodd ar dargedau misol. Yr wyf yn cytuno â chyfeiriad strategol, bras ar gyfer y GIG—credaf fod hynny'n gweithio'n dda—ond mae angen inni gael y cydbwysedd yn iawn rhwng y ddau, ac ar hyn o bryd mae'r cydbwysedd wedi symud lawer ymhellach i gyfeiriad y targedau unigol y disgwyliwn i'r gwasanaeth iechyd adrodd arnynt yn rheolaidd.

I blaid wleidyddol sy'n casáu'r sector preifat ac annibynnol drwyddo draw, yr oedd y Blaid Lafur yn ddigon parod i ddefnyddio'r sector annibynnol i drin 9,000 o bobl dan y cynllun ail gynnig. Nid oedd a wnelo'r gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn aros â thargedau o gwbl; yr oedd a wnelo â'r ffaith fod y capasiti wedi ei gynyddu drwy gynnwys y sector preifat. Dyna oedd y rheswm am y gostyngiad. Os edrychwch ar y cynnydd mewn gwasanaethau deintyddol, yn etholaeth Brian Gibbons mae nifer sylweddol o'r lleoedd deintyddol wedi eu darparu gan gwmni deintyddol preifat mawr. Credaf fod 26,000 o leoedd a gomisiynwyd gan y GIG yn cael eu darparu gan DentaCare. Nid wyf yn gwrthwynebu cynnwys y bobl hyn, ond am ryw reswm yr ydych fel petaech yn meddwl bod gosod targedau'n lleiau amseroedd aros ac yn gwella darpariaeth gwasanaethau. Mewn gwirionedd, mae nifer o bethau eraill sy'n gallu gwella sefyllfa cleifion yn y GIG: mae gofal preifat yn un ohonynt, ac yr ydych wedi derbyn lleoedd preifat i arwain eich strategaeth a'i chyflawni.

Tynnodd William Graham ein sylw'n dda iawn at y ffaith fod y gwasanaeth ambiwlans

difficult to meet the response-time targets, and the category-A response-time target is a classic example of targets being used and manipulated when they have not been met. There was a response-time target for 75 per cent ambulances to get to an urgent call within eight minutes. That target was not being met and so the Government reduced the target. Was that the most sensible thing to do? The ambulance service is now struggling to meet that new target. However, the reverse of that is that the Government announced recently that the turnaround target at accident and emergency sites was to be altered: the ambulance service was not meeting the 20-minute target, so the Government made it even more difficult and reduced it to 15 minutes. There is a real inconsistency in the Government's attitude towards target-setting and use of targets.

The Minister, in replying to the debate this afternoon, accepted the need to get the balance right. We agree and would support you, Minister, if the balance were to be tilted away from the interfering micromanagement of individual targets towards a broader, strategic direction. The Minister rightly said that we have a duty to the public to ensure that the health service works and that we can show that there are improvements. However, you can achieve improvements in efficiency and patient care through the broader, strategic frameworks. There is a variety of strategic approaches, not least the national service frameworks, which are there to show how improvements can be brought about over a significant period of time. I think that the balance could be tipped more in favour of that.

The bottom line is that what we have asked for today, and what we have complained about, is nothing new. This issue is continuously raised with us by professionals in the front line of the NHS, who tell us that their clinical judgment is skewed by targets and target-setting. This debate is based not on mistrust of bureaucrats or Government officials and targets, but on the fact that the NHS is struggling with micromanagement of

wedi cael anhawster i gyrraedd y targedau amseroedd ymateb, ac mae'r targed amser ymateb categori A yn enghraifft glasurol o ddefnyddio ac ystwytho targedau lle na maent heb eu cyrraedd. Yr oedd yna darged amser ymateb y dylai 75 y cant o gerbydau ambiwlans gyrraedd galwad frys cyn pen wyth munud. Nid oedd y targed hwnnw'n cael ei gyrraedd, felly gostyngodd y Llywodraeth y targed. Ai dyna oedd y peth mwyaf synhwylol i'w wneud? Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn awr yn ei chael yn anodd cyrraedd y targed newydd hwnnw. Fodd bynnag, y gwrthwyneb i hynny yw bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar fod y targed cyflawni mewn safleoedd damweiniau ac achosion brys i gael ei newid: nid oedd y gwasanaeth ambiwlans yn cyrraedd y targed o 20 munud, felly, gwnaeth y Llywodraeth hynny'n anos fyth a'i ostwng i 15 munud. Mae anghysondeb gwirioneddol yn agwedd y Llywodraeth at osod targedau a defnyddio targedau.

Derbyniodd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl y prynhawn yma, fod angen cael y cydbwysedd yn iawn. Cytunwn, a byddem yn eich cefnogi, Weinidog, petai'r cydbwysedd yn gogwyddo oddi wrth y microreoli ymyrgar ar dargedau unigol i gyfeiriad strategol, ehangach. Dywedodd y Gweinidog yn gwbl gywir fod gennym ddyletswydd i'r cyhoedd i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn gweithio, a'n bod yn gallu dangos bod yna welliannau. Fodd bynnag, gallwch sicrhau gwelliannau o ran effeithlonrwydd a gofal cleifion drwy'r fframweithiau ehangach, strategol. Mae yna amrywiol ddulliau gweithredu strategol—yn anad dim y fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol, sydd yno i ddangos sut y gellir sicrhau gwelliannau dros gyfnod sylweddol. Credaf y gallai'r cydbwysedd ogwyddo mwy tuag at hynny.

Diwedd y gân yw nad yw'r hyn yr ydym wedi gofyn amdano heddiw, a'r hyn yr ydym wedi cwyno amdano, yn newydd o gwbl. Caiff y mater hwn ei godi'n barhaus gyda ni gan weithwyr proffesiynol yn rheng flaen y GIG. Maent yn dweud wrthym fod eu barn glinigol yn gael ei hystumio gan dargedau a gosod targedau. Nid yw'r ddadl hon wedi'i seilio ar ddrwgdybiaeth o fiwrocratiaid neu swyddogion Llywodraeth a thargedau, ond ar

what it does. The people of Wales want a commitment from the Assembly Government to review how targets are used and to see whether there is a better way of engaging with the national health service. Tying the NHS up in knots, tying managers up in knots, and giving clinicians who want to spend more time treating patients a hard time, is not the way to do it. There is a better way forward and I urge the Minister to review the situation as quickly as possible.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, we will defer voting until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### **Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate**

#### **Etholiadau'r Cynulliad ac Etholiadau Awdurdodau Lleol yng Nghymru Local Authority and Assembly Elections in Wales**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Kirsty Williams and amendment 2 in the name of Carwyn Jones. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

**Eleanor Burnham:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*notes with concern the low turnout in local authority and Assembly elections in Wales—particularly among young people. (NDM3858)*

I propose amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Delete all after 'National Assembly for Wales' and replace with:

*believes that in order to engage young people in the democratic process, 16-year-olds should be entitled to vote.*

That amendment would delete the original motion.

y ffaith fod y GIG yn ymrafael i ficoreoli'r hyn y mae'n ei wneud. Mae pobl Cymru am weld ymrwymiad gan Lywodraeth y Cynulliad i adolygu'r ffordd y caiff targedau eu defnyddio, a gweld a oes gwell ffordd i ymwneud â'r gwasanaeth iechyd gwladol. Nid rhwymo'r GIG yn glymau, rhwymo rheolwyr yn glymau, a rhoi amser caled i glinigwyr sydd am dreulio mwy o amser yn trin cleifion yw'r ffordd i wneud hynny. Mae yna well ffordd ymlaen, ac anogaf y Gweinidog i adolygu'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams a gwelliant 2 yn enw Carwyn Jones. Os bydd gwelliant 1 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 2 y cael ei ddad-ddethol.

**Eleanor Burnham:** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn nodi â phryder y nifer isel sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau awdurdodau lleol yng Nghymru - yn enwedig ymhlith pobl ifanc. (NDM3858)*

Cynigiau welliant 1 yn enw Kirsty Williams. Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

*yn credu y dylid caniatáu i bobl ifanc 16 oed bleidleisio er mwyn ymgysylltu pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd.*

Byddai'r gwelliant hwnnw'n dileu'r cynnig gwreiddiol.

It is 90 years to the day since women over the age of 30 were granted the right to vote. As my party's spokesperson on children and young people and equality of opportunity, I believe that it is now time to enfranchise our youth who, after all, at the age of 16 can work, pay taxes, get married, fight in the armed forces, and participate in many other aspects of life. Sixteen-year-olds participate in every aspect of life in the British democracy, apart from the vital act of voting. The suffragettes' mantra all those years ago was, 'No taxation without representation'.

I first raised this issue in a short debate some years ago. I am heartened that Julie Morgan, MP for Cardiff North, has introduced a private Member's Bill with cross-party support in the House of Commons, and the support of the Electoral Reform Society and the Votes at 16 Coalition. Having taught certain disenfranchised and disaffected youth before becoming an Assembly Member, I certainly believe that we should engage with young adults and give them the voice that they desire and deserve in our twenty-first-century democracy.

**Brynle Williams:** If you lower the voting age to 16, could we then have 16-year-olds in this Chamber?

**Eleanor Burnham:** I think that we should discuss the issue of voting before we progress any further, but thank you for that very intelligent question, Brynle.

We need to push at the visionary boundaries in Wales to include our youth fully in our democratic system; they should not look in from afar or outside. We need to have a meaningful dialogue with our young people through more appropriate citizenship education within the curriculum. I know that it has been a compulsory subject in schools since 2002. The real question should be: why should we not allow our youth to vote? Pick any topical subject, and you will notice that our youth are at the heart of campaigns on those issues—bullying, health, education, AIDS, the Welsh language, and many others. Their enthusiasm, passion, knowledge, and

Mae'n 90 mlynedd i'r diwrnod ers i fenywod dros 30 oed gael yr hawl i bleidleisio. Fel llefarydd fy mhlaiddros blant a phobl ifanc a chyfle cyfartal, credaf ei bod yn bryd yn awr inni ryddfrenio ein pobl ifanc sydd, wedi'r cyfan, yn gallu gweithio, talu trethi, priodi, ymladd yn y lluoedd arfog, a chymryd rhan mewn llawer o agweddau eraill ar fywyd yn 16 oed. Mae pobl 16 oed yn cymryd rhan ymhob agwedd ar fywyd yn nemocratiaeth Prydain, ar wahân i'r weithred hollbwysig o bleidleisio. Mantra'r swffragetiaid yr holl flynyddoedd hynny'n ôl oedd, 'Dim trethiant heb gynrychiolaeth'.

Codais y mater hwn gyntaf mewn dadl fer rai blynyddoedd yn ôl. Fe'm calonogir bod Julie Morgan, AS Gogledd Caerdydd, wedi cyflwyno Mesur Aelod preifat gyda chefnogaeth drawsbleidiol yn Nhŷ'r Cyffredin, a chefnogaeth y Gymdeithas Diwygio Etholiadol a'r Glymblaid Pleidlais yn 16. Gan fy mod wedi addysgu rhai pobl ifanc wedi'u difrenio a'u dadrithio cyn imi ddod yn Aelod Cynulliad, yr wyf yn sicr yn credu y dylem ymwneud ag oedolion ifanc a rhoi iddynt y llais y maent yn ei ddyddmuno a'i haeddu yn ein democratiaeth yn yr unfed ganrif ar hugain.

**Brynle Williams:** Petaech yn gostwng yr oedran pleidleisio i 16, a allem wedyn gael pobl 16 oed yn y Siambr hon?

**Eleanor Burnham:** Credaf y dylem drafod mater pleidleisio cyn mynd ymhellach, ond diolch ichi am y cwestiwn hynod ddeallus hwnnw, Brynle.

Mae angen inni wthio ffiniau gweledigaeth yng Nghymru i gynnwys ein pobl ifanc yn llawn yn ein system ddemocrataidd; ni ddylent edrych i mewn o bellter neu o'r tu allan. Mae angen inni gael deialog ystyrllon gyda'n pobl ifanc drwy addysg dinasyddiaeth fwy priodol yn y cwricwlwm. Gwn fod hwn yn bwnc gorfodol mewn ysgolion er 2002. Y cwestiwn mewn gwirionedd yw: pam na ddylem ganiatáu i'n pobl ifanc bleidleisio? Dewiswch unrhyw bwnc amserol, a byddwch yn sylwi mai ein pobl ifanc sydd wrth graidd ymgyrchoedd ar y materion hynny—bwlio, ieched, addysg, AIDS, yr iaith Gymraeg, a nifer o rai eraill. Mae eu brwdfrydedd, eu

idealism is refreshing and is an eye-opener for us grown-ups. Our youth are born and raised as sophisticated consumers. Consider the efforts on the part of global advertisers to grab their attention: we need to make as much effort to gain their attention in democracy and politics. Many youngsters are switched off from our society and do not engage fully in any aspect of our democracy. Disillusionment is a growing threat to our developing democracy in Wales.

Young people's habit of not voting needs to be stemmed, particularly in light of the study by the Electoral Commission, which suggests that such habits are carried forward as people get older, and become magnified. The Institute of Welsh Affairs found that 69 per cent of 18 to 24-year-olds reported that they did not vote in the first Assembly elections in 1999. Worryingly, this figure increased to 74 per cent in the 2003 elections. Change happens painfully slowly in the UK, as some of us know. After all, it was only in 1969 that the voting age was lowered to 18; 30 years later the Assembly was established. We are now forging ahead towards the promised land of full primary legislative powers once we have negotiated the present-day complex scenario and waded through the custard.

Young people mature far more quickly now than they did in our day. By the age of 16, many face decisions that we did not face even in our twenties. If we cannot protect them from the big wide world, we should at least give them a stake in it. Pam Giddy, the director of the POWER inquiry, said in the second Assembly's Committee on Standing Orders on 17 July 2006:

'It seems to us to be a perfect time to introduce them to the procedures of democracy, what voting means and getting elected representatives into schools'.

Many of us go into schools and are very engaged with schools. I find it a huge

hangerdd, eu gwybodaeth a'u delfrydiaeth yn amheuthun ac yn agoriad llygad i ni oedolion. Caiiff ein pobl ifanc eu geni a'u magu yn ddefnyddwyr soffistigedig. Ystyriwch yr ymdrechion ar ran hysbysebwyd byd-eang i hawlio'u sylw: mae angen i ni wneud cymaint o ymdrech i dynnu eu sylw at ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth. Mae nifer o bobl ifanc yn troi eu cefnau ar ein cymdeithas ac yn dewis peidio ag ymwneud yn llawn ag unrhyw agwedd ar ein democratiaeth. Mae dadrithiad yn fygythiad cynyddol i'r ddemocratiaeth sy'n datblygu yng Nghymru.

Mae angen atal yr arfer ymhlith pobl ifanc o beidio â phleidleisio, yn enwedig yng ngoleuni'r astudiaeth gan y Comisiwn Etholiadol, sy'n awgrymu bod arferion felly'n parhau wrth i bobl fynd yn hŷn, a'u bod yn cael eu hatgyfnerthu. Gwelodd y Sefydliad Materion Cymreig fod 69 y cant o bobl ifanc 18 i 24 oed yn dweud eu bod heb bleidleisio yn etholiadau cyntaf y Cynulliad yn 1999. A'r hyn sy'n peri gofid yw bod y ffigur hwn wedi codi i 74 y cant yn etholiadau 2003. Mae newid yn digwydd yn boenus o araf yn y DU, fel y gŵyr rhai ohonom. Wedi'r cyfan, dim ond yn 1969 y gostyngwyd oed pleidleisio i 18; 30 mlynedd yn ddiweddarach, sefydlwyd y Cynulliad. Yr ydym yn gyrru ymlaen yn awr at wlad yr addewid, gyda phwerau deddfu sylfaenol llawn ar ôl inni weithio'n ffordd drwy'r sefyllfa bresennol gymhleth a thorri drwy'r cwstard.

Mae pobl ifanc yn aeddfedu'n gyflymach o lawer yn awr nag oeddent yn ein cyfnod ni. Erbyn cyrraedd 16 oed mae nifer yn wynebu penderfyniadau nad oeddem ni'n eu hwynebu hyd yn oed yn ein hugeiniau. Os na allwn eu gwarchod rhag y byd mawr, dylem o leiaf roi iddynt ran ynddo. Meddai Pam Giddy, cyfarwyddwyr ymchwiliad POWER, ym Mhwyllgor yr Ail Gynulliad ar y Rheolau Sefydlog ar 17 Gorffennaf 2006:

'Mae'n ymddangos i ni yn adeg berffaith i'w cyflwyno i weithdrefnau democratiaeth, yr hyn y mae pleidleisio'n ei olygu a chael cynrychiolwyr etholedig i mewn i ysgolion'.

Bydd nifer ohonom yn mynd i ysgolion ac yn gwneud llawer ag ysgolion. Teimlaf fod

challenge and a huge privilege to speak to our youth. They are extremely passionate and very able to represent themselves.

4.30 p.m.

Our Labour Counsel General said recently in answer to a question from me that Labour does not seem to have a view on the matter, and I could not see much to commend Plaid Cymru's manifesto, although I am sure that I will be put right on that. I believe that we are having a free vote today, so I make a sincere plea to you all, as my fellow Assembly Members, to be brave and bold and to vote with the Liberal Democrats to press the UK Government to ensure that we listen to our youth, who play such a vital role in our modern democracy.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** I propose amendment 2 in the name of Carwyn Jones. Delete all and replace with:

*the National Assembly for Wales welcomes the 'One Wales' vision of empowering citizens of all ages to shape the communities in which they live and the commitment to explore and implement new ways of engaging citizens through participative and deliberative methods, including increased participation in elections in Wales.*

**Jenny Randerson:** I hope that we will have a strong body of consensus today. As the years go by, the percentage of the population that does not vote increases. Twenty-nine per cent of people now claim that they do not vote in general elections. That is compared with only 11 per cent of people claiming the same in 1964. However, if we look behind that statistic, there are some very worrying trends. In 1964, 16 per cent of the 75-plus age group said that they did not vote, and the figure for that age group now is 11 per cent. Therefore, the number of people in that age group not voting has reduced. Whereas in 1964, 11 per cent of those in the youngest age group eligible to vote did not do so, it is now an astonishing 55 per cent. In the slightly larger age group above that of 25 to 34-year-olds,

siarad â'n pobl ifanc yn her enfawr ac yn fraint enfawr. Maent yn frwdfrydig dros ben ac yn alluog iawn i gynrychioli eu hunain.

Dywedodd ein Cwnsler Cyffredinol Llafur yn ddiweddar mewn ateb i gwestiwn gennyf fi nad yw'n ymddangos fod gan Lafur farn am y mater, ac nid oeddwn yn gweld llawer i'w ganmol ym maniffesto Plaid Cymru, er fy mod yn siŵr y caf fy nghywiro ar hynny. Credaf ein bod yn cael pleidlais rydd heddiw, felly, apelïaf yn ddiwyll arnoch bob un, fel cyd-Aelodau o'r Cynulliad, i fod yn ddewr ac yn eofn ac i bleidleisio gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau ein bod yn gwrandao ar ein pobl ifanc, sydd â rhan mor hanfodol yn ein democratiaeth fodern.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Cynigïaf wellïant 2 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth a rhoi yn ei le:

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu gweledigaeth 'Cymru'n Un' o roi'r gallu i ddinasyddion o bob oedran lywio'r cymunedau y maent yn byw ynddynt a'r ymrwymiad i bwysu a mesur a gweithredu dullïau newydd o ennyn diddordeb dinasyddion drwy ddullïau cyfranogol ac ymarferol, gan gynnwys annog rhagor o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau yng Nghymru.*

**Jenny Randerson:** Gobeithio y cawn gonsensws cadarn heddiw. Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, mae canran y boblogaeth nad yw'n pleidleisïom yn cynyddu. Mae 29 y cant o bobl yn honni bellach nad ydynt yn pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol. Mae hynny'n cymharu ag 11 y cant yn unig o bobl a honnai'r un peth yn 1964. Fodd bynnag, os edrychwn y tu ôl i'r ystadegyn hwnnw, mae yna rai tueddiadau sy'n peri gofid mawr. Yn 1964, dywedodd 16 y cant o bobl dros 75 oed nad oeddent yn pleidleisio, ac mae'r ffigur ar gyfer y grŵp oedran hwnnw bellach yn 11 y cant. Felly, mae nifer y bobl yn y grŵp oedran hwnnw nad ydynt yn pleidleisio wedi gostwng. Tra oedd 11 y cant o'r rhai yn y grŵp oedran ieuengaf a chanddynt hawl i



47 per cent do not vote. In my constituency, where 25 per cent of the electorate is made up of students, as is the trend throughout the UK, the turnout is significantly lower than average.

This is frightening stuff, and the Assembly election statistics are very worrying indeed.

**Alun Ffred Jones:** I am not disagreeing with your arguments, but if 18-year-olds and 20-year-olds are not voting at present, how will lowering the voting age to 16 ensure that they will vote? What will change simply as a result of lowering the voting age?

**Jenny Randerson:** I will come to that point later in my argument. It is frightening because we take our democracy for granted far too much. After all, we do not have a written constitution to safeguard it. The British election study showed that non-voting habits may carry forward as people get older; that is, if you do not bother to vote at the age of 18, you are unlikely to bother to vote when you are 38. Therefore, it is not a case of youthful carelessness and older wisdom. There is reliable research to show that the more people understand about party politics and the way in which Government works the more interested they are in elections. People then follow the details and are more likely to vote. Therefore, understanding is the key—to address Alun Ffred's concerns.

How did we get into this mess? I believe that the seeds were sown in the 1980s, when the Thatcher Government called 'foul' at the merest whisper of party politics in schools. Fundamental confusion was created between a political discussion of issues and party-political indoctrination. Generations of the population now have little or no understanding of the way in which Government works. Allowing 16-year-olds to vote at a time when most of them, Alun

bleidleisio nad oeddent yn gwneud hynny yn 1964, mae'r ganran bellach wedi codi i lefel syfrdanol 55 y cant. Yn y grŵp oedran hŷn sydd ychydig yn fwy na hwnnw, sef pobl 25 i 34 oed, mae 47 y cant nad ydynt yn pleidleisio. Yn fy etholaeth i, lle mae 25 y cant o'r etholwyr yn fyfyrwyr, gan ddilyn y duedd sydd i'w gweld ledled y DU, mae'r ganran sy'n pleidleisio yn is o lawer na'r cyfartaledd.

Mae hyn yn frawychus, ac mae'r ystadegau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn peri gofid mawr iawn.

**Alun Ffred Jones:** Nid wyf yn anghydweld â'ch dadleuon, ond os nad yw pobl 18 oed ac 20 mlwydd oed yn pleidleisio ar hyn o bryd, sut y bydd gostwng yr oed pleidleisio i 16 yn sicrhau y byddant yn pleidleisio? Beth fydd yn newid o ganlyniad i ostwng yr oed pleidleisio'n unig?

**Jenny Randerson:** Deuaf at y pwynt hwnnw'n ddiweddarach yn fy nadl. Mae'n frawychus am ein bod yn cymryd ein democratiaeth yn ganiataol o lawer. Wedi'r cwbl, nid oes gennym gyfansoddiad ysgrifenedig i'w gwarchod. Dangosodd yr astudiaeth o etholiadau Prydain y gall yr arfer o beidio â phleidleisio barhau wrth i bobl fynd yn hŷn; hynny yw, os na thrafferthwch bleidleisio'n 18 oed, yr ydych yn annhebygol o drafferthu'n 38 oed. Felly, nid mater o ddiolfalwch yr ifanc a doethineb pobl hŷn yw hyn. Mae tystiolaeth ddibynadwy'n dangos mai po fwyaf y bydd pobl yn ei ddeall am wleidyddiaeth bleidiol a'r modd y mae Llywodraeth yn gweithio, mwyaf fydd eu diddordeb mewn etholiadau. Mae pobl yn dilyn y manylion wedyn ac yn fwy tebygol o bleidleisio. Felly, deall yw'r allwedd—i ymateb i bryderon Alun Ffred.

Sut yr aethom i'r drafferth hon? Credaf fod yr hadau wedi eu hau yn y 1980au, pan wrthwynebai Llywodraeth Thatcher glywed unrhyw sôn am wleidyddiaeth bleidiol mewn ysgolion. Dryswyd yn llwyr rhwng trafodaeth wleidyddol am faterion a gwthio syniadau pleidiau gwleidyddol. Bellach mae cenedlaethau o bobl sydd heb fawr ddim dealltwriaeth o'r modd y mae Llywodraeth yn gweithio. Mae caniatáu i bobl 16 oed bleidleisio pan yw'r rhan fwyaf ohonynt,

Ffred, are still in education is a golden opportunity to catch them, so to speak; it can be the logical culmination of their citizenship education. They would have the appropriate education in the lead-up to an election, and they would be inclined to vote at the end of that.

Lowering the voting age to 16 is not a panacea for all democratic ills. It must be seen as part of a greatly enhanced civic and citizenship education programme and a series of information issues. We have powerful allies in our cause, such as the Welsh Affairs Committee, the Power commission, and the councillors commission, which reported last year. Even Gordon Brown was reported in *The Guardian* in 2006 as being in favour of allowing 16-year-olds to vote. Julie Morgan MP has put her own Private Members' Bill forward on this and the Plaid Cymru manifesto also supports the cause. I say to my colleagues that, 90 years ago, women won a milestone victory when they were given the right to vote. It seems inconceivable to us now that women were not allowed to play a part in choosing the Government up to that point.

**Nick Ramsay:** Could you name another European country that allows voting at 16 years of age?

**Jenny Randerson:** There is a whole series of countries, not least Austria and some of the German Länder. Jersey and many other countries around the world allow voting at 16 years of age. The trend is all towards this, Nick.

To conclude, I believe that we will find it inconceivable in the future that 16-year-olds cannot vote. There is a strong pragmatic case as part of rebuilding an energetic democracy in this country. There is a strong moral case: 16-year-olds can be taxpayers, and they are full members of society in many ways. Remember the suffragettes and remember the mantra: no taxation without representation.

**Alun Davies:** I am facing the tyranny of a free vote; like us all, I take the opportunity on different occasions to hide behind the safety

Alun Ffred, yn dal i gael addysg yn gyfle gwych i'w dal, a'i roi felly; gall fod yn ben draw rhesymegol i'w haddysg ar ddinasyddiaeth. Byddent yn cael yr addysg briodol yn y cyfnod cyn etholiad, a byddent yn dueddol i bleidleisio ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

Nid yw gostwng yr oed pleidleisio i 16 yn eli at bob clwyf mewn democratiaeth. Rhaid ei weld fel rhan o raglen lawer gwell o addysg ar ddinasyddiaeth ac addysg ddinesig ac fel un o nifer o faterion yn ymwneud â gwybodaeth. Mae gennym gynghreiriaid pwerus yn gefn i ni, fel y Pwyllgor Materion Cymreig, y comisiwn Power, a chomisiwn y cynghorwyr a gyflwynodd ei adroddiad y llynedd. Dywedwyd yn *The Guardian* yn 2006 fod hyd yn oed Gordon Brown o blaid rhoi'r bleidlais i bobl 16 oed. Mae Julie Morgan AS wedi rhoi ei Mesur Aelod Preifat ei hun gerbron, ac mae maniffesto Plaid Cymru hefyd yn gefnogol i'r achos. Dywedaf wrth fy nghyd-Aelodau fod menywod wedi ennill buddugoliaeth hanesyddol, 90 mlynedd yn ôl, pan gawsant yr hawl i bleidleisio. Mae'n ymddangos yn rhyfeddol i ni'n awr nad oedd menywod yn cael chwarae rhan wrth ddewis y Llywodraeth cyn hynny.

**Nick Ramsay:** A allech enwi gwlad arall yn Ewrop sy'n caniatáu pleidleisio'n 16 oed?

**Jenny Randerson:** Mae yna nifer mawr o wledydd, a'r rhai mwyaf amlwg yw Awstria a rhai o Länder yr Almaen. Mae Jersey a nifer o wledydd eraill o gwmpas y byd yn caniatáu pleidleisio'n 16 oed. Mae'r holl dueddiadau o blaid hyn, Nick.

I gloi, credaf y byddwn yn ei chael yn anodd credu yn y dyfodol nad yw pobl 16 oed yn cael pleidleisio. Mae yna ddadl ymarferol gref fel rhan o'r gwaith o adfer democratiaeth fywiog yn y wlad hon. Mae yna ddadl foesol gref: gall pobl 16 oed fod yn drethdalwyr, ac maent yn aelodau llawn o gymdeithas ar lawer ystyr. Cofiwch y swffragetiaid, a chofiwch y mantra: dim trethiant heb gynrychiolaeth.

**Alun Davies:** Yr wyf yn wynebu gormes y bleidlais rydd; fel pob un ohonom, achubaf ar y cyfle ar wahanol adegau i guddio y tu ôl i

of our whip. On this occasion I will be taking the opportunity to vote in favour of the amendment and in favour of the vote at 16 years of age. I have looked at many different arguments against, and I cannot see any argument against people voting at 16 years of age that could not also apply against people voting at 20, 21, 51 or 61 years of age. There is no argument against it. The key argument for me is that of taxation. If people at 16 years of age can pay tax they should be able to participate in the electoral process.

While we can talk about the electoral system and the process by which we vote, the key issue about participation is a persuasion to vote at all. The crisis that we face in many parts of our democracy is not necessarily that you cannot vote when you are 16 years of age or that people do not want to vote on a Thursday or whatever, but that people do not want to vote at all. I do not believe that it is the responsibility of anyone other than politicians and political parties to persuade people to vote. I do not believe—I have heard it argued here and elsewhere—that the Electoral Commission and others should be persuading people of the necessity to vote. If people do not vote and do not feel motivated to vote, it is because people like us have failed them and have failed the society and the community that we seek to represent.

When we argue about votes for 16-year-olds, I have no interest in giving the right to a well-off, middle-class kid to vote at 16 years of age if we do not, at the same time, seek to extend that same right to the most deprived parts of society and to different groups, particularly ethnic groups, that currently feel marginalised and do not feel that they can play an active part in our democracy. Clement Attlee once said that democracy is government by discussion. All too often, people across the country, in different communities, do not feel a part of that discussion. It is people like us who prevent them from feeling a part of that discussion.

**Jeff Cuthbert:** Like you, in all probability, I

amddiffyniad ein chwip. Y tro hwn byddaf yn achub ar y cyfle i bleidleisio o blaid y gwelliant ac o blaid yr hawl i bleidleisio'n 16 oed. Yr wyf wedi ystyried nifer o ddadleuon gwahanol yn erbyn hyn, ac ni allaf weld unrhyw ddadl yn erbyn yr hawl i bleidleisio'n 16 oed na ellid ei defnyddio hefyd at bleidleisio'n 20, yn 21, yn 51 neu'n 61 oed. Nid oes dadl yn ei herbyn. Y ddadl allweddol i mi yw honno sy'n ymwneud â threthiant. Os gall rhywun dalu treth yn 16 oed, dylai allu cymryd rhan yn y broses etholiadol.

Er y gallwn sôn am y system etholiadol ac am ein proses bleidleisio, y mater allweddol o ran cymryd rhan yw dwyn perswâd ar bobl i bleidleisio yn y lle cyntaf. Nid yw'r argyfwng sy'n ein hwynebu mewn llawer rhan o'n democratiaeth yn ymwneud o reidrwydd â'r ffaith na allwch bleidleisio'n 16 oed neu nad yw pobl am bleidleisio ar ddydd Iau neu beth bynnag arall, ond â'r ffaith nad yw pobl am bleidleisio o gwbl. Nid wyf yn credu ei fod yn gyfrifoldeb i neb arall heblaw gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol i berswadio pobl i bleidleisio. Nid wyf yn credu—yr wyf wedi clywed y ddadl hon yma ac mewn manau eraill—y dylai'r Comisiwn Etholiadol ac eraill ddarbwyllio pobl fod angen pleidleisio. Os na fydd pobl yn pleidleisio ac os na fyddant yn teimlo cymhelliad i bleidleisio, y rheswm am hynny yw bod rhai fel ni wedi eu siomi ac wedi siomi'r gymdeithas a'r gymuned yr ydym yn ceisio'u cynrychioli.

Pan ddadleuwn ynghylch rhoi'r bleidlais i bobl 16 oed, nid oes gennyf ddiddordeb mewn rhoi'r hawl i blentyn dosbarth canol cefnog gael pleidleisio'n 16 oed os na fyddwn, ar yr un pryd, yn ceisio estyn yr un hawl i'r rhannau mwyaf difreintiedig o gymdeithas ac i wahanol grwpiau, yn enwedig grwpiau ethnig, sy'n teimlo ar hyn o bryd eu bod ar y cyrion ac na allant chwarae rhan yn ein democratiaeth. Dywedodd Clement Attlee un tro mai llywodraeth drwy drafodaeth yw democratiaeth. Yn rhy aml o lawer, mae pobl ledled y wlad, mewn gwahanol gymunedau, nad ydynt yn teimlo bod rhan iddynt yn y drafodaeth honno. Rhai fel ni sy'n eu rhwystro rhag teimlo bod iddynt ran yn y drafodaeth honno.

**Jeff Cuthbert:** Fel chithau, yn ôl pob tebyg,

am persuaded by the arguments to vote for the amendment, but do you feel that there is merit in the type of system that exists in Australia, for example, where there is compulsory voting as a means of encouraging participation?

**Alun Davies:** I am not persuaded by that; part of democracy is the fact that you are not compelled to do these things, but that you feel the requirement and perhaps a civic duty to do so. I am not yet persuaded that compulsory voting is necessary; I think that politicians sometimes make that argument because they do not know how else to persuade people to vote or to take part in the process.

4.40 p.m.

For me, democracy underpins the fabric of our society—it should unite us, and it should also ensure that all sections, the weakest as well as the strongest, are represented and play an equal role in our democratic institutions. There is no easy excuse. I hear all the time that young people are not interested in politics, but my experience is that people are interested in politics, but that they do not feel motivated by politicians; that is a different issue.

I conclude my remarks by saying that, in terms of ensuring that we have participation at the age of 16, there should be more opportunities for people to participate in the democratic process. I would like to see local government have greater powers, and perhaps we should be trying to introduce more opportunities for direct democracy. We have more opportunities for direct democracy. We have a petitions system here, and I would like to see a petitions system at the local government level, ensuring that we have more opportunities for local referenda, and perhaps even an opportunity to recall either councillors or other elected members. We have a lot to learn from the American system in our democratic institutions. We have all enjoyed the last few weeks of their primary process, but day in, day out, the Americans have a lot to teach us about real local democracy. Therefore, I will be voting for the amendment and the motion.

yr wyf wedi fy argyhoeddi gan y dadleuon o blaid y gwelliant, ond a ydych yn teimlo bod gwerth yn y math o system sydd yn Awstralia, er enghraifft, lle defnyddir pleidleisio gorfodol fel modd i hybu cyfranogiad?

**Alun Davies:** Nid yw hynny'n fy argyhoeddi; un agwedd ar ddemocratiaeth yw na chewch eich gorfodi i wneud y pethau hyn, ond eich bod yn teimlo anghenraid a dyletswydd ddinesig efallai i wneud hynny. Nid wyf wedi fy argyhoeddi eto fod pleidleisio gorfodol yn angenrheidiol; credaf fod gwleidyddion yn dadlau hynny weithiau am na wyddant sut arall i gymhell pobl i bleidleisio neu gymryd rhan yn y broses.

I mi, democratiaeth yw sylfaen gwedd ein cymdeithas—dylai ein huno, a dylai sicrhau hefyd fod pob rhan o gymdeithas, y gwannaf yn ogystal â'r cryfaf, wedi'u cynrychioli a'u bod yn chwarae rhan gyfartal yn ein sefydliadau democrataidd. Nid oes esgus rhwydd. Clywaf drwy'r amser nad yw pobl ifanc yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth, ond o'm profiad i mae pobl yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth, ond nad ydynt yn teimlo bod gwleidyddion yn eu hysbrydoli; mae hynny'n fater gwahanol.

Gorffennaf fy sylwadau drwy ddweud, yng nghyd-destun sicrhau y cawn gyfranogiad yn 16 oed, y dylid cael mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Carwn weld llywodraeth leol yn cael mwy o bwerau, ac efallai y dylem geisio darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer democratiaeth uniongyrchol. Mae gennym fwy o gyfleoedd ar gyfer democratiaeth uniongyrchol. Mae gennym system ddeisebau yma, a charwn weld system ddeisebau ar lefel llywodraeth leol, gan sicrhau bod gennym fwy o gyfleoedd ar gyfer refferenda lleol, a hyd yn oed gyfle efallai i alw cynghorwyr neu aelodau etholedig eraill yn ôl. Mae gennym lawer i'w ddysgu oddi wrth y system Americanaidd yn ein sefydliadau democrataidd. Yr ydym i gyd wedi mwynhau eu proses etholiadau cynradd yn yr wythnosau diwethaf, ond ddydd ar ôl dydd mae gennym lawer i'w ddysgu gan yr Americanaid am ddemocratiaeth leol go-

iawn. Felly, byddaf yn pleidleisio o blaid y gwelliant a'r cynnig

**Nick Ramsay:** I do not often say this, but I agree with most of what Alun Davies said. He should, perhaps, pop his head a bit more often above the parapet of the party whip, and speak some more of the sense that he spoke today.

I am pleased that the Liberal Democrats tabled this debate, because we must take a serious look at the problem of voter apathy. It is a problem that we constantly talk about, but I do not think that many solutions have been put forward. I have far greater sympathy with the motion as it was originally, before the Liberal Democrat amendment, because it identified a real problem. However, I am not so sure that the idea of lowering the voting age to 16 provides the solution that some might claim.

Eleanor Burnham told us to be bold and brave; that ties in with the idea that all of us here have a responsibility to encourage people to vote, by showing that we will stand by the things that we say. That is what will encourage 18-year-olds to vote. Going back to what Alun Davies said, I do not think that, by lowering that voting age to 16, you are necessarily providing that enthusiasm. It could be seen as part of the solution, and I am open to consider it as such, but I am not convinced at the moment.

**Jeff Cuthbert:** Do you not accept the principle that, if a 16-year-old is engaged in paid employment and is paying taxation, he or she has a right to say how that public money is spent? The only way for that to practically happen is via the right to vote.

**Nick Ramsay:** There is an argument there; I am not closing the door on that possibility, but there are other arguments as well. Some countries have even looked at lowering it below that—I think that California has looked at the age of 14—so I do not think that the taxation argument is the be-all and end-all; there are many different aspects to this debate.

**Nick Ramsay:** Nid yn aml y dywedaf hyn, ond yr wyf yn cyd-weld â'r rhan fwyaf o'r hyn y mae Alun Davies wedi'i ddweud. Efallai y dylai godi ei ben uwch clawdd chwip plaid ychydig yn amlach, a siarad yn synhwyrol fel y gwnaeth heddiw yn amlach.

Yr wyf yn falch fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflwyno'r ddadl hon, oherwydd rhaid inni edrych o ddirif ar broblem difaterwch pleidleiswyr. Mae'n broblem y soniwn amdani byth a beunydd, ond ni chredaf fod llawer o atebion wedi'u cynnig. Mae gennyf fwy o lawer o gydymdeimlad â'r cynnig fel yr oedd yn wreiddiol, cyn gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, gan ei fod yn nodi problem go-iawn. Fodd bynnag, nid wyf mor sicr fod y syniad o ostwng yr oed pleidleisio i 16 yn rhoi'r ateb y gall rhai ei honni.

Dywedodd Eleanor Burnham wrthym am fod yn ddewr ac yn eofn; mae hynny'n cyd-fynd â'r syniad ei bod yn gyfrifoldeb arnom bob un i annog pobl i bleidleisio, drwy ddangos y byddwn yn arddel yr hyn a ddywedwn. Hynny fydd yn cymell pobl 18 oed i bleidleisio. I fynd yn ôl at yr hyn a ddywedodd Alun Davies, nid wyf yn credu y byddwch o reidrwydd, wrth ostwng yr oed pleidleisio i 16, yn creu'r brwdfrydedd hwnnw. Gellid ei weld yn rhan o'r ateb, ac yr wyf yn barod i'w ystyried felly, ond nid wyf wedi fy argyhoeddi ar hyn o bryd.

**Jeff Cuthbert:** Onid ydych yn derbyn yr egwyddor bod hawl gan rywun 16 oed, os yw mewn gwaith cyflogedig ac yn talu treth, i ddweud sut y dylid gwario'r arian cyhoeddus hwnnw? Yr unig ffordd y gall hynny ddigwydd yn ymarferol yw drwy'r hawl i bleidleisio.

**Nick Ramsay:** Mae yna ddadl yn hynny; nid wyf yn gwrthod y posibilrwydd hwnnw, ond mae yna rai dadleuon eraill hefyd. Mae rhai gwledydd hyd yn oed wedi ystyried ei ostwng yn is na hynny—credaf fod California wedi ystyried ei osod yn 14—felly, ni chredaf mai'r ddadl ynghylch trethiant yw hanfod y mater; mae nifer o wahanol agweddau ar y ddadl hon.

We have spoken about the Electoral Commission, and its disappointment that only a quarter of the 16 to 24-year-old respondents to its consultation on voting age came out in support. There seems to be indifference on this issue, compared with other issues that might affect 16 to 18-year-olds. That has to be taken on board. It is particularly concerning that half the people of Wales were unaware that an Assembly election was looming in 2007. I know that we all have a particular interest here in Assembly elections, but we would all expect people beyond AMs and party members to know that elections were coming up.

As has been said, the problem is ever-increasing political disillusionment. That should not be the case; it can, and it must, change. Proponents of lowering the voting age argue that the change would help to stimulate teenagers' interest in politics, but, if that were the case, why does reaching the voting age apparently have so little effect on 18-year-olds at present? One of the good decisions that Harold Wilson took, in the 1960s, was to reduce the voting age from 21 to 18. That was the right decision, but, at the same time, it did not help to get rid of the large pool of disinterested young voters that you still have at 18 and upwards. There are consequences, therefore, that any Government must recognise.

You argue about reducing the voting age to 16, but why pick that age anyway? People do not suddenly acquire an interest in politics and voting simply because they are allowed to go to a polling station at a particular age; they acquire it for a whole range of reasons.

**Alun Davies:** I am shocked that you do not accept the argument that if people pay taxes, they have the right to representation and to have a voice.

**Nick Ramsay:** I did not say that I do not accept that, but I believe that you should look at this in the whole context. There are many issues and taxation is only one of them. I am shocked that you are looking at this in such

Yr ydym wedi sôn am y Comisiwn Etholiadol, ac am ei siom mai chwarter y bobl 16 i 24 oed yn unig a ymatebodd i'w ymgynghori ar oed pleidleisio a oedd o blaid. Mae'n ymddangos bod yna ddifaterwch ar y mater hwn, o'i gymharu â materion eraill a all effeithio ar bobl 16 i 18 oed. Rhaid ystyried hynny. Mae'n destun pryder neilltuol nad oedd hanner pobl Cymru'n ymwybodol bod etholiad y Cynulliad yn agosáu yn 2007. Gwn fod gan bob un ohonom ddiddordeb neilltuol yma yn etholiadau'r Cynulliad, ond byddem i gyd yn disgwyl i bobl heblaw Aelodau o'r Cynulliad ac aelodau pleidiau wybod bod etholiadau ar y gorwel.

Fel y dywedwyd, y broblem yw dadrithiad cynyddol ynghylch gwleidyddiaeth. Nid felly y dylai fod; gall newid, a rhaid iddo newid. Mae pobl sydd o blaid gostwng oed pleidleisio yn dadlau y byddai'r newid yn helpu ennyn diddordeb ymysg pobl yn eu harddegau mewn gwleidyddiaeth. Ond os felly, pam y gwelir cyn lleied o effaith ar bobl 18 oed wrth iddynt gyrraedd oed pleidleisio ar hyn o bryd? Un o'r penderfyniadau da a wnaeth Harold Wilson, yn y 1960au, oedd gostwng oed pleidleisio o 21 i 18. Hwnnw oedd y penderfyniad priodol, ond ar yr un pryd ni fu o gymorth i gael gwared ar y nifer mawr o etholwyr ifanc difater sydd gennym o hyd yn 18 oed ac wedyn. Mae yna ganlyniadau, felly, y mae'n rhaid i bob Llywodraeth eu cydnabod.

Yr ydych yn dadlau dros ostwng oed pleidleisio i 16, ond pam dewis yr oed hwnnw? Nid yw pobl yn ennyn diddordeb mewn gwleidyddiaeth yn sydyn ac yn pleidleisio am y rheswm syml eu bod yn cael yr hawl i fynd i orsaf bleidleisio ar ôl cyrraedd oed penodol; maent yn ennyn diddordeb am bob math o resymau.

**Alun Davies:** Yr wyf wedi rhyfeddu nad ydych yn derbyn y ddadl bod gan bobl hawl i gael eu cynrychioli a chael llais os ydynt yn talu trethi.

**Nick Ramsay:** Nid dyna a ddywedais ac nid wyf yn derbyn hynny, ond yr wyf yn credu y dylech edrych ar hyn yn ei gyd-destun llawn. Mae yna nifer o faterion, ac un ohonynt yn unig yw trethi. Yr wyf yn synnu eich bod yn

simple terms, Alun, so I share your shock.

On Jenny Randerson's comments, yes, Austria has recently decided to go down the road of allowing 16-year-olds to vote, but the country is still split on that. If you are going to make this kind of change, you have to take younger people and those in other age groups with you.

**Jenny Randerson:** Will you give way?

**Nick Ramsay:** I will not take any more interventions as I am running out of time.

I am not, personally, closing the door on lowering the voting age. It is an interesting idea but we have to engage people on all sorts of different levels and in all sorts of different ways, and I do not believe, as I said, that this amendment provides the solution.

I have not mentioned the Labour amendment, because I have not managed to fathom out what it means apart from that the Government does not believe that we should do anything to engage people in taking a more active part in the electoral process. That is a disgrace and I do not have any respect for that amendment.

**Bethan Jenkins:** I am pleased to contribute to this debate. As Jenny Randerson correctly pointed out, it has been a Plaid Cymru policy for some time to support voting for 16-year-olds, mainly because it is a human right and because we have varying rights for 16-year-olds. For young people not to be able to vote and to have that responsibility at 16 is an affront to them.

It is a shame that there are not more young people here listening to the debate on lowering the voting age to 16, because we want to try to encourage people to become part of the political process, and if we are not going to encourage them to attend these types of debates, there must be a question around why we should be debating them at all. Far from patronising young people, allowing them to vote would enable them to take part in the political process. However, as Nick

edrych ar hyn mewn ffordd mor syml, Alun, felly, yr wyf yn rhannu eich syndod.

O ran sylwadau Jenny Randerson, ydyw, mae Awstria wedi dilyn y trywydd o ganiatáu i bobl ifanc 16 oed bleidleisio, ond mae'r wlad yn rhanedig o hyd ar y mater. Os ydych am gyflwyno newid o'r fath, rhaid ichi sicrhau cefnogaeth pobl iau a phobl o grwpiau oed eraill.

**Jenny Randerson:** A wnewch ildio?

**Nick Ramsay:** Nid wyf am dderbyn rhagor o ymyriadau gan fod fy amser yn brin.

Nid wyf, yn bersonol, yn cau'r drws ar bosibilrwydd gostwng oed pleidleisio. Mae'n syniad diddorol, ond mae angen inni ennyn diddordeb pobl ar bob math o lefelau ac mewn pob math o ffyrdd gwahanol, ac nid wyf yn credu, fel y dywedais, fod y gwelliant hwn yn rhoi'r ateb.

Nid wyf wedi crybwyll gwelliant Llafur, oherwydd nid wyf wedi llwyddo i'w ddeall heblaw nad yw'r Llywodraeth yn credu y dylem wneud dim i annog pobl i gymryd rhan fwy gweithredol yn y broses etholiadol. Mae hynny'n warth, ac nid oes gennyf ddim parch at y gwelliant hwnnw.

**Bethan Jenkins:** Yr wyf yn falch cael cyfrannu at y ddatl hon. Fel y dywedodd Jenny Randerson yn hollol gywir, mae'n bolisi gan Plaid Cymru ers tro i gefnogi hawl pleidleisio i bobl 16 oed, yn bennaf am ei bod yn hawl dynol ac am fod ein hawliau i bobl 16 oed yn amrywiol. Os nad yw pobl ifanc yn cael pleidleisio ac yn cael y cyfrifoldeb hwnnw'n 16 oed, yna mae hynny'n sarhad arnynt.

Mae'n drueni nad oes mwy o bobl ifanc yma'n gwrandao ar y ddatl ar ostwng oed pleidleisio i 16, oherwydd yr ydym am geisio annog pobl ifanc i fod yn rhan o'r broses wleidyddol. Ac os na allwn eu hannog i fynychu'r mathau hyn o ddadleuon, yna rhaid gofyn pam yr ydym yn eu cynnal o gwbl. Yn hytrach na bod yn nawddoglyd tuag at bobl ifanc, byddai caniatáu iddynt bleidleisio yn eu galluogi i gymryd rhan yn y broses wleidyddol. Fodd bynnag, fel y dywed Nick

Ramsay rightly says, it is about more than just voting at 16; it is about the whole issue surrounding that. It is about education and training capacity, as young people need to understand their rights, and not enough do. Perhaps I am being cynical in saying that years of Tory and New Labour rule in Westminster have not encouraged people to take part in the democratic process as we would want them to. The fact that young people do not take part in party politics may have something to do with that. We need only consider the war in Iraq as an example. It was mostly young people—I was in university myself at the time—who took part in the demonstrations, but we were told that our voice did not matter and that troops would be marching into Iraq, and they are still there. That did not change the perception that people have of Westminster, foreign affairs and what our Governments are doing. They are not listening to young people.

On a more positive note, Funky Dragon here in Wales has recently launched 'Our Rights, Our Story' on the importance of allowing young people to vote at 16. Organisations such as Funky Dragon play a part in shaping the views of young people, and I agree with Alun Davies—shock, horror—that it is the role of party politics to influence young people and that we should not rely on the Electoral Commission and Funky Dragon to shape those opinions. You cannot put young people into a box; they have their own opinions, which may be party political and they may not understand that yet. Funky Dragon sometimes tries too hard to be apolitical and we could perhaps encourage it to be a bit more political. However, that would open up debates about our influencing young people to vote or to think as we do and not as they think as young people. Therefore, there is much to debate in that area.

4.50 p.m.

Moving on to what we are doing as an

Ramsay yn hollol gywir, mae'n fwy na mater o gael pleidleisio'n 16 oed yn unig; mae'n ymwneud â phopeth sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'n ymwneud â'r hawl i gael addysg a hyfforddiant, gan fod angen i bobl ifanc ddeall eu hawliau, ac nid oes digon yn ymwybodol ohonynt. Efallai fy mod yn sinigaidd wrth ddweud nad yw blynyddoedd o lywodraethu gan y Torïaid a Llafur Newydd yn San Steffan wedi gwneud llawer i annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd fel yr hoffem iddynt ei wneud. Efallai fod gan y ffaith nad yw pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth plaid rywbeth i'w wneud â hynny. Nid oes ond angen edrych ar y rhyfel yn Irac fel enghraifft. Pobl ifanc yn bennaf—yr oeddwn i yn y brifysgol fy hun ar y pryd—a gymerodd ran yn y gwrthdystiadau, ond dywedwyd wrthym nad oedd ein llais yn cyfrif ac y byddai milwyr yn mynd i Irac, ac y maent yno o hyd. Ni newidiodd hynny'r syniad sydd gan bobl am San Steffan, materion tramor a'r hyn y mae ein Llywodraethau'n ei wneud. Nid ydynt yn gwrandao ar bobl ifanc.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, yma yng Nghymru lansiodd y Ddraig Ffynici 'Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni' yn ddiweddar i ddangos pwysigrwydd caniatáu i bobl ifanc bleidleisio'n 16 oed. Mae mudiadau fel y Ddraig Ffynici yn cyfrannu at lunio barn pobl ifanc, a chytunaf ag Alun Davies—rhyfeddod y rhyfeddodau—mai un o swyddogaethau gwleidyddiaeth plaid yw dylanwadu ar bobl ifanc, ac na ddylem ddibynnu ar y Comisiwn Etholiadol a'r Ddraig Ffynici i lunio'u barn. Ni allwch roi pobl ifanc mewn blwch; mae ganddynt eu barn eu hunain, a all fod yn bleidiol o ran gwleidyddiaeth ac efallai nad ydynt yn deall hynny eto. Mae'r Ddraig Ffynici'n ymdrechu'n rhy galed i fod yn anwleidyddol ar adegau, ac efallai y gallem ei annog i fod ychydig yn fwy gwleidyddol. Fodd bynnag, byddai hynny'n esgor ar ddadleuon ein bod yn ceisio dylanwadu ar bobl ifanc i bleidleisio neu i feddwl yr un ffordd â ni, nid fel y maent yn meddwl fel pobl ifanc. Felly, mae llawer i'w drafod yn y maes hwinnw.

I symud ymlaen at yr hyn a wnawn fel



Assembly, I hope that the convention on more powers for the Assembly will embrace young people in its discussions, and that they will be able to give their opinions as to whether they should be able to vote at 16 or not and whether we should have more powers for this institution. If we leave out young people, there will be flaws in the convention, so I hope that we will not do that.

The Petitions Committee is another area where we can try to encourage school councils, eco-councils and students unions across Wales to take part in the political process by submitting petitions.

Finally, this is a rights issue more than anything else. It is the same with the Welsh language and the rights of older people in society—it is about our rights. I therefore endorse today's motion.

**David Melding:** It is a pleasure to follow Bethan; although I did not agree with all the content of her speech, it was excellently delivered, with great passion. We have had a good debate this afternoon.

I congratulate the Liberal Democrats on the fact that they are now agreeing to extend the franchise. As they rightly said, we are celebrating the fact that women had the vote some 90 years ago. Asquith and the Liberals, for a whole generation, prevented that; even the Conservatives were prepared to extend the franchise, though it must be said to more upper-middle-class women.

I hope that we will not have any bullying tactics when the 16-year-olds come here to petition for the vote. I hope that they will not get the experience that Lady Rhondda had when she visited the Merthyr Liberal Club to tell them that women should have the vote. I quote from the excellent anthology of women's political writing, *The Very Salt of Life*:

'Unfortunately just before we went up to Merthyr there had been an incident at Bristol in which someone had threatened Mr. Churchill'—

Cynulliad, gobeithio y bydd y confensiwn ar ragor o bwerau i'r Cynulliad yn cynnwys pobl ifanc yn ei drafodaethau, ac y gall fynegi barn ar y mater a ddylent gael pleidleisio yn 16 oed ai peidio, ac a ddylem gael rhagor o bwerau i'r sefydliad hwn. Os byddwn yn hepgor pobl ifanc, bydd gwendidau yn y confensiwn, felly, gobeithio na wnawn ni mo hynny.

Mae'r Pwyllgor Deisebau'n faes arall lle gallwn geisio annog cynghorau ysgol, eco-gynghorau ac undebau myfyrwyr ledled Cymru i gymryd rhan yn y broses wleidyddol drwy gyflwyno deisebau.

Yn olaf, mae hwn yn fater o hawliau yn fwy na dim arall. Mae'r un peth yn wir am y Gymraeg a hawliau pobl hŷn mewn cymdeithas—mae'n ymwneud â'n hawliau ni. Yr wyf felly'n cymeradwyo'r cynnig heddiw.

**David Melding:** Mae'n bleser cael dilyn Bethan; er nad oeddwn yn cytuno â holl gynnwys ei haraith, yr oedd wedi'i chyflwyno'n ardderchog, gydag angerdd mawr. Cawsom ddadl dda y prynhawn yma.

Yr wyf am longyfarch y Democratiaid Rhyddfrydol am eu bod yn awr yn cytuno i ymestyn yr etholfraint. Fel y dywedasant, yr ydym yn dathlu'r ffaith fod menywod wedi cael yr hawl i bleidleisio tua 90 mlynedd yn ôl. Yr oedd Asquith a'r Rhyddfrydwyr wedi rhwystro hynny am genhedlaeth; yr oedd hyd yn oed y Ceidwadwyr yn barod i ymestyn yr etholfraint, er ei bod yn rhaid cyfaddef mai i fenywod mwy dosbarth uwch yr oedd hynny.

Gobeithio na welwn ddim tactegau bwlio pan ddaw pobl ifanc 16 oed yma i ofyn am yr hawl i bleidleisio. Gobeithio na chânt yr un profiad â'r Fonesig Rhondda pan ymwelodd â Chlwb Rhyddfrydwyr Merthyr i ddweud wrthynt y dylai menywod gael yr hawl i bleidleisio. Dyfynnaf o'r flodeugerdd wych o weithiau gwleidyddol menywod, *The Very Salt of Life*:

Yn anffodus, ychydig cyn inni fynd i fyny i Ferthyr, bu digwyddiad ym Mryste lle yr oedd rhywun wedi bygwth Mr Churchill—

then a Liberal—

‘with a whip, and the Liberals were much enraged. Moreover, the executive of the club, in inviting us, had rather overlooked the point of view of its younger members. It should not have done so. They arrived in large quantities—the little hall was in fact packed to capacity—and they brought with them gongs, tin trumpets and other musical instruments, herrings (a great many herrings) and tomatoes. In fact, the only four really unpleasant things that were missing—I met them all later—were flour bags, eggs, squibs and the evil-smelling carbon bisulphide gas.’

She then concludes:

‘A herring is a floppy thing, there is nothing much to it unless thrown very hard; and a ripe tomato, though messy and damaging to clothes, does not hurt at all’.

No doubt the 16-year-olds will not suffer that sort of treatment when they come here. I have been asked to be succinct, and I have already failed to do so. I have no idea whether it is prudent to give 16-year-olds the vote, but I believe that we should have a debate. They are the main consumers of education, and it may buck up some of those people who are running education if they had to answer that particular question in an election campaign. Therefore, I will vote in favour of the proposition.

**The Deputy Presiding Officer:** I call on Michael German to reply to the debate. Oh, I am sorry; I was so engrossed in that quotation that I got carried away. I call on the Minister for Social Justice and Local Government to speak on behalf of the Government.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** It is better late than never, Deputy Presiding Officer.

It is appropriate, on the ninetieth anniversary of the extension of the Representation of the People Act 1918, when we are talking about participation in elections, and eligibility, to draw attention to the extension of the vote to

a oedd yn Rhyddfrydwr bryd hynny—

gyda chwip, ac yr oedd y Rhyddfrydwyr yn gandryll. Hefyd, yr oedd pwyllgor y clwb, wrth ein gwahodd, wedi diystyru barn ei aelodau iau. Ni ddylai fod wedi gwneud hynny. Cyraeddasant mewn niferoedd mawr—yr oedd y neuadd fach yn llawn dop—ac yr oeddent wedi dod â gongiau, trwmpedi tun ac offerynnau cerdd eraill, penwaig (llawer iawn o benwaig) a thomatos gyda hwy. Yn wir, yr unig bedwar peth gwirioneddol anghynnes a oedd ar goll—a deuthum ar eu traws hwy’n ddiweddarach—oedd bagiau blawd, wyau, sgwibiau a’r nwy carbon deusylffit drewllyd.

Mae’n cloi drwy ddweud:

Mae pennog yn beth llipa; nid yw’n fawr o beth oni chaiff ei daflu’n galed iawn. Nid yw tomato aeddfed, er yn creu llanast a difrod i ddillad, yn boenus o gwbl.

Yn ddiamau, ni fydd pobl ifanc 16 oed yn dioddef triniaeth o’r fath pan ddônt yma. Gofynnwyd imi fod yn gryno, ac yr wyf eisoes wedi methu yn hynny. Nid oes gennyf syniad a fyddai’n ddoeth rhoi pleidlais i bobl 16 oed, ond credaf y dylem gael dadl. Hwyl yw’r mwyafrif sy’n cael addysg, ac efallai y byddai’n deffro rhai o’r bobl hynny sy’n rhedeg y gwasanaeth addysg petai’n rhaid iddynt ateb y cwestiwn penodol hwnnw mewn ymgyrch etholiadol. Felly, yr wyf am bleidleisio o blaid y cynnig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar Michael German i ymateb i’r ddadl. O, mae’n ddrwg gennyf, yr oeddwn wedi ymgolli cymaint yn y dyfyniad nes imi anghofio fy hun. Galwaf ar y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i annerch ar ran y Llywodraeth.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Gwell hwyr na hwyrach, Ddirprwy Lywydd.

Mae’n briodol, bedwar ugain a deg o flynyddoedd ers ymestyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918, inni drafod cyfranogiad mewn etholiadau, a chymhwysedd, i dynnu sylw at ymestyn yr

women. However, as I believe Mike German said from a sedentary position, it was only a partial extension. It was only in 1928 that there was full parity of electoral rights between men and women, which is not too long ago at all; it is now very much part of the political culture that those anomalies were in place then. Some of the decisions that we are deliberating today may be looked at in very much the same way in the future.

It is also worth putting on the record that it was in the 1918 election that a woman was elected to the House of Commons for the first time—Countess Markievicz. I am sure that the name Countess Markievicz does not give much of an indication of her constituency, but she was elected to represent St Patrick's ward in Dublin. Despite her grandiose title, she was a fairly fiery socialist republican representative. She refused to take her seat in the House of Commons and it was consequently left to Lady Astor to become the first female MP. In the context of this debate, it is probably worth recording that point of view.

Reference has been made to the Government amendment. I do not think, listening to the debate, that there is much difference between us, but the Liberal Democrats' motion is a little along the glass-half-empty theme. Our amendment is an attempt to view the issue in a more positive light, therefore its theme is slightly more glass-half-full.

The challenge as to what the Welsh Assembly Government is doing to encourage participation has been set. Bethan Jenkins touched on many of those points, particularly relating to Funky Dragon, the youth Assembly for Wales. This is a successful programme that engages young people. Bethan dealt with the issue in relation to party politics as part of Funky Dragon, but all Assembly Government members tried to attend its annual general meeting, and I do not think that it is correct to say that young people are not interested in political matters and public affairs. They may not be particularly interested in the formal politics that we enact in the Assembly or in the

hawl i bleidleisio i fenywod. Fodd bynnag, fel y dywedodd Mike German, mi gredaf, ar ei eistedd, estyniad rhannol oedd hwnnw. Bu'n rhaid aros tan 1928 i gael cyfartaledd llawn rhwng hawliau pleidleisio dynion a menywod, ac nid yw hynny ymhell yn ôl o gwbl; mae erbyn hyn yn rhan o'r diwylliant gwleidyddol fod yr anghysonderau hynny'n bodoli bryd hynny. Hwyrach y bydd pobl yn edrych ar rai o'r penderfyniadau yr ydym yn eu trafod heddiw yn yr un ffordd yn y dyfodol.

Mae'n werth rhoi ar glawr mai yn etholiad 1918 yr etholwyd y fenyw gyntaf i Dŷ'r Cyffredin—Iarlles Markievicz. Yr wyf yn siŵr nad yw'r enw Iarlles Markievicz yn rhoi llawer o awgrym o leoliad ei hetholaeth, ond fe'i hetholwyd i gynrychioli ward St Patrick yn Nulyn. Er ei theitl mawreddog, yr oedd yn gynrychiolydd gweriniaethol sosialaidd digon tanllyd. Gwrthododd gymryd ei sedd yn Nhŷ'r Cyffredin, sy'n golygu mai'r Fonesig Astor oedd y fenyw gyntaf i fod yn Aelod Seneddol. Yng nghyd-destun y ddadl hon, mae'n debyg ei bod yn werth cofnodi'r sylw arbennig hwn.

Cyfeiriwyd at welliant y Llywodraeth. Ni chredaf, ar ôl gwranddo ar y ddadl, fod llawer o wahaniaeth rhyngom, ond mae cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn dueddol o weld y gwydr yn hanner gwag. Mae ein gwelliant ni'n ymdrech i edrych ar y mater mewn ffordd fwy cadarnhaol, ac felly ei thema yw gwydr ychydig yn fwy na hanner llawn.

Mae'r her i'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i hybu cyfranogiad wedi'i gyflwyno. Crybwyllodd Bethan Jenkins nifer o'r pwyntiau hynny, yn enwedig am y Ddraig Ffyni, Cynulliad Ieuentid Cymru. Mae hon yn rhaglen lwyddiannus sy'n ymgysylltu â phobl ifanc. Deliodd Bethan â'r mater o safbwynt gwleidyddiaeth plaid fel rhan o'r Ddraig Ffyni, ond ymdrechodd pob Aelod Cynulliad i fynychu ei gyfarfod cyffredinol blynyddol, ac ni chredaf ei bod yn gywir dweud nad oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn materion gwleidyddol a chyhoeddus. Efallai nad oes ganddynt ddiddordeb arbennig yn y wleidyddiaeth ffurfiol sy'n

electoral process, but that is a long way from saying that young people are not interested in these issues. The challenge for us is to harness that interest.

Another initiative that we have undertaken involves the participation of young people in school councils, which provides another opportunity for young people to be active participants in these matters. The Electoral Commission and the elections group that the Assembly Government has established are also looking at various ways, following several reports referred to by other speakers, to encourage the participation of young people in our electoral process in Wales.

I know that time is short, so I will wind up. If we expect young people to engage with our political process, then, as an adult society, we must demonstrate much more clearly that we value young people and their ideas, idealism and voices. Too often, young people are vilified and demonised, and are blamed for all that seems to be wrong with our society. However, we need to recognise that young people are the inheritors of the legacy that we, as an adult society and as parents, have bestowed upon them, and it is not likely that young people will be willing to engage in a positive way unless we, as adults, have a more positive attitude and cherish our children more effectively than we do.

**Michael German:** First, I wish to say a little about what this Assembly has done before on this matter, particularly as that would answer Alun Ffred's earlier question. I am sorry that Ann Jones is not here today because only last week, the Electoral Commission's chair, Sam Younger, and others were here, and they congratulated the Assembly on the report that was drafted in the previous Assembly on young voter participation.

I refer to the report because I recommend that those Members who have not read that report look at it carefully. It took into account international examples. The committee went around Europe and took evidence. It heard a

digwydd yn y Cynulliad nac yn y broses etholiadol, ond nid yw hynny'r un fath o gwbl â dweud nad oes gan bobl ifanc ddiddordeb yn y materion hyn. Yr her i ni yw harneisio'r diddordeb hwnnw.

Mae menter arall o'n heiddo yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn cynghorau ysgol, felly, dyma gyfle arall i bobl ifanc fod yn weithredol yn y materion hyn. Mae'r Comisiwn Etholiadol a'r grŵp etholiadau a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad hefyd yn edrych ar ffyrdd gwahanol, yn dilyn nifer o adroddiadau y cyfeiriwyd atynt gan siaradwyr eraill, i annog pobl ifanc i gyfranogi yn ein proses etholiadol yng Nghymru.

Gwn fod amser yn brin, felly, yr wyf am gloi. Os ydym yn disgwyl i bobl ifanc gyfranogi yn ein proses wleidyddol, yna, fel cymdeithas oedolion, rhaid inni ddangos mewn ffordd lawer mwy eglur ein bod yn gwerthfawrogi pobl ifanc, ynghyd â'u syniadau, eu delfrydau a'u lleisiau. Yn rhy aml o lawer mae pobl ifanc yn cael eu diffrïo a'u pardduo, a chânt y bai am bopeth sydd i'w weld o'i le ar ein cymdeithas. Fodd bynnag, mae angen inni sylweddoli mai pobl ifanc sy'n etifeddu'r hyn yr ydym ni, fel cymdeithas oedolion a rhieni, yn ei adael iddynt, ac nid yw'n debygol y bydd pobl ifanc yn barod i gyfranogi mewn ffordd gadarnhaol oni fyddwn ni, fel oedolion, yn mabwysiadu agwedd fwy cadarnhaol ac yn meithrin ein plant mewn ffordd fwy effeithiol nag a wnawn.

**Michael German:** Yn gyntaf, hoffwn ddweud ychydig am yr hyn y mae'r Cynulliad hwn wedi'i wneud ar y mater hwn eisoes, yn enwedig gan ei fod yn ateb cwestiwn cynharach Alun Ffred. Mae'n ddrwg gennyf nad yw Ann Jones yma heddiw, oherwydd yr wythnos diwethaf yr oedd cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, Sam Younger, ac eraill yma ac yr oeddent yn llongyfarch y Cynulliad ar ei adroddiad am gyfranogiad pleidleiswyr ifanc a luniwyd yn ystod y Cynulliad diwethaf.

Cyfeiriaf ato oherwydd yr wyf yn argymhell yr Aelodau hynny nad ydynt wedi darllen yr adroddiad hwnnw i edrych arno'n ofalus. Mae wedi edrych ar enghreifftiau rhyngwladol. Aeth y pwyllgor o amgylch

crucial piece of evidence from the international agency that is responsible for developing democracy throughout the world and is funded by many member state governments in Europe and beyond. When the question was asked, 'What is the one thing that we must do to ensure that democracy thrives in this world?', the answer was that we have to ensure that young people vote and we do that by ensuring that they are engaged in the process, both through education and by giving them the vote.

5.00 p.m.

That is why the connection is so important today. Alun Ffred was absolutely right to say that this alone is not the solution; we must ensure that we improve citizenship education at the same time as ensuring that young people have the right to vote. It is a matter of rights and of education, and they go hand in hand. I will refer to that later.

I thank David Melding for his contribution, which was as eloquent as ever. However, just as the Tories' favourite theme is defending Conservative policies, so I am inclined to defend a Liberal policy. You are right to say that it was Asquith who first caused the disruption in this matter, but it was Lloyd George who put it right. He was the good guy on this, and I would have been on his side had I been alive at the time.

However, as the Minister rightly said, as we celebrate nearly a century since the extension of the franchise to women, it is perfectly appropriate that we now seek to extend it even further. We have a major problem: throughout the western world, where democracy is at the heart of society, the participation levels of younger people are declining. Make no mistake: if the young are not participating and the old are dying, this problem will only get worse. The evidence that the committee took during the second Assembly showed that the position will get worse for decades to come unless we can turn that around by dealing with the two fundamental issues that we have talked about: reducing the voting age to 16; and increasing and improving citizenship education.

Ewrop i gasglu tystiolaeth. Clywodd ddarn allweddol o dystiolaeth gan yr asiantaeth ryngwladol sy'n gyfrifol am ddatblygu democratiaeth ledled y byd ac sy'n cael ei ariannu gan lywodraethau nifer o aelod wladwriaethau yn Ewrop a thu hwnt. Pan ofynnwyd y cwestiwn, 'Beth yw'r un peth y mae'n rhaid inni ei wneud i sicrhau bod democratiaeth yn ffynnu yn y byd sydd ohoni?', yr ateb oedd ei bod yn rhaid inni sicrhau bod pobl ifanc yn pleidleisio, a gwnawn hynny drwy sicrhau eu bod yn cyfranogi yn y broses, drwy addysg a thrwy roi'r bleidlais iddynt.

Dyna pam y mae'r cysylltiad mor bwysig heddiw. Yr oedd Alun Ffred yn llygad ei le i ddweud nad hyn yn unig yw'r ateb; rhaid inni sicrhau ein bod yn gwella addysg dinasyddiaeth a sicrhau ar yr un pryd fod gan bobl ifanc yr hawl i bleidleisio. Mae'n fater o hawliau ac addysg, ac y mae'r ddau beth yn mynd law yn llaw. Cyfeiriaf at hynny'n ddiweddarach.

Diolchaf i David Melding am ei gyfraniad: yr oedd mor huawdl ag erioed. Fodd bynnag, yn union fel y mae'r Torïaid yn hoffi amddiffyn polisiau Ceidwadol, felly yr wyf finnau'n tueddu i amddiffyn polisi Rhyddfrydol. Yr ydych yn gywir i ddweud mai Asquith oedd y cyntaf i gynhyrfu'r dyfroedd yn y mater hwn, ond Lloyd George a unionodd bethau. Ef oedd y boi da yn hyn, a buaswn i o'i blaid petawn yn fyw ar y pryd.

Fodd bynnag, fel y dywedodd y Gweinidog yn ddigon cywir, wrth inni ddathlu bron i ganrif ers ymestyn yr etholfraint i fenywod, mae'n berffaith briodol ein bod yn awr am ei hymestyn ymhellach eto. Mae gennym broblem fawr ledled y byd gorllewinol: lle mae democratiaeth wrth galon cymdeithas, disgyn mae lefel cyfranogiad pobl iau. Peidiwch â chamgymryd: os nad yw pobl ifanc yn cymryd rhan a'r hen yn marw, dim ond gwaethygu fydd y broblem. Dangosodd y dystiolaeth a gymerodd y pwyllgor yn ystod yr ail Gynulliad y bydd pethau'n gwaethygu am ddegawdau i ddod oni fydd modd inni wrthdroi hynny drwy fynd i'r afael â dau bwnc sylfaenol a grybwyllwyd gennym: gostwng oed pleidleisio i 16; a chynyddu a gwella addysg dinasyddiaeth.

The other evidence that came from that report Assembly was that citizenship education needs to engage with real politics. It is not about showing young people what a ballot box looks like, what to do with the ballot paper, how to get a postal vote, or showing them that the people they elect sit around in a chamber; it is about dealing with the real issues that affect young people's lives. That is why it is so important that we engage with them, both in the education system and by giving them the vote, so that they have the right to engage in politics. Voting at the age of 16 is the logical next step from citizenship education.

It is important to note the levels of participation. Nick Ramsay asked a question about civic duty earlier, and the figures on that are quite astonishing. Nearly 90 per cent of people over the age of 65 think that it is their civic duty to vote; that figure is 58 per cent and falling among 18 to 24-year-olds. In other words, we have not yet got this right. It is the responsibility of us all in political parties. Fundamentally, we must do something about education, and we must give a voice to young people.

The other sad statistic—and this is an uncomfortable one for us—is that if you do not vote at the first election at which you are eligible, there is a 60 to 70 per cent chance that you will never vote at all. That is why we must deal with this issue of engaging younger people. We must give 16 and 17-year-olds the opportunity to participate in every aspect of our lives, not just those areas for which they already have rights.

There are those who would say that, since 16-year-olds have the right to do everything else, why not give them the right to vote? I agree with that, but there is an even more compelling argument, which makes the link between citizenship education and participation levels among young people. If young people are still in formal education—and there are moves to get more and more 16 and 17-year-olds in formal education—you

Y dystiolaeth arall a ddaeth o'r adroddiad hwnnw gan y Cynulliad oedd bod angen i addysg dinasyddiaeth ymwneud â gwleidyddiaeth go iawn. Nid dangos i bobl ifanc sut beth yw blwch pleidleisio ydyw, neu beth i'w wneud â'r papur pleidleisio, sut mae cael pleidlais bost, na dangos iddynt fod y bobl y maent yn eu hethol yn eistedd mewn siambr; mae'n golygu mynd i'r afael â'r pynciau go iawn sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc. Dyna pam y mae mor bwysig inni ymgysylltu â hwy, yn y system addysg a thrwy roi'r bleidlais iddynt, er mwyn iddynt gael yr hawl i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Pleidleisio yn 16 oed yw'r cam rhesymegol nesaf ymlaen o addysg dinasyddiaeth.

Mae'n bwysig nodi lefelau cyfranogi. Gofynnodd Nick Ramsay gwestiwn yn gynharach am ddyletswydd ddinesig, ac y mae'r ffigurau am hynny'n hollol syfrdanol. Mae bron i 90 y cant o bobl dros 65 oed yn meddwl ei bod yn ddyletswydd ddinesig arnynt i bleidleisio; 58 y cant ac yn disgyn yw'r ffigur hwnnw ymysg pobl ifanc 18 i 24 oed. Mewn geiriau eraill, nid ydym wedi cael hyn yn iawn eto. Mae'n gyfrifoldeb arnom i gyd mewn pleidiau gwleidyddol. Yn y bôn, rhaid inni wneud rhywbeth ynglŷn ag addysg, a rhaid inni roi llais i bobl ifanc.

Yr ystadegyn trist arall—ac mae hwn yn un anghyfforddus i ni—yw os na fyddwch yn pleidleisio yn yr etholiad cyntaf pan fydd gennych hawl i bleidleisio, mae 60 i 70 y cant o siawns na fyddwch byth yn pleidleisio o gwbl. Dyna pam y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â'r pwnc hwn o ddod â phobl ifanc i mewn. Rhaid inni roi'r cyfle i bobl ifanc 16 a 17 oed gymryd rhan ym mhob agwedd ar ein bywydau, nid yn unig y meysydd hynny lle mae ganddynt hawliau eisoes.

Mae yna bobl a fyddai'n dweud bod gan bobl ifanc 16 oed yr hawl i wneud popeth arall, pam na roddwn yr hawl iddynt bleidleisio? Cytunaf â hynny, ond mae yna ddadl fwy grymus fyth, sy'n gwneud y cysylltiad rhwng addysg dinasyddiaeth a lefelau cyfranogi ymysg pobl ifanc. Os yw pobl ifanc yn dal mewn addysg ffurfiol—ac mae symudiadau ar droed i gael mwy a mwy o bobl ifanc 16 a 17 oed i mewn i addysg ffurfiol—bydd

have a chance to be given citizenship education while also having a grasp of real politics, and not just the mechanics of the political system.

How many times have Members knocked on doors, or spoken to people on the telephone, and been given the answer, 'I do not know enough about politics, so I am not voting'. We hear those words in many different forms. Sometimes, you are told, 'It is the other person in the house who decides which way to vote, and I just copy them'. We have all heard that when out canvassing. We have not yet tackled the fundamental problem of helping people to understand the democracy that rules all our lives today. Giving people an opportunity to take that formal place in education and to have that formal right to vote brings those two steps closer together.

If you support our motion today, you will be supporting a vote of confidence in our young people. Make no mistake about that. Too often, young people are described as being the problem but, for Wales to prosper in the future, the next generation has to be the solution. By empowering young people, the Assembly will be putting its faith in them. This brings us a step closer to significant reform. I appreciate the fact that the Assembly does not currently have the powers to change the situation in the short term, but we are nothing if not a conduit for change and a forum for campaigning to drive forward the reforms that Wales needs.

We must take the argument to Westminster and seek the powers over local government elections in the first instance, and push for all our young people to have the rights that we enjoy. A vote in favour of our motion and amendment today is a vote in favour of a change in the law and a vote of confidence in our young people. We want our young people to be a part of the democratic system and not outside it looking in. Today, Wales should put down that marker. We believe in our young people, and we want them to play a full role in shaping the future of our country.

**The Deputy Presiding Officer:** Before proceeding to the voting, do Members wish

gennych gyfle i gael addysg dinasyddiaeth ac ar yr un pryd ddeall gwleidyddiaeth go iawn, nid yn unig fecanwaith y gyfundrefn wleidyddol.

Sawl gwaith y mae Aelodau wedi curo ar ddrysau, neu siarad â phobl ar y ffôn, a chael yr ateb, 'Wn i ddim digon am wleidyddiaeth, felly fydda' i ddim yn pleidleisio'. Clywn y geiriau hynny ar lawer ffurf. Weithiau, dywedir wrthyhych, 'Y person arall yn y tŷ sy'n penderfynu sut mae pleidleisio, ac fe fydda' i'n gwneud yr un fath'. Clywsom i gyd hynny wrth fynd allan i ganfasio. Nid ydym eto wedi mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol o helpu pobl i ddeall y ddemocratiaeth sy'n rheoli ein bywydau i gyd heddiw. Mae rhoi cyfle i bobl gymryd y lle ffurfiol hwnnw mewn addysg a chael yr hawl ffurfiol hwnnw i bleidleisio yn dod â'r ddau gam hwnnw'n nes at ei gilydd.

Os cefnogwch ein cynnig heddiw, byddwch yn cefnogi pleidlais o hyder yn ein pobl ifanc. Deallwch hynny. Yn rhy aml, mae pobl ifanc yn cael eu disgrifio fel y broblem, ond os yw Cymru i ffynnu yn y dyfodol, rhaid i'r genhedlaeth nesaf fod yn ateb. Drwy rymuso pobl ifanc, bydd y Cynulliad yn rhoi ei ffydd ynddynt. Mae hyn yn dod â ni gam yn nes at ddiwygio sylweddol. Yr wyf yn sylweddoli nad oes gan y Cynulliad ar hyn o bryd y pwerau i newid y sefyllfa yn y tymor byr, ond yn sicr yr ydym yn sianel dros newid ac yn fforwm i ymgyrchu er mwyn bwrw ymlaen â'r diwygiadau y mae ar Gymru eu hangen.

Rhaid inni fynd â'r dadl i San Steffan a cheisio pwerau dros etholiadau llywodraeth leol i gychwyn, ac ymgyrchu i'n pobl ifanc i gyd gael yr hawl i'r ydym ni'n eu mwynhau. Bydd pleidlais o blaid ein cynnig a'n gwelliant heddiw yn bleidlais dros newid y gyfraith ac yn bleidlais o hyder yn ein pobl ifanc. Yr ydym am i bobl ifanc fod yn rhan o'n system ddemocrataidd, yn hytrach na bod ar y tu allan yn edrych i mewn. Heddiw, dylai Cymru godi llais o blaid hyn. Yr ydym yn credu yn ein pobl ifanc, ac am iddynt chwarae rhan lawn wrth lunio dyfodol ein gwlad.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn symud ymlaen i bleidleisio, a yw'r Aelodau yn dymuno i'r

for the bell to be rung and the meeting to be adjourned? I see that you do not. Therefore, we will proceed directly to the voting.

gloch gael ei chanu ac i'r cyfarfod gael ei ohirio? Gwelaf nad ydych. Felly, symudwn yn syth i bleidleisio.

### Amser Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM3859: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 16.  
Amendment 1 to NDM3859: For 35, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment carried.*

*Cafodd gwelliant 2 ei ddad-dethol.  
Amendment 2 deselected.*

Motion NDM3859 as amended: that

*the National Assembly for Wales:*

*1. recognises the contribution which appropriate targets make in driving up performance and improving services to*

Cynnig NDM3859 fel y'i diwygiwyd: bod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn cydnabod cyfraniad targedau priodol o safbwynt gwella perfformiad a gwella gwasanaethau ar gyfer cleifion o fewn y GIG*



*patients in the Welsh NHS;*

*yngh Nghymru;*

*2. endorses the action of the Assembly Government in reducing the volume of targets in order to focus more clearly on key policy intentions and outcomes.*

*2. yn cymeradwyo camau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad o ran lleihau crynswth y targedau er mwyn canolbwyntio'n fwy penodol ar fwriadau a chanlyniadau polisi allweddol.*

*Cynnig NDM3859 fel y'i diwygiwyd: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 16.  
Motion NDM3859 as amended: For 32, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig NDM3859 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM3859 as amended carried.*

*Gwelliant 1 i NDM3858: O blaid 41, Ymatal 3, Yn erbyn 7.  
Amendment 1 i NDM3858: For 41, Abstain 3, Against 7.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Cairns, Alun  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Millar, Darren  
Ramsay, Nick  
Watson, Joyce  
Williams, Brynle

Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Jocelyn  
 Davies, Paul  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
 The following Members abstained:

James, Irene  
 Jones, Carwyn  
 Sinclair, Karen

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment carried.*

*Cafodd gwelliant 2 ei ddad-dethol.  
 Amendment 2 deselected.*

Motion NDM3858 as amended: that

*the National Assembly for Wales:*

*believes that in order to engage young people  
 in the democratic process, 16-year-olds  
 should be entitled to vote.*

Cynnig NDM3858 fel y'i diwygiwyd: bod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn credu y dylid caniatáu i bobl ifanc 16 oed  
 bleidleisio er mwyn ymgysylltu pobl ifanc yn  
 y broses ddemocrataidd.*

*Cynnig NDM3858 fel y'i diwygiwyd: O blaid 44, Ymatal 3, Yn erbyn 4.  
 Motion NDM3858 as amended: For 44, Abstain 3, Against 4.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Cairns, Alun

Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Davies, Paul  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

Graham, William  
Ramsay, Nick  
Williams, Brynle

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Isherwood, Mark  
Jones, Carwyn  
Sinclair, Karen

*Derbyniwyd y cynnig NDM3858 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM3858 as amended carried.*

### **Dadl Fer Short Debate**

#### **Y Proffesiwn Hynaf yn y Byd—Amser i Ailfeddwl? The Oldest Profession in the World—Time for a Rethink?**

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I ask Members who are leaving the Chamber please to have their conservations outside.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr fod cystal â chynnal eu sgysiau y tu allan.

**Christine Chapman:** I have agreed to allow Joyce Watson, Eleanor Burnham and Leanne Wood to contribute to the debate today.

Today, I want to pose a question. Is prostitution the oldest profession in the world or is it simply the oldest form of exploitation in the world? In 2008, is it right for women to continue to be seen as sex objects who can be purchased, or should prostitution be banned?

Discussions and debates around prostitution have always relied on clichés such as, ‘It has always been with us and always will be’, or that prostitution prevents rape. Such statements seek only to stifle the debate and provide excuses. I am pleased to have this opportunity to outline my concerns about prostitution, and to support what some Members of Parliament are calling for, namely that we tackle the demand for sex workers and the increasing amount of women being exploited sexually.

5.10 p.m.

Prostitution is not illegal in the UK; however, the laws serve to make providing sex in exchange for money difficult and dangerous. Soliciting, streetwalking, kerb crawling and brothels are illegal, but the problem is that these laws firmly place the criminality of prostitution on the women and not the customers.

I would argue that the starting point is one of principle. Do we think it right in an age when we have made some progress towards securing equality for women that some continue to be degraded and exploited through prostitution? How can we talk of women’s equality when we condone the use of women as a commodity? This attitude has accelerated recently, according to a report entitled ‘It’s just like going to the supermarket’: Men buying sex in East London’. The report concludes that, given the increase in internet pornography, the sexualised images of women in lads’ magazines such as *Zoo* and *Nuts*, and the expansion of sex tourism and lap and pole-dancing clubs, young men have been encouraged to view sex as a commodity.

**Christine Chapman:** Yr wyf wedi cytuno i ganiatáu i Joyce Watson, Eleanor Burnham a Leanne Wood gyfrannu at y ddadl heddiw.

Heddiw, yr wyf am ofyn cwestiwn. Ai proffesiwn hynaf y byd yw puteindra ynteu ai dim ond ffurf hynaf y byd ar gamfanteisio ydyw? Yn 2008, a yw’n iawn i fenywod gael eu gweld o hyd fel gwrthrychau rhyw y gellir eu prynu, neu a ddylid gwahardd puteindra?

Mae trafodaethau a dadleuon ynghylch puteindra bob amser wedi dibynnu ar ystrydebau megis ‘Mae wedi bod yma erioed ac fe fydd byth’, neu fod puteindra yn atal trais rhywiol. Yr unig beth y mae gosodiadau o’r fath yn ei wneud yw mygu’r ddadl a chynnig esgusodion. Yr wyf yn falch cael y cyfle hwn i amlinellu fy mhryderon ynghylch puteindra, ac i gefnogi galwad rhai Aelodau Seneddol, sef ein bod yn mynd i’r afael â’r galw am weithwyr rhyw a nifer cynyddol y menywod y camfanteisir yn rhywiol arnynt.

Nid yw puteindra’n anghyfreithlon yn y DU; fodd bynnag, mae’r cyfreithiau’n gwneud darparu rhyw yn gyfnewid am arian yn anodd ac yn beryglus. Mae cymell, cerdded y strydoedd, cropian cyrbiau a phuteindai yn anghyfreithlon, ond y broblem yw bod y cyfreithiau hyn yn gosod troseddolrwydd puteindra yn blwmp ac yn blaen ar y menywod, nid ar y cwsmeriaid.

Byddwn yn dadlau mai egwyddor yw’r man cychwyn. A yw’n iawn, yn ein barn ni, mewn oes lle’r ydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at sicrhau cydraddoldeb i fenywod, fod rhai yn dal i gael eu diraddio a chamfanteisio arnynt drwy buteindra? Sut y mae modd inni sôn am gydraddoldeb menywod a ninnau’n goddef defnyddio menywod fel nwyddau? Gwaethygodd yr agwedd hon yn ddiweddar, yn ôl adroddiad dan yr enw ‘*It’s just like going to the supermarket: Men buying sex in East London*’. Daw’r adroddiad i’r casgliad, o gofio’r cynnydd mewn pornograffi ar y rhyngwrwyd, delweddau wedi eu rhywioli o fenywod mewn cylchgronau llanciau megis *Zoo* a *Nuts*, a lledaenu twristiaeth rhyw a chlybiau dawnisio arffed a dawnisio polyn, fod dynion ifanc wedi eu hannog i synied am ryw

fel nwydd.

In addition, the principle that prostitution is exploitative is reinforced by the United Nations' special rapporteur, who has stated that many of the countries that supply women to the prostitution trade have attitudes towards women that belittle and degrade them. Furthermore, that principle was the fundamental premise of Sweden's legislative change in 1999, which criminalised the buyer but not the seller. The idea was that prostitution be regarded as an aspect of male violence against women and children, which is contrary to Sweden's aspirations for gender equality.

I believe that public opinion towards prostitution is now changing, and we should therefore grasp the opportunity to have a debate. Most women I talk to find it abhorrent. It is discordant with how they see themselves in the world. Since I tabled the topic of this debate, I have received much support from women's groups and others around the UK. A recent survey by the BBC's *Politics Show* on attitudes to prostitution showed that 52 per cent of respondents thought that paying for sex should be made illegal. Overall, 65 per cent felt that buying sex is an act that exploits women. Interestingly, the biggest group supporting a ban were those between the age of 18 and 24, with 65 per cent believing that paying for sex should be criminalised.

When people defend prostitution, one argument that they use is that some men need sex, and so it should be available as of right. What does that say about men? Are we saying that men are not able to control themselves and live by reason, rather than their being at the mercy of some sort of primeval instinct? Is that not insulting to men? We need greater ambitions for men in our society if we want true equality. I understand from research that I have read recently that the majority of men do not visit prostitutes, so we are talking about only some men who do.

The view of the glamorous, self-serving, high-class call girl is without doubt a

At hynny, ategir yr egwyddor fod puteindra'n ddull o gamfanteisio gan rapporteur arbennig y Cenhedloedd Unedig, a ddywedodd fod gan lawer o'r gwledydd sy'n darparu menywod i'r fasnach buteinio agweddau at fenywod sy'n eu bychanu a'u hisraddio. Yn ogystal, yr egwyddor honno oedd sylfaen y newid yn neddfwriaeth Sweden yn 1999, a oedd yn peri mai'r prynwr, nid y gwerthwr, oedd yn troseddu. Y syniad oedd y dylid synied am buteindra fel agwedd ar drais dynion tuag at fenywod a phlant, sy'n groes i ddyheadau Sweden am gydraddoldeb y ddau ryw.

Credaf fod y farn gyhoeddus am buteindra yn awr yn newid, ac felly dylem fanteisio ar y cyfle i gael dadl. Mae'r rhan fwyaf o fenywod y byddaf yn siarad â hwy yn ei ffieiddio. Nid yw'n gydnaws â'r ffordd y gwelant eu hunain yn y byd. Ers imi gyflwyno pwnc y ddadl hon, cefais lawer o gefnogaeth gan grwpiau menywod ac eraill o gwmpas y DU. Dangosodd arolwg gan *Politics Show* y BBC yn ddiweddar ar agweddau ar buteindra fod 52 y cant o'r ymatebwyr yn meddwl y dylid gwneud talu am ryw yn anghyfreithlon. Yn gyffredinol, teimlai 65 y cant fod prynu rhyw yn weithred sy'n camfanteisio ar fenywod. Diddorol oedd sylwi mai'r grŵp a oedd fwyaf o blaid gwahardd oedd pobl rhwng 18 a 24 oed, a 65 y cant yn credu y dylid gwneud talu am ryw yn drosedd.

Pan fydd pobl yn amddiffyn puteindra, un ddadl a ddefnyddiant yw bod ar rai dynion angen rhyw, ac y dylai felly fod ar gael fel hawl. Beth ddywed hynny am ddynion? Ai dweud yr ydym na all dynion eu rheoli eu hunain a byw yn ôl rheswm, yn hytrach na bod yn ysglyfaeth i ryw reddf gyntefig? Onid yw hynny'n sarhau dynion? Mae arnom angen mwy o uchelgais na hynny i ddynion yn ein cymdeithas os ydym am gael gwir gydraddoldeb. Deallaf o ymchwil a ddarllenais yn ddiweddar nad yw'r rhan fwyaf o ddynion yn ymweld â phuteiniaid, felly, sôn yr ydym yn unig am rai dynion sy'n gwneud hynny.

Twyll, yn ddiamau, yw delweddd y butain hudol, hunan-geisiol, uchel ei thras. Mae

smokescreen. Most prostitutes' lives are much more tragic than those portrayed by Belle de Jour, Madam Sin Cynthia Payne, or Julia Roberts in *Pretty Woman*. In fact, the realities for women as prostitutes are stark. Over the past 10 years, around 60 prostitutes have been murdered in England and Wales, with just 16 arrests made to date. Two thirds of prostitutes report having been violently attacked by their clients, with street prostitutes at greater risk of experiencing violence and abuse. Prostitutes are 40 times more likely to be murdered than other women. More than 90 per cent of street prostitutes are hooked on hard drugs such as heroin and crack cocaine. Poverty, homelessness and debt as well as low pay entice women into prostitution to support themselves and their families. A study in five different countries found that two thirds of women in prostitution displayed symptoms of post-traumatic stress disorder.

Far from it being a free choice, many women are trafficked into prostitution. Amnesty International estimates that there are hundreds of women in Wales who have been trafficked into the sex trade. Their experiences are horrific and akin to modern-day slavery and I am pleased that Joyce Watson has set up an all-party group on this serious issue. I am also pleased that my colleague Lynne Neagle exposed the exploitation of women in relation to massage parlours and the advertising of women in newspapers. I am aware that there has been quite a backlash to that, in the form of abusive e-mails to Lynne, which shows how entrenched this form of exploitation of women is within Wales.

I realise that the practicalities of working out solutions to stop prostitution are complex, but that should not deter us from taking what is a very principled stance. I fully acknowledge that there is an argument that it would be better to legalise brothels in order to make prostitution safer for women, but I am not sure that that is the answer. Recent research has challenged the argument that legalisation protects women from violence, abuse and psychological and physical injury. In the

bywydau'r rhan fwyaf o buteiniaid yn fwy trasig o lawer na'r hyn sy'n cael ei bortreadu gan Belle de Jour, Madam Sin Cynthia Payne, neu Julia Roberts yn *Pretty Woman*. Yn wir, mae'r ffeithiau gwirioneddol am fenywod sy'n buteiniaid yn llwm iawn. Dros y 10 mlynedd diwethaf, llofruddiwyd tua 60 o buteiniaid yng Nghymru a Lloegr, ac 16 yn unig a arestiwyd hyd yma. Dywed dwy ran o dair o buteiniaid fod eu cleientiaid wedi ymosod yn dreisgar arnynt, ac y mae puteiniaid y stryd mewn mwy o berygl o drais a cham-drin. Mae puteiniaid 40 gwaith yn fwy tebygol o gael eu llofruddio na menywod eraill. Mae dros 90 y cant o buteiniaid y stryd yn gaeth i gyffuriau caled megis heroin a chocên crac. Tlodi, digartrefedd a dyled yn ogystal â chyfflogau isel sy'n hudo menywod i buteindra i'w cynnal eu hunain a'u teuluoedd. Darganfu astudiaeth mewn pum gwlad wahanol fod dwy ran o dair o fenywod a oedd yn buteiniaid yn arddangos symptomau anhwylder straen wedi trawma.

Nid yw'n ddewis rhydd o bell ffordd, gan fod nifer o fenywod yn cael eu prynu i mewn i buteindra. Mae Amnest Rhyngwladol yn amcangyfrif bod cannoedd o fenywod yng Nghymru wedi'u prynu i mewn i'r fasnach ryw. Mae eu profiadau'n erchyll ac yn debyg i gaethfasnach yr oes fodern. Yr wyf yn falch bod Joyce Watson wedi sefydlu grŵp hollbleidiol ynghylch y mater difrifol hwn. Yr wyf yn falch hefyd fod fy nghyd-Aelod Lynne Neagle wedi datgelu'r cam-fanteisio ar fenywod yng nghyswllt parlyrau tyllino a hysbysebu menywod mewn papurau newydd. Yr wyf yn ymwybodol fod tipyn o adlach wedi bod i hynny ar ffurf negeseuon e-bost sarhaus at Lynne, sy'n dangos y graddau y mae'r math hwn o gam-fanteisio ar fenywod wedi sefydlu yng Nghymru.

Sylweddolaf nad proses syml o gwbl yw llunio atebion i atal buteindra, ond ni ddylai hynny ein rhwystro rhag sefyll yn gyfiawn yn ei erbyn. Yr wyf yn cydnabod yn llwyr fod yna ddadl y byddai'n well cyfreithloni puteindai er mwyn gwneud buteindra'n fwy diogel i fenywod. Ond nid wyf yn siŵr ai hynny yw'r ateb. Mae ymchwil yn ddiweddar wedi herio'r ddadl fod cyfreithloni'n amddiffyn menywod rhag trais, camdriniaeth, ac anaf seicolegol a chorfforol. Yn yr

Netherlands, where prostitution has been legal since 2000, the Government is rethinking its approach as it has seen that the abuse of women is still continuing. Similarly in Germany, where prostitution was legalised in 2002, it was found that reform had not delivered benefits for women in prostitution. In fact, I was pleased to receive an e-mail today from a woman in Germany expressing those views. The legalisation of prostitution also has wider effects on society. Evidence from Nevada, where prostitution is legal in some counties, shows that legalisation has fostered a general prostitution culture that affects the whole community, with an increase in sexual harassment. Significantly, in Nevada, a place where prostitution is legalised, the rape rate is twice that of New York and 25 per cent higher than the US average.

I know that prostitution is not a devolved matter. Nevertheless, the Welsh Assembly Government has a responsibility to ensure that there are adequate support services available in recognition of these women's alienation from mainstream services. I am not convinced that enough is being done to support women in prostitution and I would ask today for urgent action on this. If women are exploited in society, all of us are affected. Therefore, I ask that the Welsh Assembly Government works with its Westminster colleagues, such as Harriet Harman and Vernon Coaker of the Home Office, as they seek to change the law.

It is also about raising awareness of the issues, particularly within the educational context. I am aware of a helpful pack on prostitution, produced by the Women's Library in east London, and I would commend it to you for use in schools. I am sure that there are, and I hope that there are, other packs around Wales, but I think that that is a particularly good one. It is vital that young people are fully aware of the dangers of exploitation in any form and that they engage with this debate. In conclusion, we are dealing with the oldest exploitation in the world and it is time that we did something about it.

Iseldiroedd, lle mae puteindra'n gyfreithlon er 2000, mae'r Llywodraeth yn ailystyried ei hymagwedd ar ôl gweld bod menywod yn cael eu cam-drin o hyd. Felly hefyd yn yr Almaen, lle cyfreithlonrwydd puteindra yn 2002. Yno gwelwyd nad oedd diwygio wedi dod â manteision i fenywod mewn puteindra. Mewn gwirionedd, yr oeddwn yn falch cael neges e-bost heddiw gan fenyw yn yr Almaen yn mynegi'r safbwyntiau hynny. Mae cyfreithloni puteindra hefyd yn effeithio'n ehangach ar y gymdeithas. Dengys tystiolaeth o Nevada, lle mae puteindra'n gyfreithlon mewn rhai siroedd, fod cyfreithloni wedi meithrin diwylliant puteindra cyffredinol sy'n effeithio ar y gymuned gyfan, gyda chynnydd mewn aflonyddu rhywiol. Yn arwyddocaol, yn Nevada, lle mae puteindra'n gyfreithlon, mae cyfradd y trais rhywiol ddwywaith yn uwch na'r gyfradd yn Efrog Newydd a 25 y cant yn uwch na chyfartaledd yr UD.

Gwn nad yw puteindra'n fater sydd wedi ei ddatganoli. Serch hynny, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb i sicrhau bod gwasanaethau cefnogi digonol ar gael i gydnabod y ffordd y caiff y menywod hyn eu dieithrio o wasanaethau prif ffrwd. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod digon yn cael ei wneud i gefnogi menywod mewn puteindra, a byddwn yn gofyn heddiw am weithredu ar hyn ar fyrder. Os camfanteisir ar fenywod mewn cymdeithas, effeithir ar bob un ohonom. Gofynnaf felly i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'i chydweithwyr yn San Steffan, fel Harriet Harman a Vernon Coaker o'r Swyddfa Gartref, wrth iddynt geisio newid y gyfraith.

Mae hefyd yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth am y problemau, yn benodol yn y cyd-destun addysgol. Yr wyf yn ymwybodol o becyn defnyddiol am puteindra a gynhyrchwyd gan Lyfrgell y Menywod yn nwyrain Llundain, a byddwn yn eich cymeradwyo i'w ddefnyddio mewn ysgolion. Yr wyf yn siŵr, ac yn gobeithio, fod yna becynnau eraill ledled Cymru, ond credaf fod bod hwn yn un arbennig o dda. Mae'n hanfodol i bobl ifanc fod yn hollol ymwybodol o beryglon camfanteisio o unrhyw fath a'u bod yn cymryd rhan yn y ddadl hon. I gloi, yr ydym yn ymdrin â'r camfanteisio hynaf yn y byd, ac mae'n bryd inni wneud rhywbeth yn ei gylch.

**Joyce Watson:** It is through debates such as this one today that we can challenge the perception that prostitution is a transactional arrangement between adults. Sadly, the grim reality is that prostitution is all too often rooted in coercion and exploitation, and enslaves children as well as adults. A Safer Wales report, last year, highlighted the stark reality of life on the streets in Cardiff, where sex is being sold for £10 by children as young as 12. That is abhorrent. In particular, young people in care are extremely vulnerable to the coercion tactics used by those who would offer them for sale on the street. If this is what is happening in areas of Cardiff, and we know about it, what is the situation in the rest of Wales that we do not know about? We need to find out and we need to find out what can be done to help alleviate the pain and the suffering of all those forced into prostitution in Wales.

**Eleanor Burnham:** I have listened carefully to my esteemed colleague, Christine Chapman, and I am very aware of her strong feelings on the subject. While there appears to be some need, the first step would be to get these poor people off the street—they are not only women, but also men. My understanding is that an enormous amount of trafficking is often drug related and it is often the same bullies who are running the show.

5.20 p.m.

This is an extremely important issue, and I am very grateful to Christine for raising it. We should do our utmost to tackle it. For me, the first thing to do would be to get these people off the street and to offer them more protection. After all, the male customers loitering—as is often the case—are often not the ones who face the end of the judicial stick, as it were; it is often the women who are seen as the perpetrators. It takes two to tango, and it is about time that we took careful action to get these poor people off the streets and into a comfort zone for the time being. Sorry, I have used all the wrong expressions, but thank you, Christine. You have given us a lot of food for thought.

**Joyce Watson:** Drwy ddadleuon fel hon heddiw y gallwn herio'r canfyddiad bod puteindra'n drefniant trafodaethol rhwng oedolion. Yn anffodus, y realiti difrifol yw bod gwreiddiau puteindra lawer yn rhy aml mewn gorfodaeth a chamfanteisio, a'i fod yn caethiwo plant yn ogystal ag oedolion. Y llynedd, dangosodd adroddiad gan Gymru Ddiogelach sut beth mewn gwirionedd yw bywyd ar y stryd yng Nghaerdydd, lle gwerthir rhyw am £10 gan blant mor ifanc â 12 oed. Mae hynny'n ffiaidd. Yn benodol, mae pobl ifanc sydd mewn gofal yn agored iawn i'r tactegau gorfodi a ddefnyddir gan y rheini a fyddai'n eu cynnig i'w gwerthu ar y stryd. Os dyna sy'n digwydd mewn ardaloedd o Gaerdydd, a ninnau'n gwybod am y peth, beth yw'r sefyllfa yng ngweddill Cymru na wyddom amdani? Mae angen inni gael gwybod ac mae angen inni ddod i wybod beth y gellir ei wneud i helpu lleddfuo poen a dioddefaint pawb sy'n cael eu gorfodi i mewn i buteindra yng Nghymru.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf wedi gwrandao'n ofalus ar fy nghyd-Aelod parchus, Christine Chapman, ac yr wyf yn ymwybodol iawn o'i theimladau cryf am y pwnc. Er ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o angen, y cam cyntaf fyddai cael y bobl druenus hyn oddi ar y stryd—nid menywod yn unig ydynt, ond dynion hefyd. Deallaf fod llawer iawn o fasnachu mewn pobl yn aml yn gysylltiedig â chyffuriau ac mai'r un bwliod yn aml sydd wrth y llyw.

Mae hwn yn fater pwysig iawn, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn i Christine am ei godi. Dylem wneud ein gorau glas i fynd i'r afael ag ef. I mi, y peth cyntaf i'w wneud fyddai cael y bobl hyn oddi ar y stryd a chynnig gwell amddiffyniad iddynt. Wedi'r cyfan, nid y cwsmeriaid gwryw sy'n loetran—fel sy'n digwydd yn aml—yw'r rhai a ddaw o flaen eu gwell, fel petai; ystyrir yn aml mai'r menywod yw'r troseddwyr. Mae'n cymryd dau, ac mae'n hen bryd inni gymryd camau gofalus i gael y bobl druenus hyn oddi ar y stryd ac i mewn i fan cyffyrddus am y tro. Mae'n flin gennyf, yr wyf wedi defnyddio'r holl ymadroddion anghywir, ond diolch, Christine. Yr ydych wedi rhoi llawer inni



feddwl amdano.

**Leanne Wood:** I would like to thank Christine Chapman for raising this topic. All too often, it is an issue that is swept under the carpet. After all, it is easier for us all to pretend that this does not happen.

It is interesting that there is a debate within feminism about which policies would best protect women, and whether legalisation would offer more protection than a ban. I am not sure. I agree with your point that sex is seen more and more as a commodity, but is it not better to legalise the profession so that the women can unionise, access health protection, pay pensions, and possibly access a minimum wage? The danger is that banning prostitution will drive it further underground and therefore further endanger the lives of the women involved. I do not think that there is a clear answer here. The cause of prostitution is poverty and patriarchy. Perhaps, therefore, we have to accept that prostitution is here to stay until we eradicate both poverty and patriarchy.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** I congratulate Chris on her speech, its quality and passion, and the clarity of her argument. We have all been impressed by it.

As Chris said, the laws governing prostitution are not devolved to the Assembly Government, but we have control over many policies that can impact upon this matter, such as substance misuse, the future of children, community safety, and equality of opportunity. Therefore, it is right that we should discuss it in the National Assembly for Wales.

Chris is right to say that we should move away from the cliché of prostitution being the oldest profession; it is a form of exploitation. That is the answer Leanne's question—that is the nature of the relationship. Equally, the fact that it has always existed does not give it any further legitimacy. Nothing could be further from the truth. The fact that this form of exploitation has existed for so long is a reason why we should take action to address it more vigorously.

**Leanne Wood:** Hoffwn ddiolch i Christine Chapman am godi'r pwnc hwn. Yn rhy aml o lawer, mae'n fater sy'n cael ei ysgubo o'r golwg. Wedi'r cyfan, mae'n haws i bob un ohonom esgus nad yw hyn yn digwydd.

Mae'n ddiddorol fod yma ddadl o fewn ffeministiaeth ynghylch pa bolisiau a fyddai'n amddiffyn menywod orau, ac a fyddai cyfreithloni'n eu hamddiffyn yn well na gwaharddiad. Nid wyf yn siŵr. Cytunaf â'ch pwynt fod rhyw yn cael ei weld fwyfwy fel nwydd, ond onid yw'n well cyfreithloni'r proffesiwn fel y gall y menywod undeboli, amddiffyn eu hiechyd, talu pensiynau, ac efallai gael isafswm cyflog? Y perygl yw y bydd gwahardd puteindra yn ei wthio ymhellach i'r cysgodion ac felly'n peryglu ymhellach fywydau'r menywod dan sylw. Ni chredaf fod ateb clir yma. Tlodi a phatriarchaeth sy'n achosi puteindra. Hwyrach, felly, ei bod yn rhaid inni dderbyn bod puteindra yma i aros nes inni ddileu tlodi a phatriarchaeth fel ei gilydd.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Yr wyf yn llongyfarch Chris am ei haraith, ei hansawdd a'i hangerdd, ac eglurder ei dadl. Mae wedi gwneud argraff dda arnom i gyd.

Fel y dywedodd Chris, nid yw'r deddfau sy'n llywodraethu puteindra wedi'u datganoli i Lywodraeth y Cynulliad, ond mae gennym reolaeth dros nifer o bolisiau a all effeithio ar y mater hwn, megis camddefnyddio sylweddau, dyfodol plant, diogelwch cymunedol, a chyfle cyfartal. Mae'n briodol, felly, y dylem ei drafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Chris yn gywir i ddweud y dylem symud i ffwrdd o'r ystrydeb mai puteindra yw'r proffesiwn hynaf; math o gamfanteisio ydyw. Dyna'r ateb i gwestiwn Leanne—dyna yw natur y berthynas. I'r un graddau, nid yw'r ffaith ei fod yn bodoli erioed yn rhoi unrhyw gyfreithlondeb pellach iddo. Ni allai dim fod ymhellach o'r gwir. Mae'r ffaith fod y math hwn o gamfanteisio wedi bodoli cyhyd yn rheswm pam y dylem gymryd camau i fynd i'r afael ag ef yn fwy egniol.

We should not have to tolerate street prostitution in our towns, communities, or in our cities, nor should we tolerate any form of commercial sexual exploitation, whether it takes place on our streets, behind the doors of massage parlours, or in private residences. I pay tribute to the work that Lynne Neagle has done on this. It is shocking if people have chosen to attack Lynne because of the good work that she has done.

While many people who engage in prostitution choose to do so, invariably the decision is made in desperate circumstances. It is a conditional choice. The circumstances will vary across the world. Here, as Chris told us, drug addiction drives many young women into prostitution, but desperate social and economic circumstances have also resulted in women being trafficked from all around the world, having been given false hope and false promises. Again, that is an exploitative relationship.

Once women become involved in prostitution, it is difficult for them to find a route out. The long-term damage, both emotional and physical, can be significant. We must work towards prevention. I am pleased that the Home Office has recently announced a new six-month review exploring what more the UK Government can do to tackle the demand for prostitution. The review will consider possible legislative changes, but will also look at the non-legislative options in order to challenge the nature of the exploitation that women face in the sex industry. I look forward to the results of that work very much.

We are all aware of the links between prostitution and crime, from robbery and drug dealing to wider organised crime and human trafficking. The effects are far reaching and global. Many substance abusers are drawn into prostitution in order to fund their drug habits. Prostitution and drug dealing have serious costs to the community in terms of public disorder, public health, and the vulnerability of those involved, particularly minors. However, it is not

Ni ddylem orfod goddef puteindra ar y stryd yn ein trefi, yn ein cymunedau neu yn ein dinasoedd, nac ychwaith oddef unrhyw fath o gamfanteisio rhywiol masnachol, p'un a yw'n digwydd ar ein strydoedd, y tu ôl i ddrysau parlyrau tylino, neu mewn anheddau preifat. Rhoddaf deyrnged i'r gwaith a wnaeth Lynne Neagle ar hyn. Mae'n warthus os yw pobl wedi dewis ymosod ar Lynne oherwydd y gwaith da y mae wedi'i wneud.

Er bod llawer o bobl sy'n ymwneud â phuteindra yn dewis gwneud hynny, yn ddiethriad caiff y penderfyniad ei wneud mewn amgylchiadau taer. Mae'n ddewis amodol. Bydd yr amgylchiadau'n amrywio ledled y byd. Yma, fel y dywedodd Chris wrthym, mae bod yn gaeth i gyffuriau'n gwrthio nifer o fenywod ifanc i buteindra. Ond mae amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd taer hefyd wedi golygu bod menywod yn cael eu masnachu o bedwar ban byd, ar ôl cael gobaith ffug ac addewidion ffug. Eto, mae honno'n berthynas sy'n camfanteisio.

Pan ddaw menywod i mewn i fyd puteindra, mae'n anodd iddynt gael llwybr allan. Gall y niwed tymor hir, yn emosiynol ac yn gorfforol, fod yn sylweddol. Rhaid inni weithio tuag at ei atal. Yr wyf yn falch fod y Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi adolygiad chwe mis newydd yn ddiweddar i archwilio beth arall y gall Llywodraeth y DU ei wneud i fynd i'r afael â'r galw am buteindra. Bydd yr adolygiad yn ystyried newidiadau deddfwriaethol posibl, ond yn edrych hefyd ar y dewisiadau heblaw deddfu er mwyn herio natur y camfanteisio sy'n wynebu menywod yn y diwydiant rhyw. Edrychaf ymlaen at ganlyniadau'r gwaith hwnnw yn fawr iawn.

Yr ydym i gyd yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng puteindra a throseddau, o ladrad a delio mewn cyffuriau i droseddau ehangach wedi'i drefnu a masnachu pobl. Mae'r effeithiau'n bellgyrhaeddol ac yn fyd-eang. Caiff nifer o bobl sy'n camddefnyddio sylweddau eu denu i buteindra er mwyn ariannu eu harferion cyffuriau. Mae puteindra a delio mewn cyffuriau'n costio llawer i'r gymuned o ran anhrefn gyhoeddus, iechyd cyhoeddus, a gwneud y rheini dan sylw, yn

enough simply to say that we are opposed to prostitution while we stand aside and let the law take its course. Of course, there is a need for proper legal enforcement, and there is a need to protect all citizens from risk and danger, whether they are prostitutes or other people involved, but we also need to be proactive in mitigating the consequences of prostitution.

Some of our services tackling substance misuse focus on sex workers, and, as part of this, in north Wales, a mobile team is visiting massage parlours in four counties. In Newport, Kaleidoscope provides two outreach support workers to work with people in the sex industry. Their aim is to signpost clients to wrap-around services and to ensure that sex workers' sexual health and general health problems are identified, and that help is given. They also work with the police to stop underage sex working.

Policing has an important role to play in tackling prostitution as well as in tackling the availability of drugs and the adverse impact that this exploitation has on our communities. A properly co-ordinated, strategic approach should therefore combine enforcement with primary and secondary prevention, aimed at preventing young people from becoming involved in the sex trade in the first place and providing what help we can to enable them to leave when they wish to do so. The priority, in the case of the highly vulnerable group of underage women involved in prostitution, must be to extract them as quickly and effectively as possible. Joint working by the police, social services and other relevant public services and voluntary sector agencies is essential.

There is also important work to be done by harm reduction services. Hard-to-reach groups, such as prostitutes, are targeted by harm reduction services that provide advice, as well as facilities such as needle exchange services to reduce the risk of blood-borne viruses. The opportunity for such intervention also exists in our custody suites, where arrestees can be engaged through the drug testing process for referral and needle

enwedig plant dan oed, yn agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon dweud yn syml ein bod yn gwrthwynebu puteindra gan sefyll o'r neilltu a gadael i'r gyfraith ymdrin ag ef. Wrth reswm, mae angen gorfodaeth gyfreithiol briodol, ac mae angen amddiffyn pob dinesydd rhag risg a pherygl, boed yn buteiniaid ynteu'n bobl eraill sy'n ymwneud ag ef, ond mae angen hefyd inni fynd ati i liniaru canlyniadau puteindra.

Mae rhai o'n gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn canolbwyntio ar weithwyr rhyw, ac fel rhan o hyn, yng ngogledd Cymru, mae tîm symudol yn ymweld â pharlyrau tylino mewn pedair sir. Yng Nghasnewydd, mae Kaleidoscope yn darparu dau weithiwr cefnogaeth allgymorth i weithio gyda phobl yn y diwydiant rhyw. Eu nod yw cyfeirio cleientiaid at wasanaethau cofleidiol a sicrhau bod problemau iechyd rhyw ac iechyd cyffredinol gweithwyr rhyw yn cael eu hadnabod a chymorth yn cael ei roi. Maent hefyd yn gweithio gyda'r heddlu i atal gwaith rhyw o dan oed.

Mae plismona yn bwysig wrth fynd i'r afael â phuteindra, yn ogystal â mynd i'r afael â darparu cyffuriau a'r effaith andwyol a gaiff y camfanteisio hwn ar ein cymunedau. Dylai ymagwedd strategol wedi ei chydlynu'n briodol, felly, gyfuno gorfodaeth ag ataliaeth sylfaenol ac eilaidd, sy'n anelu at atal pobl ifanc rhag ymwneud â'r fasnach ryw yn y lle cyntaf, a darparu pa gymorth bynnag a allwn i'w galluogi i adael pan ddymunant wneud hynny. O gofio'r grŵp sy'n agored iawn i niwed, sef menywod o dan oed sy'n ymwneud â phuteindra, rhaid rhoi'r flaenoriaeth i'w tynnu allan mor gyflym ac mor effeithiol â phosibl. Mae'n hanfodol i'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus perthnasol eraill ac asiantaethau'r sector gwirfoddol gydweithio.

Mae gan wasanaethau lleihau niwed waith pwysig i'w wneud hefyd. Targedir grwpiau anodd eu cyrraedd, fel puteiniaid, gan wasanaethau lleihau niwed sy'n rhoi cyngor, yn ogystal â chyfleusterau fel gwasanaethau cyfnewid nodwyddau i leihau risg firsau sy'n cael eu cario yn y gwaed. Mae cyfle ar gyfer ymyrryd felly hefyd yn ein hystafelloedd dal, lle gellir rhoi pobl sy'n cael eu harestio drwy'r broses profion

exchange provision.

Prostitution can also have a devastating effect on the children of those working in the sex industry. It is vital that all the agencies that come into contact with children are on the alert for that threat, not least because of the links to drugs and alcohol, as well as sexual infections and a range of other diseases that are more common in those involved in the sex trade. Pilot work is ongoing to see how the common assessment framework for working with young children can help in this regard. At a UK level, Operation Pentameter is aimed at tackling trafficking for the purposes of prostitution. It aims to identify the scale of the problem, assist victims, and make the UK a hostile environment for those involved in trafficking for the purposes of sexual exploitation. The service is managed by Gloucester police, but it involves all 55 police forces across the United Kingdom, including the four forces in Wales.

In Wales, we are taking meaningful steps to improve services for the victims of sexual exploitation. In March 2007, an additional £1.5 million of Assembly Government funding was allocated to domestic abuse services. The allocation included resources for the development of a six-bed safe house for women fleeing prostitution. In addition, Cardiff Safety Limited was awarded £500,000 capital in 2007-08, with ongoing revenue of £150,000 to support the accommodation. We will ensure that a full range of support services is provided to the victims who access the service. The safe house is also available to trafficked women across the south Wales area. Although this may only be happening on a small scale in Wales, it is important that we establish a place of refuge.

5.30 p.m.

Even more disturbing is the organised crime of child trafficking in the UK, which has become an issue of grave concern to all professionals responsible for the care and protection of children. As Chris said, this is

cyffuriau er mwyn eu cyfeirio a darparu gwasanaeth cyfnewid nodwyddau.

Gall puteindra gael effaith ddinistriol hefyd ar blant y rheini sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. Mae'n hanfodol i'r holl asiantaethau a ddaw i gysylltiad â phlant gadw llygad am y bygythiad hwnnw, yn anad dim oherwydd y cysylltiadau â chyffuriau ac alcohol, yn ogystal â heintiau rhyw ac amrywiol glefydau eraill sy'n fwy cyffredin ymhlith pobl sy'n rhan o'r fasnach ryw. Mae gwaith peilot yn mynd ymlaen i weld sut y gall y fframwaith asesu cyffredin ar gyfer gweithio gyda phlant ifanc helpu yn y cyswllt hwn. Ar lefel y DU, nod Ymgyrch Pentameter yw mynd i'r afael â masnachu mewn pobl at ddibenion puteindra. Mae'n anelu hefyd at nodi hyd a lled y broblem, cynorthwyo dioddefwyr, a gwneud y DU yn amgylchedd anghyfeillgar i'r rheini sy'n masnachu mewn pobl at ddibenion camfanteisio rhywiol. Rheolir y gwasanaeth gan heddlu Caerloyw, ond mae'n cynnwys pob un o'r 55 heddlu ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y pedwar heddlu yng Nghymru.

Yng Nghymru, yr ydym yn cymryd camau ystyrlon i wella gwasanaethau i bobl sy'n dioddef oherwydd camfanteisio rhywiol. Ym mis Mawrth 2007, dyrannwyd £1.5 miliwn yn ychwanegol o gyllid Llywodraeth y Cynulliad i wasanaethau cam-drin yn y cartref. Yr oedd y dyraniad yn cynnwys adnoddau i ddatblygu tŷ diogel gyda chwe gwely i fenywod sy'n ffoi rhag puteindra. Yn ogystal, rhoddwyd £500,000 o gyfalaf yn 2007-08 i Cardiff Safety Limited, gyda refeniw parhaus o £150,000 i gefnogi'r llety. Byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth lawn o wasanaethau cefnogi'n cael eu darparu i'r dioddefwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r tŷ diogel ar gael hefyd i fenywod sy'n cael eu masnachu ledled y de. Er bod hyn efallai'n digwydd ar raddfa fach yn unig yng Nghymru, mae'n bwysig inni sefydlu man lloches.

Mae troseddu wedi'i drefnu mewn masnachu plant yn y DU yn fwy annymunol byth, ac mae bellach yn rhywbeth sy'n peri gofid difrifol i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am ofal plant ac am amddiffyn plant.

modern-day slavery, where victims are coerced, deceived and forced into the control of others who seek to profit and exploit their suffering. As more cases of child trafficking come to light, with some cases involving UK-born children as well as people trafficked into the United Kingdom as children, it is essential that we fully highlight the risks of what is happening. It is important that all professionals, whether in social care, education, health or law enforcement, are fully aware and able to take the necessary steps to identify trafficked children.

We need to recognise that many of these children are reluctant to disclose their plight for fear of reprisal or due to a misplaced loyalty to their trafficker. Our proposed draft guidance on safeguarding children who may have been trafficked was issued for consultation last year. The comments have been received, are now being considered and will be incorporated into revised guidance, which we hope to issue in the not too distant future.

In Wales, we also play host to a number of migrant workers. A number of organisations have reported that migrant workers are one of the most vulnerable groups working in the informal economy. This is because they are often less aware of their employment rights, more open to exploitation, and are too fearful of victimisation to seek help from mainstream organisations. We have seen—it has been highlighted in the Assembly—advertisements in local newspapers for sexual services, some of which even make specific references to nationality. I therefore welcome the statement made by the UK Minister for women and equality last month that she would be having discussions with relevant parties, including the newspaper society, with the clear expectation that further guidance would be provided to ensure that people are not unwittingly diverted by these advertisements.

It is important that all parties, public services and the voluntary sector work together in a

Fel y dywedodd Chris, caethwasiaeth gyfoes yw hyn, lle mae dioddefwyr yn cael eu gwthio, eu twyllo a'u gorfodi i fod dan reolaeth pobl eraill sy'n ceisio elwa a manteisio ar eu dioddefaint. Wrth i fwy o achosion o fasnachu plant ddod i'r amlwg, a rhai achosion sy'n cynnwys plant wedi eu geni yn y DU yn ogystal â phobl a gafodd eu masnachu i'r Deyrnas Unedig fel plant, mae'n hanfodol inni dynnu sylw at beryglon yr hyn sy'n digwydd. Mae'n bwysig i bob gweithiwr proffesiynol, ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg, iechyd a gorfodi'r gyfraith, fod yn hollol ymwybodol o hyn a gallu cymryd y camau angenrheidiol er mwyn adnabod plant sy'n cael eu masnachu.

Mae angen inni gydnabod bod nifer o'r plant hyn yn gyndyn o ddatgelu eu cyflwr rhag ofn i rywun ddial arnynt, neu oherwydd eu bod yn teimlo rhyw fath o deyrngarwch anghywir i'r sawl sy'n eu masnachu. Cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori y llynedd ein canllawiau drafft arfaethedig ar ddiogelu plant a all fod wedi eu masnachu. Mae'r sylwadau wedi dod i law ac yn cael eu hystyried yn awr, a chânt eu hymgorffori yn y canllawiau diwygiedig a fydd yn cael eu cyhoeddi cyn hir, gobeithio.

Mae gennym hefyd nifer o weithwyr mudol yng Nghymru. Gweithwyr mudol, yn ôl nifer o sefydliadau, yw un o'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed yn yr economi anffurfiol. Mae nifer o resymau dros hyn. Maent yn llai ymwybodol o'u hawliau cyflogaeth ac yn fwy agored i gam-fanteisio arnynt. Mae ganddynt hefyd gymaint o ofn cael eu herlid fel nad ydynt yn mynd at sefydliadau prif ffrwd i ofyn am gymorth. Gwelsom wasanaethau rhyw'n cael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol-tynnwyd sylw at hyn yn y Cynulliad-rai ohonynt hyd yn oed yn cyfeirio'n benodol at genedligrwydd. Yr wyf felly'n croesawu'r datganiad a wnaethpwyd gan Weinidog y DU dros fenywod a chydaddoldeb y mis diwethaf y byddai'n cael trafodaethau gyda chyrrff perthnasol, gan gynnwys cymdeithas y papurau newydd, gyda disgwyliad clir y byddai canllawiau pellach yn cael eu darparu i sicrhau na fydd pobl yn cael eu denu gan yr hysbysebion hyn yn ddiarwybod.

Mae'n bwysig i bob plaid, gwasanaeth cyhoeddus a'r sector gwirfoddol weithio

coherent way to tackle what is an exploitative commercial relationship. We need to work together to tackle the demand and the supply, and also to provide people who are engaged in this trade with an opportunity to build new and better lives.

gyda'i gilydd mewn ffordd gydlynol i fynd i'r afael â'r hyn sy'n berthynas fasnachol i gamfanteisio. Mae angen inni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r galw a'r cyflenwad, a hefyd i roi cyfle i bobl sy'n ymwneud â'r fasnach hon i adeiladu bywydau newydd a gwell.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.33 p.m.  
The meeting ended at 5.33 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)